









# Adroddiad Blynyddol PAEF 2023-2024

Estyn

# Rhagair

Croeso i'n hadroddiad blynyddol. Yn yr adroddiad hwn, fe welwch sut mae sectorau addysg a hyfforddiant Cymru wedi perfformio dros y flwyddyn. Yn ogystal â'n mewnwelediadau cynnar, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024, bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys fy myfyrdodau personol ar y flwyddyn, yn ogystal â manylion a gwybodaeth bellach am ein canfyddiadau a dadansoddiadau. Gyda dros 400 o arolygiadau blynyddol, mae Estyn yn parhau i ddatblygu ei ethos o sicrhau atebolrwydd ac annog gwelliannau. Felly, byddwn yn amlygu'r arferion gorau a welwyd, yn ogystal â chanolbwyntio ar feysydd lle mae angen mynd i'r afael â thueddiadau cenedlaethol er mwyn i Gymru gyflawni ei huchelgeisiau ar gyfer pob dysgwr.

Hoffwn ddiolch i'r holl ddarparwyr yr ymwelwyd â hwy yn ystod y flwyddyn a'r system yn ehangach am eu hymdrechion a'u hymrwymiad i ddysgwyr. Parhau i ymweld yn rheolaidd â phob math o leoliadau ledled Cymru, cyfarfod â dysgwyr a'r timau brwd sy'n ymroddedig i addysg a hyfforddiant, yw'r rhan fwyaf gwerth chweil o'm rôl.



Yn ogystal â'n hadroddiadau thematig, byddwn eleni eto yn cynnwys gwerthusiadau dethol yn canolbwyntio ar sut mae darparwyr yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau penodol sy'n wynebu dysgwyr yng Nghymru, gan gynnwys:

- Symud tuag at Gymru wrth-hiliol
- Addysgu a'r Cwricwlwm

- Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- Recriwtio a chadw
- Y Gymraeg
- Presenoldeb

Mae'r canlyniadau o'r gwaith hwn wedi bod yn ddadlennol. Er enghraifft, rydym wedi gweld ymdrechion canmoladwy gan ysgolion i integreiddio gwrth-hiliaeth yn eu hegwyddorion a'u harferion, er bod dyfnder a lled yr integreiddio hwn yn amrywio.

Mae gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru wedi symud ymlaen, ond nid yw llawer o ysgolion yn alinio datblygiad y cwricwlwm gyda strategaethau addysgu ac asesu effeithiol yn ddigon da. Mewn rhai achosion, mae cynllunio ar gyfer datblygiad yn dan ddatblygedig, ac mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel.

Mae hunanwerthuso, yn arbennig, yn parhau i fod yn faes hanfodol i'w wella. Dim ond lleiafrif o ddarparwyr sy'n dangos arferion cryf sy'n sbarduno gwelliannau, tra bod eraill yn methu â gwerthuso effaith addysgu ar ddysgu'n ddigon manwl ac felly'n ei chael hi'n anodd cynllunio gwelliannau penodol ac effeithiol.

Mae recriwtio, yn enwedig mewn meysydd fel yr iaith Gymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg, wedi bod yn her sylweddol, gan effeithio ar ansawdd addysg. Mae hyn yn bryder mawr mewn ysgolion uwchradd. Mae'r methiant i ddenu ymgeiswyr newydd i'r proffesiwn wedi effeithio ar ansawdd addysgu a dysgu.

Tra bo angen cryfhau'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r Gymraeg ym mhob sector, rydym hefyd wedi arsylwi ar arferion cryf wrth hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, sy'n gweithredu fel modelau i eraill.

Eleni, rydym wedi ceisio gwella ein dulliau o gyfathrebu ein canfyddiadau. Er enghraifft, rydym wedi cydweithio ag ymarferwyr i greu podlediadau sy'n cynnig mwy o fanylder a myfyrdodau ar wrth-hiliaeth a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cefnogi cynnydd yn y meysydd hyn.



Wrth droi at ein harolygiadau, er bod llawer o gryfderau yn sectorau addysg a hyfforddiant Cymru, mae dal i fod meysydd i'w gwella. Y themâu cliriaf o'n gwaith eleni oedd:

- Mewn gormod o achosion, nid yw ansawdd addysgu ac asesu'n ddigon uchel. Er enghraifft, mewn ychydig llai na hanner yr ysgolion a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau), mae diffygion mewn addysgu sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gynnydd dysgwyr.

- Ceir bylchau amlwg yn y ffordd mae darparwyr yn cynllunio ar gyfer datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd, a digidol dysgwyr.

- Mae diogelu a chefnogaeth llesiant yn gyson gryf ar draws y rhan fwyaf o ysgolion a darparwyr eraill. Fodd bynnag, er gwaethaf gwelliannau cymedrol, mae presenoldeb yn parhau'n rhy isel, yn enwedig i ddysgwyr sy'n byw mewn tlodi.

- Mae hunanwerthuso a chynllunio gwella ar draws y mwyafrif o sectorau, gan gynnwys ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol yn parhau i fod yn feysydd sy'n peri pryder. Mae'r prosesau hyn yn aml yn wan, heb ganolbwyntio digon ar effaith addysgu ar gynnydd dysgwyr. Mae hyn yn cael ei waethygu gan faterion llywodraethu, lle mae lleiafrif yn dibynnu'n ormodol ar wybodaeth gan arweinwyr ysgolion yn unig. Yn yr achosion hyn, nid oes gan lywodraethwyr y modd i werthuso blaenoriaethau gwella ysgolion nac asesu effaith cyllid ar ganlyniadau disgyblion.

- Mae lleiafrif o ddarparwyr wedi integreiddio datblygiad proffesiynol gyda blaenoriaethau gwella ehangach yn llwyddiannus, gan sicrhau bod hyfforddiant staff yn cyd-fynd â'r diffygion a nodwyd mewn addysgu.

Ar draws y sectorau rydym yn eu harolygu, mae darpariaeth Blynyddoedd Cynnar wedi parhau i berfformio'n dda, gan fanteisio ar gefnogaeth awdurdodau lleol a darparu sylfaen gadarn ar gyfer

dysgu. Mae darpariaeth yn y lleoliadau hyn, ac mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn yn yr ysgolion, wedi ymateb yn dda i newidiadau yn eu cymunedau a pharodrwydd plant i ddysgu.

Mae’r mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi dangos ffocws cryf ar lesiant disgyblion a’u gofal, cymorth ac arweiniad. Mae hyn wedi arwain at agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at ddysgu. Mae’r ddau sector wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu’r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Er hynny, mae rhywfaint o amrywiad yn parhau o ran darpariaeth ysgolion. O ran tlodi, er bod llawer o heriau y tu hwnt i’w rheolaeth, mae staff ysgol yn parhau i weithio’n ddiwyd i liniaru effaith tlodi ar gyflawniad addysgol.

Mae presenoldeb yn parhau’n sylweddol is na lefelau cyn y pandemig. Gwelwyd ychydig o welliant, gan gynyddu o 88.5% i 89.0% yn ystod 2023-2024, ond mae disgyblion o hyd, ar gyfartaledd, yn colli mwy nag un diwrnod bob pythefnos o’r ysgol. Mae’r bwlch o’i gymharu â lefelau cyn y pandemig yn fwy amlwg mewn ysgolion uwchradd er gwaethaf eu hymdrechion gorau, ac mae presenoldeb y rhai sy’n derbyn prydau ysgol am ddim yn parhau’n bryder. Tra bo rhywfaint o newyddion da fod y bwlch yn culhau, mae’n parhau’n rhy uchel. Mae presenoldeb isel iawn mewn rhai o’n cymunedau mwyaf difreintiedig yn bryder mawr. Mae dal gormod o amrywiad yn ffocws ac effaith awdurdodau lleol ar wella presenoldeb.

Mae amrywiaeth sylweddol yn parhau yn y modd y mae ysgolion wedi datblygu eu cwricwlwm. Mae cynllunio ar gyfer pontio cwricwlaidd yn parhau i fod yn broblem wrth i ddysgwyr symud o gyfnod cynradd i’r uwchradd.

Mewn ysgolion, mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol wedi cryfhau, gyda dysgwyr yn gwneud cynnydd cychwynnol da. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr bob amser yn gwneud digon o gynnydd yn ystod blynyddoedd olaf y cyfnod cynradd a dechrau’r cyfnod uwchradd i sicrhau eu bod yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd uwch. Mae’n werth cofio bod y Profion Rhaglen Asesu Myfyrwyr Ryngwladol (PISA) yn asesu medrau llythrennedd a rhifedd uwch, sef maes lle mae Cymru wedi tanberfformio.

Bydd llwyddiant Rhaglen Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru yn hanfodol i gefnogi’r newidiadau sydd eu hangen, yn ogystal â rôl y sefydliad dysgu proffesiynol newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gefnogi addysgu o ansawdd uchel a gwella arweinyddiaeth. Mae gan awdurdodau lleol berthynas broffesiynol gadarn gydag arweinwyr yn y sectorau, ac mae cefnogaeth feirniadol barhaus i ysgolion yn hanfodol. Bydd disgwyliadau uchel, monitro cynnydd a gwelliannau, wedi’u selio ar werthusiad cadarn ynghyd â chefnogaeth benodol i bynciau, yn elfennau hanfodol o’r ystod o gymorth sydd ar gael i ysgol newydd. Bydd y model cydweithredol newydd ond yn llwyddo os yw’r dibenion ar gyfer cydweithio’n glir, ac os yw’r gwerthusiad yn gadarn ac yn canolbwyntio’n glir ac yn barhaus ar wella cynnydd dysgwyr.

Mae arweinwyr ysgolion yn parhau i nodi heriau yn y system sy’n atal cynnydd, gan gynnwys cyllid, ymddygiad disgyblion a’r argaeledd o wasanaethau cymorth megis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS) neu wasanaethau cyfeirio disgyblion. Rydym eisoes wedi tynnu sylw at y ffaith bod capasiti yn yr unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig yn gyfyngedig iawn, a bod cyn lleied o ddisgyblion addas yn dychwelyd i’r brif ffrwd, gan gyfyngu capasiti o fewn y gwasanaethau arbenigol hynny i gefnogi mwy o ddisgyblion. Yn gyffredinol, mae ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau arbenigol ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn darparu cwricwlwm effeithiol ac unigolyddol, gyda gofal a chymorth cryf sy’n hyrwyddo llesiant. Mewn ychydig o achosion, mae diffyg arbenigedd staff neu gyfleusterau annigonol yn cyfyngu’r effaith. Mae UCDau yn addysgu

cyfran uchel o ddisgyblion ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol), ac mae awdurdodau lleol yn rhy anghyson yn y ffordd y maent yn defnyddio Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) i hwyluso Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY).

Er gwaethaf rhywfaint o dystiolaeth o ddarpariaeth gref yn y sector Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), mae recriwtio athrawon cymwys priodol yn parhau i fod yn risg i'r system addysg. Roedd yr heriau recriwtio yn fwy amlwg ar gyfer addysg uwchradd, yn enwedig ym meysydd mathemateg a gwyddoniaeth. Mae diffyg athrawon cymwys sy'n gallu addysgu drwy'r Gymraeg yn broblem benodol ac yn bryder mawr o ran gwireddu'r uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae darparwyr AGA wedi methu recriwtio traean o'r targed ar gyfer siaradwyr Cymraeg newydd dros y tair blynedd diwethaf.

Yn y lleoliadau addysg a hyfforddiant ôl-16 a arolygwyd, roedd dysgwyr yn cymryd rhan, ond yn aml nid oedd digon o her iddynt. Mae'r gyfran o ddysgwyr sy'n cyflawni graddau uwch mewn darpariaeth wedi'i graddio, ar raglenni galwedigaethol a Lefel A yn rhy isel. Mae materion cyffredin yn parhau fel cyfeirio a blaenoriaethu, yn ogystal â'r argaeledd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn gyffredinol, mae dal gormod o gystadleuaeth anffafriol, sy'n effeithio ar y wybodaeth y mae dysgwyr yn ei chael am gamau nesaf ac ar gysondeb a dewis llwybrau.

Dangosodd llawer o ddysgwyr addysg bellach sgiliau pwnc neu alwedigaethol cryf, ac roedd eraill wedi ail-ymgysylltu â'u haddysg. Dangosodd prentisiaethau iau, sydd wedi bod yn nodwedd o adolygiad thematig diweddar, addewid sylweddol i rai dysgwyr 14-16 oed. Dangosodd gwasanaethau ieuenctid, maes y mae Estyn wedi dechrau ei arolygu eto yn ddiweddar, werth sylweddol wrth helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau, adeiladu gwytnwch a magu hyder. Her mewn addysg bellach oedd darparu digon o her i alluogi dysgwyr i gyflawni eu potensial.

Parhaodd prentisiaethau dysgu seiliedig ar waith i ddangos cryfderau, gyda'r mwyafrif o ddysgwyr yn datblygu sgiliau ymarferol cynhwysfawr y gallent eu cymhwyso yn y gwaith. Er bod dysgwyr wedi datblygu sgiliau llafar a chyfathrebu'n dda, roedd yr addysgu a'r dysgu o ran medrau llythrennedd, rhifedd a digidol wedi'u hanelu'n ormodol at baratoi ar gyfer asesiadau allanol nad oedd bob amser yn addas. Roedd cyfraddau cwblhau mewn rhai meysydd blaenoriaeth, fel iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal a lletygarwch, yn rhy isel, er bod sawl ffactor yn cyfrannu, gan gynnwys llwybrau asesu addas. Roedd cynnydd darparwyr prentisiaethau wrth ddatblygu adnoddau dwyieithog yn nodedig.

Darparodd dysgu cymunedol i oedolion lwybr hanfodol i lawer o ddysgwyr ond yn aml nid oedd yn cynnig gwerth am arian oherwydd buddsoddiadau mawr a thymor-byr o gyllid anghynaladwy drwy'r rhaglen Multiply. Roedd y berthynas agos rhwng tiwtoriaid a'u dysgwyr yn gryfder arbennig, er bod y ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg, hyd yn oed mewn ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn bennaf, yn wael.

Dangosodd y sector Cyfiawnder, pan oedd addysgu'n gryf, y gallai dysgwyr ddatblygu sgiliau gwerthfawr, gan gynnwys medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, roedd ansawdd yr addysgu'n amrywio, ac nid oedd yn cyfrannu digon i ragolygon ar gyfer y dysgwyr ar ôl cael eu rhyddhau.

Yn olaf, dangosodd y sector Cymraeg i Oedolion gryfder sylweddol unwaith eto. Yn ogystal â darparwyr, arolygwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a daethpwyd o hyd i amgylchedd wedi'i strwythuro'n dda lle roedd dysgwyr wedi'u trochi'n fedrus yn yr iaith. Darparodd tiwtoriaid ddysgu cryf, gan roi'r ysgogiad i lawer barhau â'u dysgu ar gyrsiau dilynol ac uwch.

Yn gyffredinol, dangosodd y flwyddyn hon fod gan sectorau addysg a hyfforddiant Cymru gryfderau sylweddol ond hefyd feysydd sydd angen gwelliant o hyd. Mae Estyn yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi gwelliant drwy ein gweithgareddau, ac rydym wedi tynnu sylw at feysydd allweddol a all gryfhau'r ddarpariaeth.

# Addysgu a’r Cwricwlwm

Mae mwyafrif yr ysgolion a’r lleoliadau nas cynhelir wedi parhau i ddatblygu a mireinio eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu. Mewn tua hanner yr achosion, maent wedi rhoi ystyriaeth dda i sut olwg ddylai fod ar y weledigaeth hon yn ymarferol a sut y gall gefnogi disgyblion i wella eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau.

### Podlediad Sgwrs: Archwilio’r Cwricwlwm i Gymru

Gwrandewch ar ein podlediad, Sgwrs, ble rydym yn archwilio esblygiad y Cwricwlwm i Gymru a sut mae ysgolion yn siapio profiadau dysgu arloesol ac effeithiol. Mae’r bennod hon yn cynnwys enghreifftiau ymarferol o ysgolion sy’n gweithredu cwricwlwm deinamig a deniadol a chyngor i addysgwyr ar gynllunio cwricwlwm llwyddiannus.

Mae’r panel yn cynnwys Cath Evans (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Estyn) Tony Bate (AEF, Estyn) Hannah Rowley (Cylch Meithrin Nant Dyrys) Elin Wakeham (Pennaeth, Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr) a Gwenno Davies (Pennaeth, Ysgol y Creuddyn).

Gwrando ar Spotify

## Addysgu o ansawdd uchel

Lle cafodd y cwricwlwm ei roi ar waith yn fwyaf llwyddiannus, mae arweinwyr wedi cadw ffocws diwyro ar wella ansawdd yr addysgu fel elfen sylfaenol i helpu athrawon i ddeall sut i ddatblygu a chyflwyno eu cwricwlwm yn effeithiol. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr wedi sicrhau bod dysgu proffesiynol yn ymateb yn dda i ganfyddiadau o brosesau gwerthuso ysgolion, yn enwedig yr agweddau ar addysgu y mae angen eu gwella fwyaf.

Yn yr ysgolion mwy effeithiol, cydweithiodd arweinwyr â staff i osod disgwyliadau uchel ar gyfer ansawdd yr addysgu. Rhoddodd yr ysgolion hyn bwyslais clir ar ennyn diddordeb disgyblion mewn profiadau dysgu sy’n fwyaf tebygol o gyflymu eu cynnydd. Roedd ychydig o ysgolion yn dechrau datblygu strategaethau clir i gefnogi disgyblion i ddatrys problemau’n fwy annibynnol trwy eu hannog i ystyried eu meddylfryd a myfyrio ar eu gwaith yn feirniadol. Er enghraifft, maent yn hybu trafodaethau o ansawdd uchel yn yr ystafell ddosbarth sy’n helpu disgyblion i fynegi eu meddyliau ar lafar a gweithio trwy dasgau ar y cyd â’u cyfoedion.

## Ysgol Gynradd Cyfarthfa Park

Ciplun – Ymagweddau effeithiol at lefaredd a'i effaith ar ddatblygu meddylwyr beirniadol

Mae arweinwyr a staff yn sicrhau bod ymagwedd gytûn at ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion. Mae'r ymagwedd hon wedi'i hintegreiddio'n dda yn yr addysgu ym mron pob dosbarth. Mae staff yn arfogi disgyblion â'r iaith a'r eirfa sydd eu hangen arnynt i ddod yn ddysgwyr myfyriol, gan feithrin eu hyder i herio meddylfryd ei gilydd yn barchus. Mae'r ymagwedd hon wedi'i gwreiddio'n ddwfn ar draws llawer o feysydd y cwricwlwm; er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau iaith i werthuso eu dysgu eu hunain, cymryd rhan mewn trafodaethau pwrpasol am eu darllen a mynegi eu syniadau ar gyfer datrys problemau mathemategol.

Mewn ysgolion lle bu arweinwyr yn fwyaf llwyddiannus o ran sicrhau gwelliannau i ansawdd yr addysgu, maent wedi:

- Sicrhau bod yr holl staff yn deall pwysigrwydd cynllunio ar gyfer dysgu mewn gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion
- Datblygu diwylliant o ddisgwyliadau uchel lle mae'r holl staff yn mwynhau trafod addysgu a datblygu'r cwricwlwm
- Cefnogi staff i ddatblygu dealltwriaeth glir o gynnydd ym mhob agwedd ar ddysgu disgyblion
- Annog staff ac yn eu caniatáu i wneud dewisiadau proffesiynol gwybodus
- Creu diwylliant lle mae athrawon yn cael adborth yn gyson am gryfderau a meysydd i'w gwella mewn addysgu
- Rhoi addysgu ac addysgeg fel eitemau ar agendâu pob cyfarfod staff yn rheolaidd
- Sicrhau y caiff datblygiad proffesiynol ei gynllunio'n strategol
- Defnyddio ymchwil yn synhwyrol i lywio'r penderfyniadau a'r strategaeth ar gyfer eu hysgol

Mewn ysgolion lle mae athrawon yn cynllunio'n ofalus ar gyfer dysgu, maent yn cynllunio gweithgareddau dysgu difyr sy'n cyd-fynd â'r deilliannau dysgu arfaethedig. Mae mwyafrif o ysgolion cynradd a'r lleiafrif o ysgolion uwchradd wedi cydbwyso datblygiad systematig gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion, ynghyd â'u cymhwyso. Mae hyn wedi eu helpu i greu cysylltiadau ystyrlon, lle bo hynny'n briodol, mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPhau).

Mae arweinwyr ac ymarferwyr mewn llawer o leoliadau meithrin nas cynhelir wedi gwneud cynnydd cryf wrth roi Cwricwlwm i Gymru ar waith. Yn y lleoliadau hyn, mae staff yn ymgysylltu'n dda â dysgu proffesiynol ac yn datblygu dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac addysgu effeithiol yn y blynyddoedd cynnar.

## Little Lambs Emmanuel

Ciplun – Cynllunio ymatebol ar waith

Mae staff yn cynllunio'n effeithiol ac yn ofalus i sicrhau bod profiadau dysgu'r plant yn cyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Mae ymarferwyr wedi datblygu dealltwriaeth gref o ddatblygiad plant ac yn ei defnyddio i ymateb yn fedrus i anghenion unigol pob plentyn.

Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio'r llwybrau datblygiadol yng nghwricwlwm Cymru i gynllunio'n ofalus ar gyfer cyfleoedd dysgu sy'n datblygu medrau plant, gan gynnal yr hyblygrwydd i addasu i ddiddordebau esblygol plant. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng meithrin medrau â ffocws a chyfleoedd digonol ar gyfer chwarae rhydd er mwyn i blant ddatblygu eu dyfalbarhad a'u hyder.

Un o gryfderau nodedig y lleoliad yw'r ffordd mae ymarferwyr yn addasu eu cwricwlwm yn barhaus i'w gadw'n ddifyr ac yn hygyrch i bob plentyn, gan feithrin amgylchedd dysgu cynhwysol a symbylol.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, dim ond megis dechrau datblygu oedd dylunio'r cwricwlwm o hyd. Yn yr achosion hyn, yn aml roedd dealltwriaeth wannach o ddilyniant neu roedd disgwyliadau athrawon yn rhy isel. Ar ben hynny, roedd yr ysgolion hyn yn aml wedi creu cysylltiadau arwynebol rhwng pynciau neu MDaPhau. Mewn lleiafrif o achosion, nid oedd arweinwyr wedi sicrhau bod ffocws digonol ar wella ansawdd yr addysgu ac nid oeddent wedi defnyddio prosesau gwerthuso a gwella yn ddigon trylwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Yn yr ysgolion hyn, nid oedd cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol, yn enwedig i wella dealltwriaeth athrawon o addysgu effeithiol, wedi'u datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, roedd athrawon yn dueddol o ganolbwyntio ar gynllunio gweithgareddau heb sicrhau bod ganddynt ddarlun clir o sut bydd dysgu disgyblion yn symud yn ei flaen. At hynny, roedd disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn aml yn rhy isel.

Mewn lleiafrif o ysgolion, nid oedd athrawon yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu gallu i feddwl yn annibynnol yn ddigon da. Yn yr achosion hyn, roedd ymgysylltiad disgyblion yn aml wedi'i gyfyngu gan oedolion sy'n gorgyfarwyddo'r broses ddysgu. Mae hyn yn lleihau cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu gwybodaeth mewn cyddestunau mwy heriol. Fodd bynnag, lle cafodd hyn ei wneud yn dda, roedd staff yn arwain disgyblion yn fedrus i gymhwyso eu gwybodaeth i ddatrys problemau ag annibyniaeth gynyddol pan fyddant yn wynebu anawsterau.

### Ysgol Gynradd a Meithrin Sant Andrew

Ciplun – Rôl yr oedolyn sy'n galluogi i gefnogi amgylcheddau effeithiol a phrofiadau difyr

Mae ymarferwyr yn mabwysiadu'r dull sylwi, dadansoddi ac ymateb i arsylwi ymgysylltiad disgyblion iau â phrofiadau dysgu. Yn ystod y cam 'sylwi', maent yn ceisio canfod beth sy'n gyrru diddordeb neu chwilfrydedd disgyblion, yn ogystal â sut mae disgyblion yn dewis yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Yn ystod y cam 'dadansoddi', mae ymarferwyr yn dehongli datblygiad medrau a gwybodaeth disgyblion, yn asesu eu cynnydd ac yn dadansoddi sgema dewisol disgybl.[1] Gweithredoedd ailadroddus neu ymddygiadau penodol y mae plant yn eu defnyddio i wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas Yn olaf, caiff arsylwadau eu defnyddio yn sbardun ar gyfer cynllunio profiadau dysgu yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys staff yn gwneud addasiadau i'r amgylchedd, cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion fireinio neu atgyfnerthu medr a chyfoethogi profiadau ymhellach. O ganlyniad, mae staff yn gweithredu fel galluogwyr, gan fodelu a gwella annibyniaeth, hyder a pherchnogaeth disgyblion o'u hamgylchedd dysgu.

Mewn ysgolion lle nad oedd ansawdd yr addysgu yn ddigon effeithiol, yn gyffredinol, nid oedd arweinwyr:

- Wedi sicrhau bod gan yr holl staff ddisgwyliadau digon uchel o ddisgyblion
- Wedi sicrhau bod dylunio'r cwricwlwm a'r addysgu yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer dysgu disgyblion
- Wedi rhoi blaenoriaeth i ddatblygu addysgu ochr yn ochr â dylunio'r cwricwlwm
- Wedi sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar ystod eang o brofiadau'r cwricwlwm

## Cwricwlwm wedi'i arwain gan ddibenion

Mae gormod o amrywiant o hyd yn nealltwriaeth ysgolion o'r cwricwlwm wedi'i arwain gan ddibenion. Yn yr achosion gorau, roedd staff yn deall bod cwricwlwm wedi'i arwain gan ddibenion yn ymwneud â sicrhau bod diben clir i bob profiad dysgu o ran cefnogi disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sydd, yn ei dro, yn cefnogi eu datblygiad tuag at y pedwar diben. Yn yr ysgolion hyn, roedd staff wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o ddylunio'r cwricwlwm a'r dulliau addysgu mwyaf effeithiol i gefnogi cynnydd cynaledig disgyblion dros gyfnod. Lle cafodd hyn ei ddeall yn dda, roedd arweinwyr a staff yn meddwl yn ofalus am ddyluniad eu cwricwlwm ac yn herio ei gilydd yn gyson i ystyried sut mae pob profiad dysgu o fudd i'w disgyblion ac yn eu cefnogi i wneud cynnydd ystyrlon.

### Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe

Ciplun – Datblygu dealltwriaeth o Gwricwlwm i Gymru mewn addysg gychwynnol athrawon

Mae tiwtoriaid yn dylunio modiwlau cyrsiau yn feddylgar er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu dealltwriaeth glir o Gwricwlwm i Gymru, herio camsyniadau a datblygu'r medrau a'r wybodaeth angenrheidiol i addysgu ar draws yr ystod o grwpiau oedran a MDaPhau. Mae darpariaeth barhaus, wedi'i dylunio'n ofalus, ynghyd ag addysgu effeithiol, yn sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu ymagwedd feirniadol a myfyriol tuag at ymchwil ac yn ei chymhwyso i'w hymarfer.

Mewn lleiafrif o ysgolion, bu ffocws rhy gryf ar y pedwar diben wrth gynllunio ar gyfer addysgu dyddiol, yn hytrach na blaenoriaethu'r deilliannau dysgu penodol yr hoffent i ddisgyblion eu cyflawni. Weithiau, arweiniodd hyn at athrawon yn cynllunio gwersi unigol i 'fodloni'r' pedwar diben yn unig neu'n cynllunio ystod o weithgareddau i ddisgyblion eu cwblhau nad ydynt yn datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth na'u medrau yn gynyddol.

### Ysgol Sant Julian

Ciplun – datblygu arlwy cwricwlwm cryf

Mae arweinwyr yn Ysgol Sant Julian wedi canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu eu hymagwedd at Gwricwlwm i Gymru. Maent wedi sicrhau eu bod yn cynnig ystod eang o bynciau, o bob maes dysgu a phrofiad, ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae gan arweinwyr a staff weledigaeth glir ar gyfer eu cwricwlwm ac mae hyn wedi'i wreiddio trwy ddatblygu addysgu o ansawdd uchel.

Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar gynnal arbenigedd pwnc, gan roi ymreolaeth eang i arweinwyr pwnc gynllunio sut a beth maent yn ei addysgu. Mae staff wedi parhau i ganolbwyntio ar gynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion a sicrhau bod diben clir i'r holl ddysgu. Mae gwaith â'r ysgolion cynradd sy'n bwydo wedi cefnogi staff ar bob lefel i sicrhau bod cynllunio'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn eu cefnogi i wneud arfer effeithiol.

## Datblygu medrau

Mewn mwyafrif o ysgolion cynradd a lleiafrif o ysgolion uwchradd, roedd staff wedi cynllunio'n dda i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn yr achosion gorau, ceir ymagwedd strategol lle mae staff yn cydweithio'n bwrpasol i gynllunio'r medrau hyn yn gynyddol.

### Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed

Ciplun – Cynllunio a chydlynu ar gyfer datblygiad cynyddol ym medrau disgyblion

Mae'r ysgol yn cyflogi Rheolwyr Llythrennedd, Rhifedd, Dwyieithrwydd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD). Mae arweinwyr a staff ym mhob maes pwnc yn cydweithio â'r rheolwyr hyn i sicrhau bod cynllunio ar gyfer medrau yn adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu blaenorol disgyblion a bod cyfleoedd i gymhwyso medrau yn gynyddol wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol. Mae ffocws clir ar greu cysylltiadau dilys rhwng y medrau trawsgwricwlaidd a chynnwys pynciau er mwyn sicrhau bod gwersi'n ystyrlon ac yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion.

Mewn llawer o leoliadau nas cynhelir, roedd staff yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau plant yn gyfannol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mewn gormod o ysgolion, roedd cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol yn fwy cyfyngedig. Yn yr ysgolion hyn, nid oedd athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau mewn cyd-destunau mwyfwy heriol neu ar lefel ddigon uchel. O ganlyniad, yn aml, cafodd cyfleoedd eu colli i ddisgyblion ddwysáu eu dealltwriaeth a'u medrau. Er enghraifft, roedd cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r ystod lawn o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion yn aml yn gyfyngedig. Hefyd, nid oedd digon o gyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu medrau darllen mwy soffistigedig mewn ystod o feysydd ar draws y cwricwlwm.

## Datblygu ymdeimlad o Gynefin ac ymgysylltu â'r gymuned

At ei gilydd, gwnaeth mwyafrif yr ysgol a'r lleoliadau ddefnydd da o'u cymuned. Er enghraifft, roedd staff mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir yn ystyried anghenion dysgu disgyblion yn ofalus ac yn cydweithio'n agos â rhieni i ddarparu cymorth ar gyfer dysgu eu plentyn gartref. Roedd ysgolion yn aml yn defnyddio adnoddau yn eu hardal leol a sefydliadau allanol yn feddylgar. Mewn lleiafrif o achosion, roedd ysgolion a lleoliadau'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu ymdeimlad o 'gynefin' trwy ymgorffori hanes a daearyddiaeth yr ardal leol, Cymru a'r byd ehangach yn eu haddysgu.

Roedd mwyafrif yr ysgolion uwchradd yng Nghymru yn cynnig ystod eang a chytbwys o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys dewisiadau TGAU a dewisiadau galwedigaethol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif ohonynt, roedd ystod fwy cyfyngedig o bynciau ar gael, sy'n cyfyngu ar allu disgyblion i ddilyn eu diddordebau. Roedd ychydig o ysgolion yn parhau i roi cyfnod astudio TGAU tair blynedd ar waith, er gwaethaf yr arweiniad statudol diweddar gan Lywodraeth Cymru i beidio â gwneud hynny. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn rhoi'r gorau i ystod ehangach o bynciau ar ddiwedd Blwyddyn 8, gan gyfyngu eu cyfle i fanteisio ar gwricwlwm ehangach. Mae hyn yn lleihau cyfleoedd iddynt archwilio pynciau amrywiol yn ddigonol cyn gwneud dewisiadau mwy gwybodus ar unrhyw oedran priodol ym Mlwyddyn 9.

## Cefnogi pontio disgyblion

Roedd arweinwyr a staff mewn lleoliadau nas cynhelir yn gweithio'n dda â rhieni i gefnogi addysg gynnar eu plant. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o leoliadau'n gwahodd rhieni i leoliadau yn ystod y

cyfnodau ymgartrefu cychwynnol. Yn gyffredinol, roedd llawer o leoliadau ac ysgolion cynradd yn cydweithio’n briodol i sicrhau pontio llyfn. Roedd lleiafrif o ysgolion uwchradd yn dechrau cydweithio â’u hysgolion cynradd partner i ddatblygu ymagwedd ar y cyd at ddylunio cwricwlwm ac addysgu. Roedd yr ysgolion hyn yn dechrau ystyried y cynnydd yr hoffent i ddisgyblion ei wneud yn eu gwybodaeth a’u medrau ac yn cydweithio â’i gilydd i nodi sut y gellir adeiladu ar ddysgu disgyblion wrth iddynt symud o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd diffyg cysondeb wrth bontio o addysg gynradd i addysg uwchradd ac nid oedd staff ar draws y ddau sector yn cydweithio’n ddigon da â’i gilydd bob tro i rannu ymagweddau at wella addysgu a datblygu’r cwricwlwm er mwyn sicrhau parhad pwrpasol yn nysgu disgyblion.

## Datblygu ymagweddau at asesu a chynnydd

Roedd mwyafrif yr athrawon yn defnyddio dulliau asesu ffurfiannol i ddeall pa mor dda yr oedd disgyblion yn dod yn eu blaenau ac i addasu eu haddysgu. Lle mae gan athrawon fwriadau dysgu clir, roeddent yn aml yn cynllunio cwestiynau’n ofalus i wirio dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu meddwl. Ym mwyafrif yr achosion, roedd athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi i gefnogi disgyblion ac roedd y mwyafrif ohonynt yn rhoi adborth ysgrifenedig cynorthwyol i arwain disgyblion i ddeall eu camau nesaf. Yn yr achosion gorau, roedd yr athrawon yn cynllunio tasgau dilynol effeithiol i ddisgyblion weithredu ar yr adborth hwn. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid oedd athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i ymateb yn ddigon da i adborth a gwneud gwelliannau ystyrlon i ansawdd eu gwaith.

### Ysgol Gynradd Troedyrhiw

**Ciplun – Cynnydd dysgwyr o ganlyniad i strategaethau asesu trylwyr a monitro cyflawniadau disgyblion a’r camau nesaf mewn dysgu**

Treulir amser gwerthfawr yn sicrhau bod gan bob aelod staff ddealltwriaeth glir a chywir o gynnydd ym mhob maes dysgu. Mae staff ac arweinwyr yn triongli data o adborth yn llyfrau disgyblion, adolygiadau cynnydd carfanau a ‘Sesiynau Cyfarfod â Disgyblion’, lle caiff amser ei dreulio â phob disgybl yn trafod yr hyn y maent yn ei wneud yn dda, beth yw’r camau nesaf yn eu dysgu a sut y cânt eu cefnogi. O ganlyniad, mae adborth i ddisgyblion yn effeithiol. Mae cyfleoedd amserol i ddisgyblion adeiladu ar ddysgu blaenorol a dealltwriaeth glir o’r hyn y mae’r disgybl yn ei gyflawni mewn gwersi a’r hyn y mae angen iddynt ei wella. Mae hyn, yn ei dro, yn llywio’r camau nesaf ar gyfer cynllunio athrawon.

Mae lleiafrif o ysgolion wedi gweithio’n dda i ddatblygu dealltwriaeth staff o gynnydd ar draws pob ystod oedran. Fodd bynnag, at ei gilydd, ledled Cymru, roedd ysgolion yn ei chael hi’n anodd datblygu cyd-ddealltwriaeth o ddilyniant a chynllunio’n fanwl gywir i gefnogi cynnydd disgyblion. Roedd arweinwyr yn nodi y byddent yn croesawu eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut olwg ddylai fod ar y cynnydd gofynnol a ddisgwylir ar gamau gwahanol o ddysgu a datblygiad disgyblion.

## Cwestiynau hunan fyfyrio

- Pa mor dda y mae ein staff yn deall pwysigrwydd addysgu o ansawdd uchel a’i effaith ar gynnydd eu disgyblion?

- A ydym ni fel arweinwyr wedi datblygu diwylliant o hunanwerthuso a dysgu proffesiynol, lle mae gwella addysgu yn flaenoriaeth uchel?

- Pa mor effeithiol y mae ein hathrawon yn cynllunio ar gyfer dysgu, gan ddylunio tasgau sy’n ddifyr ac yn cyd-fynd â’r deilliannau dysgu arfaethedig?

- Pa mor dda y mae ein staff yn cyflawni eu rôl fel oedolion sy’n galluogi, deall anghenion disgyblion, ac addasu eu haddysgu yn fedrus i gefnogi a symud dysgu yn ei flaen?

- Pa mor dda ydyn ni’n cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm?

- Pa mor effeithiol ydyn ni’n defnyddio ein cymuned, ein hardal leol a sefydliadau allanol i gyfoethogi profiadau dysgu?

- Pa mor dda ydyn ni’n gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod trefniadau pontio yn datblygu ymagwedd ar y cyd at ddylunio’r cwricwlwm, yn gwella ein dealltwriaeth o addysgu effeithiol ac yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o ddilyniant?

- Pa mor dda y mae athrawon yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hannibyniaeth?

- Pa mor effeithiol y mae athrawon yn defnyddio ymagweddau ffurfiannol tuag at asesu i ddeall pa mor dda y mae disgyblion yn dod yn eu blaenau ac yn addasu eu haddysgu mewn gwersi a thros gyfnod?

# Symud tuag at Gymru wrth-hiliol

## Symud tuag at Gymru wrth-hiliol

Ym mis Mawrth 2021, amlygodd yr Athro Charlotte Williams yr angen i bob athro ac ysgol yng Nghymru fod â'r wybodaeth a'r adnoddau i ddatblygu cwricwlwm gwrth-hiliol yn hyderus yn ei hadroddiad i Lywodraeth Cymru (Williams, 2021). Mae ei gwaith wedi ffurfio rhan o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar sut roedd darparwyr addysg yn datblygu darpariaeth i gefnogi nod Llywodraeth Cymru i gyflawni Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Mae'n defnyddio tystiolaeth o sampl o adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024, data Llywodraeth Cymru ac Estyn ac ymweliadau ag ychydig o ysgolion dethol. Mae y sampl o adroddiadau arolygu yn cynnwys pob sector a arolygwyd yn ystod 2023-2024.

### Podlediad Sgwrs: Tuag at Gymru Gwrth-hiliol

Gwrandewch ar ein podlediad, Sgwrs, ble rydym yn archwilio sut mae darparwyr addysg ledled Cymru yn gweithio tuag at ddyfodol gwrth-hiliol. Mae'r bennod yn cynnwys cipolwg ymarferol gan arbenigwyr ar sut mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn meithrin diwylliant gwrth-hiliol a chyngor i addysgwyr ac arweinwyr ysgolion ar weithredu'n ystyrlon.

Mae'r panel yn cynnwys Jassa Scott (Cyfarwyddwr Strategol, Estyn), Tony Bate (AEF, Estyn) Emyr George (Prif Weithredwr, Adnodd), Rhodri Evans (Pennaeth Cynorthwyol, Ysgol Gyfun Gwyr), Steffan Elis, (Pennaeth Cynorthwyol, Ysgol Gynradd Sant Baruc, Y Barri).

Gwrando ar Spotify

## Profiad dysgwyr o hiliaeth

Yn y rhan fwyaf o sectorau, mae arolygu'n rhoi cyfle i ddysgwyr roi adborth ar draws ystod o bynciau trwy holiadur i ddysgwyr. Mewn ysgolion cynradd, mae hyn yn cynnwys holi disgyblion hŷn ynghylch pa mor ddiogel y maent yn teimlo ac a yw eu hysgol yn eu hannog i drin pobl eraill yn deg. Mewn ysgolion uwchradd, mae cwestiynau'n fwy penodol ac yn holi disgyblion yn uniongyrchol am wahaniaethu a hiliaeth. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael o ddeilliannau holiaduron ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-2024. Yn ystod y cyfnod hwn, mae holiaduron ysgolion cynradd yn dangos bod llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser. Roeddent yn crybwyll bod eu hysgol yn eu helpu i drin pawb yn deg. Yn ystod arolygiadau ysgolion uwchradd, mae holiaduron yn gofyn yn uniongyrchol i ddisgyblion a ydynt yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg oherwydd eu cefndir ethnig. Ym mhob ysgol uwchradd sydd â disgyblion o leiafrifoedd ethnig ar y gofrestr, roedd enghreifftiau o ddisgyblion yn rhoi gwybod am driniaeth annheg. At ei gilydd, roedd gan ysgolion â chanran uwch o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ganran uwch o ddisgyblion yn rhoi gwybod am driniaeth annheg.

Er nad ydym yn adrodd ar gyffredinrwydd digwyddiadau hiliol yn uniongyrchol, mae tystiolaeth

arolygu yn cynnwys cyfeiriadau rheolaidd at achosion o hiliaeth amlwg. Mewn lleiafrif o ddarparwyr, crybwyllodd staff, disgyblion neu rieni ddigwyddiadau hiliol fel galw enwau neu wahaniaethu. Mae'n ymddangos bod digwyddiadau hiliol yn fwyaf cyffredin mewn ysgolion uwchradd, a nodwyd y rhain mewn tua hanner yr arolygiadau o ysgolion uwchradd. Mae'n bwysig nodi, mewn ychydig o ysgolion, dywedodd disgyblion wrth arolygwyr nad ydynt wedi rhoi gwybod am ddigwyddiadau hiliol yr oeddent wedi cael profiad ohonynt. Nid yw'r senario yma'n unigryw i ysgolion. Nododd Comisiynydd Plant Cymru, yn ei hadroddiad "Tuag at Addysg Bellach Wrth-hiliol: Ymchwil Ansoddol ar Brofiadau Byw Staff a Dysgwyr" (2023), fod llawer o ddysgwyr a staff o grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi profi hiliaeth agored mewn addysg bellach. Fodd bynnag, canfuwyd bod mwy o ddigwyddiadau'n ymwneud â hiliaeth gudd, ac roedd yn fwy heriol i staff a dysgwyr eu hadnabod a'u hadrodd.

## Storïau, hanesion a chyfraniadau Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

Wrth lansio Cwricwlwm i Gymru ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 16 oed, daeth addysgu hanes a phrofiadau Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol fel rhan o hanes Cymru a'r byd ehangach yn orfodol. Er mwyn ymateb i hyn, roedd llawer o ysgolion wedi dechrau cyflwyno storïau a chyfraniadau unigolion amlwg o leiafrifoedd ethnig yn y cwricwlwm. Roedd hyn yn fwyfwy amlwg mewn sawl sector ac yn enwedig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Dysgodd disgyblion am gyflawniadau, heriau a phrofiadau unigolion allweddol. Fodd bynnag, roedd ystod yr unigolion a gynrychiolwyd yn aml yn gyfyngedig i ychydig o fodelau rôl adnabyddus. Roedd cynllunio effeithiol i gynrychioli lleiafrifoedd ethnig yn gadarnhaol ac yn ddilys fel rhan greiddiol o'r cwricwlwm yn dechrau datblygu mewn tua hanner yr ysgolion.

Roedd tua hanner yr holl ddarparwyr a arolygwyd (gan gynnwys sefydliadau addysg bellach) wedi croesawu digwyddiadau ymwybyddiaeth i hybu cydraddoldeb a dechrau mynd i'r afael â hiliaeth. Er enghraifft, roeddent yn cydnabod Mis Hanes Pobl Dduon neu Ddiwrnod Gwisgo Coch ac yn defnyddio'r rhain fel dulliau i hybu a gwerthfawrogi amrywiaeth. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd digwyddiadau'n ffurfio rhan o raglen ehangach ac yn cynnwys cyfleoedd i gynnwys cynulleidfa eang mewn codi ymwybyddiaeth a dwysáu dealltwriaeth disgyblion o hiliaeth. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd digwyddiadau'n cynnwys gweithgareddau 'ychwanegol', wedi'u gwahanu oddi wrth weddill y cwricwlwm. Mewn ychydig o achosion, nhw oedd unig strategaeth y darparwr i fynd i'r afael â hiliaeth.

Mae'n bwysig i bob dysgwr weld eu hunain, eu diwylliant, eu storïau, eu hanesion a'u profiadau yn cael eu cynrychioli'n gadarnhaol, yn gywir ac yn sensitif ar draws y cwricwlwm. Er mwyn dechrau mynd i'r afael â hyn ar lefel leol, roedd lleiafrif o ysgolion wedi cynnwys disgyblion a rhieni er mwyn hybu dealltwriaeth o amrywiaeth ar draws yr ysgol. Er enghraifft, ffurfiont bwyllgorau wedi'u harwain gan ddisgyblion i arwain gwasanaethau neu gyflwyno gwersi ABaCh (addysg bersonol a chymdeithasol) yn canolbwyntio ar amrywiaeth ar gyfer myfyrwyr iau. Ar ei orau, roedd y gwaith hwn yn helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pob disgybl o hanes, profiadau a chyfraniadau amrywiol cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Fodd bynnag, roedd yr ymagwedd hon yn aml yn cynnwys digwyddiadau untro nad oeddent yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag amrywiaeth y tu hwnt i lefel arwynebol. Gallai hefyd roi'r cyfrifoldeb ar ddisgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol i addysgu eu cyfoedion am eu profiadau a'u diwylliant.

Mewn ychydig o achosion, roedd darparwyr yn rhoi ffocws cynaledig ar gynnwys teuluoedd mewn cyfrannu at y cwricwlwm. Mewn un ysgol annibynnol, roedd staff yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion a rhieni rannu eu diwylliant â phobl eraill yn rheolaidd. Er enghraifft, roeddent yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion fodelu, perfformio neu ddysgu amrywiaeth o ddawnsiau traddodiadol

rhyngwladol. Roedd hyn yn cefnogi pob disgybl i deimlo ymdeimlad o berthynas yng nghymuned amrywiol a gofalgar yr ysgol.

Roedd ychydig o leoliadau nas cynhelir yn gwahodd rhieni i rannu eu diwylliant, eu credoau a'u profiadau â disgyblion a staff. Er enghraifft, mewn un feithrinfa, roedd rhieni yn cefnogi ymarferwyr i rannu adnoddau a gwybodaeth am Ramadan gyda phlant yn effeithiol. Roedd yr ymagwedd hon yn galluogi pob un o'r plant i weld eu bywyd cartref yn cael ei werthfawrogi a'i adlewyrchu'n gywir yn y cwricwlwm, gan eu cefnogi i deimlo ymdeimlad o berthyn.

## Recriwtio athrawon ac Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)

Ym mis Medi 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun cymhelliant AGA Cymunedau Ethnig Lleiafrifol. Mae'r cynllun yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Wrth-hiliol a'i nod yw cynyddu nifer yr athrawon o leiafrifoedd ethnig fel bod gan ddysgwyr yng Nghymru weithlu addysg mwy amrywiol a chynrychioliadol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cynyddodd nifer yr athrawon a nododd eu grŵp ethnig fel Cymysg, Grwpiau Ethnig Lluosog, Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Caribïaidd, Du Prydeinig neu grwpiau ethnig Arall o 325 i 350 (Llywodraeth Cymru, 2024). Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd canrannol bach o 1.2% o'r holl athrawon i 1.4%, er bod ychydig dros 3.2% o staff cymorth yn dod o'r grwpiau hyn. Roedd y ffigurau hyn yn dangos tangynrychiolaeth o grwpiau ethnig lleiafrifol yn y proffesiwn, gan fod bron i 10% o boblogaeth Cymru o leiafrifoedd ethnig (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021).

Wrth edrych ar swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion, mae cynrychiolaeth o'r amrywiaeth yng Nghymru yn lleihau ymhellach. Mae data'r pedair blynedd diwethaf yn dangos, ar gyfartaledd, mai dim ond 0.4% o benaethiaid sydd o grwpiau ethnig lleiafrifol (Llywodraeth Cymru, 2024). Mae'r ffigurau hyn yn debyg neu'n is wrth edrych ar swyddi penaethiaid dros dro, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol.

Er bod pob darparwr AGA yn hyrwyddo eu cyrsiau'n weithredol i fyfyrwyr ethnig leiafrifol, mae'r data diweddaraf yn dangos bod canran yr athrawon dan hyfforddiant o grwpiau ethnig lleiafrifol rhwng 4 a 5% (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae hyn yn awgrymu y bydd recriwtio athrawon o grwpiau ethnig lleiafrifol yn parhau i fod yn her yn y dyfodol oherwydd y niferoedd isel sy'n ymuno â'r proffesiwn.

Roedd her debyg mewn proffesiynau addysg eraill, er enghraifft gyda 3.9% o athrawon addysg bellach o grwpiau ethnig Cymysg neu luosog, Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig neu grwpiau ethnig eraill yn 2024 (Cyngor y Gweithlu Addysg, 2024).

## Arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol

Mewn ychydig o ddarparwyr, roedd arweinwyr yn dangos awydd cryf i fabwysiadu ymagwedd wrth-hiliol at eu harfer ac, yn benodol, eu cwricwlwm. Fe wnaethant werthuso darpariaeth gyfredol a blaenoriaethu gwelliant a dysgu proffesiynol ar gyfer staff yn effeithiol. Yn yr enghreifftiau gorau, nid oedd arweinwyr yn osgoi pynciau anodd ac roeddent yn sensitif ac yn rhagweithiol wrth hybu newid cadarnhaol. O ganlyniad, roedd staff yn dechrau cynnig profiadau perthnasol i ddisgyblion a oedd yn rhoi mewnwelediad uniongyrchol iddynt o effaith hiliaeth. Er enghraifft, mewn un ysgol, roedd staff yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gyfweld â phobl amlwg o'r gymuned a gwrando ar eu profiadau bywyd. Roedd hyn yn cynnig dealltwriaeth ddyfnach i ddisgyblion o hiliaeth ac yn cryfhau eu penderfyniad i'w wrthwynebu a'i oresgyn. Roedd ychydig o ysgolion yn annog disgyblion i

ddefnyddio’r celfyddydau fel modd o rannu eu safbwyntiau ac ymdrechu i newid. Er enghraifft, roedd disgyblion yn cyflwyno eu dealltwriaeth o degwch trwy farddoniaeth neu ‘gelfyddyd brotest’ i hybu gwrth-hiliaeth.

Roedd nifer gynyddol o arweinwyr ar draws sectorau yn manteisio ar ddysgu proffesiynol sydd ar gael iddynt yn ymwneud ag amrywiaeth a gwrth-hiliaeth. Er enghraifft, roeddent yn gweithio â darparwyr allanol fel ‘Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol’ (DARPL) a Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i ddwysáu dealltwriaeth ymhlith staff a gwella darpariaeth. Roedd ychydig o arweinwyr wedi dechrau gwerthuso eu harfer yn ymwneud â gwrth-hiliaeth yn effeithiol. Er enghraifft, mewn un ysgol uwchradd, nododd arweinwyr fod cynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig yn y cwricwlwm yn aml yn cwmpasu agweddau negyddol ar hanes, fel caethwasiaeth. Roeddent yn cydnabod yr angen i adolygu eu cwricwlwm er mwyn cynrychioli cyfraniadau a hanes ehangach ac felly cyflwyno darlun mwy cytbwys.

## Arfer effeithiol

Dangosodd arweinwyr yn awdurdod lleol Bro Morgannwg ymrwymiad i greu diwylliant gwrth-hiliol ledled yr awdurdod. Er enghraifft, fe wnaethant gynnwys 16 o ysgolion mewn prosiect trwy’r tîm ‘Cysylltiadau Dysgu’. Roedd hyn yn cynnwys ystod o ddysgu proffesiynol ar gyfer staff ysgolion am sut i hybu ymagwedd wrth-hiliol. Fe wnaethant rannu ymchwil berthnasol ac amlygu’r arferion mwyaf effeithiol. Sefydlodd swyddogion brosiect ymchwil weithredu i helpu arweinwyr a staff ysgolion i ystyried y ffordd orau i ddatblygu diwylliant gwrth-hiliol a sicrhau bod eu cwricwlwm yn gynhwysol. Roedd yr ysgolion a gymerodd ran yn y prosiect wedi sefydlu ymagweddau defnyddiol at gynllunio ar gyfer cwricwlwm a oedd yn dathlu amrywiaeth, yn ogystal ag addysgu cymuned yr ysgol am sut i fod yn wrth-hiliol.

O ganlyniad i’w cyfraniad at y prosiect, roedd llawer o ysgolion yn dechrau cryfhau eu hymagwedd at wrth-hiliaeth. Er enghraifft, roedd arweinwyr a staff yn Ysgol Gynradd Victoria wedi dwysáu eu dealltwriaeth o ymagwedd wrth-hiliol a dad-drefedigaethu’r cwricwlwm. Roedd grŵp wedi’i arwain gan ddisgyblion yn rhagweithiol o ran edrych ar adnoddau ar draws yr ysgol, gyda’r bwriad o wella eu cynwysoldeb a pha mor dda yr oeddent yn adlewyrchu cymuned yr ysgol. Roedd llawer o ddisgyblion yn yr ysgol yn mwynhau rhannu eu treftadaeth, eu diwylliannau a’u credoau â’u cyfoedion. O ganlyniad i’r gwaith hwn, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o gydraddoldeb ac amrywiaeth a phwysigrwydd trin pawb â pharch.

## Cwestiynau hunan fyfyrio

- Pa mor dda y mae arweinwyr ac ymarferwyr yn deall gwrth-hiliaeth a sut i fynd i’r afael â’r elfennau gorfodol newydd wrth ddatblygu eu cwricwlwm?
- Pa mor sensitif a chywir y mae darparwyr yn cyflwyno hanes, storïau a chyfraniadau gan bobl o grwpiau Pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig?
- Pa mor gywir y mae darparwyr yn cofnodi, adrodd a gwerthuso data ar ddigwyddiadau hiliol a phresenoldeb a gwaharddiadau dysgwyr ethnig leiafrifol? Sut mae’r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio?
- Pa mor effeithiol y mae darparwyr yn ymateb i ddigwyddiadau hiliol?
- Pa mor dda y mae darparwyr yn gwerthuso cwmpas ac effaith eu gwaith ag asiantaethau partner?

Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 *Cyfrifiad 2021* (Ar-lein). Ar gael o: Hafan – Swyddfa Ystadegau

Gwladol (ons.gov.uk) (Cyrchwyd 20 Mehefin 2024)

Llywodraeth Cymru (2024a*) Athrawon (cyfrif pennau) yn ôl ethnigrwydd a sector* (Ar-lein). Ar gael o: (Athrawon (cyfrif pennau) yn ôl ethnigrwydd a sector (llyw.cymru) Cyrchwyd 26 Gorffennaf 2024)

Llywodraeth Cymru (2023*) Myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA yn y DU yn ôl ethnigrwydd a blwyddyn* (Ar-lein). Ar gael o: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA yn y DU yn ôl ethnigrwydd a blwyddyn (llyw.cymru) (Cyrchwyd 26 Gorffennaf 2024)

Williams (2021) *Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd: Adroddiad terfynol (Ar-lein).* Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-terfynol.pdf (Cyrchwyd 20 Mehefin 2024)

# Recriwtio a chadw

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi edrych ar garfan yr athrawon yng Nghymru a recriwtio athrawon i'r proffesiwn. Er bod ffigurau CGA yn awgrymu bod cadw athrawon yn y proffesiwn yn gymharol sefydlog, mae recriwtio wedi wynebu problemau penodol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

Daw'r canfyddiadau a'r casgliadau o dystiolaeth arolygu, cyfarfodydd ag arweinwyr ysgolion, cyfarfodydd â chynrychiolwyr awdurdodau lleol a data gan CGA, Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg gychwynnol athrawon.

## Recriwtio i raglenni addysg gychwynnol athrawon uwchradd*

Er 2014, mae nifer y myfyrwyr ar raglenni uwchradd wedi gostwng bron i hanner. Er y bu cynnydd dros dro mewn recriwtio yn ystod 2020-2021 a 2021-2022, roedd hyn yn bennaf oherwydd bod darpar fyfyrwyr yn chwilio am broffesiynau cymharol fwy diogel a cheisiadau gan y rhai a gollodd eu swyddi yn ystod y pandemig. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae recriwtio wedi gostwng yn sydyn ac mae problemau sylweddol mewn meysydd pwnc allweddol, sef mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg. Yn y flwyddyn ddiweddaraf, mae recriwtio ymhell islaw'r lefelau cyn y pandemig. Er nad oes llawer o ymchwil i'r rhesymau am hyn yng Nghymru, gallai'r rhesymau posibl dros y diffyg diddordeb mewn addysgu mewn ysgolion uwchradd gynnwys pryderon:

- ynghylch yr heriau tybiedig yn gysylltiedig ag ymddygiad a'r ffaith bod ysgolion yn gorfod cyflawni llawer o'r dyletswyddau a ddarparwyd gan asiantaethau partner gynt trwy awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) ac ati
- yr apêl gymharol o ran recriwtio mewn proffesiynau eraill i raddedigion
- y gallai'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd arwain at addysgu y tu allan i faes diddordeb/arbenigedd

Caiff rhai o'r materion hyn eu trafod yn y papur canlynol: Astudiaeth ymchwil ar ba mor ddeniadol yw gyrfa addysgu, a chadw athrawon | LLYW.CYMRU.  Mae heriau tebyg yn Lloegr, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn gan bwyllgor addysg senedd y DU.

Mae'r dirywiad hwn mewn recriwtio yn peri pryder sylweddol.

Mae ffigurau ar draws y partneriaethau yn dangos bod recriwtio'n amrywio'n sylweddol o un darparwr i'r llall. Dros y degawd diwethaf, nid yw'r un o'r partneriaethau wedi llwyddo i recriwtio i'w targedau cyffredinol. Mae'r ffigurau hyn yn llwm iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. O ganlyniad, mae diffygion sylweddol yn nifer yr athrawon newydd gymhwyso.

Mae recriwtio i feysydd pwnc sydd â phrinder, sy'n cynnwys Cymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth (yn enwedig cemeg a ffiseg), TGCh, daearyddiaeth ac ieithoedd tramor modern, yn peri pryder penodol. Mae'r prinderau hyn yn aml yn arwain at athrawon yn cyflwyno pynciau y tu allan i'w prif faes arbenigedd. Mae'r prinder mwyaf sylweddol mewn myfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon

Cymraeg, lle mae'r nifer a recriwtiwyd ar draws pob darpariaeth AGA wedi bod yn llai na 25 o fyfyrwyr ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, sy'n llai na thraean o'r ffigurau targed.

Mae nifer isel y myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws pynciau uwchradd yn peri pryder arbennig. Dros y deng mlynedd diwethaf, bu gostyngiad nodedig yn nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu pynciau unigol trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd. Mae'r ffigurau recriwtio diweddaraf yn eithriadol o isel. Mae'r duedd hon yn cynnig her sylweddol i uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 trwy ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a gwireddu Bil y Gymraeg ac Addysg.

## Recriwtio i raglenni cynradd

At ei gilydd, mae recriwtio i raglenni cynradd wedi aros yn gadarn dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae partneriaethau wedi gor-recriwtio addysgu cynradd yn ystod y cyfnod hwn. Mae tystiolaeth arolygu yn awgrymu mai un rheswm am hyn yw gwrthbwyso'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr uwchradd sy'n gwneud cais am AGA, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol ar draws yr ystod o raglenni AGA. Yn gynyddol, mae'r myfyrwyr cynradd sydd dros ben yn cael eu recriwtio gan ysgolion uwchradd neu bob oed. Er bod yr arfer hon yn sicrhau bod gan ddisgyblion athro dosbarth, ni fydd y darpar athrawon hyn wedi'u paratoi'n benodol i addysg yn y sector uwchradd.

Mae recriwtio myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, er yn fwy cadarnhaol nag yn y ddarpariaeth uwchradd, yn peri pryder o hyd, gyda dim ond ychydig o fyfyrwyr yn dilyn llwybrau cyfrwng Cymraeg.

## Heriau o ran recriwtio athrawon

Dros gyfnod, bu dulliau i wella recriwtio yn rhy gul ac yn canolbwyntio'n bennaf ar ddod o hyd i fwy o recriwtiaid, yn hytrach na gwerthusiad mwy cynhwysfawr o'r system yn ei chyfanrwydd. Dylai atebion posibl ystyried llwybrau mwy amrywiol i addysgu, yn ogystal ag agweddau ar gadw er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o athrawon o ansawdd uchel ledled Cymru i fodloni anghenion ein hysgolion a'u disgyblion. Mae dulliau posibl yn cynnwys:

- Sicrhau bod strategaethau recriwtio a chadw yn cael eu hystyried yn gyfannol ac ar draws y system, fel bod rhaglenni'n denu'r ymgeiswyr mwyaf disglair a gorau ac yn eu cefnogi i aros yn y proffesiwn.
- Newidiadau i'r modd y caiff rhaglenni eu dylunio er mwyn sicrhau nid yn unig eu bod yn cefnogi datblygiad myfyrwyr yn y ffordd orau, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd cyfoethog a chyffrous, fel gweithio mewn ystod o gyd-destunau a lleoliadau rhyngwladol.
- Cynyddu'r ystod o lwybrau i addysgu. Mae angen i'r rhain fod yn fwy hyblyg ac amrywiol i ddenu ystod ehangach o ymgeiswyr. Mae'r nifer isel o fyfyrwyr sy'n cael eu recriwtio i bynciau uwchradd, yn enwedig i bynciau prin a rhai cyfrwng Cymraeg yn peri pryder. Mae rhaglenni'r Brifysgol Agored wedi'u llunio i ehangu cyfranogiad ac, ar eu bod yn ddefnyddiol, nid yw hyn yn gwneud digon i helpu i recriwtio i feysydd pwnc uwchradd sydd â phrinder. Gellid ystyried llwybrau eraill i addysgu yng Nghymru, fel prentisiaethau gradd (lle mae myfyrwyr yn ennill cyflog wrth iddynt weithio tuag at radd â SAC), darpariaeth uwchradd israddedig a llwybrau asesiad yn unig.
- Creu cymhellion mwy deniadol, yn enwedig ar gyfer ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg. Mae bwrsariaethau a chymhellion wedi gwella recriwtio, ond nid yn helaeth, ac nid yw nifer y myfyrwyr sy'n cael eu recriwtio bob amser yn trosi'n athrawon newydd sy'n ymuno â'r proffesiwn yng

Nghymru. Gallai fod atebion dychmygus i ad-dalu ffioedd gradd i'r rhai sy'n ymuno â'r proffesiwn addysgu neu ddileu ffioedd myfyrwyr yn gyfan gwbl ar gyfer rhaglenni addysg gychwynnol athrawon. Fodd bynnag, mae i'r rhain oblygiadau ariannol sylweddol.

- Mae angen i amodau ar gyfer athrawon sy'n newydd i'r proffesiwn, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, fod yn fwy deniadol. Mae angen atebion creadigol i sicrhau bod gweithio mewn ysgol yn cael ei ystyried yn gynnig deniadol. Gallai'r rhain gynnwys mentrau fel:
    - Taliadau cadw', sydd wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus yn Lloegr.
    - Casglu a rhannu data'n ganolog am y rhesymau pam mae athrawon yn gadael y proffesiwn er mwyn llywio strategaethau cadw.
    - Ysgolion arweiniol' sydd â hanes o sicrhau ymddygiad rhagorol i gydweithio ag 'ysgolion partner' i'w helpu i ganfod problemau a datblygu strategaethau newydd.
- Mae hyn, ynghyd â rhaglen gyfoethog a gwahaniaethol o ddysgu proffesiynol a mentora ar gyfer athrawon yn eu tair blynedd gyntaf o addysgu, yn hanfodol ar gyfer cadw staff.

## Heriau recriwtio ar gyfer ysgolion

Yn ystod ein harolygiadau, crybwyllodd ysgolion ledled Cymru y bu gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi addysgu. Mae recriwtio yn arbennig o heriol i ysgolion uwchradd. Mae nifer gyfartalog yr ymgeiswyr fesul swydd wedi mwy na haneru ers 2011, tra mae'r sefyllfa mewn ysgolion cynradd wedi parhau'n gymharol gryf, gweler data gan Lywodraeth Cymru yma. Mae'r sefyllfa hon yn peri pryder arbennig mewn Cymraeg ail iaith, gwyddoniaeth, mathemateg, ieithoedd tramor modern, Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a cherddoriaeth. Yn aml, bu angen i ysgolion hysbysebu sawl gwaith i lenwi swyddi addysgu. Crybwyllodd ysgolion ac awdurdodau lleol y gallai fod mân wahaniaethau o ran pam y mae angen iddynt ail hysbysebu swyddi.

Crybwyllodd penaethiaid mewn ysgolion uwchradd yn ystod arolygiadau ac mewn cyfarfodydd ychwanegol, yn rhy aml yn ddiweddar, nad yw ansawdd ymgeiswyr yn cyrraedd y safon ofynnol. O ganlyniad, mae sefyllfaoedd pan mae ysgolion wedi llwyddo i lenwi swyddi ond, yn aml, bu angen iddynt roi cymorth ychwanegol ar waith i sicrhau safon dderbyniol o addysgu. Mewn nifer gynyddol o achosion, mae methu recriwtio athrawon yn golygu bod rhaid i ysgolion ddefnyddio staff i addysgu y tu allan i'w maes arbenigedd. Yn yr enghreifftiau gorau, cynigiwyd dysgu proffesiynol helaeth, mentoriaid pwnc a chyfleoedd i'r athrawon hyn arsylwi ymarferwyr profiadol yn addysgu. Mae arweinwyr adran yn cynnig lefelau uchel o gymorth i'r staff hyn, yn monitro eu gwaith yn ofalus ac yn eu cynnwys mewn trafodaethau ynghylch y ffordd orau i addysgu agweddau gwahanol ar y pwnc. Mewn llawer o achosion, mae'r cymorth hwn yn golygu bod disgyblion yn cael darpariaeth addas, o leiaf. Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, nid oedd y cymorth a gynigiwyd gan arweinwyr yn ddigon cynhwysfawr a chafodd disgyblion wersi anysbrydoledig a gyflwynwyd yn wael o ganlyniad.

Mae nifer yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn yn y blynyddoedd cyntaf o addysgu wedi amrywio dros gyfnod, ond nid yw erioed wedi bod mor uchel ag yn 2022, pan adawodd 127 o athrawon uwchradd cyn pen pum mlynedd o ymuno â'r proffesiwn (nid dyma'r sefyllfa mewn ysgolion cynradd). Mae'n peri pryder bod y nifer fwyaf o athrawon sy'n gadael y proffesiwn yn athrawon Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith.

## Arfer dda a chadw

Mewn llawer o ysgolion, roedd arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i gadw staff medrus ac ymroddedig. Roedd ychydig o ysgolion yn gwneud hynny'n llwyddiannus iawn. Yn yr achosion hyn, roedd arweinwyr yn cynllunio'n ofalus i greu amgylchedd gwaith sefydlog a chadarnhaol. Roeddent yn meithrin diwylliant ysgol cadarnhaol a chynhwysol lle'r oedd athrawon yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Roeddent yn sicrhau bod athrawon yn cael eu cynnwys mewn prosesau penderfynu, a oedd yn hybu ymdeimlad o ymddiriedaeth, perchnogaeth ac ymgysylltiad. Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr yn sicrhau bod strategaethau ymddygiad effeithiol, roeddent yn cynllunio'n ofalus fel bod gan athrawon ddosbarthiadau o faint hylaw, roeddent yn cael gwared ar dasgau gweinyddol diangen ac yn sicrhau bod staff yn cael digon o amser i gynllunio a chydweithio. Yn gynyddol, bu arweinwyr ysgolion yn ceisio bod yn greadigol er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i staff a chydbwysedd gwell rhwng gwaith a bywyd. Mewn ychydig o ysgolion uwchradd, bu penaethiaid yn greadigol ag amser CPA er mwyn galluogi staff i gael un prynhawn bob pythefnos pan allent weithio gartref neu ddod i'r ysgol ychydig yn hwyrach yn y bore. Fodd bynnag, mae ymagweddau fel y rhain yn dod yn anoddach yn sgil heriau cyllidebol diweddar.

Bu heriau hefyd o ran recriwtio a chadw staff cymorth. Yn gynyddol, nid oedd cynorthwywyr cymorth â phlant hŷn yn cael eu denu gan fanteision gwyliau ysgol mwyach, ac felly roeddent yn gwneud ceisiadau am swyddi eraill sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd neu weithio hybrid, llwybrau gyrfa gwell a chyflog gwell.

Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr ysgolion wedi sôn am fanteision partneriaethau ag addysg gychwynnol athrawon, gan gynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff a chyfleoedd recriwtio gwell. Mae'r cydweithrediadau hyn hefyd yn meithrin diwylliant o welliant parhaus ac arloesi, sy'n gallu cyfrannu at wella ansawdd cyffredinol addysg yn yr ysgol.

Er gwaethaf y cynnydd diweddar i gyflog cychwynnol newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn, mae sawl mater sylfaenol sy'n llesteirio recriwtio effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys anhyblygrwydd cymharol amodau gwaith athrawon, gostyngiad yn nifer y bobl rhwng 20 a 25 oed ac amgyffrediad gwael y cyhoedd o addysgu fel proffesiwn.

Data: Recriwtio athrawon: nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl pwnc a blwyddyn (llyw.cymru)

## Recriwtio penaethiaid

Mae penodi i swyddi arweinyddiaeth wedi dod yn anoddach hefyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae heriau diweddar, fel pandemig COVID-19 a newidiadau sylweddol i systemau fel diwygio'r cwricwlwm a diwygio ADY, wedi ychwanegu at bwysau llwyth gwaith penaethiaid ac arweinwyr eraill. Roedd llawer o benaethiaid yn teimlo bod y materion hyn yn creu pwysau ychwanegol y tu hwnt i'r hyn roeddent eisoes yn teimlo oedd yn alwedigaeth heriol. Mae hyn wedi cyfrannu at ychydig o arweinwyr yn mynegi morâl isel yn y rôl ac wedi atal athrawon rhag ceisio rolau arweinyddiaeth.

Wrth wynebu anawsterau recriwtio i rolau arweinyddiaeth ac, yn benodol, i rolau prifathrawiaeth, roedd awdurdodau lleol ac ysgolion yn aml yn ystyried dewisiadau eraill posibl. Roedd y rhain yn aml yn atebion dros dro nes bod pennaeth parhaol yn cael ei benodi, fel uwch arweinydd neu athro arall

yn yr ysgol yn ymgymryd â rôl y pennaeth neu bennaeth neu arweinydd o ysgol gyfagos arall yn gweithredu fel pennaeth gweithredol. Pan fyddai'r ateb dros dro wedi dod i ben, mae nifer gynyddol o ysgolion ac awdurdodau lleol wedi ceisio datblygu atebion mwy hirdymor. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, creu ffederasiwn o ysgolion lle mae un pennaeth yn gyfrifol am fwy nag un ysgol. Mae diffyg ymchwil i fanteision yr arfer hon a'i heffaith ar ddisgyblion. Er bod yr arfer hon yn datrys problem yn ddamcaniaethol, roedd penaethiaid yn aml yn gweld beichiau'r rôl yn llethol.

* Daw'r ffigurau y mae'r sylwebaeth hon yn cyfeirio atynt o ddata heb ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru

# Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Ar draws pob sector ym mlwyddyn academaidd 2023-24, roedd mwyafrif y darparwyr yn gwerthuso eu gwaith yn briodol, tra nad oedd lleiafrif ohonynt yn gwneud hynny'n ddigon da.

Er bod nodweddion cyffredin sy'n tanategu hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn effeithiol, mae cyd-destun y ddarpariaeth yn allweddol hefyd. Er enghraifft, mae lleoliadau nas cynhelir yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Gallent fod yn endidau bach iawn, sy'n darparu addysg y blynyddoedd cynnar o neuaddau pentref neu eglwys, lle mae angen iddynt roi'r holl adnoddau i gadw ar ddiwedd bob dydd, i fusnesau mawr preifat sy'n cyflogi dwsinau o staff. Mae arweinwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector nas cynhelir yn amrywiol ac mae lefel eu harbenigedd a'u dealltwriaeth o arweinyddiaeth a rheolaeth yn amrywio.

Ar y cyfan, mae llawer o arweinwyr yn gwerthuso eu lleoliadau nas cynhelir yn gywir. Yn yr achosion hyn, mae eu prosesau hunanwerthuso yn llywio eu cynlluniau gwella yn bwrpasol. Mae eu camau gweithredu cynlluniedig yn rhesymol a realistig ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn arwain at y canlyniadau arfaethedig. Mewn ychydig o leoliadau, mae arweinwyr yn cael trafferth nodi'r meysydd pwysicaf i'w gwella. Maent yn blaenoriaethu meysydd sydd o ddiddordeb iddynt, yn hytrach na'r rhai y mae angen eu gwella fwyaf.

Lle'r oedd hunanwerthuso'n effeithiol mewn ysgolion ac UCDau, roedd arweinwyr ar bob lefel yn casglu tystiolaeth uniongyrchol o ystod eang o ffynonellau ac roedd bron pob un o'r staff yn gallu cyfrannu'n ystyrlon at y prosesau hyn. Yn aml, roedd llywodraethwyr neu'r corff rheoli cyfatebol yn cael eu cynnwys yn briodol, hefyd. Fel arfer, roedd ffynonellau tystiolaeth yn cynnwys arsylwi addysgu, edrych ar waith dysgwyr a chasglu barn staff, dysgwyr, rhieni a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Roedd arweinwyr hefyd yn cynnal dadansoddiadau perthnasol o ystod o ddata i roi darlun trylwyr a chyflawn o ddarpariaeth a chynnydd dysgwyr. Roedd arweinwyr yn sicrhau eu bod yn gwerthuso pob agwedd ar eu darpariaeth, gan gynnwys, er enghraifft, effaith dysgu proffesiynol ar addysgu a dysgu, yn ogystal ag effaith sut cafodd grantiau eu gwario. Mewn ychydig o achosion, roedd darparwyr yn defnyddio partneriaid allanol i ddilysu a chyfrannu at eu canfyddiadau eu hunain.

Yn y sector gwasanaethau addysg llywodraeth leol, mae hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn feysydd i'w gwella a nodwyd ym mhob un o'r arolygiadau diweddar. Yn 2023-2024, cafodd pob un o'r awdurdodau lleol a arolygwyd argymhelliad i gryfhau agweddau ar eu prosesau gwerthuso a gwella. Roedd hyn yn wir yn 2022-2023, hefyd. Yn aml, nid oedd cynlluniau gwella yn nodi meini prawf llwyddiant clir i helpu swyddogion i ystyried effaith camau gweithredu ar wella deilliannau a darpariaeth i blant a phobl ifanc. Er bod swyddogion yn monitro p'un a oedd camau gweithredu wedi'u cwblhau, nid oeddent yn gwerthuso effaith eu gwaith yn ddigon da bob tro. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn ddigon manwl ac yn arwain at amrywiad o ran ansawdd hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella mewn awdurdodau lleol.

Ar draws yr holl sectorau rydym yn eu harolygu, canfuom, lle'r oedd hunanwerthuso wedi'i wreiddio yn niwylliant y darparwr, fod arweinwyr yn cynllunio rhaglen gydlynol o weithgareddau monitro,

gwerthuso ac adolygu ymhell ymlaen llaw a'u bod yn rhannu hyn â'r holl staff. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd o brosesau hunanwerthuso effeithiol yn galluogi arweinwyr ar bob lefel i fod â dealltwriaeth gadarn o'r cynnydd roedd dysgwyr yn ei wneud. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n strategol i ddyrannu adnoddau, er enghraifft i gefnogi agweddau ar fedrau dysgwyr yr oedd angen cymorth targedig arnynt i wella.

Yn yr enghreifftiau gorau oll yn y sector ysgolion ac UCDau, roedd arweinwyr yn barnu addysgu yn ôl ei effaith ar ddysgu ac roedd athrawon yn fyfyriol, yn gwerthuso eu sesiynau eu hunain yn rheolaidd ac yn mireinio eu haddysgu o ganlyniad i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd da. Roedd staff yn croesawu'r craffu a oedd yn deillio o ddiwylliant gwerthusol. Roeddent yn agored ac yn awyddus i arloesi a gwella.

Lle'r oedd y darparwr yn bartneriaeth o sefydliadau, roedd hunanwerthuso effeithiol yn cynnwys bod â phrosesau cyson ar draws y canolfannau gwahanol a dull clir i ddod â'r wybodaeth hon at ei gilydd yn gydlynol i roi trosolwg a dealltwriaeth gywir a chytûn o ddarpariaeth a safonau.

At ei gilydd, roedd hunanwerthuso cryf yn galluogi arweinwyr i wybod cryfderau darparwr a'i feysydd i'w gwella yn dda. Mewn llawer o achosion, roedd cyswllt clir rhwng canfyddiadau hunanwerthuso, blaenoriaethau ar gyfer gwella a'r rhaglen dysgu proffesiynol gyffredinol a thargedig i gefnogi cynnydd tuag at y blaenoriaethau hyn. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn dilyn bod hunanwerthuso effeithiol yn sicrhau cynllunio da ar gyfer gwella, ac i'r gwrthwyneb. Mewn ychydig o ddarparwyr, roedd arweinwyr yn gwerthuso'n drylwyr ac yn gywir, ond nid oeddent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i fynd i'r afael â gwendidau mewn darpariaeth yn ddigon da. I'r gwrthwyneb, roedd gan ychydig o ddarparwr gynlluniau cadarn ar gyfer gwella, a oedd yn cael effaith fuddiol, ond nid oeddent yn canolbwyntio ar yr agweddau ar ddarpariaeth yr oedd angen eu gwella ar fwyaf o frys oherwydd nad oedd hunanwerthuso yn ddigon effeithiol.

## Arfer effeithiol: Ysgol Gynradd Adamsdown

Sut defnyddiodd Ysgol Gynradd Adamsdown arweinyddiaeth ddosbarthedig i gefnogi prosesau hunanwerthuso llwyddiannus a rhoi newidiadau ysgol gyfan ar waith | Estyn (llyw.cymru)

Er mwyn cynnal gwelliannau diweddar a wnaed, roedd angen i'r pennaeth adolygu gweledigaeth yr ysgol gyda'r holl randdeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys ymgorffori rhaglen monitro, gwerthuso ac adrodd i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn ymwybodol o waelodlin safonau'r ysgol ar draws pob maes o fywyd yr ysgol, wedi'i dilyn gan y blaenoriaethau cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Wedyn, datblygwyd llinell amser i roi'r weledigaeth ar waith. Trwy gyfres o ddiwrnodau hyfforddiant ysgol gyfan, datblygodd rhanddeiliaid yr ysgol ei nodau ar gyfer y 3 i 5 mlynedd nesaf. Ailysgrifennwyd gweledigaeth yr ysgol i adlewyrchu anghenion amrywiol y dysgwyr yn gywir. Roedd y broses hon yn cynnwys arweinwyr, llywodraethwyr, staff, disgyblion, rhieni a chysylltiadau â'r gymuned.

I gefnogi'r tîm arweinyddiaeth i roi'r weledigaeth ar waith, cynhaliwyd treial arloesol i gyflwyno system newydd ar gyfer grwpio disgyblion yn 2017. Arweiniwyd hyn gan y pennaeth cynorthwyol ac athrawon ar y raddfa gyflog uwch. Dadansoddwyd data a gynhyrchwyd o gyfarfodydd cynnydd disgyblion, a dangosodd hynny fod disgyblion wedi gwneud cynnydd cyflym yn y treial. Dadansoddwyd y data hwn gan arweinwyr â chyfrifoldeb addysgu a dysgu ar draws y pynciau craidd, sef mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth. Adolygwyd yr holl agweddau ar y cwricwlwm, wedi'i gefnogi gan athrawon ar y brif raddfa gyflog a oedd yn arwain meysydd pynciau sylfaen.

Fel y crybwyllwyd, ar draws pob sector, roedd mwyafrif y darparwr yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliannau ac nid oedd lleiafrif ohonynt yn cynllunio'n ddigon da. Lle'r oedd cynllunio gwelliant yn effeithiol, nododd arweinwyr nifer fach o flaenoriaethau pwysig o ganfyddiadau hunanwerthuso a gweithio ar y rhain ochr yn ochr â blaenoriaethau cenedlaethol, fel presenoldeb, y Gymraeg, y cwricwlwm a diwygio ADY, a lliniaru effaith tlodi ar les a chyrhaeddiad. Cymhwysodd arweinwyr flaenoriaethau cenedlaethol i'w cyd-destunau eu hunain yn synhwyrol. Sicrhaont fod cynlluniau'n cael eu datblygu ar y cyd, gan roi ymdeimlad o gydberchnogaeth i arweinwyr canol, staff eraill a llywodraethwyr. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir ar lefelau arweinyddiaeth gwahanol. Roedd amserlenni realistig ar gyfer cyflawni targedau manwl ac roedd pawb yn deall sut olwg fyddai ar lwyddiant a sut byddent yn ei werthuso neu'n ei fesur. Dyrannodd arweinwyr adnoddau priodol i gefnogi'r cynlluniau hyn a, lle bo'n berthnasol, darparwyd y dysgu proffesiynol roedd ei angen ar staff i wella eu harfer fel rhan annatod o'r broses. Roedd trefniadau rheoli perfformiad y darparwyr wedi'u cysylltu â'u blaenoriaethau. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd cynllunio gwelliant yn broses barhaus lle'r oedd staff yn ailedrych ar gynlluniau, yn eu hadolygu ac yn eu diwygio'n rheolaidd. Roedd arweinwyr yn sicrhau bod cynnydd tuag at flaenoriaethau yn cael ei rannu â staff ac roedd yn aml yn ffocws pwysig mewn cyfarfodydd. Uwchlaw popeth, cafodd cynllunio effeithiol effaith gadarnhaol amlwg ar ansawdd yr addysgu ac ar gynnydd dysgwyr a oedd yn ddealladwy i'r holl staff.

## Arfer effeithiol: Ysgol Gyfun Pontarddulais

Gwella'r ysgol – Sut mae cylch cynhwysol o brosesau gwella ysgol yn gwella darpariaeth a deilliannau disgyblion yn barhaus | Estyn (llyw.cymru)

Nodwedd nodedig o gylch gwella'r ysgol yw'r sesiwn flynyddol, 'Lansio Gwella'r Ysgol', sef sesiwn gydweithredol sy'n cynnwys staff, llywodraethwyr a chynrychiolwyr disgyblion. Mae'r broses gynhwysol hon yn sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu hystyried, gan feithrin perchnogaeth ar y cyd dros flaenoriaethau strategol. Mae'r sesiwn hon yn llywio Cynllun Datblygu'r Ysgol (CDY), sef adnodd dynamig sy'n arwain cymuned gyfan yr ysgol at nodau cyffredin.

Mae'r CDY yn ysgogi cam cynllunio cylch gwella'r ysgol, sy'n cynnwys Cynlluniau Datblygu Maes (CDM) sy'n debyg o ran arddull a chynnwys i'r CDY, er eu bod wedi'u llunio hefyd i wasanaethu eu cyd-destun ar lefel maes/pwnc. Yn eu tro, mae amcanion rheoli perfformiad yn ddeilliannau naturiol y CDY a'r CDM. Mae cysoni'r prosesau hyn yn sicrhau synergedd a chyfrifoldeb colegol am wella'r ysgol. Mae'r Tîm Prifathrawiaeth Estynedig yn sgorio'r CDY yn ôl Coch/Melyn/Gwyrdd ac mae'r llywodraethwyr yn craffu arno'n rheolaidd, gan sicrhau dealltwriaeth glir o gynnydd a meysydd sydd angen sylw ychwanegol. Mae aelodau'r Tîm Prifathrawiaeth Estynedig yn arwain strategaethau unigol, gan gynnig dolen adborth barhaus o fewn cyfarfodydd cyswllt bob pythefnos.

Ledled Cymru, rhoddwyd argymhelliad i leiafrif o ysgolion ac UCDau ar ôl arolygiad i wella eu hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Roedd yr argymhellion hyn yn amlygu tri phrif faes lle'r oedd gwendid. Yn gyntaf, mewn ychydig o ddarparwr, nid oedd arweinwyr yn canolbwyntio hunanwerthuso'n ddigon da ar nodi cryfderau a meysydd i'w gwella mewn addysgu. Yn ail, wrth werthuso addysgu, nid oedd ychydig o ddarparwyr yn ystyried ei effaith ar ddysgu. Yn drydydd, mewn ychydig o ddarparwyr, nid oedd arweinwyr yn canolbwyntio eu cynlluniau gwella ar yr agweddau ar ddarpariaeth yr oedd yr angen mwyaf brys i'w gwella. Mewn ychydig iawn o ddarparwyr, roedd gwendidau penodol eraill, fel peidio â chasglu safbwyntiau dysgwyr neu eithrio llywodraethwyr o brosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Hefyd, mewn ychydig iawn o ddarparwyr, roedd gwendidau cyffredinol â'r prosesau hyn, a oedd naill ai'n rhy fiwrocrataidd ac yn mynnu llawer o amser, neu a oedd yn cynnwys diffyg trylwyredd, yn rhy dameidiog i fod yn ddefnyddiol neu yn y camau cynnar o'u datblygu.

Nid yw'n syndod bod gan ddarparwyr sy'n cael eu rhoi mewn categori statudol argymhellion bron bob tro i gryfhau eu prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, gan fod anallu arweinwyr i nodi gwendidau pwysig a chynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliannau yn debygol iawn o fod yn ffactorau sy'n achosi iddynt berfformio'n wael. Felly, yn aml, mae darparwyr ar draws sectorau sy'n cael eu tynnu o gategorïau statudol wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w prosesau i'w gwneud yn fwy cydweithredol, trylwyr a thryloyw. Mewn ysgolion ac UCDau, er enghraifft, mae arweinwyr wedi sicrhau bod ffocws hunanwerthuso ar ansawdd yr addysgu a'i effaith ar gynnydd dysgwyr. Yna, maent wedi sicrhau bod cynllunio gwelliant yn canolbwyntio'n fanwl ar yr agweddau hynny ar addysgu a dysgu sydd angen y sylw mwyaf a bod rhaglen gydlynol o ddysgu proffesiynol i gefnogi hyn. Dyma ddwy enghraifft o ddarparwyr sydd wedi'u tynnu o gategorïau statudol yn 2023-2024 yn y modd hwn:

Adroddiad monitro Ysgol Gatholig Sant Ioan Llwyd 2023 (llyw.cymru)

Adroddiad monitro Ysgol Gynradd Dewstow 2024 (llyw.cymru)

## Cwestiynau hunanfyfyrio

- Beth yw'r ffynonellau tystiolaeth gorau ar gyfer gwerthuso unrhyw agwedd benodol ar ein darpariaeth?
- Sut gallem ni gynnwys dysgwyr, staff, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yn ystyrlon wrth werthuso'r hyn a wnawn a chynllunio ar gyfer gwella?
- Beth yw'r cydbwysedd yn ein gwaith hunanwerthuso rhwng tystiolaeth uniongyrchol a deilliannau crynodol? A ydym yn dibynnu gormod ar y naill neu'r llall wrth werthuso darpariaeth a chynnydd dysgwyr?
- A oes unrhyw agweddau pwysig ar ein darpariaeth nad ydym yn eu gwerthuso ar hyn o bryd? A ddylem fod yn eu gwerthuso? Pa mor aml?
- I ba raddau ydym yn gwerthuso ein gwaith yn ôl ei effaith ar ansawdd yr addysgu a'r cynnydd a wna dysgwyr?
- At ei gilydd, pa mor drylwyr, gonest a chywir yw ein hunanwerthuso? Pa mor hyderus ydym ein bod yn gwybod ein cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn dda? Pa mor gyson yw ein hunanwerthuso ar lefelau arweinyddiaeth gwahanol?
- I ba raddau y mae ein blaenoriaethau ar gyfer gwella yn llifo'n naturiol o werthuso ein darpariaeth a chynnydd dysgwyr?
- Sut byddwn yn mesur p'un a ydym wedi gwneud cynnydd (digonol) ai peidio o ran bodloni ein targedau gwella? A yw ein meini prawf llwyddiant yn fanwl ac yn fesuradwy?
- A oes llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir yn ein cynlluniau? Pa mor realistig yw ein hamserlenni ar gyfer cyflawni ein blaenoriaethau?
- A ydym wedi dyrannu digon o adnoddau i gyflawni ein blaenoriaethau?
- I ba raddau y mae ein rhaglen o ddysgu proffesiynol a'n trefniadau rheoli perfformiad yn cefnogi ein cynlluniau gwella?
- Pa mor hylaw a chynaliadwy yw ein prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar gyfer uwch arweinwyr, arweinwyr canol a staff eraill?

Mae ystod eang o adnoddau hunanwerthuso defnyddiol i ddarparwyr eu defnyddio yma.

# Presenoldeb

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym

Mae'r gwerthusiad canlynol wedi'i seilio ar ddata o amrywiaeth o gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, y ceir dolenni iddynt yn Atodiad A.

Yn adroddiad blynyddol Estyn 2022-2023, amlygom y gostyngiad nodedig mewn presenoldeb ysgol ar ôl y pandemig. Roedd y gostyngiad yn arbennig o fawr ar gyfer disgyblion oed uwchradd, gyda'r gyfradd presenoldeb wedi gostwng 6.3 pwynt canran rhwng 2018-2019 a 2022-2023. Mae hyn yn cyfateb i bob disgybl, ar gyfartaledd, yn mynychu'r ysgol am 12 diwrnod yn llai yn 2022-2023 nag y gwnaethant yn ystod 2018-2019. Ar gyfer disgyblion oed cynradd, gostyngodd presenoldeb 3.1 pwynt canran dros yr un cyfnod. Mae Ffigur 1 yn dangos y duedd yn y gyfradd presenoldeb dros gyfnod, o 2013-2014 i 2023-2024. Nid oes data ar gael ar gyfer blynyddoedd academaidd 2019-2020, 2020-2021 a 2021-2022.

### Ffigur 1: Ystadegau Presenoldeb Ysgolion (2013-2024)




Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiweddaraf, sef 2023-2024, mae cyfradd presenoldeb disgyblion oed cynradd wedi cynyddu 0.6 pwynt canran i 92.1% er bod y gyfradd 2.5 pwynt canran yn is na'r

lefel cyn y pandemig o hyd. Ar gyfer disgyblion oed uwchradd, mae'r gyfradd presenoldeb wedi aros yn ystyfnig o isel. Dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae'r gyfradd presenoldeb uwchradd wedi cynyddu 0.5 pwynt canran yn unig, ac mae 5.7 pwynt canran yn is na'r hyn a welwyd yn 2018-2019 o hyd. Ar y gyfradd wella bresennol, byddai'n cymryd dros 10 mlynedd i bresenoldeb uwchradd wella i'r lefelau cyn y pandemig.

Mae dadansoddiad o gyfraddau presenoldeb ar ôl y pandemig hefyd yn dangos amrywiad llawer ehangach mewn presenoldeb na chyfraddau cyn y pandemig. Er enghraifft, mewn un ysgol uwchradd, roedd presenoldeb yn 2022-2023 1.3 pwynt canran yn unig islaw 2018-2019, tra disgynnodd presenoldeb 10 ysgol uwchradd arall 10 pwynt canran dros yr un cyfnod. Mae amrywiad hefyd yn y cyfraddau presenoldeb rhwng awdurdodau lleol ac ansawdd y cymorth a roddir gan awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion i wella presenoldeb. Yn yr achosion mwyaf difrifol o bresenoldeb gwael, nid yw awdurdodau lleol wedi ymateb yn ddigon cyflym i ddatblygu trefniadau teilwredig i gefnogi ysgolion unigol.

Pan gaiff y data ei ystyried fesul Blwyddyn ysgol, mae Ffigur 2 yn dangos bod y gyfradd presenoldeb yn weddol debyg ar gyfer disgyblion o bob oed yn y sector cynradd. Fodd bynnag, ar gyfer disgyblion oed uwchradd, mae'r gyfradd presenoldeb yn disgyn yn sylweddol wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn. Mae'r data hefyd yn dangos, er bod presenoldeb disgyblion Blwyddyn 11 wedi cynyddu 0.9 pwynt canran rhwng 2022-2023 a 2023-2024, roedd y cynnydd yng nghyfraddau presenoldeb disgyblion ym Mlynyddoedd 8 a 9 yn fach iawn. Mae hwn yn bryder penodol.

**Ffigur 2: Cyfraddau Presenoldeb yn ôl Blwyddyn (2022-23 a 2023-24)**




Yn hanesyddol, bu'r gwahaniaethau rhwng presenoldeb gwrywod a benywod yn fach. Mae hyn wedi parhau i fod yn wir ers y pandemig.

Un o’r grwpiau o ddisgyblion yr effeithiodd y pandemig arno fwyaf oedd disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2018-2019, y bwlch rhwng presenoldeb disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’u cyfoedion oedd 3.1 pwynt canran yn y sector cynradd a 5.2 pwynt canran yn y sector uwchradd. Gostyngodd presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gan swm sylweddol uwch na’u cyfoedion yn ystod y pandemig. O ganlyniad, cynyddodd y gwahaniaethau hyn yn sylweddol ac, yn 2022-2023, y bylchau oedd 5.8 pwynt canran ar gyfer disgyblion oed cynradd a 10.4 pwynt canran ar gyfer disgyblion oed uwchradd. Rhwng 2022-2023 a 2023-2024, roedd y gwahaniaeth rhwng presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’u cyfoedion yn llai, ond dim ond o ychydig bach iawn. Fodd bynnag, mae’r gwahaniaeth hwn yn sylweddol fwy na’r lefelau cyn y pandemig o hyd. Yn y sector uwchradd, mae disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn colli un diwrnod o ysgol yr wythnos o hyd, ar gyfartaledd.

Pryder arall yw’r cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion y mae eu rhieni’n dewis eu haddysgu gartref. Cyfradd y disgyblion sy’n cael addysg ddewisol yn y cartref yn 2023-2024 yw 13.0 fesul 1,000 o ddisgyblion. Mae’r gyfradd hon wedi cynyddu bob blwyddyn er 2009-2010, pan roedd yn 1.6 fesul 1,000 o ddisgyblion.

### Ffigur 3: Presenoldeb yn ôl Cymhwysedd Prydau Ysgol Am Ddim




Yn ystod arolygiadau ac ymgysylltiadau eraill ag arweinwyr ysgolion, nodwyd fod dau brif reswm pam y mae cyfraddau presenoldeb yn isel o hyd, sef:

- Cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy’n absennol yn gyson neu’n gwrthod mynychu’r ysgol. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yn nifer y disgyblion sydd â phroblemau iechyd meddwl ac felly sydd naill ai ddim yn mynychu neu sy’n absennol yn rheolaidd.
- Newid diwylliant ymhlith rhieni, sydd bellach yn rhoi llai o bwys ar eu plant yn mynychu ysgolion

yn rheolaidd.

Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar absenoldebau cyson ar ddau drothwy gwahanol, sef y disgyblion hynny sy'n absennol am fwy na 10% o sesiynau, a'r rhai sy'n absennol am fwy nag 20% o sesiynau. Mae'r data hwn yn amlygu difrifoldeb yr heriau y mae'r system addysg yng Nghymru yn eu hwynebu o ran presenoldeb disgyblion. Rhwng 2018-2019 a 2022-2023, bu i ganran y disgyblion oed uwchradd a oedd yn absennol am fwy nag 20% o sesiynau fwy na threblu o 4.6% i 16.3%. Ar gyfer disgyblion oed cynradd, cododd y gyfradd o 1.8% i 4.5%. Mae Ffigur 4 yn dangos, yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mai dim ond gwelliannau bach a fu yn y cyfraddau hyn, a bod cyflymder y gwelliant yn rhy araf. Mae gormod o ddisgyblion yn absennol o ysgolion yn gyson. Yn ystod ein gweithgarwch arolygu a rhyngweithiadau eraill ag arweinwyr ysgolion, dywedasant nad oes gan ysgolion ac awdurdodau lleol y gallu i ymdopi â'r cynnydd sylweddol mewn absenoldebau cyson. Mae hyn yn arbennig o wir yn y sector uwchradd. Un o'r ystadegau sy'n peri'r pryder mwyaf yw, yn 2022-2023, roedd 32.5% o ddisgyblion oed uwchradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn absennol am o leiaf 20% o'u sesiynau. Roedd mân welliant yn 2023-2024, ond mae ychydig yn llai na thraean o'r grŵp hwn o ddisgyblion (31.5%) yn parhau i golli un diwrnod ysgol yr wythnos, ar gyfartaledd.

### Ffigur 4: Cyfraddau Absenoldeb Parhaus




## Tystiolaeth o arolygu ysgolion a gwaith thematig

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024, roedd gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd drefniadau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb ac ymyrryd pan nad oedd disgyblion yn mynychu'n ddigon rheolaidd. Cryfderau penodol oedd y cyfathrebu rhwng yr ysgol gynradd a'i rhieni a'r ymdeimlad cryf o gymuned roedd yr ysgolion hyn wedi'i greu. Cyfrannodd y ffactorau hyn at y cynnydd 1 pwynt

canran a welwyd ym mhresenoldeb disgyblion oed cynradd. Mewn ychydig o ysgolion cynradd, roedd cyfradd adfer presenoldeb yn rhy araf.

Yn y sectorau uwchradd a phob oed, cafodd tua hanner yr ysgolion argymhelliad i wella eu presenoldeb. Roedd diffygion yng ngwaith ysgolion yn y maes hwn yn cynnwys:

- Arweinwyr heb drosolwg digon manwl o'r gwaith yn y maes hwn.
- Arweinwyr yn peidio â defnyddio data i fonitro presenoldeb disgyblion yn ddigon trylwyr neu dargedu eu hymyriadau'n ddigonol.
- Diffyg cyfathrebu effeithiol â rhieni a gofalwyr.
- Diffyg cydlyniad o ran ymagweddau ysgolion. Er enghraifft, nid yw arweinwyr yn ystyried y cysylltiadau rhwng strategaethau i wella presenoldeb a'r rhai sy'n cefnogi agweddau eraill ar waith yr ysgol bob tro. Mae'r agweddau hyn yn cynnwys lles disgyblion, strategaethau i ddatblygu gweithio cymunedol, a'r effaith y gall gwella addysgu a'r cwricwlwm, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol, ei chael ar ymgysylltiad disgyblion yn yr ysgol.
- Diffyg ymagwedd ysgol gyfan, gyda phresenoldeb yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb un unigolyn neu dîm bugeiliol bach, yn hytrach na chreu cysylltiadau rhwng agweddau ar waith yr ysgol.
- Arweinwyr yn peidio â gosod targedau digon uchelgeisiol ar gyfer presenoldeb.
- Arweinwyr yn rhy araf i ymyrryd pan fydd presenoldeb disgyblion yn gostwng. Er enghraifft, nid oedd rhai ysgolion yn ymyrryd nes i bresenoldeb disgybl ddisgyn o dan 80%.
- Ysgolion ddim yn gweithio'n ddigon da mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol.

Diffyg cyffredin yn yr ysgolion hyn oedd nad oedd arweinwyr yn gwerthuso eu gwaith yn y maes hwn yn ddigon da. O ganlyniad, nid oedd ganddynt ddealltwriaeth ddigon clir o ba agweddau ar eu gwaith oedd yn cael yr effaith fwyaf a lleiaf.

## Arfer effeithiol

Adroddodd arolygwyr fod gan y rhan fwyaf o ysgolion brosesau cadarn ar gyfer ymateb diwrnod cyntaf i absenoldeb disgyblion, ac roedd llawer o arweinwyr y cyfarfuom â nhw o'r farn bod hybu presenoldeb da yn flaenoriaeth. Lle'r oedd ysgolion yn effeithiol o ran sicrhau bod cyfraddau presenoldeb yn gwella, roedd nodweddion cyffredin darpariaeth yn y maes hwn yn cynnwys:

- Arweinwyr yn rhannu disgwyliadau uchel ar yr agwedd hon â chymuned yr ysgol gyfan.
- Arweinwyr yn dadansoddi data'n drylwyr i chwilio am batrymau a thueddiadau presenoldeb. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar y data yn ôl diwrnod ac amseroedd, yn ôl grŵp blwyddyn, yn ôl grwpiau o ddisgyblion ac yn ôl grwpiau cyfoedion.
- Arweinwyr yn nodi'n gynnar unrhyw ddisgyblion sydd mewn perygl o beidio â mynychu ac yn rhoi camau ar waith i gefnogi'r disgyblion hyn.
- Ysgolion yn defnyddio ymateb graddedig gan gynnwys yr holl athrawon dosbarth yn y lle cyntaf, gydag arweinwyr, uwch arweinwyr ac yna asiantaethau allanol yn delio ag achosion mwy difrifol.
- Gwaith cryf â theuluoedd i gefnogi teuluoedd i wella eu presenoldeb.
- Cyswllt rheolaidd â rhieni a gofalwyr, yn aml trwy ddefnyddio technoleg a chyfryngau cymdeithasol yn effeithiol.
- Darparu mannau diogel pan fydd disgyblion yn dechrau mynychu, fel clybiau brecwast, clybiau amser cinio ac ardaloedd lle gellir cynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion, yn ôl yr angen.

- Ysgolion uwchradd yn gweithio'n dda â'u hysgolion cynradd partner i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym ar ddechrau Blwyddyn 7.
- Ysgolion yn addasu'r cwricwlwm i fodloni anghenion disgyblion a sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu o ansawdd uchel.
- Arweinwyr yn ceisio barn disgyblion yn rheolaidd ar sut i sicrhau eu bod yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.
- Arweinwyr yn pwysleisio'r cysylltiad rhwng presenoldeb rheolaidd a chyflawniad addysgol i ddisgyblion a rhieni.
- Ysgolion yn hybu presenoldeb da trwy wobrwyo presenoldeb rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cynghreiriau presenoldeb dosbarth a chystadlaethau.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyhoeddodd Estyn nifer o astudiaethau achos a cameos arfer effeithiol yn ymwneud â gwella presenoldeb, sy'n cynnwys gwaith yr ysgolion canlynol:

  - Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed
  - Ysgol Gyfun Pontarddulais
  - Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant
  - Ysgol Emmanuel

## Cwestiynau i'w hystyried wrth ddadansoddi data yn ymwneud â phresenoldeb

Gellid defnyddio'r cwestiynau canlynol wrth werthuso ymagweddau'r ysgol at bresenoldeb. Wrth ddadansoddi data presenoldeb, mae'n bwysig bod arweinwyr yn eu defnyddio i ddarparu trywyddau ymholi y gellir ymchwilio iddynt ymhellach.

- Sut mae'r gyfradd presenoldeb gyffredinol wedi newid dros gyfnod? Pa mor dda y mae'r gyfradd presenoldeb gyffredinol yn cymharu ag ysgolion tebyg?
- A yw'r duedd o ran presenoldeb yn cyd-fynd ag ysgolion eraill yn genedlaethol / ysgolion eraill yn yr ardal leol / ysgolion eraill sydd â chyd-destun tebyg, neu'n wahanol iddynt?
- Pa mor aml ydym yn dadansoddi data mewnol ar bresenoldeb? A ydym yn dadansoddi data ar gyfer grwpiau gwahanol o ddisgyblion, er enghraifft yn ôl grŵp Blwyddyn, grŵp cyfoedion, rhywedd, cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim, diwrnod ysgol, agosrwydd eu cartref i'r ysgol ac ati? Sut ydym yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i gynllunio ar gyfer gwella?
- Pa dueddiadau allwn ni eu gweld ym mhresenoldeb ein disgyblion? Er enghraifft, a oes tueddiadau yn gysylltiedig ag amser o'r dydd, diwrnod o'r wythnos, adeg o'r flwyddyn?
- A ydym yn dadansoddi data yn ôl y rhesymau dros yr absenoldeb? A ydym yn defnyddio data cymharol ar gyfer ysgolion tebyg wrth edrych ar gyfraddau absenoldebau cyson?
- Sut mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cymharu â phresenoldeb disgyblion eraill yn yr ysgol a'u cyfoedion yn genedlaethol?
- Sut mae presenoldeb disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cymharu â phresenoldeb disgyblion eraill yn yr ysgol?
- A oes unrhyw grwpiau Blwyddyn lle mae presenoldeb yn arbennig o gryf neu'n wan?
- A oes unrhyw grwpiau eraill o ddisgyblion y mae eu presenoldeb yn peri pryder?

## Cwestiynau ar gyfer ystyried y cymorth i wella presenoldeb disgyblion

- Pa mor dda ydym yn cofnodi ac yn dadansoddi data presenoldeb ac yn nodi meysydd i'w gwella?
- Pa mor dda ydym yn hybu presenoldeb da?
- Pa mor dda ydym yn cydweithio â theuluoedd a'r gymuned i gefnogi disgyblion â phresenoldeb isel?
- Pa mor dda ydym yn ymateb pan fydd disgyblion yn absennol oherwydd bod eu lles yn cael ei effeithio'n andwyol pan fyddant yn mynychu'r ysgol?
- Pa mor effeithiol yw ein gwaith ag asiantaethau eraill i gefnogi disgyblion â phresenoldeb isel?
- Os oes unrhyw ddisgyblion ar amserlen lai ar gyfer presenoldeb ysgol, a yw'r trefniadau ar gyfer eu haddysgu yn briodol ac yn cael eu monitro'n ofalus?

## Cwestiynau i arweinwyr eu defnyddio wrth werthuso gwaith yr ysgol i wella presenoldeb

- A oes gan arweinwyr ac athrawon drosolwg da o bresenoldeb yn eu meysydd cyfrifoldeb?
- A oes gan arweinwyr ac athrawon drosolwg o'r meysydd i'w gwella yn ymwneud â phresenoldeb?
- Pa mor dda ydym ni fel arweinwyr yn cynllunio ar gyfer gwella presenoldeb?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio ei hadnoddau i gefnogi presenoldeb da?
- Pa effaith y mae ein gwaith wedi'i gael ar wella presenoldeb disgyblion?
- Pa mor gywir a chadarn yw ein dadansoddiad o ddata presenoldeb?
- Pa mor dda ydym yn defnyddio data presenoldeb i nodi meysydd i'w gwella ac i werthuso unrhyw strategaethau rydym wedi'u rhoi ar waith? A oes gennym ddealltwriaeth dda o ba strategaethau sy'n cael yr effaith fwyaf?

## Atodiad A

Ffynonellau data:
Mae'r sylwebaeth ar bresenoldeb wedi'i seilio ar ddwy set ddata wahanol. Ar gyfer disgyblion oed uwchradd, rydym wedi defnyddio'r data blynyddol wedi'i ddilysu ar absenoldebau o ysgolion uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2023d and Llywodraeth Cymru, 2024d). Ar gyfer disgyblion oed cynradd, rydym wedi defnyddio'r data blynyddol wedi'i ddilysu ar absenoldebau o ysgolion cynradd (Llywodraeth Cymru, 2023e and Llywodraeth Cymru, 2024e). Dyma'r diweddaraf yn y gyfres o ddata blynyddol a gafodd ei hadfer yn dilyn saib o dair blynedd rhwng 2019-2020 a 2021-2022 oherwydd y tarfu a achoswyd gan y pandemig.

# Y Gymraeg

Mae darpariaeth o safon uchel o fewn y sectorau addysg yn allweddol i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o bobl yn siarad a defnyddio'r Gymraeg yn hyderus erbyn 2050.

Er ein bod wedi adrodd mewn sawl adroddiad blynyddol dros amser bod diffygion yn y ddarpariaeth i ddysgu'r Gymraeg, rydyn ni wedi adnabod pocedi o arferion effeithiol ar draws ystod o sectorau. Mae'r adroddiad yma yn nodi rhai o'r diffygion rydym yn parhau i'w gweld ac yn cynnig ciplun o'r arferion da a arsylwyd.

Mewn llawer o leoliadau nas cynhelir cyfrwng Saesneg, datblygodd ymarferwyr ddefnydd o'r Gymraeg ymysg y plant yn llwyddiannus trwy gyflwyno geiriau newydd, a brawddegau syml. Roeddent yn defnyddio caneuon i annog plant i ymuno yn yr hwyl. Roeddent hefyd yn rhoi cyfarwyddiadau syml yn y Gymraeg, cyfarch plant a'u canmol yn bwrpasol yn yr iaith.   Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer datblygiad Cymraeg y plant yn effeithiol trwy drochi'r plant yn yr iaith Gymraeg yn barhaus.

O'r arolygiadau craidd o fewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lle pennwyd argymhelliad, roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â gwella medrau siarad disgyblion. Gydag ychydig iawn o blant yn dechrau'r dosbarth meithrin gydag unrhyw fedrau Cymraeg a'r lleiafrif o ddisgyblion wedi colli hyder i siarad Cymraeg oherwydd y pandemig, aeth arweinwyr Ysgol Gynradd Brynaman ati i hybu ac atgyfnerthu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Defnyddion nhw amrywiaeth o strategaethau ymarferol i ysgogi disgyblion i siarad Cymraeg er mwyn sicrhau fod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog wrth adael yr ysgol.

Cafodd lleiafrif o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg argymhellion i wella medrau Cymraeg disgyblion gan gynnwys gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau hynny dros amser. Gwelon ni fod dealltwriaeth athrawon o ddulliau addysgu iaith yn gyfyngedig, er enghraifft nid oedd digon o ffocws ar gymhwyso medrau siarad a gwrando disgyblion. Roedd gor-ddefnydd o fframiau iaith yn llesteirio disgyblion gan gyfyngu ar eu cyfleoedd i ymarfer medrau gwrando a siarad yn annibynnol. Gwelodd arweinwyr Ysgol Gynradd Gwndy bod angen gwella llafaredd ar draws yr ysgol a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth. Llwyddon nhw i ddatblygu medrau'r disgyblion ar draws sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ac i fagu balchder o fedru siarad Cymraeg a'r ymdeimlad cyffredinol o Gymreictod ymysg y disgyblion: hyrwyddo brwdfrydedd dros ddefnyddio'r Gymraeg | Estyn (llyw.cymru).

Mae'r diffyg dealltwriaeth o addysgeg iaith effeithiol yn parhau yn y sector uwchradd. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, nid oedd ymarferwyr yn ddigon hyderus yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddulliau addysgu iaith er mwyn cefnogi disgyblion i gaffael iaith. O'r herwydd, nid oedd disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Yn yr ychydig ysgolion lle roedd arferion effeithiol, darparwyd cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr i ddyfnhau eu dealltwriaeth o ddatblygiad iaith disgyblion dros gyfnod. Aeth Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed ati i ddatblygu a chryfhau medrau Cymraeg a dwyieithog eu disgyblion yn yr astudiaeth achos  Cynllunio a chydlynu ar gyfer datblygiad cynyddol medrau disgyblion | Estyn (llyw.cymru) drwy ddarparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i ddatblygu medrau staff. O ganlyniad, gwelwyd addysgeg gadarn yn y gwersi Cymraeg er mwyn datblygu medrau

disgyblion yn ogystal â sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith tu hwnt i furiau'r ystafell ddosbarth.

Mewn llawer o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, nid oedd digon o gyfleoedd i ddisgyblion siarad a defnyddio'r iaith Gymraeg yn hyderus y tu allan i wersi, yn enwedig wrth i'r disgyblion ddatblygu trwy'r ysgol. Mae Ysgol Pen y Dre wedi gweithio'n strategol i ddatblygu'r Gymraeg, a'i gosod yn ganolog ym mywyd bob dydd yr ysgol: Creu diwylliant cryf a gwerthfawrogiad o'r Gymraeg a'i threftadaeth. – Estyn (llyw.cymru). Yn yr ychydig iawn o ysgolion gyda'r arferion cryfaf, roedd arweinwyr yn rhoi ffocws penodol ar y Gymraeg o fewn eu prosesau gwella ansawdd. Roedd hyn yn sicrhau ymagwedd ysgol gyfan ar wella cynllunio ar gyfer y Gymraeg.

Yn ein hadroddiad thematig Datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion 10 i 14 oed | Estyn (llyw,cymru) edrychon ar ba mor dda mae ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r adroddiad yn amlinellu nifer o gryfderau a'r meysydd sydd angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau gwelliant.

Gwelon fod addysgu a dysgu dwyieithog yn nodwedd gref a nodedig ar brif gampysau yr unig goleg addysg bellach a arolygwyd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd y cyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyrsiau galwedigaethol a dysgu seiliedig ar waith yn llawer mwy cyfyngedig. Ychydig iawn o gyfleoedd sy'n bodoli i ddysgwyr ôl-16 barhau i astudio a chael eu hasesu am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.  Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar gyrsiau addysg bellach galwedigaethol neu brentisiaethau a gynhyrchodd waith ysgrifenedig yn y Gymraeg. Nid oedd darparwyr yn gwneud digon i sicrhau bod dysgwyr yn elwa o gwblhau hyd yn oed cyfran fach o'u gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid oedd y rhan fwyaf o bartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cynnig digon o sesiynau yn Gymraeg neu ddwyieithog i ddiwallu anghenion a dyheadau dysgwyr sy'n siarad Cymraeg. Ar y cyfan, nid oedd digon o gyfleoedd i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg wella eu sgiliau yn ystyrlon drwy gyfrwng y Gymraeg.

Anghyson yw'r modd mae partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yn gweithredu i gefnogi datblygiad y Gymraeg. Tra bod ymgais i ddarparu sesiynau priodol i wella medrau Cymraeg myfyrwyr, nid ydynt yn ddigon cyson na phenodol i helpu myfyrwyr i ystyried sut i ddatblygu'r Gymraeg yn ymarferol gyda disgyblion o fewn ystafelloedd dosbarth. Mae'r niferoedd bach o ddarpar athrawon sydd ar y cyrsiau AGA, yn enwedig y rhai sy'n medru gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn destun pryder.

O ran y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion, gwelwyd arferion hynod effeithiol ar y cyrsiau preswyl yn y ganolfan breswyl genedlaethol yn Nant Gwrtheyrn oedd yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog y tu allan i ddosbarthiadau ffurfiol. Golyga hyn bod y dysgwyr wedi cael eu harfogi i roi eu medrau ar waith tu hwnt i'w cyrsiau ymysg siaradwyr Cymraeg y gymuned leol: Defnyddio'r Gymraeg: gweithgareddau allgyrsiol bwriadus ac unigryw sy'n cefnogi dysgwyr i siarad Cymraeg yn gynyddol ddigymell ar safle'r Nant ac yn y gymuned leol | Estyn (llyw.cymru). Mae mwy am y profiadau trochi a'r ymyraethau sy'n cefnogi dysgwyr yn: Trochi effeithiol: cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd cyflym tra'n eu cynorthwyo i ddysgu a gwerthfawrogi hanes a diwylliant Cymru. | Estyn (llyw.cymru).

Erbyn hyn mae pob Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) wedi'u cymeradwyo ar draws pob awdurdod lleol. Roedd gan awdurdod lleol Ceredigion, er enghraifft, weledigaeth glir ar gyfer sicrhau bod disgyblion, yn y pen draw yn ddisgyblion dwyieithog hyderus. Mae'r awdurdod lleol eisoes

wedi adnabod categorïau iaith ysgolion ac wedi arfogi staff yr awdurdod i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu'r Gymraeg yn effeithiol mewn ysgolion. Mae awdurdodau lleol Gwynedd a Môn wedi cydweithio er mwyn datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'u teuluoedd, ac ar gyfer trochi iaith. – Estyn (llyw.cymru). Addysg drochi yw prif ddull bron bob awdurdod lleol ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg newydd a datblygu medrau Cymraeg dysgwyr. Mae enghraifft effeithiol o hyn yn yr arolygiad peilot diweddar yng Nghasnewydd lle mae'r arweinwyr wedi datblygu perthynas waith gref gydag amryw o randdeiliaid i ddatblygu amcanion cynllun strategol Addysg Cymru yn effeithiol. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau yn parhau i fod yn araf wrth weithredu eu CSGAau. Maent yn y camau cynnar o roi'r cynlluniau hyn ar waith ac ar y cyfan, mae cydweithio ar draws awdurdodau yn brin. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, nodwyd recriwtio staff, gan gynnwys athrawon sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, fel un o'r prif heriau o ran eu darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn gryfder yn yr uned cyfeirio disgyblion (UCD) yng nghanolfan addysg Nant-y-Bryniau, sef uned sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol a chymhleth. Yma, caiff y staff eu cynorthwyo'n dda i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg, ac o ganlyniad, mae pob un o'r staff naill ai'n rhugl yn y Gymraeg, neu'n ddysgwyr hyderus sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn briodol yn ystod cyfnodau addysgu a thrafod anffurfiol: Datblygu darpariaeth Gymraeg ar draws yr UCD (i'w gyhoeddi). Fodd bynnag, yn gyffredinol mewn UCDau mae datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr yn parhau i fod yn amrywiol.

Mae arweinwyr sy'n meddu ar weledigaeth strategol glir ac sy'n blaenoriaethu'r Gymraeg yn briodol yn nodwedd amlwg yn y darparwyr mwyaf llwyddiannus ar draws pob sector. Buddsoddodd arweinwyr llwyddiannus mewn hyfforddiant gwerthfawr i staff ar bob lefel gan ganolbwyntio'n finiog ar addysgeg ac adnabod yr angen am gyfleoedd i ymarfer medrau tu hwnt i ddysgu ffurfiol.

# Meithrinfeydd nas cynhelir

### Cyfanswm nifer y lleoliadau yn darparu addysg a ariennir

**569**

Ionawr 2019

**546**

Ionawr 2020

**537**

Gorffennaf 2021

**529**

Awst 2022

**543**

Mai 2023

**527**

Awst 2024

### Arolygiadau ar y cyd

Hydref 2023: 30 arolygiad

Gwanwyn 2024: 27 arolygiad

Haf 2024: 33 arolygiad

Nifer arolygiadau: 90

### Gweithgarwch dilynol

Rhoddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol adolygu gan Estyn: 1 yn ystod 23/24
Tynnwyd o gategori gweithgarwch dilynol: 1 o 22/23
Wedi aros yn y categori gweithgarwch dilynol adolygu gan Estyn: 0 o 22/23

### Astudiaethau achos

Ceisiadau am astudiaeth achos: 20

Wedi'u cyhoeddi ar y wefan: 17

## Crynodeb

Pan oedd ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyfoethog drwy weithgareddau a meysydd dysgu a gynlluniwyd yn dda, datblygodd y rhan fwyaf o blant sgiliau yn gyfannol ar draws gwahanol gyd-destunau. Roedd ymarferwyr i bob pwrpas yn dal chwilfrydedd plant, gan eu trochi mewn rhyfeddod am y byd naturiol. Roeddent yn cynnig profiadau dysgu pwrpasol yn seiliedig ar amgylchedd uniongyrchol y plant, gan ganiatáu ar gyfer cyfnodau hir o chwarae lle gallai plant ymgysylltu'n ddwfn â'u diddordebau. Fodd bynnag, mewn rhai lleoliadau, roedd y defnydd o asesiadau ac arsylwadau i ymateb i anghenion plant unigol yn dal i ddatblygu. Nid oedd lleiafrif o ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau i gynllunio'r camau nesaf mewn dysgu. Yn ogystal, nid oedd rhai lleoliadau'n cynllunio'n ddigon pwrpasol i ddatblygu sgiliau plant, yn enwedig mewn ardaloedd awyr agored.

Roedd lleoliadau'n darparu lefelau da o ofal, cefnogaeth ac arweiniad, gan effeithio'n gadarnhaol ar les plant. Roedd arferion rheolaidd, rhagweladwy yn helpu plant i deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus, gan ganiatáu iddynt ffurfio perthnasoedd cryf gyda chyfoedion ac ymarferwyr. Dangosodd y plant hyn lefelau uchel o fwynhad a hyder yn eu chwarae a'u dysgu. Roedd bron pob lleoliad yn hyrwyddo

ffyrdd iach o fyw a diogelwch, gyda llawer â gweithdrefnau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd asesiadau risg yn rhai generig neu heb eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

Roedd arweinyddiaeth yn gryf mewn llawer o leoliadau, gydag arweinwyr â gweledigaeth glir ar gyfer darparu profiadau gwerth chweil mewn amgylcheddau diogel a meithringar. Bu i brosesau hunanwerthuso effeithiol a cynlluniau gwella gwybodus, arwain at newidiadau cadarnhaol yn y ddarpariaeth a'r canlyniadau i blant. Fodd bynnag, mewn rhai lleoliadau, nid oedd arweinwyr yn blaenoriaethu meysydd allweddol i'w gwella, gan ganolbwyntio yn hytrach ar feysydd o ddiddordeb.

## Addysgu a dysgu

Ym mron pob un o'r lleoliadau a arolygwyd, gwnaeth y rhan fwyaf o blant gynnydd da, o leiaf, o'u mannau cychwyn unigol a datblygu ystod eang o fedrau trwy eu chwarae.

At ei gilydd, rhoddodd llawer o leoliadau y Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin a Ariennir nas Cynhelir ar waith yn llwyddiannus. Roedd ymarferwyr yn y lleoliadau hyn yn darparu cyfleoedd cyfoethog i blant ddatblygu ystod eang o fedrau mewn ardaloedd a gweithgareddau a oedd wedi'u cynllunio'n ofalus. Er enghraifft, roedd llawer o ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant drin llyfrau a gwrando ar storïau ym mhob rhan o'r lleoliad.

Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn hybu medrau cyfathrebu plant yn effeithiol. Roeddent yn annog plant i ofyn ac ateb cwestiynau ac yn rhoi sylwadau symbylol a oedd yn annog plant i feddwl drostynt eu hunain. Roedd y rhan fwyaf o blant yn siarad yn hyderus ag oedolion a'u cyfoedion. Roeddent yn defnyddio ystod eang o eirfa yn ystod chwarae digymell a strwythuredig i egluro syniadau sylfaenol a disgrifio'r hyn yr oeddent yn ei wneud. Roedd llawer o blant yn gwrando ar ymarferwyr yn ofalus ac â dealltwriaeth ac yn dilyn eu cyfarwyddiadau o wirfodd.

Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer datblygiad Cymraeg plant yn effeithiol. Roeddent yn trochi plant yn y Gymraeg ac, o ganlyniad, roedd dealltwriaeth plant yn datblygu'n dda. Yn y lleoliadau mwyaf llwyddiannus, roedd ymarferwyr yn cydweithio â'i gilydd yn fuddiol, gan sicrhau bod yr arferion hyn yn gyson ac yn cael yr effaith orau bosibl ar ddealltwriaeth a chynnydd ieithyddol plant.

Mewn llawer o leoliadau cyfrwng Saesneg, roedd ymarferwyr yn datblygu defnydd plant o'r Gymraeg yn llwyddiannus trwy fanteisio ar gyfleoedd trwy gydol y sesiwn i gyflwyno ac atgyfnerthu dysgu a dealltwriaeth plant. Yn yr arfer gryfaf, roedd ymarferwyr yn siarad yn glir ac yn achub ar bob cyfle i gyflwyno geirfa newydd i blant, gan eu hannog i ymateb i eiriau ac ymadroddion syml yn Gymraeg. Fodd bynnag, mewn ychydig o leoliadau, nid oedd ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon cyson bob tro i gefnogi plant i ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Roedd llawer o ymarferwyr yn cynllunio cydbwysedd da o ddysgu dan arweiniad oedolion a dysgu wedi'i ysgogi gan blant. Roeddent yn sicrhau bod adnoddau ar gael yn hawdd i blant er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau pwrpasol ynghylch ble a sut yr hoffent chwarae. Roedd hyn yn golygu bod plant yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau ac yn cael llawer o gyfleoedd i ddilyn eu diddordebau eu hunain a datblygu eu medrau.

Roedd llawer o ymarferwyr yn darparu ystod eang o gyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i blant ddatblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, roeddent yn annog plant i ddefnyddio

trawstiau ac offer cydbwyso a ddarparwyd i adeiladu eu cyrsiau rhwystrau eu hunain. Roedd llawer o blant yn datblygu medrau echddygol manwl a medrusrwydd corfforol yn effeithiol trwy weithgareddau fel defnyddio gefeiliau bach, edafu gleiniau a thrin toes.

At ei gilydd, roedd ymarferwyr yn cynllunio profiadau a oedd yn ennyn chwilfrydedd plant yn dda. Yn yr enghreifftiau gorau, roeddent yn sicrhau bod plant yn cael eu rhyfeddu gan y byd a'r ffordd y mae pethau'n datblygu ac yn tyfu'. Roeddent hefyd yn defnyddio'r gweithgareddau hyn i ddatblygu medrau plant yn gyfannol. Er enghraifft, roedd ymarferwyr yn cynnwys plant mewn gweithgareddau garddio i ddatblygu iaith fathemategol plant mewn cyd-destunau go iawn. Roedd hyn yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau rhifedd a datrys problemau, yn ogystal â'u medrau corfforol.

Yn yr arfer gryfaf, roedd ymarferwyr yn darparu cyfnodau estynedig o chwarae i blant, lle'r oeddent yn gallu ailymweld â gweithgareddau roedd ganddynt ddiddordeb ynddynt, ac yn caniatáu amser iddynt ymgysylltu'n ddwfn â'u dysgu. Roeddent yn ymateb yn gadarnhaol i ddiddordebau plant a'u diddordebau arbennig. Roeddent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol ac yn addasu eu cynllunio i ennyn diddordeb plant yn eu dysgu ymhellach, er enghraifft trwy ddarparu gweithgareddau cynllunio er mwyn ymateb i ddiddordebau plant mewn gwneud bisgedi yn yr ardal chwarae rôl.

Yn gyffredinol, roedd lleoliadau'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant fod yn greadigol ac arbrofi â syniadau, deunyddiau ac offer. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn dda trwy weithgareddau celf neu trwy arbrofi ag offerynnau cerdd a dawnsio yn llawn mynegiant. Roedd bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau digidol yn dda. Yn yr enghreifftiau cryfaf, roedd ymarferwyr yn annog plant i ddeall effaith dyfeisiau digidol ar eu bywydau trwy weithgareddau fel pwyso eitemau ar glorian digidol, recordio nodiadau llais neu ddefnyddio technoleg wedi'i hysgogi gan lais i ddod o hyd i wybodaeth.

Roedd y rhan fwyaf o leoliadau'n parhau i ddarparu cyfleoedd addas i blant ymgynefino â diwylliant Cymru a chael profiad ohono. Er enghraifft, roedd ymarferwyr yn trefnu ymweliadau a gweithgareddau fel teithiau cerdded i siopau lleol, llyfrgelloedd a pharciau neu deithiau ar wasanaethau bws lleol i amwynderau ychydig ymhellach i ffwrdd. Roedd y rhan fwyaf o leoliadau'n dathlu ac yn cynllunio gweithgareddau o gwmpas ychydig o ddyddiadau diwylliannol pwysig, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali, ond roedd cyfleoedd i blant ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliannau nad oeddent yn gyfarwydd â nhw yn gyfyngedig o hyd. Roedd hyn yn golygu nad oedd plant bob amser yn dysgu am amrywiaeth Cymru.

Mewn llawer o leoliadau, lle'r oedd yr addysgu'n gryf, roedd gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac roeddent yn cynnig ystod eang o gyfleoedd chwarae cyfoethog i blant, wedi'u seilio ar egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Roedd ymarferwyr yn darparu gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored a oedd yn annog plant i fentro ac i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a chydweithio yn bwrpasol. Roeddent yn creu amgylcheddau dysgu anogol, a oedd yn creu ymdeimlad o berthyn ymhlith y plant ac yn cynorthwyo i ddatblygu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn dda. Roedd llawer o ymarferwyr yn holi plant yn fedrus i gefnogi ac ymestyn eu dysgu. Roeddent yn defnyddio cwestiynau penagored yn fedrus i ennyn syniadau'r plant a'u hannog i feddwl yn ehangach.

Yn yr arfer fwyaf effeithiol, roedd ymarferwyr yn cydnabod pa bryd yr oedd angen iddynt ymyrryd a pha bryd i gamu'n ôl er mwyn annog plant i feddwl a datrys pethau drostyn nhw'u hunain. Er enghraifft, roedd ymarferwyr yn rhoi rhyddid i blant archwilio sut mae pethau'n gweithio, fel olwynion ar lorïau tegan. Yna, roeddent yn cyflwyno offer a deunyddiau eraill i alluogi plant i ddatrys problemau

drostyn nhw'u hunain.

Fodd bynnag, mewn ychydig o leoliadau, nid oedd ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon pwrpasol i ddatblygu medrau plant, yn enwedig yn yr ardaloedd awyr agored. Yn yr enghreifftiau hyn, roedd plant yn aml yn chwarae heb unrhyw ffocws na diben gwirioneddol ac roedd ymarferwyr yn dueddol o orgyfarwyddo dysgu'r plant, gan lesteirio cyfleoedd iddynt ddarganfod pethau drostyn nhw'u hunain.

Yn ystod y flwyddyn, mabwysiadodd nifer gynyddol o leoliadau y Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Roedd hyn yn helpu ymarferwyr i ddeall cynnydd yn nysgu plant yn well ac i gymhwyso egwyddorion cynnydd yn ymarferol.

### Meithrinfa Tiggy's Day Care

Ym meithrinfa ddydd Tiggy's Day Care, mae ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau yn rhagweithiol i gofnodi diddordebau a hoffterau arbennig plant wrth iddynt chwarae. Maent yn rhoi eu nodiadau ysgrifenedig ar fwrdd cynllunio y mae'r holl ymarferwyr yn ei ddefnyddio i gynllunio profiadau ac addasu amgylcheddau i fod yn ystyrlon ac yn berthnasol i ddiddordebau plant. Er enghraifft, pan welir plant yn cymryd arnynt eu bod yn trwsio cwpwrdd yn yr ardal chwarae rôl, mae ymarferwyr yn cyfoethogi'r ardal drannoeth gydag offer sy'n ymwneud â seiri, plymwyr a thrydanwyr.

Mewn lleiafrif o leoliadau, dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu oedd y defnydd o asesiadau ac arsylwadau i ymateb i anghenion plant unigol a dyfnhau ac ymestyn eu dysgu. Yn yr achosion hyn, nid oedd ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau ac asesiadau yn werthfawr bob tro i gynllunio ac addysgu'r camau nesaf mewn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau plant yn ddigon da.

## Gofal, cymorth ac arweiniad a lles

Parhaodd lleoliadau i ddarparu lefelau effeithiol o ofal, cymorth ac arweiniad i blant a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles. Roedd llawer o blant yn ymgysylltu'n hapus â chyfoedion ac oedolion yn eu lleoliadau. Roedd y lleoliadau hynny a oedd wedi sefydlu arferion rheolaidd, rhagweladwy yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd i blant, gan eu galluogi i deimlo'n gyfforddus ac gartrefol. Roedd y plant hyn yn ymgartrefu'n dda ac yn meithrin cysylltiadau cryf â'u cyfoedion ac ymarferwyr. Roeddent yn dangos lefelau uchel o fwynhad. Yn yr achosion hyn, roedd plant yn aml yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau hyderus am eu chwarae a'u dysgu. Roeddent yn symud yn rhwydd rhwng gweithgareddau hygyrch a oedd o ddiddordeb iddynt ac yn gwneud dewisiadau ystyrlon wrth chwarae. Roeddent yn aml yn chwarae ag ystod eang o adnoddau diddorol ac yn defnyddio'r rhain i lunio eu chwarae eu hunain ac i ddatblygu eu syniadau'n effeithiol. Yn y lleoliadau niferus lle'r oedd hyn yn wir, roedd y rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn dda oherwydd eu bod yn gwybod bod ymarferwyr yn gwerthfawrogi eu barn a'u teimladau.

Roedd llawer o ymarferwyr yn cefnogi plant yn fedrus wrth iddynt chwarae ac yn ystod arferion dyddiol a oedd yn cadw plant yn ddiogel, wrth annog eu hannibyniaeth a pharchu eu preifatrwydd, hefyd.

## Little Explorers

Yn Little Explorers, mae plant yn ffynnu yn y lleoliad ac yn ymateb yn dda iawn i gyfleoedd niferus i ddatblygu annibyniaeth. Maent yn gweini eu hunain amser byrbryd, yn plicio a thorri eu ffrwythau, yn arllwys eu llaeth eu hunain ac yn mynd â'u platiau i'r sinc. Mae plant hŷn yn dod o hyd i'w cardiau enw i ysgrifennu eu henwau ar eu lluniau ac mae pob un o'r plant yn dysgu gwisgo eu dillad ac esgidiau glaw cyn chwarae y tu allan.

Ym mron pob lleoliad, roedd ymarferwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau eu lleoliad a oedd yn annog ffyrdd iach o fyw ac yn hybu diogelwch a lles plant. Yn y lleoliadau hyn, roedd ymarferwyr yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau o ran ymdrin â phryderon amddiffyn plant ac anghenion meddygol unrhyw blentyn. Roeddent yn cynnig dewisiadau cytbwys o ran bwyd a diod ac yn annog rhieni'n llwyddiannus i ddarparu pecynnau cinio iach. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda ac yn cwblhau'r holl gofnodion perthnasol yn ymwneud â damweiniau, digwyddiadau, anafiadau presennol a meddyginiaeth yn briodol. Roeddent yn cynnal adolygiadau rheolaidd ac yn dadansoddi unrhyw dueddiadau. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion lle nad oedd arfer mor gryf, roedd arweinwyr yn mabwysiadu asesiadau risg generig nad oeddent yn cynnwys manylion penodol am y lleoliad, neu nid oeddent yn adolygu asesiadau risg yn rheolaidd i adlewyrchu sefyllfa gyfredol y lleoliad.

Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau plant yn dda iawn. Trwy esboniadau clir a thrafodaethau tawel, roeddent yn helpu plant i ddatblygu ymdeimlad o dda a drwg mewn modd sensitif. Roeddent yn defnyddio canmoliaeth i ddathlu'r pethau cadarnhaol roedd plant yn eu gwneud ac roedd y gweithredoedd hyn yn aml yn helpu plant i ddeall sut roedd eu gweithredoedd yn effeithio ar bobl eraill. Roedd hyn yn arwain at lawer o blant yn defnyddio moesau da ac yn trin ei gilydd â charedigrwydd wrth chwarae â'u cyfoedion.

Ym mron pob un o'r lleoliadau, roedd ymarferwyr yn meithrin perthnasoedd cynnes â phlant ac yn eu trin â gofal a pharch. Roeddent yn adnabod y plant yn dda ac yn ymatebol i'w hanghenion unigol ac yn cynnig lefel dda o gymorth. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd ymarferwyr yn cael gwybodaeth ddefnyddiol gan rieni a gofalwyr ar hoff a chas bethau'r plant. Roedd hyn yn cefnogi ymarferwyr i gael dealltwriaeth well o blant unigol cyn iddynt ymuno â'r lleoliad. Yn y lleoliadau hyn, roedd ymarferwyr yn diwygio eu harfer yn rheolaidd i adlewyrchu ac ystyried newidiadau a datblygiadau a oedd yn digwydd yn y lleoliad ac ym mywyd cartref y plentyn.

Roedd gan lawer o leoliadau weithdrefnau cadarn i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Lle'r oedd arfer yn effeithiol, roedd lleoliadau'n ymgymryd â hyfforddiant gwerthfawr i'w cefnogi yn eu rolau ac i fodloni anghenion plant y nodwyd bod ganddynt ADY yn well. Roedd ymarferwyr yn treulio amser yn gwerthuso effaith eu hymagweddau ac yn nodi diwygiadau pellach yn feddylgar. O ganlyniad, roedd gan y lleoliadau hynny wybodaeth dda am dargedau unigol plant ac roedd ganddynt ddealltwriaeth gref o sut gallent eu cefnogi i wneud cynnydd. Yn yr enghreifftiau cryfaf, roedd lleoliadau'n creu amgylchedd cynhwysol ar gyfer pob plentyn. Er enghraifft, mewn ychydig o enghreifftiau, roedd staff yn defnyddio arwyddion ac ystumiau, ochr yn ochr â geiriau llafar, yn llwyddiannus i helpu i ddatblygu medrau iaith a chyfathrebu plant.

## Arweinyddiaeth

Yn yr un modd â'r llynedd, roedd arweinyddiaeth yn y rhan fwyaf o leoliadau yn gryf o hyd. Roedd gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer eu lleoliadau ac roeddent yn angerddol am ddarparu profiadau gwerthfawr i blant mewn amgylcheddau diogel ac anogol. Roedd bron pob un o'r lleoliadau yn rhoi pwyslais clir ar les pob plentyn. Lle'r oedd arweinyddiaeth yn gryf, roedd arweinwyr yn cyfleu eu gweledigaeth yn glir trwy eu gweithredoedd a thrwy feithrin a chynnal perthnasoedd cryf â phlant a'u teuluoedd.

Roedd llawer o arweinwyr yn gwerthuso eu harfer yn gywir, gan ystyried pob agwedd ar eu lleoliad. Roeddent yn datblygu prosesau hunanwerthuso gwerthfawr a oedd yn bwydo cynlluniau gwella'r lleoliad yn bwrpasol. Roeddent yn nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella yn gywir ac yn pennu camau gweithredu priodol i sicrhau'r gwelliannau dymunol hynny. Lle'r oedd arfer yn arbennig o gryf, roedd lleoliadau'n defnyddio cyngor asiantaethau allanol a safbwyntiau ymarferwyr yn dda i ddatblygu a gwella eu darpariaeth a chefnogi dysgu'r plant. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd arweinwyr yn gwerthuso gwelliannau yn y ddarpariaeth trwy ystyried yr effaith ar ddysgu a lles plant. Fodd bynnag, mewn ychydig o leoliadau, nid oedd arweinwyr yn blaenoriaethu'r meysydd pwysicaf i'w gwella yn ddigon da bob tro, gan dueddu i ganolbwyntio ar feysydd o ddiddordeb yn hytrach na meysydd allweddol i'w gwella.

Roedd gan arweinwyr mewn llawer o leoliadau ddisgwyliadau uchel ac roeddent yn buddsoddi'n bwrpasol yn eu staff. Roeddent yn cwblhau arfarniadau a goruchwyliaethau gwerthfawr, reolaidd â'u hymarferwyr. Roeddent yn creu ac yn cynnal ethos tîm cryf. Yn y lleoliadau hyn, roedd staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso i ddatblygu'n broffesiynol trwy hyfforddiant o ansawdd da a oedd yn cefnogi blaenoriaethau'r lleoliad a dyheadau unigol ymarferwyr. Fodd bynnag, mewn ychydig o leoliadau, nid oedd arweinwyr yn cynnig arfarniadau addas i ymarferwyr bob tro. O ganlyniad, nid oedd ymarferwyr bob amser yn gwybod beth a ddisgwyliwyd ganddynt, na pha gamau yr oedd angen iddynt eu cymryd i sicrhau gwelliannau a chydymffurfio â rheoliadau. Mewn ychydig iawn o leoliadau lle'r oedd gweithdrefnau goruchwylio ac arfarnu yn aneffeithiol, nid oeddent yn cael eu rhoi ar waith yn gyson na'u ffurfioli bob tro.

Roedd llawer o leoliadau'n meithrin ac yn cynnal partneriaethau da, gan eu bod yn deall yr effaith gadarnhaol yr oedd hyn yn ei chael ar y plant dan eu gofal. Roeddent yn cefnogi teuluoedd i ddeall datblygiad eu plant ac yn rhoi syniadau iddynt o ran sut y gallent helpu gartref trwy weithgareddau fel anfon clipiau fideo a negeseuon rheolaidd ar sianeli cyfryngau cymdeithasol, a chyfarfodydd wyneb-yn-wyneb i drafod lles a chynnydd eu plant.

### Chuckles Day Care

Mae arweinwyr yn Chuckles Day Care wedi sefydlu cysylltiadau eithriadol ag ystod o bartneriaid. Maent yn cydweithio'n agos ag ysgolion lleol trwy weithgareddau fel sesiynau ysgol goedwig ac ymweliadau â mabolgampau. Mae arweinwyr yn cydweithio ag athro ymgynghorol blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol i wella safonau a rhannu arfer dda â lleoliadau eraill. Mae arweinwyr yn cynllunio gweithdai i deuluoedd a rhieni trwy gydol y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar anghenion a blaenoriaethau'r gymuned leol, fel gweithdy bwyd iach a diwrnodau coginio. Maent yn darparu bwyd a chardiau bwydlen i deuluoedd eu defnyddio gartref. Mae gan y lleoliad ymgysylltiad agos â phrosiectau pontio, gan gefnogi plant a theuluoedd sy'n symud o'r feithrinfa i ysgolion lleol.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau, roedd arweinwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o'r grantiau sydd ar gael. Roeddent yn sicrhau bod gan eu lleoliadau adnoddau da ac roeddent yn gwario'n ddoeth, fel prynu adnoddau newydd, yn ôl yr angen. Roedd y rhan fwyaf o'r lleoliadau a gafodd Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar yn uniongyrchol yn ei ddefnyddio'n effeithlon i gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau i blant difreintiedig. Roedd arweinwyr yn nodi plant cymwys ac yn prynu adnoddau i gefnogi'r unigolion hynny, fel adnoddau mathemateg neu lyfrau darllen i fynd adref gyda nhw.

Roedd y rhan fwyaf o leoliadau'n darparu amgylchedd cyfoethog a oedd yn cefnogi dysgu a datblygiad plant yn effeithiol. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd arweinwyr yn creu amgylcheddau a oedd yn tanio chwilfrydedd plant, yn eu grymuso i ymchwilio ac yn caniatáu iddynt wneud dewisiadau annibynnol dan do ac yn yr awyr agored.

### Meithrinfa Homestead Nursery

Mae arweinwyr ym meithrinfa Homestead Nursery yn darparu adnoddau pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad cyfannol plant mewn ffordd gyffrous ac arloesol. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i ddatblygiad plant ac yn sicrhau eu bod yn manteisio'n briodol ar weithgareddau sy'n adeiladu ar alluoedd unigolion yn hynod effeithiol wrth iddynt symud drwy'r lleoliad. Maent yn defnyddio hen ddodrefn, planhigion a drychau yn greadigol ac yn llwyddiannus i greu amgylchedd cynnes a chartrefol lle mae plant, ymarferwyr ac ymwelwyr yn teimlo'n hamddenol. Caiff yr amgylchedd ei gyfoethogi ymhellach gan ystod o adnoddau dychmygus sy'n ysgogi synhwyrau'r plant yn arbennig o dda. Er enghraifft, caiff ffrwythau ffres a rhai wedi'u dadhydradu, perlysiau ffres ac ardaloedd cerddorol â phiano segur sydd â'i weithrediadau'n agored eu defnyddio'n effeithiol i ysbrydoli chwilfrydedd.

## Trosolwg argymhellion

Yn y flwyddyn academaidd 2023 – 2024, arolygodd Estyn 90 o leoliadau nas cynhelir.

Cafodd 38 (42.2%) o leoliadau argymhelliad i wella eu harfer mewn rhyw ffordd. O'r rheini, cafodd 26 o leoliadau argymhelliad i ddarparu neu ehangu cyfleoedd i wella sgiliau plant; roedd hanner yr

argymhellion hynny yn ymwneud â datblygu sgiliau Cymraeg plant.

Cafodd 23 (25.6%) o leoliadau argymhelliad i wella neu ddatblygu’r defnydd o arsylwadau. Roedd tua hanner yr argymhellion hynny’n ymwneud â defnyddio arsylwadau i helpu i gynllunio’r camau nesaf yn natblygiad plant, roedd y lleill yn canolbwyntio’n amrywiol ar sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd, cefnogi dysgu a datblygiad plant, a defnyddio arsylwadau i gynllunio profiadau sy’n bodloni anghenion unigol pob plentyn.

# Cynradd

## Ysgolion

**1,216**

Nifer yr ysgolion 2024

**1,219**

Nifer yr ysgolion 2023

**1,225**

Nifer yr ysgolion 2022

## Disgyblion

**258,038**

Cyfanswm y disgyblion

**447**

Nifer y disgyblion oed meithrin

**59,717**

Nifer y disgyblion dan 5 oed

**197,853**

Nifer y disgyblion 5-10 oed

**21**

Nifer y disgyblion 11 oed neu'n hŷn

**21.8%**

Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (5-15 oed)

**19.2%**

Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Pob disgybl)

**7.1%**

Saesneg fel iaith ychwanegol A-C

**11.0%**

Yn gallu siarad Cymraeg

**11.1%**

Disgyblion ag anghenion dysgu ychwanego

## Gweithgarwch dilynol

Nifer mewn categori gweithgarwch dilynol ym mis Medi 2023 MA

MA: 16 GS: 6 AE: 34

## Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: 259

Ymweliadau interim: 4

Cyfrwng Cymraeg: 92

Dwyieithog:

## Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos y gofynnwyd amdanynt: 44

Wedi'u cyhoeddi ar y wefan: 39

Nifer a dynnwyd yn 2023-2024

MA: 9 GS: 4 AE: 17

Nifer a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol ar ôl arolygiad craidd yn 2023-2024

MA: 10 GS: 8 AE: 14

Cyfanswm mewn categori gweithgarwch dilynol ym mis Awst 2024

MA: 17 GS: 10 AE: 31

Cyfrwng Saesneg: 171

Ffydd: 29

### Ymweliadau ymgysylltu

Nifer yr ymweliadau/galwadau: 5

Cyfrwng Cymraeg: 2

Dwyieithog:

Cyfrwng Saesneg: 3

Ffydd: 2

## Crynodeb

Yn ystod 2023-2024, gweithiodd ysgolion cynradd yn effeithiol â theuluoedd i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau rhag dysgu neu les disgyblion o gartrefi ag incwm isel. Gwellodd y mwyafrif o ysgolion lefelau presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, mewn ysgolion lle mae presenoldeb islaw'r ffigurau cyn y pandemig o hyd, roedd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn sylweddol is na phresenoldeb y rhai nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Gwnaeth mwyafrif yr ysgolion gynnydd cryf wrth roi Cwricwlwm i Gymru ar waith. Bu arweinwyr ac athrawon yn treialu ac yn diwygio eu cynlluniau ar gyfer y cwricwlwm i gyfuno gwybodaeth, medrau a phrofiadau mewn modd cydlynol. Parhaodd llawer o ysgolion i ganolbwyntio ar ddatblygu eu dealltwriaeth o sut dylai dysgwyr wneud cynnydd. Fodd bynnag, ni ddatblygodd dros draean (40%) o ysgolion ddealltwriaeth ddigon cadarn o rôl dilyniant wrth gefnogi disgyblion i adeiladu ar eu dysgu mewn modd cydlynol.

Roedd arweinyddiaeth yn effeithiol mewn llawer o ysgolion ac roedd gan arweinwyr weledigaeth a strategaethau clir ar gyfer datblygu'r ysgol. Roedd eu gweithgarwch hunanwerthuso yn

canolbwyntio'n fanwl ar les a chynnydd disgyblion ac roeddent yn buddsoddi mewn staff trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, mewn traean o ysgolion, nid oedd prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n ddigon clir ar ddeilliannau disgyblion ac nid oeddent yn nodi meysydd allweddol i'w gwella mewn addysgu a dysgu.

## Addysgu a dysgu

Gan adeiladu ar y flwyddyn flaenorol, gwnaeth y mwyafrif o ysgolion gynnydd cryf wrth roi Cwricwlwm i Gymru1 ar waith, gan dreialu a mireinio eu cynlluniau ar gyfer y cwricwlwm i gyfuno gwybodaeth, medrau a phrofiadau. Ymwreiddiodd ychydig iawn o ysgolion eu cwricwlwm yn llawn yn ystod y flwyddyn a dechrau gweld ei effaith fuddiol ar ddysgu a chynnydd disgyblion. Datblygodd arweinwyr a staff yn yr ysgolion hyn weledigaeth gref a oedd yn cynnwys sicrhau addysgu ac asesu o ansawdd uchel er mwyn sicrhau bod profiadau dysgu disgyblion yn ddifyr, yn heriol ac yn deg. Darllenwch sut yr ymatebodd Ysgol Gynradd Langstone yng Nghasnewydd i ddiwygio'r cwricwlwm i fodloni anghenion dysgwyr.

Yn yr achosion gorau, roedd ysgolion yn cynllunio profiadau dysgu yn effeithiol ac yn gwerthuso pa mor dda yr oedd addysgu'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd. Roedd athrawon yn rhoi addysgeg effeithiol ar waith i gefnogi disgyblion i ddyfnhau eu dysgu a throsglwyddo medrau a gwybodaeth mewn ffyrdd ystyrlon a mwyfwy soffistigedig ar draws y cwricwlwm. Darllenwch sut y defnyddiodd Ysgol Gynradd y Bont-faen ym Mro Morgannwg ffocws creadigol cryf i wella iaith a chyfathrebu, creadigrwydd ac annibyniaeth disgyblion.

Roedd tua thraean o'r ysgolion a arolygwyd ar gam cynnar o ddiwygio'r cwricwlwm o hyd. Mewn lleiafrif o'r rhain, nid oedd gan arweinwyr strategaeth glir ar gyfer datblygu addysgeg neu gwricwlwm a oedd yn bodloni anghenion a diddordebau eu disgyblion. Nid oedd llawer o'r ysgolion a oedd yng nghamau cynnar datblygu'r cwricwlwm yn gwerthuso effaith addysg ac asesu ar ddeilliannau disgyblion yn ddigon da. Yn yr ysgolion hyn, roedd y cwricwlwm yn aml yn canolbwyntio ar ymdrin â chysyniadau mewn ffordd strwythuredig dros ben ac nid oeddent yn ennyn diddordeb disgyblion nac yn adlewyrchu'r gymuned leol yn ddigon da.

Cafodd tua thraean o'r ysgolion a arolygwyd argymhelliad i fynd i'r afael ag anghysondebau yn ansawdd yr addysgu. Yn aml, yn yr ysgolion hyn, nid oedd athrawon yn rhoi adborth pwrpasol i ddisgyblion i'w helpu i ddeall yr agweddau ar ddysgu sy'n ymwneud â sut a pham, yn ogystal â beth. Roedd camsyniadau yn ymwneud â chynnydd o ran Cwricwlwm i Gymru yn arwain at athrawon yn asesu disgyblion yn rhy gul yn erbyn disgrifiadau o ddysgu, yn hytrach na chynllunio dysgu a oedd yn galluogi disgyblion i ddyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth dros gyfnod.

Dechreuodd disgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu, yn aml trwy gyfrannu eu syniadau at themâu. Mewn ychydig o achosion, roeddent hefyd yn dylanwadu ar sut roeddent yn dysgu. Llwyddodd ysgolion a oedd yn rhoi gwerth uchel ar fewnbwn disgyblion i ymgorffori eu diddordebau yn eu dysgu yn llwyddiannus, yn aml gan ddefnyddio materion amserol a oedd yn atseinio â phrofiadau'r disgyblion eu hunain. Roeddent yn defnyddio gweithgareddau symbylol i ddatblygu disgyblion yn ddysgwyr annibynnol o oed ifanc, gan sicrhau eu bod yn deall pwrpas eu dysgu, yr hyn roeddent yn ei wneud yn dda a'r hyn roedd angen iddynt ei wella. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid oedd ysgolion yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth yn ddigon da. Roedd hyn yn aml gan fod staff yn rhoi gormod o gyfarwyddyd, gan rwystro cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau a gweithio pethau allan drostyn nhw'u hunain.

Roedd ychydig iawn o ysgolion yn datblygu profiadau dysgu hynod effeithiol ar gyfer y disgyblion ieuengaf. Roedd arweinwyr ac athrawon yn datblygu addysgeg wedi'i seilio ar egwyddorion datblygu plant ac yn aml yn creu profiadau dysgu a oedd yn cyd-fynd â'r *Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir*[1] *Llywodraeth Cymru (2022) Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. [Ar-lein]. Ar gael yn from https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-ar-gyfer-lleoliadau-meithrin-a-ariennir-nas-cynhelir/* , gan gydnabod rôl hanfodol oedolion sy'n galluogi dysgu, profiadau sy'n ennyn diddordeb, ac amgylcheddau effeithiol mewn addysg gynnar o ansawdd uchel.

At ei gilydd, gwnaeth llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd ag incwm isel, gynnydd priodol o leiaf yn y medrau trawsgwricwlaidd yn ystod y flwyddyn. Parhaodd medrau llafaredd a darllen sylfaenol disgyblion, fel darllen â rhuglder a chywirdeb priodol, i ddatblygu'n dda. Mewn ychydig o ysgolion, roedd medrau iaith a chyfathrebu disgyblion yn rhagorol. Yn yr achosion gorau, roedd y disgyblion cynradd hynaf yn aml yn dod i gasgliad yn fedrus i ddatblygu eu dealltwriaeth o ystod eang o destunau ac i ffurfio gwybodaeth soffistigedig am gymeriadau trwy eu cymhellion, eu hemosiynau a'u gweithredoedd. Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn cynllunio ar gyfer dilyniant mewn uwch fedrau darllen disgyblion yn ddigon da bob tro i'w galluogi i ymateb i ystod o destunau yn hyderus ac yn ddeallus. Er bod disgyblion mewn llawer o ysgolion yn gwneud cynnydd da mewn ysgrifennu, nid oedd athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gryfhau eu gwaith yn ddigon da bob tro, er enghraifft trwy fynd i'r afael â gwallau ailadroddus neu drwy ganiatáu amser i ddisgyblion saernïo eu gwaith yn effeithiol ar gyfer cynulleidfaoedd a dibenion dilys. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i gefnogi disgyblion i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth fathemategol gadarn. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid oedd athrawon yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn ddigon da.

Datblygodd llawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at wella eu medrau Cymraeg. At ei gilydd, roedd medrau Cymraeg disgyblion yn gryf mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Darllenwch sut gwnaeth Ysgol Brynaman yn Sir Gaerfyrddin ysgogi disgyblion i siarad Cymraeg. Mewn ychydig o ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd disgyblion yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus. Fodd bynnag, roedd medrau llafaredd Cymraeg disgyblion yn wan mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o hyd, gydag ychydig dros chwarter (26%) yr ysgolion yn cael argymhelliad i wella medrau Cymraeg disgyblion. Darllenwch sut gwnaeth Ysgol Gynradd Gwndy yn Sir Fynwy hyrwyddo brwdfrydedd dros ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn gyffredinol, parhaodd ysgolion i ddatblygu addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn bwrpasol. Dechreuodd ychydig ohonynt blethu ACRh yn effeithiol trwy feysydd dysgu a phrofiad i gefnogi dealltwriaeth disgyblion. Dechreuodd ysgolion ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am gymeriad unigryw Cymru. Lle'r oedd y gwaith hwn yn fwyaf effeithiol, roedd profiadau dysgu yn adlewyrchu natur amrywiol Cymru, gan gynnwys rhywedd, anabledd a hil. Roedd athrawon yn cysylltu dysgu'n llwyddiannus â hawliau dynol, gan greu ystyr i ddisgyblion, er enghraifft wrth archwilio cydraddoldeb trwy storïau pobl LHDTC+. Roedd rhai ysgolion yn y camau cynnar o ddatblygu eu cwricwlwm ACRh o hyd ac er eu bod yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu gwerthoedd a pherthnasoedd personol, nid oeddent yn ystyried ystod ddigon eang o ddylanwadau perthnasol. Yn aml, roedd diffyg perthnasoedd a dyfnder yn eu profiadau dysgu. Yn rhy aml, nid oedd disgyblion yn cael eu hannog i rannu eu profiadau bywyd nac i weld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn eu hamgylchedd dysgu. Mae ein hadroddiad ar wrth-hiliaeth yn cynnwys enghreifftiau o arfer effeithiol.

## Gofal, cymorth a lles

Yn ystod y flwyddyn, canfu arolygwyr fod lles disgyblion, eu hagweddau at ddysgu ac ansawdd y gofal a ddarparwyd gan ysgolion cynradd yn gryf. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymdeimlad sicr o berthyn ac roeddent yn falch o'u hysgol. Roeddent yn aml yn awyddus i ddysgu ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig yn ystod gwersi. Mewn ychydig o achosion, roedd disgyblion yn gwneud dewisiadau a oedd yn eu cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r llynedd, roedd gwersi'n aml yn rhy strwythuredig. Cafodd dros draean o ysgolion (36%) argymhelliad yn ymwneud â datblygu disgyblion yn ddysgwyr annibynnol effeithiol. Yn yr ysgolion hyn, nid oedd athrawon yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddatblygu'n feddylwyr chwilfrydig, beirniadol a chreadigol a oedd yn gallu nodi diben eu dysgu a chydnabod yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Parhaodd y rhan fwyaf o ysgolion i ymgorffori diwygio ADY yn effeithiol. Roedd arweinwyr ysgol yn aml yn dangos ymagweddau ystwyth a hyblyg tuag at addasu i anghenion disgyblion. Roedd llawer o ysgolion yn addasu darpariaeth mewn ffyrdd creadigol, gan roi ymyrraeth feddylgar a thargedig ar waith a gwella'r amgylchedd dysgu. Roeddent yn creu darpariaeth ychwanegol i ddatblygu gallu disgyblion i reoli eu hemosiynau, gan eu helpu i deimlo'n barod i ddysgu. Darllenwch am sut nododd Ysgol Cae'r Gwenyn yn Wrecsam strategaeth ysgol gyfan i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion cyn iddynt ddechrau siarad.

Parhaodd ysgolion i ddatblygu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol, gan gynnwys gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Roedd y cyfraniadau hyn yn galluogi arweinwyr i wneud gwelliannau i brofiadau dysgu er mwyn ymateb i adborth disgyblion. Roedd disgyblion yn aml yn defnyddio eu medrau arwain er budd eu cymuned leol, er enghraifft trwy hybu arferion cynaliadwy fel plannu coed afalau a diogelu bywyd gwyllt.

Parhaodd y rhan fwyaf o ysgolion i greu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am y bobl, lleoedd a'r hanes sy'n ffurfio eu hunaniaeth bersonol. Roedd disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd moesegol a phwysigrwydd hawliau dynol a chyfiawnder, er enghraifft cymharu'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng gweithwyr sy'n ymgyrchu dros gyflog cyfartal yng Nghymru a'r rhai sy'n brwydro dros amodau gwaith gwell yn fyd-eang. Dechreuodd ychydig o ysgolion ddatblygu gwybodaeth disgyblion am grefydd a gwerthoedd. Fodd bynnag, yn rhy aml, roedd profiadau cyfyngedig a chul i ddisgyblion ddatblygu gwerthfawrogiad ystyrlon o ddiwylliant ac amrywiaeth yn eu cymunedau, yng Nghymru a'r byd ehangach.

Roedd llawer o ysgolion yn buddsoddi mewn ymgysylltu â theuluoedd ac roedd y perthnasoedd gwerthfawr roeddent yn eu ffurfio yn helpu i wella deilliannau i ddisgyblion mewn sawl ffordd. Roedd ysgolion yn ymwybodol o effaith tlodi ar bresenoldeb a lles cyffredinol disgyblion. Roedd llawer ohonynt yn ystyried yn feddylgar sut i sicrhau profiad ysgol teg i bob disgybl ac yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion i leihau unrhyw rwystrau. Mewn ychydig o'r achosion gorau, roedd ysgolion yn cydweithio'n agos ag ystod o asiantaethau i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd. Er enghraifft, roedd ysgolion yn cynnal gweithdai cynllunio prydau bwyd a chyllidebu ac yn dechrau'r diwrnod â 'dechrau meddal' i leihau pryder. Mae ein hadroddiad thematig ar Gymorth, darpariaeth a phontio ar gyfer addysg gynnar yn cynnwys cameos ac astudiaethau achos o arfer effeithiol.

Roedd mwyafrif yr ysgolion wedi dychwelyd i lefelau presenoldeb cyn y pandemig. Rhai o'r ysgolion mwyaf llwyddiannus o ran gwella presenoldeb ar gyfer pob disgybl oedd y rhai a oedd yn darparu profiadau dysgu difyr i ddisgyblion a lle'r oedd yr addysgu o ansawdd uchel.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, roedd presenoldeb islaw'r ffigurau cyn y pandemig o hyd ac roedd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn sylweddol is na phresenoldeb y rhai nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Gweler yr adnodd

## Arwain a gwella

Roedd arweinyddiaeth yn effeithiol mewn llawer o ysgolion. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer eu hysgolion ac roeddent yn ffurfio strategaethau cydlynol ar gyfer gwella'r ysgol. Roeddent yn sefydlu timau arweinyddiaeth effeithiol a oedd yn cryfhau gallu ysgolion i wella. Roedd yr ysgolion hyn yn ymatebol iawn i anghenion eu disgyblion a'u teuluoedd ac, o ganlyniad, roeddent yn gweithredu fel rhan annatod o'r gymuned leol. Darllenwch sut y datblygodd Ysgol Gynradd Dolau ym Mhont-y-clun arweinwyr ar bob lefel i sicrhau arweinyddiaeth wydn. Yn ystod blwyddyn pan gyflwynodd blaenoriaethau cenedlaethol heriau newydd i ysgolion, dangosodd ysgolion llwyddiannus ystwythder a hyblygrwydd yn eu hymateb i ddiwygio, recriwtio a'r hinsawdd gymdeithasol gyfnewidiol. Yn yr ychydig iawn o ysgolion a roddwyd wedi categori gweithgarwch dilynol ar ôl arolygiad, achos cyffredin oedd nad oedd arweinwyr yn canolbwyntio'n effeithiol ar y meysydd pwysicaf i'w gwella yn eu hysgolion.

Roedd gan lywodraethwyr rôl weithredol ym mywyd yr ysgol, gan ddefnyddio eu profiad a'u harbenigedd yn dda, yn aml, i gefnogi eu hysgolion. Mewn ychydig o achosion, roeddent yn ystyried safbwyntiau disgyblion wrth werthuso effaith unrhyw waith gwella'r ysgol. Roedd llywodraethwyr yn dyrannu cyllid grant yn briodol ond nid oeddent yn mesur effaith cyllid grant ar ddeilliannau disgyblion bob tro. Er bod llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd, mewn ychydig o achosion, roedd llywodraethwyr yn gorddibynnu ar wybodaeth gan arweinwyr ysgolion o hyd, yn hytrach nag ar dystiolaeth uniongyrchol. Yn yr ysgolion hyn, nid oedd llywodraethwyr yn ddigon gwybodus i gefnogi a herio arweinwyr yn effeithiol wrth nodi a mesur blaenoriaethau gwella'r ysgol. Creodd Ysgol Gynradd Troedyrhiw ger Merthyr Tudful grwpiau gwella llywodraethwyr i wella gallu eu corff llywodraethol i gefnogi uwch arweinwyr.

Gweithiodd arweinwyr yn effeithiol i leihau effaith tlodi ar les disgyblion. Roeddent yn datblygu dulliau amrywiol i fynd i'r afael â rhwystrau rhag dysgu, gan ddefnyddio grantiau'n effeithiol, fel y grant datblygu disgyblion. Roedd llawer o ysgolion yn gweithio'n effeithiol i gefnogi teuluoedd yn ystod yr argyfwng ariannol, er enghraifft trwy ddarparu talebau bwyd a thanwydd a chymorthdalu cost digwyddiadau ysgol ac ymweliadau preswyl. Roedd mwyafrif yr ysgolion yn cydnabod y cysylltiad hollbwysig rhwng presenoldeb a dysgu o ran sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddisgyblion ond, lle'r oedd arfer yn llai effeithiol, roedd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd ag incwm isel yn rhy isel o hyd.

Roedd llawer o ysgolion yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol yn gysylltiedig â blaenoriaethau gwella ysgolion a blaenoriaethau cenedlaethol. Roedd ysgolion effeithiol yn canolbwyntio ar gyflawni addysgu o ansawdd uchel trwy weithgareddau dysgu proffesiynol o ansawdd uchel wedi'u cynllunio'n ofalus, gan gynnwys ymchwil a chydweithio. Roedd arweinwyr yn neilltuo'r amser yr oedd ei angen i staff ymgymryd ag ymholi pwrpasol, a arweiniodd at ddarpariaeth a deilliannau gwell ar gyfer disgyblion. Yn aml, roedd ysgolion yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion eraill i rannu arfer a datblygu a gwella eu gwaith.

Roedd llawer o rieni yn gadarnhaol ynghylch y cyfathrebu clir ac amserol rhwng eu hysgol a'r cartref. Roeddent yn gwerthfawrogi cyfleoedd i fod yn rhan o addysg eu plentyn a'r ffordd sensitif roedd ysgolion yn ymdrin â'u hymholiadau a'u pryderon. Roedd staff yn meithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd, gan gynnwys teuluoedd disgyblion ag ADY, i sefydlu ymagwedd gyson effeithiol tuag at ofal a chymorth. Roedd ysgolion a oedd yn gwerthuso darpariaeth yn gywir ac yn rhannu arfer dda yn effeithiol yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cryf yn eu dysgu. Lle'r oedd ysgolion yn cynnig darpariaeth arbenigol, roedd staff yn deall anghenion cymhleth disgyblion ac yn rhoi strategaethau hynod effeithiol ar waith i fodloni eu hanghenion, gan roi ymdeimlad cadarn o berthyn iddynt a'u cefnogi i wneud cynnydd cryf tuag at eu targedau unigol.

Roedd gan lawer o ysgolion drefniadau cadarnhaol ar waith ar gyfer monitro, gwerthuso ac adolygu ac, yn yr enghreifftiau cryfaf, roedd arweinwyr yn cynnwys yr holl staff mewn rhaglen feddylgar o weithgareddau a oedd yn canolbwyntio'n fanwl ar les a chynnydd disgyblion. Yn ystod y flwyddyn, cafodd dros draean o'r ysgolion a arolygwyd argymhelliad i wella agweddau ar arweinyddiaeth. Yn aml, roedd yr argymhellion hyn yn ymwneud â phrosesau hunanwerthuso nad oeddent yn canolbwyntio'n ddigon clir ar ddeilliannau disgyblion ac nad oeddent yn nodi meysydd allweddol i'w gwella mewn addysgu a dysgu.

## Trosolwg o'r argymhellion o arolygiadau

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024, arolygodd Estyn 259 o ysgolion cynradd.

- Cafodd 83 (32%) o ysgolion cynradd argymhelliad yn ymwneud â darparu neu wella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu neu gymhwyso eu medrau, yn enwedig eu medrau rhifedd, ysgrifennu, darllen neu ddigidol. Cafodd 46 o ysgolion argymhelliad i ddarparu neu wella cyfleoedd i ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion, ac argymhellwyd bod 21 ohonynt yn cefnogi disgyblion i gyfrannu mwy at benderfyniadau am eu dysgu eu hunain.
- Rhoddwyd argymhelliad i 49 (18.9%) o ysgolion yn ymwneud â datblygu medrau Cymraeg, gan gynnwys 13 o ysgolion cyfrwng Cymraeg. O'r 49 hynny, cafodd naw ohonynt argymhelliad i wella darpariaeth addysgu Cymraeg.
- Rhoddwyd argymhelliad i 47 (18.2%) o ysgolion sicrhau bod yr addysgu yn herio pob disgybl yn ddigonol, a rhoddwyd argymhelliad i 48 (18.6%) yn ymwneud â rhoi adborth priodol, gan gynnwys darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth, gan sicrhau bod adborth yn helpu disgyblion i nodi a gweithio tuag at y camau nesaf yn eu dysgu neu i wella eu gwaith.
- Cafodd 46 (17.8%) o ysgolion cynradd argymhelliad yn ymwneud â gwella effeithiolrwydd gweithgareddau hunanwerthuso a gwella'r ysgol, a oedd yn canolbwyntio'n amrywiol ar wella ansawdd addysgu a dysgu, rhoi sylw i'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer gwella, a chynnydd disgyblion.
- Rhoddwyd argymhelliad i 26 (10%) o ysgolion cynradd yn ymwneud â gwella presenoldeb. Cafodd deg o'r darparwyr hyn ganlyniad naill ai Adolygu gan Estyn, gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig o'u harolygiad.
- Cafodd naw (3.5%) o ysgolion cynradd argymhelliad yn ymwneud â mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod arolygiad, a rhoddwyd argymhelliad i saith o ysgolion fynd i'r afael â phryderon diogelu.

# Uwchradd

## Ysgolion

**176**

Nifer yr ysgolion 2024

**178**

Nifer yr ysgolion 2023

**182**

Nifer yr ysgolion 2022

## Disgyblion

**172,818**

Cyfanswm y disgyblion

**154,347**

Nifer y disgyblion oed uwchradd (addysg orfodol)

**18,471**

Nifer y disgyblion chweched dosbarth

**20.4%**

Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (5-15 oed)

**19.0%**

Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Pob disgybl)

**3.6 %**

Saesneg fel iaith ychwanegol A-C (5-15 oed)

**16.0%**

Yn gallu siarad Cymraeg (5-15 oed)

**11.2%**

Disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (5-15 oed)

## Gweithgarwch dilynol

Nifer mewn categori gweithgarwch dilynol ym mis Medi 2023

MA: 6 GS: 4 AE: 6

Nifer a dynnwyd yn 2023-2024

MA: 2 GS: 1 AE: 3

## Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: 31

Ymweliadau interim: 2

Cyfrwng Cymraeg: 8

Dwyieithog:

Cyfrwng Saesneg: 25

Ffydd: 2

## Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos y gofynnwyd amdanynt: 12

Wedi'u cyhoeddi ar y wefan: 15

Nifer a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol ar ôl arolygiad craidd yn 2023-2024

MA: 2 GS: 2 AE: 6

Cyfanswm mewn categori gweithgarwch dilynol ym mis Awst 2024

MA: 7 GS: 4 AE: 9

### Ymweliadau ymgysylltu

Nifer yr ymweliadau/galwadau: 6

Cyfrwng Cymraeg: 2

Dwyieithog:

Cyfrwng Saesneg: 4

Ffydd: 0

## Crynodeb

Roedd cryfderau nodedig mewn addysgu a dysgu mewn lleiafrif o ysgolion. Fodd bynnag, roedd diffygion mewn cynllunio gwersi, adborth llafar ac ysgrifenedig, datblygiad strategol medrau llythrennedd, rhifedd, Cymraeg a medrau digidol yn rhwystro cynnydd disgyblion mewn gormod o achosion. Roedd gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn anghyson, gyda heriau o ran sicrhau digon o ddyfnder pynciol a hybu'r Gymraeg yn effeithiol. Roedd gofal a chymorth i ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gyffredinol gryf, ond roedd effaith ymdrechion i wella presenoldeb yn amrywio ac roedd cyfraddau presenoldeb yn sylweddol is na lefelau 2019 o hyd. Mewn ysgolion ag arweinyddiaeth effeithiol, roedd ffocws clir ar degwch ac ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr ysgolion yn wynebu heriau o ran ymgymryd â hunanwerthuso cywir a rhoi cynlluniau gwella effeithiol ar waith.

## Addysgu a dysgu

Roedd gwella addysgu a dysgu yn flaenoriaeth yng nghynlluniau gwella'r rhan fwyaf o ysgolion. Fodd bynnag, roedd amrywiad sylweddol yn y modd roedd ysgolion yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn a pha mor fanwl oeddent o ran nodi'r agweddau ar addysgu a dysgu yr oedd angen eu cryfhau. O ganlyniad, roedd gwahaniaeth amlwg o ran pa mor llwyddiannus oedd ysgolion o ran sicrhau gwelliannau. Dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion y gwelwyd addysgu o ansawdd uchel yn gyson. Er bod cryfderau ym mwyafrif yr ysgolion, gwelwyd diffygion yn yr addysgu yn rhy gyson. O ganlyniad, cafodd mwyafrif yr ysgolion argymhellion i wella ansawdd yr addysgu.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion a oedd ag addysgu o ansawdd uchel yn gyson, roedd cynllunio meddylgar yn arwain at gynnydd rhagorol gan ddisgyblion. Roedd athrawon yn pennu nodau clir, yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn addasu dysgu yn unol â hynny. Roeddent yn holi disgyblion yn effeithiol i ddyfnhau eu dealltwriaeth, datblygu llafaredd a meithrin annibyniaeth. Roedd yr athrawon mwyaf llwyddiannus yn cynnig heriau trylwyr i bob disgybl, gan gefnogi'r rhai â medrau gwannach heb or-reoli. Roedd eu brwdfrydedd a'u harbenigedd yn arwain at lefelau uchel o ymgysylltiad ymhlith disgyblion a chynnydd cryf mewn gwybodaeth a medrau pwnc, yn enwedig mewn llafaredd a dysgu'n annibynnol.

Ym mwyafrif yr ysgolion, roedd nodweddion addysgu cadarnhaol yn galluogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd addas mewn gwybodaeth bynciol, dealltwriaeth, llythrennedd a, lle y bo'n berthnasol, rhifedd. Roedd arferion effeithiol yn cynnwys:

- Creu neu ddod o hyd i adnoddau priodol
- Cynllunio camau dilyniannol a gweithgareddau dysgu difyr
- Rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir
- Holi disgyblion yn rheolaidd i wirio eu dealltwriaeth

Fodd bynnag, roedd diffygion mewn lleiafrif o wersi, gan arwain at ddisgyblion yn tangyflawni. Roedd y prif ddiffygion yn cynnwys:

- Cynllunio gwersi yn wan, gan gynnwys gweithgareddau sy'n cadw disgyblion yn brysur ond nad ydynt yn hybu cynnydd
- Ystyriaeth annigonol o ymagweddau addysgegol ac amcanion dysgu
- Gor-drefnu gweithgareddau heb werth datblygiadol
- Her a rhediad nad oeddent yn cyd-fynd â gallu disgyblion
- Modelu annigonol neu gymorth annigonol i sicrhau dealltwriaeth disgyblion
- Gor-gefnogi disgyblion gan eu rhwystro rhag datblygu annibyniaeth
- Disgwyliadau isel o ran ymgysylltiad ac ymdrech disgyblion
- Derbyn ymatebion llafar ac ysgrifenedig annatblygedig gan ddisgyblion

Roedd ansawdd yr adborth gan athrawon yn amrywio o fewn ac ar draws ysgolion. Roedd yr enghreifftiau mwyaf defnyddiol yn cynnwys gwerthusiadau ystyrlon a chyngor gwella manwl, gyda disgwyliadau clir ar gyfer ymatebion disgyblion. I'r gwrthwyneb, roedd gan ychydig o ysgolion systemau marcio beichus a oedd yn canolbwyntio ar amlder y marcio yn hytrach nag effaith gyffredinol adborth ar ddysgu.

Roedd gan leiafrif o ysgolion strategaethau clir ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, gan arwain at gynnydd cymhellol disgyblion wrth gymhwyso'r medrau hyn ar draws cyd-destunau. Enghraifft o ysgol sy'n datblygu'r medrau hyn yn dda, sef Ysgol Gyfun Cefn Hengoed. Fodd bynnag, nid oedd gan fwyafrif yr ysgolion ymagweddau strategol i ddatblygu'r medrau hyn, gan arwain at argymhellion ar gyfer gwella mewn 21 o'r 31 o ysgolion a arolygwyd. Mewn llawer o achosion, nid oeddent yn defnyddio'r fframweithiau defnyddiol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Roedd llawer o ysgolion yn canolbwyntio'n briodol ar wella llafaredd, yr oedd y pandemig wedi cael effaith negyddol arno, gan olygu'n aml fod disgyblion yn anfodlon cymryd rhan mewn trafodaethau neu roi ymatebion estynedig. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o ysgolion yn cynnig cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau siarad a gwrando.

Roedd llawer o athrawon yn datblygu medrau darllen sylfaenol yn effeithiol yn addas o fewn pynciau, gyda thasgau darllen rheolaidd a oedd yn gwella gwybodaeth bynciol. Fodd bynnag, roedd datblygu medrau darllen uwch yn aml yn cael ei esgeuluso, gyda gorddibyniaeth ar adrannau iaith i wneud hynny. Yn yr un modd, roedd cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig mewn pynciau heblaw Cymraeg neu Saesneg yn anghyson. Lle'r oedd datblygu ysgrifennu'n gryf, roedd disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol, ond roedd datblygiad annigonol yn cynnwys gorddefnyddio taflenni gwaith wedi'u dylunio'n wael a oedd yn cyfyngu ar ymatebion disgyblion. Roedd lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn gwneud gwallau sillafu, gramadeg ac atalnodi yn gyson ac roedd llawysgrifen a chyflwyniad wedi dirywio ers y pandemig.

Roedd mwyafrif y disgyblion yn dangos medrau rhifedd sylfaenol cadarn ond roedd cyfleoedd ystyrlon i gymhwyso'r medrau hyn yn aml yn brin. Roedd lleiafrif o ysgolion yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu rhifedd yn gynyddol ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, roedd yr ysgolion hyn yn sicrhau bod gwyddoniaeth, daearyddiaeth a dylunio a thechnoleg yn cynnig tasgau mwyfwy heriol mewn cyd-destunau dilys. Darllenwch am strategaeth rhifedd Ysgol y Creuddyn yma.

Mewn ychydig iawn o ysgolion, roedd gan arweinwyr strategaethau tra ystyriol i ddatblygu medrau digidol, gan arwain at gyfleoedd cyfoethog ar draws pynciau. Darllenwch yma am ymagwedd Ysgol Gyfun Coed-duon at ddatblygu medrau digidol disgyblion. Fodd bynnag, roedd llawer o ysgolion yn cynnig arfer annigonol ar gyfer cymhwysedd digidol y tu allan i gyfrifiadura neu TG.

Roedd ychydig o ysgolion cyfrwng Saesneg yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu gallu i sgwrsio yn Gymraeg. Darllenwch yma sut mae Ysgol Pen-y-Dre yn creu diwylliant cryf a gwerthfawrogiad o'r Gymraeg a'i threftadaeth. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, roedd athrawon yn cynnig tasgau dibwys i ddisgyblion ac nid oeddent yn darparu digon o gyfleoedd iddynt siarad yr iaith a gwrando arni. Yn aml, roedd cysylltiad disgyblion â hanes a diwylliant Cymru wedi'i gyfyngu i ddigwyddiadau cul, fel eisteddfod yr ysgol. Roedd recriwtio athrawon Cymraeg yn her i'r rhan fwyaf o ysgolion o hyd.

Roedd ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cynnig cyfleoedd diwylliannol cryf i ddisgyblion ond, yn aml, roedd ganddynt ddisgwyliadau isel o ran defnydd disgyblion o'r iaith. Mewn lleiafrif o achosion, roedd gan athrawon ddisgwyliadau isel o ran cywirdeb iaith ac nid oeddent yn herio defnydd disgyblion o Saesneg yn y dosbarth nac yn eu cefnogi'n ddigonol i fynegi eu hunain yn Gymraeg.

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gwricwlwm eang, yn gyffredinol. Gweler sut mae Ysgol John Bright yn mynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, roedd gan leiafrif o ysgolion gyfnod allweddol 4 tair blynedd a oedd yn cyfyngu ar ystod y profiadau ar gyfer disgyblion ac yn cyfyngu ar barhad pynciau ar ddiwedd Blwyddyn 8. Roedd cynllunio cwricwlwm yn effeithiol yn yr ysgolion gorau yn bodloni anghenion bron pob un o'r dysgwyr. Roedd y mwyafrif ohonynt yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad cryf ar gyfer dysgu a gyrfaoedd yn y dyfodol, gydag ychydig ohonynt yn ailgyflwyno lleoliadau profiad gwaith ar gyfer Blwyddyn 10 a 12 yn fuddiol. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n manteisio'n llawn ar gyfleoedd i gydweithio â cholegau lleol i wella eu harlwy cwricwlaidd. Ar ben hynny, nid ydynt bob amser yn cynnig arweiniad diduedd i ddisgyblion ar eu dewisiadau yn y dyfodol.

Wrth i Gwricwlwm i Gymru ddod yn statudol ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8, gwnaeth y rhan fwyaf o ysgolion drefniadau digonol, ar y cyfan. Roedd cydweithio ag ysgolion cynradd partner yn sicrhau parhad dysgu, ond roedd ailadrodd a lefelau isel o her yn gyffredin. Yn aml, roedd ymdrechion ysgolion i ehangu'r cwricwlwm yn arwain at ddiffyg dyfnder a chydlyniant mewn rhai pynciau, yn

enwedig pynciau'r dyniaethau. Yn yr achosion hyn, mae'r cwricwlwm wedi dod yn rhy dameidiog wrth i ddisgyblion symud o un pwnc i'r llall yn rhy gyflym heb ddatblygu dyfnder y ddealltwriaeth sy'n ofynnol. Mewn rhai achosion, roedd ymdrechion ysgolion i ehangu profiadau dysgu trwy ddarparu unedau gwaith byr ar bynciau 'newydd', fel unedau blasu mewn ieithoedd tramor modern eraill, yn arwain at ddysgu a oedd yn rhy arwynebol neu ymddatodedig ac yn arwain at broblemau o ran dilyniannu dysgu wrth i ddisgyblion symud i fyny i astudio'r pynciau hyn yng nghyfnod allweddol 4. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd datblygiadau Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd yn agos â gweledigaeth arweinwyr ar gyfer datblygu addysgu a dysgu. Yn gyffredinol, roedd ymagwedd strategol ysgolion at gynllunio ar gyfer dilyniant ac asesu gwybodaeth a medrau yn ei chamau cynnar.

Roedd llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd addas ar gyfer deall profiadau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig a phobl LHDTC+, yn aml trwy'r cwricwlwm, gwasanaethau a siaradwyr gwadd. Roedd dathlu cyflawniadau ac amrywiaeth yn ffocws cadarnhaol, er nad yw darpariaeth rhai ysgolion yn y maes hwn wedi'i datblygu'n ddigonol.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Yn gyffredinol, roedd gofal, cymorth ac arweiniad ysgolion i ddisgyblion yn gryf o hyd, gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig gweithgareddau cyfoethogi buddiol a oedd yn cefnogi datblygiad disgyblion, gan gynnwys cyngherddau, cynyrchiadau theatr a chystadlaethau chwaraeon a cherddoriaeth.

Yn gynnar yn nhymor yr hydref, cynhaliom adolygiad thematig cenedlaethol o bresenoldeb, (darllenwch amdano yma), gan nodi pryderon parhaus, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd lle'r oedd cyfraddau presenoldeb yn sylweddol is na'r lefelau cyn y pandemig o hyd. Er gwaethaf mân gynnydd cenedlaethol, ni adferodd presenoldeb ysgolion uwchradd yn ddigon cyflym, yn enwedig ymhlith disgyblion o aelwydydd ag incwm isel a'r rhai sydd ag absenoldebau cyson. Argymhellwyd bod tua hanner yr ysgolion a arolygwyd yn gwella presenoldeb. Gwnaeth y rhan fwyaf o ysgolion ymdrechion sylweddol i ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a disgyblion, gan bwysleisio pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd. Nododd y mwyafrif ohonynt grwpiau o ddisgyblion â phresenoldeb isel hefyd a chynnig cymorth neu fentora iddynt. Fodd bynnag, lle'r oedd gwelliannau i bresenoldeb yn fach iawn, roedd arweinwyr yn aml yn methu dadansoddi data'n drylwyr i nodi patrymau ac nid oeddent yn adolygu effeithiolrwydd eu dulliau yn strategol. Darllenwch sut y gwellodd staff yn Ysgol Pontarddulais bresenoldeb.

Roedd gan fwyafrif yr ysgolion systemau clir, a oedd yn cael eu deall yn dda, i fynd i'r afael ag ymddygiad gwael a dathlu ymddygiad ac agweddau cadarnhaol. Roedd ysgolion ag ethos cryf o gynwysoldeb yn aml yn darparu rhaglenni a chymorth targedig mewn canolfannau mewnol i helpu disgyblion i addasu eu hymddygiad. Yn gyffredinol, roedd llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn briodol. Roeddent yn canolbwyntio'n dda, yn ymateb yn briodol i dasgau ac yn datblygu annibyniaeth a dyfalbarhad pan roddwyd cyfle iddynt wneud hynny. Mewn lleiafrif o ysgolion, roedd rhai disgyblion yn dangos ymddygiad aflonyddgar. Nododd yr ysgolion hyn fod angen cynyddol am gymorth uwch ac arbenigol oherwydd natur gymhleth ymddygiad disgyblion. Fodd bynnag, roedd staff yn bryderus oherwydd nad oedd y cymorth allanol hwn ar gael.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddylanwadu ar agweddau ar fywyd ysgol, yn enwedig mewn iechyd a lles ac i ddatblygu medrau arweinyddiaeth trwy grwpiau a phwyllgorau. Yn yr achosion gorau, roedd arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion o grwpiau penodol, fel y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am

ddim, yn gallu cyfrannu eu barn. Fodd bynnag, nid oedd llawer o ysgolion yn casglu barn disgyblion yn systematig ar feysydd pwysig fel addysgu nac yn eu grymuso i fod yn rhan o benderfyniadau strategol.

Roedd cymorth i ddisgyblion ag ADY yn gryf ym mwyafrif yr ysgolion ac roedd arweinwyr yn gwneud cynnydd da tuag at gydymffurfio â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Roedd gan lawer o ysgolion raglenni pontio gwell ar gyfer disgyblion ADY a dysgwyr bregus eraill, gan eu helpu i ymgartrefu'n dda mewn ysgolion. Roedd timau ADY yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad i athrawon, fel proffiliau un dudalen, i gefnogi cynllunio. Yn yr achosion gorau, roedd athrawon yn defnyddio'r arweiniad hwn yn effeithiol i addasu eu haddysgu. Fodd bynnag, roedd gormod o amrywiad o ran pa mor dda roedd athrawon mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn cynllunio ar gyfer disgyblion ag ADY ac yn deall y cymorth gofynnol. Roedd llawer o ysgolion yn cynnig rhaglenni ymyrraeth ar gyfer disgyblion â medrau sylfaenol gwan neu sgorau isel mewn darllen, sillafu a rhifedd ond, yn aml, nid oedd gan y rhaglenni hyn feini prawf mynediad ac ymadael clir. Roedd diffygion cyffredin mewn darpariaeth ADY yn cynnwys olrhain cynnydd dysgwyr ag ADY yn annigonol a monitro annigonol o effeithiolrwydd ymyriadau.

Roedd cryfderau nodedig yng nghanolfannau adnoddau arbenigol awdurdodau lleol sy'n cael eu lletya gan ysgolion. Roedd y canolfannau hyn yn amgylcheddau anogol, tawel a chefnogol lle'r oedd disgyblion ag anghenion cymedrol neu benodol yn ffynnu'n gymdeithasol a, lle y bo'n briodol, yn academaidd. Roedd llawer o ddisgyblion yn integreiddio'n llwyddiannus i ddosbarthiadau prif ffrwd ac yn cyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Roedd arweinwyr a staff bugeiliol mewn llawer o ysgolion yn gweithio'n bwrpasol â theuluoedd ac asiantaethau allanol i gefnogi dysgwyr yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt oherwydd anawsterau cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol neu broblemau iechyd a phroblemau teuluol. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd staff yn sicrhau cyfathrebu effeithiol â rhieni a gofalwyr, yn ogystal â chysylltiad rheolaidd ag asiantaethau statudol i fynd i'r afael â phryderon yn brydlon. Roedd llawer o ysgolion yn darparu ymyriadau a rhaglenni cymorth teilwredig gan staff hyfforddedig, a oedd yn helpu disgyblion i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Roedd ychydig o ysgolion yn cynnig grwpiau cymorth a chyfleusterau arbennig o effeithiol i ddisgyblion bregus a'r rhai y mae tlodi yn effeithio arnynt, gan gynnwys clybiau sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau allanol a rhaglenni ar ôl ysgol sy'n cynnig prydau poeth.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cymorth i ddysgwyr bregus, gan gynnwys y rhai y mae tlodi'n cael effaith andwyol arnynt a'r rhai sydd ag anghenion ymddygiadol ac emosiynol. Roedd gan lawer o ysgolion ardaloedd penodol lle gallai disgyblion pryderus neu ansicr gael cymorth ar gyfer eu dysgu. Roedd pynciau galwedigaethol a chyrsiau teilwredig ar gael mewn llawer o ysgolion i gadw disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio a chael eu gwahardd mewn addysg. Roedd yr ymdrechion hyn yn cyfrannu'n sylweddol at natur gynhwysol ac anogol ysgolion, gan alluogi disgyblion bregus i barhau â'u dysgu. Darllenwch sut mae Ysgol Mair Ddihalog yn helpu dysgwyr bregus.

Roedd llawer o ysgolion yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion, yn enwedig yn y blynyddoedd iau, trwy sesiynau tiwtoriaid, gwersi iechyd a lles a gwasanaethau. Darllenwch yma sut mae Ysgol Maes y Gwendraeth yn gwneud hyn yn arbennig o dda. Roeddent yn darparu rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol cynhwysfawr a oedd yn archwilio themâu fel iechyd meddwl a chynnal ffordd iach o fyw. Roedd yr ysgolion gorau yn mynd i'r afael â materion cyfredol a pherthnasol, fel fêpio, ac yn ymateb yn brydlon i bryderon lleol penodol. Roedd siaradwyr gwadd ac arbenigwyr yn cael eu defnyddio'n aml i ddod ag arbenigedd a dilysrwydd i brofiadau disgyblion ar bynciau fel cydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ysgolion,

ychydig iawn o gyfleoedd oedd i ddisgyblion hŷn ddyfnhau eu dealltwriaeth o bynciau pwysig fel iechyd rhyw a pherthnasoedd iach. Roedd llawer o ysgolion yn annog disgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion moesegol trwy godi arian, cysylltiadau ag elusennau a gwirfoddoli, yn enwedig yn y chweched dosbarth.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd diwylliant diogelu cryf. Crybwyllodd llawer o ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel ac roeddent yn gallu enwi aelodau staff roeddent yn gallu mynd atynt i gael cymorth. Yn gyffredinol, roedd disgyblion yn teimlo bod staff yn ymateb yn briodol i achosion o fwlio ac aflonyddu. Roedd bron pob ysgol yn sicrhau bod staff ar bob lefel yn cael hyfforddiant addas mewn diogelu ac amddiffyn plant, gan gynnwys adnabod plant sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio a materion yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod.

## Arwain a gwella

Roedd arweinwyr ym mhob ysgol yn rhoi blaenoriaeth i degwch a chynhwysiant, gan ganolbwyntio'n aml ar godi dyheadau pob disgybl. Mewn achosion lle'r oedd arweinyddiaeth yn ysbrydoledig, roedd arweinwyr yn meithrin ymddiriedaeth â'u staff, yn darparu cyfeiriad clir, roedd ganddynt ymdeimlad cryf o ddiben moesol ac roeddent yn cynnal disgwyliadau uchel. Roedd yr ysgolion hyn yn meithrin diwylliant o wella'n barhaus, wedi'u hysgogi gan y ddealltwriaeth fod addysgu effeithiol wrth wraidd eu cenhadaeth. Roedd arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn bwrpasol ac yn berthnasol, gan helpu staff i fodloni anghenion disgyblion er gwaethaf heriau parhaus. Fodd bynnag, roedd yn peri pryder bod llawer o'r argymhellion a roddwyd yn debyg i'r rhai o flynyddoedd blaenorol. Roedd meysydd cyffredin yr oedd angen eu gwella yn cynnwys hunanwerthuso, cynllunio gwelliant, addysgu, asesu a datblygu medrau disgyblion yn gynyddol.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd systemau rheoli perfformiad yn gadarn ond, yn aml, nid oedd amcanion wedi'u cysylltu'n agos â chynnydd disgyblion neu ddeilliannau mesuradwy. Yn yr ychydig ysgolion lle'r oedd rheolaeth linell yn arbennig o effeithiol, roedd trafodaethau'n canolbwyntio'n gyson ar faterion strategol, gyda phwyslais clir ar addysgu a dysgu. Fodd bynnag, mewn ysgolion yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt, roedd rolau arwain a oedd yn gorgyffwrdd a chyfrifoldebau anghyfartal yn rhwystro cynnydd ac yn creu diffyg eglurder o ran atebolrwydd.

Roedd dysgu proffesiynol yn arwain at newidiadau cadarnhaol mewn arferion addysgu mewn lleiafrif o ysgolion. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, nid oedd arweinwyr yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar ansawdd addysgu na safonau disgyblion yn systematig. Yn yr ysgolion gorau, roedd diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol lle'r oedd arferion athrawon yn cael eu llywio gan dystiolaeth ac ymchwil, wedi'u cefnogi gan ymddiriedaeth broffesiynol, ac yn cael eu meithrin trwy gydweithio â chymheiriaid. Roedd yr ysgolion hyn yn annog staff i ddilyn eu diddordebau proffesiynol, cydweithio, arloesi a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Yn gyffredinol, roedd llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n addas, gan ddangos cefnogaeth a balchder yn eu cymunedau ysgol. Roeddent yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n ddiwyd, yn enwedig mewn meysydd fel diogelu a hybu bwyta'n iach. Roedd llywodraethwyr hefyd yn cefnogi ysgolion i reoli cyllidebau a chynllunio gwariant grantiau. Fodd bynnag, dim ond mewn ychydig o ysgolion yr oedd llywodraethwyr yn cyfrannu'n weithredol at bennu'r cyfeiriad strategol. Yn aml, nid oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i ddeall perfformiad yr ysgol yn effeithiol a dwyn uwch arweinwyr yn atebol.

Roedd amrywiad o ran pa mor dda yr oedd arweinwyr yn integreiddio blaenoriaethau cenedlaethol yn

eu cynlluniau gwella a'u gweithrediadau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn rhannol oherwydd nifer y blaenoriaethau cyfredol. Roedd bron pob ysgol yn dangos diwylliant diogelu cryf. Fodd bynnag, o ran datblygu'r Gymraeg, roedd diffyg uchelgais a disgwyliadau isel yn parhau mewn lleiafrif o ysgolion. Roedd darpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn wan o hyd, gan arwain at arolygwyr yn argymell gwelliannau mewn dwy o bob tair o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd. Roedd rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith ym Mlynyddoedd 7 ac 8 yn anghyson. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd systemau i asesu cynnydd disgyblion yn eu camau cynnar o hyd. Roedd recriwtio staff yn bryder sylweddol ar draws pob ysgol, yn enwedig y prinder athrawon cymwysedig mewn pynciau fel gwyddoniaeth a Chymraeg.

Mewn llawer o ysgolion, roedd arweinwyr yn ymwybodol iawn o'r heriau sy'n wynebu disgyblion y mae tlodi, difreintedd cymdeithasol a ffactorau negyddol eraill yn effeithio arnynt. Roedd ysgolion yn gweithio mewn modd sensitif i gael gwared ar rwystrau rhag dysgu trwy ddarparu cymorth perthnasol a sicrhau y gallai disgyblion fanteisio ar weithgareddau cyfoethogi i ehangu eu gorwelion. *Darllenwch am waith Ysgol Uwchradd Llanisien yn y maes hwn.* Roedd ysgolion cryfach yn meithrin cysylltiadau â chymunedau lleol, banciau bwyd ac elusennau, gan gynnal perthynas gynhyrchiol â theuluoedd. Roedd yr ysgolion hyn yn defnyddio strategaethau amrywiol i ymgysylltu â rhieni a sicrhau eu bod yn cefnogi dysgu eu plentyn. Mewn ychydig o achosion, roedd disgwyliadau uchel a dulliau cynhwysfawr o liniaru effaith tlodi wedi'u hymwreiddio mewn polisïau a systemau, gan sicrhau bod yr ysgolion hyn yn arbennig o effeithiol wrth godi cyrhaeddiad a phresenoldeb disgyblion difreintiedig. *Darllenwch am waith Ysgol Gyfun Cefn Hengoed i leddfu effaith tlodi ar gyflawniad yma.*

Roedd ansawdd ac effeithiolrwydd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ysgolion yn amrywio ac nid oeddent yn cael effaith ddigonol yn y mwyafrif o ysgolion. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, gwella'r agwedd hon oedd yr argymhelliad mwyaf cyffredin a roddwyd i ysgolion. Un diffyg allweddol oedd diffyg ymagwedd systematig at werthuso effaith addysgu a darpariaeth arall ar gynnydd academaidd a phersonol disgyblion. Roedd y defnydd o ddata presenoldeb a chyrhaeddiad yn aml yn annigonol ac nid oedd tystiolaeth uniongyrchol yn cael ei defnyddio na'i thriongli'n systematig i werthuso effeithiolrwydd darpariaeth. Yn aml, roedd gweithgareddau gwerthuso yn canolbwyntio'n rhy gul ar agweddau disgyblion a chydymffurfiaeth athrawon â strategaethau dosbarth, yn hytrach nag ar ansawdd ac effaith yr addysgu a'r asesu. O ganlyniad, yn aml, roedd gan arweinwyr farn or-gadarnhaol o ansawdd yr addysgu ac nid oedd eu gwerthusiadau'n cynnwys y manylder yr oedd ei angen i gynllunio ar gyfer gwelliannau angenrheidiol.

Yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus, roedd blaenoriaethau gwella yn glir, yn hylaw ac roedd yr holl staff yn eu deall yn dda. Roedd arweinwyr yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn yn gyson, gan ddefnyddio data, gwybodaeth a gwariant grant i asesu effeithiolrwydd eu strategaethau'n gywir.

Roedd yr ysgolion hyn yn defnyddio'r wybodaeth hon yn rheolaidd i ysgogi gwelliant. Yn yr ysgolion gorau oll, roedd ymrwymiad pendant i welliant parhaus, wedi'i gefnogi gan ddiwylliannau dysgu proffesiynol cryf a dealltwriaeth glir bod addysgu effeithiol wrth wraidd eu llwyddiant. *Darllenwch am ymagwedd Ysgol Gyfun Pontarddulais at wella'r ysgol.*

## Trosolwg argymhellion

Yn y flwyddyn academaidd 2023 – 2024, arolygodd Estyn 31 o ysgolion uwchradd.

- Rhoddwyd argymhelliad i 21 (68%) o ysgolion uwchradd i gryfhau a mireinio eu prosesau hunanarfarnu a/neu gynllunio gwelliant. Cynghorwyd 9 o'r darparwyr hyn i ganolbwyntio ar addysgu, dysgu a chynnydd disgyblion.

- Rhoddwyd argymhelliad i 20 (65%) o ysgolion uwchradd ynglŷn â datblygiad cynyddol sgiliau disgyblion. Roedd hyn trwy wella addysgu, darpariaeth, cynllunio, a/neu gydlynu. O'r darparwyr hyn, roedd rhai o'r argymhellion a roddwyd yn nodi eu bod yn canolbwyntio ar un neu fwy o feysydd penodol o'r cwricwlwm: cynghorwyd 10 darparwr i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau rhifedd disgyblion, 8 ar fedrau llythrennedd disgyblion, 6 ar fedrau Cymraeg disgyblion, a 4 ar fedrau digidol disgyblion.
- Derbyniodd 16 (52%) o ysgolion uwchradd argymhelliad ynglŷn â gwella addysgu. Roedd 7 o'r argymhellion hyn yn rhoi pwyslais ar gynnydd disgyblion a 6 ar herio disgyblion. Derbyniodd 3 o'r darparwyr hyn argymhelliad a oedd yn canolbwyntio ar ansawdd yr addysgu a'r asesu. Derbyniodd 5 darparwr ychwanegol argymhelliad a oedd hefyd yn ymwneud ag asesu ac adborth
- Cafodd 15 (48%) o ysgolion uwchradd argymhelliad i wella presenoldeb.
- Rhoddwyd argymhelliad i 10 (32%) o ysgolion uwchradd ynglŷn â gwella eu darpariaeth Gymraeg. O'r rhain, rhoddwyd argymhelliad penodol i 6 darparwr i wella medrau Cymraeg disgyblion, fel y crybwyllwyd eisoes. Cynghorwyd 2 o'r darparwyr hyn hefyd i wella dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.
- Rhoddwyd argymhelliad ar arweinyddiaeth i 9 (29%) o ysgolion uwchradd, a chyhoeddwyd argymhellion yn cynnwys themâu rôl, cyfrifoldeb, atebolrwydd, strategaeth a gwelliant.
- Rhoddwyd argymhelliad i 3 (10%) ysgol uwchradd ynglŷn â chryfhau a datblygu rôl y corff llywodraethu.
- Argymhellion eraill a roddwyd i ddarparwyr y rhoddwyd cyngor iddynt ar themâu gan gynnwys iechyd a diogelwch, ymddygiad disgyblion, gwaharddiadau, darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY), lles disgyblion, cyfathrebu rhwng rhieni a disgyblion a staff, cyllideb a sicrhau ansawdd.

# Pob Oed

## Ysgolion

**29**

Nifer yr ysgolion 2024

**27**

Nifer yr ysgolion 2023

**23**

Nifer yr ysgolion 2022

## Disgyblion

**28,959**

Cyfanswm y disgyblion

**6,064**

Nifer y disgyblion o oed cynradd

**18,957**

Nifer y disgyblion o oed uwchradd (addysg statudol)

**2,031**

Nifer y disgyblion chweched dosbarth

**18.5%**

Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (5-15 oed)

**17.0%**

Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Pob disgybl)

**2.2%**

Saesneg fel iaith ychwanegol A-C (5-15 oed)

**31.7%**

Yn gallu siarad Cymraeg (5-15 oed)

**8.6%**

Disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (5-15 oed)

## Gweithgarwch dilynol

Nifer mewn categori gweithgarwch dilynol ym mis Medi 2023

MA: 1 GS: 0 AE: 1

Nifer a dynnwyd yn 2023-2024

MA: 0 GS: 0 AE: 1

## Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: 5

Cyfrwng Cymraeg: 0

Dwyieithog: 3

Cyfrwng Saesneg: 2

Ffydd: 1

## Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos: 1

Enwau’r ysgolion ag astudiaethau achos: Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr

Nifer a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol ar ôl arolygiad craidd yn 2023-2024

MA: 0 GS: 0 AE: 3

Cyfanswm mewn categori gweithgarwch dilynol ym mis Awst 2024

MA: 1 GS: 0 AE: 3

### Ymweliadau ymgysylltu

Nifer yr ymweliadau/galwadau: 0

Cyfrwng Cymraeg: 0

Dwyieithog: 0

Cyfrwng Saesneg: 0

Ffydd: 0

## Crynodeb

Yn ystod 2023-2024, mae ysgolion pob oed wedi parhau i ganolbwyntio’n gryf ar les disgyblion a datblygu diwylliant o berthyn ac ethos o fod yn un ysgol. Roedd perthnasoedd gwaith cryf rhwng athrawon a disgyblion yn nodweddion nodedig yn yr ysgolion hyn. Roedd hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu cefnogi’n dda, yn teimlo’n ddiogel ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at eu gwaith. Roedd ansawdd yr addysgu yn amrywio, yn bennaf oherwydd disgwyliadau gwahanol ac anghysondebau o ran lefel yr her a ddarparwyd. Mae ysgolion ar gamau datblygu gwahanol o ran cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig i ddisgyblion oed uwchradd. Ym mhob un o’r ysgolion a arolygwyd, nid oedd cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol ac yn systematig wedi’i gydlynu’n ddigon da. O ganlyniad, nid oedd disgyblion yn adeiladu’n ddigon da ar ddysgu blaenorol. Yn benodol, nid oedd ysgolion yn darparu digon o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu, eu huwch fedrau darllen na’u medrau digidol wrth iddynt symud i’r cyfnodau uwchradd. Yn gyffredinol, mae arweinwyr wedi rhoi cylch o weithgareddau priodol ar waith i werthuso gwaith yr ysgol ac wedi nodi blaenoriaethau addas ar gyfer gwella. Fodd bynnag, wrth werthuso addysgu, nid oedd arweinwyr yn canolbwyntio’n ddigon da ar yr effaith ar gynnydd disgyblion.

## Dysgu, addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgolion a arolygwyd yn 2023-2024, gwnaeth llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gynnydd addas o leiaf dros gyfnod. Gwnaeth ychydig

ohonynt gynnydd cryf. Yn gyffredinol, gwnaeth disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gynnydd priodol o'u mannau cychwyn.

Roedd gan y rhan fwyaf o athrawon berthynas waith gadarnhaol â disgyblion a oedd yn helpu i greu amgylchedd dysgu dymunol. Yn yr ychydig o achosion gorau, roedd athrawon yn cynllunio ac yn addasu gwaith a oedd yn bodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion. Roeddent yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu trwy brofiadau gwerthfawr a oedd yn cysylltu â'u bywydau bob dydd ac yn caniatáu iddynt gymhwyso eu medrau. Roedd athrawon yn darparu gweithgareddau diddorol i ennyn chwilfrydedd disgyblion a'u helpu i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Roedd yr athrawon hyn yn sicrhau rhediad priodol i'r dysgu ac roedd ganddynt ddisgwyliadau uchel.

Mewn lleiafrif o achosion, lle nad oedd yr addysgu'n ddigon effeithiol, nid oedd athrawon yn ystyried anghenion pob disgybl yn addas wrth gynllunio, gan gynnwys ar gyfer disgyblion ag ADY. Nid oedd ganddynt ddisgwyliadau digon uchel ac nid oeddent yn cynnig her addas, ychwaith. O ganlyniad, nid oedd disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent a gwnaethant ymddieithrio o'u dysgu. Gwnaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion chweched dosbarth gynnydd cadarn ac roeddent yn dangos agweddau cadarnhaol dros ben tuag at eu dysgu.

Pan roddwyd cyfle iddynt, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, yn enwedig yn y cyfnodau cynradd. Yn gyffredinol, roedd datblygiad medrau llafaredd a rhifedd disgyblion yn gryfach na datblygiad eu medrau darllen, ysgrifennu a digidol. Fodd bynnag, ym mron pob achos, nid oedd ysgolion yn cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol yn ddigon da.

Creodd ychydig o ysgolion ethos Cymraeg yn llwyddiannus, a oedd yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cryf yn eu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oedd ysgolion yn darparu digon o gyfleoedd dilys i ddisgyblion gymhwyso eu medrau siarad a gwrando Cymraeg.

Roedd llawer o ysgolion yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys priodol i ddisgyblion ac yn bodloni anghenion unigol yn dda. Roeddent yn datblygu gweledigaeth briodol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru a oedd yn cael ei deall yn dda gan y rhan fwyaf o staff. Cyflwynwyd hyn yn briodol ar draws y cyfnodau cynradd. Mewn lleiafrif o ysgolion, roedd cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn llai datblygedig yn y cyfnod uwchradd. O ganlyniad, nid yw disgyblion o Flwyddyn 7 i fyny, yn aml o ysgolion cynradd partner, yn elwa ar barhad digonol yn eu dysgu.

Ym mwyafrif yr ysgolion, roedd y cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i hybu dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am wahaniaethu a rhagfarn yn erbyn cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif o ysgolion yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ystyried profiadau'r cymunedau hyn.

## Gofal, cymorth, arweiniad a lles

Ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd, bu lles a gofal, cymorth ac arweiniad yn gryf.

Maent wedi datblygu ystod eang o ddarpariaeth i gefnogi disgyblion mewn amgylchedd cynhwysol a chefnogol. Mae hyn wedi cyfrannu at ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a bod ganddynt agwedd gadarnhaol at eu dysgu. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgolion yn falch o berthyn i'w cymuned ac yn trin ei gilydd yn barchus ac yn gwrtais. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y

chweched dosbarth, lle bo hynny'n berthnasol, yn dangos agweddau cadarnhaol ac aeddfed dros ben tuag at eu gwaith. At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Roedd pob un o'r ysgolion a arolygwyd yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn addas trwy gyfuniad o weithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys gwasanaethau, amser myfyrio, digwyddiadau diwylliannol a gwersi iechyd a lles.

### Datblygu disgyblion yn unigolion cwrtais a chydwybodol yn Ysgol Santes Ffraid

Nodwedd ragorol o Ysgol Santes Ffraid oedd yr ymdeimlad cryf o foesoldeb a charedigrwydd, a oedd yn treiddio trwy ei gwaith. Roedd yr ysgol yn annog disgyblion i ystyried eu cymuned trwy ei gwaith elusennol, fel rhoi yn ystod 'Adfent am yn ôl' a rhannu gwisg ysgol ail-law. Yn ogystal, cymerodd yr ysgol ran yn nigwyddiadau'r eglwys leol, er enghraifft trwy wneud 40 o weithredoedd caredig yn ystod y Grawys. Roedd gwerthoedd cryf yr ysgol yn ennyn ymdeimlad o berthyn ymhlith disgyblion.

Darparodd lleiafrif o ysgolion gyfleoedd niferus i ddisgyblion ymgymryd â rolau arweinyddiaeth. Roedd disgyblion yn yr ysgolion hyn yn elwa ar allu dylanwadu'n gadarnhaol ar waith yr ysgol. Yn gyffredinol, roedd ysgolion yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys ymweliadau addysgol, clybiau a pherfformiadau.

### Cyfleoedd arweinyddiaeth i ddisgyblion yng Nghymuned Ddysgu Ebwy Fawr

Mae cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth ar draws yr ysgol. Yn gyfan gwbl, mae gan ryw 400 o ddisgyblion rolau arweinyddiaeth neu lysgennad. Mae'r grwpiau'n gynhwysol ac yn amrywiol. Mae disgyblion yn ymfalchïo mewn bod yn llysgennad ac maent yn weladwy ac yn weithgar yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Maent wedi datblygu medrau arweinyddiaeth gwerthfawr wrth gynrychioli a chynghori eu cymheiriaid. Er enghraifft, mae'r llysgenhadon hawliau plant a Ffordd Ebwy Fawr wedi cysylltu gwerthoedd craidd yr ysgol â hawliau disgyblion ac wedi sicrhau bod ystyriaeth yr wythnos yn canolbwyntio ar un o hawliau plentyn y Cenhedloedd Unedig.

Roedd pob un o'r ysgolion yn cydnabod pwysigrwydd hybu presenoldeb da ac yn cyfleu hyn yn dda i rieni a disgyblion. Fodd bynnag, er ei fod wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, mewn llawer o ysgolion, roedd presenoldeb adeg yr arolygiad yn is na chyn y pandemig o hyd.

Mewn lleiafrif o ysgolion, roedd gofal a chymorth i bob disgybl, yn enwedig y rhai bregus a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gryfder nodedig. Roedd staff yn deall anghenion lles disgyblion ac, o ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn ddiogel. Mae ysgolion wedi datblygu diwylliant a threfniadau diogelu cadarnhaol. Roedd staff yn deall

eu cyfrifoldebau o ran cadw disgyblion yn ddiogel. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, roedd angen mynd i'r afael ag ychydig o faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch.

## Arwain a gwella

Mewn llawer o ysgolion, parhaodd arweinwyr i ddatblygu diwylliant o weithredu fel ysgolion pob oed. O ganlyniad, mae disgyblion wedi elwa ar fod yn rhan o un ysgol, er enghraifft wrth i ddisgyblion oed cynradd berfformio ochr yn ochr â'u cymheiriaid hŷn mewn cynyrchiadau ysgol. Mae'r arweinwyr hyn wedi sefydlu cymuned glòs yn llwyddiannus ac wedi meithrin perthynas gynhyrchiol â rhieni a theuluoedd. Mae penaethiaid yn yr ysgolion hyn wedi gosod gweledigaeth glir, sydd wedi'i chyfleu'n dda i staff, disgyblion a rhieni. Ym mwyafrif yr achosion, mae arweinwyr wedi dangos gwytnwch a phenderfyniad penodol wrth ddatblygu eu hysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu a goresgyn rhwystrau wrth iddynt ddod yn fwy sefydledig. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o'r ysgolion a arolygwyd, ni fu arweinwyr yn ddigon strategol i sefydlu gweledigaeth glir nac ystyried anghenion yr ysgol yn y dyfodol.

Aeth llawer o arweinwyr i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn briodol. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi creu diwylliant diogelu cryf yn llwyddiannus ar draws yr ysgol ac wedi sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi, at ei gilydd. Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr yn gweithio'n dda yn strategol i liniaru effaith tlodi ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Darllenwch yr astudiaeth achos a ddarparwyd gan Gymuned Ddysgu Ebwy Fawr am effaith yr ymagwedd ysgol gyfan ar ddileu rhwystrau rhag dysgu.

Ym mwyafrif yr ysgolion, roedd cyfrifoldebau arweinwyr wedi'u dosbarthu'n deg ac roedd staff yn eu deall. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid oedd disgwyliadau a llinellau atebolrwydd yn ddigon clir.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr wedi cyflwyno a sefydlu cylch addas o weithgareddau i werthuso gwaith yr ysgol ac wedi nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella. Er bod arweinwyr wedi nodi cryfderau a gwendidau yn y ddarpariaeth, ym mhob un o'r ysgolion, nid oedd prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith addysgu ar ddysgu. Ar ben hynny, nid oedd prosesau cynllunio gwelliant yn ddigon clir na phenodol bob tro i sicrhau cynnydd amserol.

Mae llawer o arweinwyr wedi sefydlu diwylliant o ddysgu proffesiynol sy'n cyfateb i anghenion yr ysgol ac yn canolbwyntio'n addas ar addysgu a dysgu. Elwodd staff ar gyfleoedd i ymgymryd ag ymchwil ar sail ymholi a chydweithio â chydweithwyr, ysgolion eraill a fforwm y sector pob oed. Yn yr achosion cryfaf, cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion, er enghraifft pan weithiodd athrawon ag ysgolion partner i roi gweledigaeth gytûn ar gyfer y cwricwlwm ar waith yn llwyddiannus. Roedd llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'u hysgolion. At ei gilydd, roedd ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau eu hysgolion a'u meysydd i'w gwella, roeddent yn gyfeillion beirniadol addas ac yn monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella'r ysgol yn briodol. At ei gilydd, roeddent yn rheoli cyllidebau'n ofalus ac yn deall eu rolau statudol o ran diogelu a hybu bwyta ac yfed yn iach. Mewn ychydig o achosion, nid oeddent yn ddigon gwybodus bob tro i wneud penderfyniadau strategol hirdymor er budd disgyblion.

## Gweithgarwch dilynol

Cafodd un ysgol a oedd yn y categori adolygu gan Estyn o'r flwyddyn academaidd ddiwethaf ei hadolygu mewn panel â'r awdurdod lleol ac roedd wedi gwneud digon o gynnydd i'w thynnu o'r

categori gweithgarwch dilynol. Bu un ysgol pob oed yn y categori mesurau arbennig er mis Mai 2022. Mae wedi cael ei monitro bob tymor, lle canfuwyd bod cynnydd yn annigonol ac mae yn y categori mesurau arbennig o hyd.

Arolygwyd pum ysgol pob oed eleni. Nid oedd angen gweithgarwch dilynol ar ddwy ysgol, ond roedd angen i dair ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar gael eu hadolygu gan Estyn. Y prif resymau am y lefel hon o weithgarwch dilynol oedd nad oedd gan arweinwyr brosesau hunanwerthuso a gwella digon cadarn ac nad oedd cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol wedi'i gydlynu'n ddigon da. Roedd ffactorau ychwanegol, fel lefelau amrywiol o atebolrwydd ac anghysondebau o ran ansawdd yr addysgu, yn cyfrannu at y penderfyniadau ynghylch gweithgarwch dilynol, hefyd.

## Trosolwg argymhellion

Yn y flwyddyn academaidd 2023 – 2024, arolygodd Estyn 5 ysgol pob oed.

Rhoddwyd argymhelliad i bedwar darparwr wella datblygiad sgiliau, ac un i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau ysgrifennu.

Argymhellwyd pedwar darparwr i gryfhau neu fireinio eu safonau hunanarfarnu.

Roedd gan dri darparwr argymhellion yn ymwneud ag arweinyddiaeth.

Roedd gan un darparwr argymhelliad i gryfhau monitro a hybu lefelau presenoldeb.

Roedd gan un darparwr argymhelliad i staff weithredu strategaethau ymddygiad yn gyson.

Argymhellwyd bod un darparwr yn mynd i'r afael â diffygion mewn addysgu i wella dysgu a chynnydd disgyblion.

Rhoddwyd argymhelliad i un darparwr gryfhau effeithiolrwydd cynllunio ar gyfer gwelliant.

Argymhellwyd bod un darparwr yn mynd i'r afael â materion diogelu a godwyd yn yr arolygiad.

# Ysgolion arbennig a gynhelir

## Ysgolion

**39**

Nifer yr ysgolion 2024

**39**

Nifer yr ysgolion 2023

**40**

Nifer yr ysgolion 2022

## Disgyblion

**6,025**

Cyfanswm y disgyblion

**303**

Nifer y disgyblion dan 5 oed

**4,772**

Nifer y disgyblion 5 i 15 oed

**950**

Nifer y disgyblion 16 oed neu'n hŷn

**45.7%**

Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (5-15 oed)

**44.1%**

Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Pob disgybl)

## Gweithgarwch dilynol

Nifer mewn categori gweithgarwch dilynol ym mis Medi 2023

MA: 1 GS: 0 AE: 2

Nifer a dynnwyd yn 2023-2024

MA: 0 GS: 0 AE: 2

Nifer a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol ar ôl arolygiad craidd yn 2023-2024

MA: 0 GS: 1 AE: 1

## Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: 10

Cyfrwng Cymraeg: 1

Dwyieithog:

Cyfrwng Saesneg: 9

## Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos y gofynnwyd amdanynt: 4

Wedi'u cyhoeddi ar y wefan: 6

Cyfanswm mewn categori
gweithgarwch dilynol ym mis
Awst 2024

MA: 1 GS: 1 AE: 1

### Ymweliadau ymgysylltu

Nifer yr ymweliadau/galwadau: 0

## Crynodeb

At ei gilydd, roedd ysgolion arbennig a gynhelir yn parhau i ddarparu addysg effeithiol iawn i ddisgyblion ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol. Roedd y gofal, cymorth ac arweiniad a ddarparwyd gan y sector yn gryfder penodol o hyd ac yn cael eu hategu gan berthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion a oedd wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch tuag at ei gilydd. Dros amser, gyda chymorth sensitif a medrus gan staff, roedd bron pob un o'r disgyblion yn dysgu i groesawu amrywiaeth a thrin ei gilydd â goddefgarwch. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol, o leiaf, o ran datblygu ystod o fedrau ac roedd disgyblion hŷn yn cael cymorth cadarn i fanteisio ar gwricwlwm ehangach, gan gynnwys profiadau galwedigaethol a phrofiadau'n gysylltiedig â gwaith sy'n arwain at achrediadau cydnabyddedig. At ei gilydd, roedd arweinyddiaeth yn gryfder o hyd ac roedd yn arbennig o gryf mewn lleiafrif o ysgolion.

## Addysgu a dysgu

Roedd gan y rhan fwyaf o ysgolion arbennig ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl ac roedd gan staff ddealltwriaeth ragorol o'u hanghenion. Roedd hyn yn meithrin perthnasoedd cryf a pharchus rhwng staff a disgyblion, a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd, eu hagweddau at ddysgu a'u lles cyffredinol.

Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o gymharu â'u mannau cychwyn. Roedd llawer o ysgolion arbennig yn sicrhau bod eu systemau cyfathrebu yn cyfateb yn dda i anghenion disgyblion, gan roi hwb i'w hyder a gwella eu medrau cyfathrebu. Fodd bynnag, nid oedd ychydig o ysgolion yn cynllunio'n ddigon da i ddisgyblion ddatblygu medrau ysgrifennu.

Roedd llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd yn dda, gan ddefnyddio gweithrediadau mathemategol yn fwyfwy hyderus. Roeddent yn trin data ac yn cyflwyno gwybodaeth mewn graffiau a thablau. Dros gyfnod, roeddent yn defnyddio eu medrau rhifedd yn fuddiol mewn cyd-destunau go iawn fel cyfrifo amseroedd teithio, cyllidebu a chyfrifo newid.

Roedd llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn addas. Roedd disgyblion ag anghenion cymhleth yn defnyddio llechi cyfrifiadurol a dyfeisiau eraill i gyfathrebu'n fwyfwy hyderus. Roeddent yn dysgu am chwith a'r dde ac yn gwneud marciau â phin ysgrifennu ar y sgrin i nodi'r cyfeiriad teithio. Roedd disgyblion mwy abl yn mewngofnodi i ddyfeisiau, yn creu negeseuon e-bost, yn ymchwilio ar-lein ac yn cyflwyno data mewn graffiau a thablau. Ar ben hynny, roedd disgyblion yn creu fideos a chodau QR ac roedd rhai hyd yn oed yn paratoi sgriptiau ac yn cyflwyno ar orsaf radio leol.

Roedd llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn briodol, gan adnabod geiriau cyffredin, dyddiau'r wythnos a lliwiau, cyfarch pobl yn hyderus a dilyn cyfarwyddiadau yn yr iaith honno. Nid oedd ychydig o ysgolion yn darparu digon o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Roedd gan ychydig iawn o ysgolion arbennig gryfderau nodedig ym medrau creadigol, corfforol a digidol disgyblion. Nodom fod medrau creadigol disgyblion yn Ysgol Maes Y Coed, er enghraifft, yn gryfder arbennig.

Roedd disgyblion yn datblygu medrau annibyniaeth gwerthfawr, o reoli gwaith ysgol i dasgau bywyd ymarferol fel cyllidebu a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Roedd ysgolion yn cydweithio'n gynyddol â cholegau addysg bellach lleol, gyda thua thraean ohonynt yn sefydlu canolfannau lloeren yn y colegau hyn. Roedd y partneriaethau hyn yn galluogi disgyblion i fanteisio ar sesiynau galwedigaethol teilwredig, a oedd yn eu cefnogi i bontio i addysg bellach a oedd yn cyfateb i'w hanghenion a'u galluoedd. Ar gyfer y rhai ag anghenion mwy cymhleth, cryfhawyd cysylltiadau â cholegau arbenigol annibynnol, hefyd.

Erbyn i ddisgyblion adael yr ysgol, roedd llawer ohonynt wedi cwblhau cyrsiau academaidd a galwedigaethol, a oedd yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam dysgu nesaf. O ganlyniad i'r arweiniad gan eu hysgolion, roedd nifer sylweddol ohonynt yn symud ymlaen i addysg bellach. Mewn ychydig o ysgolion, gwnaeth ddisgyblion gynnydd arbennig o gryf wrth ddatblygu'r medrau hyn, a oedd yn amlwg yn gysylltiedig â chwricwlwm a oedd wedi'i gynllunio'n dda ac addysgu o ansawdd uchel. Yn Ysgol Maes Ebbw ac Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm, roedd yr addysgu yn gryfder nodedig.

Yn yr ysgolion arbennig mwyaf effeithiol, roedd sail resymegol glir i arlwy'r cwricwlwm a oedd yn cynnwys, er enghraifft, rhieni a disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn darparu cwricwlwm eang y mae disgyblion yn ei fwynhau. Mae staff yn creu cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddylanwadu ar eu profiadau o ddydd i ddydd. Yn Ysgol Heronsbridge, er enghraifft, roedd y cwricwlwm eang, symbylol sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion wedi'i gynllunio'n gadarn ac yn cynnwys y tîm staff cyfan, disgyblion a rhieni.

Roedd angen i ychydig o ysgolion arbennig gydweithio'n well ag awdurdodau lleol i wella'r amgylchedd dysgu. Nodom fod gallu anghyson i fanteisio ar hydrotherapi. Roedd cynnydd yn nifer y disgyblion hefyd yn arwain at golli ystafelloedd arbenigol ac ardaloedd dysgu annibynnol, ac anfonom lythyr diogelu at un ysgol yn gysylltiedig â lle addasedig annigonol.

Er gwaethaf cryfderau addysgu, gwnaethom argymhellion ym mwyafrif yr ysgolion. Roedd y rhain yn ymwneud â'r angen i gynllunio'n well ar gyfer datblygu medrau, gwella'r cwricwlwm a dulliau addysgu, a lleihau amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad a'u heffaith ar les disgyblion

Yn gyffredinol, roedd ysgolion arbennig yn cynnal trefniadau diogel dros ben, gan ddarparu gofal, cymorth ac arweiniad hynod effeithiol. Roedd hyn yn creu amgylchedd lle'r oedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Roedd gan bron pob ysgol ddiwylliant diogelu cryf ac roeddent yn addysgu disgyblion am ddiogelwch personol.

Roedd perthnasoedd cryf rhwng ysgolion arbennig a gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill yn sicrhau cymorth teilwredig ar gyfer anghenion unigol. Mae ymweliadau gan weithwyr iechyd

proffesiynol yn golygu nad oes rhaid i ddisgyblion adael yr ysgol i fynychu apwyntiadau. Ar ben hynny, roedd llawer o ysgolion yn datblygu eu trefniadau eu hunain i gefnogi teuluoedd dros gyfnod. Mae Canolfan Lles Ysgol Hen Felin, er enghraifft, wedi gwella ymgysylltiad cymunedol trwy amrywiaeth o fentrau.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn olrhain ac yn cefnogi anghenion emosiynol a phresenoldeb disgyblion yn effeithiol trwy dimau staff ymroddedig a oedd yn cydweithio'n agos â rhieni, asiantaethau partner a staff yr ysgol. Gwnaethom sylwadau ffafriol iawn am ymddygiad ac agweddau bron pob un o'r disgyblion mewn ysgolion arbennig, gan nodi eu chwilfrydedd, eu cyfeillgarwch a'u balchder yn eu cyflawniadau a'u cymuned.

Er bod presenoldeb wedi gwella ar ôl y pandemig, roedd cymariaethau hanesyddol yn heriol oherwydd diffyg data cenedlaethol cyfredol ar gyfer ysgolion arbennig a gynhelir. Roedd disgyblion mewn rolau arweinyddiaeth yn ffynnu ac yn siarad yn frwdfrydig am ysgwyddo cyfrifoldebau, cymryd rhan mewn digwyddiadau ysgol a chyfrannu at elusennau lleol a chenedlaethol. Yn Ysgol Penmaes, er enghraifft, mae llais y disgybl yn gryfder yn yr ysgol.

Roedd bron pob ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliannau a chrefyddau amrywiol. Roedd staff mewn ysgolion arbennig yn creu amgylcheddau cynhwysol lle'r oedd disgyblion yn croesawu gwahaniaethau, yn cydnabod cryfderau eu cyd-ddisgyblion ac yn datblygu trugaredd ac empathi.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, cafodd hanner yr ysgolion a arolygwyd argymhellion ar gyfer gwelliannau mewn gofal, cymorth, arweiniad a lles disgyblion. Mewn lleiafrif o ysgolion, nodom yr angen i ysgolion gydweithio â'u hawdurdod lleol i wella cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol. Nid oedd ychydig o ysgolion yn darparu gallu digonol i fanteisio ar ddarpariaeth hydrotherapi ac roedd diffyg dealltwriaeth ynglŷn â rôl y gwasanaeth nyrsio ysgolion. Roedd hyn yn cyfyngu ar fudd y gwasanaeth i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mewn un ysgol, nodom nad oes gan staff ddealltwriaeth ddigonol o'r rhesymau dros ymddygiad heriol ac roedd hyn, yn rhannol, yn cyfrannu at bresenoldeb gwael.

## Arwain a gwella

At ei gilydd, roedd yr arweinyddiaeth mewn ysgolion arbennig a gynhelir yn nodwedd gref ym mron pob un o'r ysgolion ac yn nodwedd hynod o gryf mewn lleiafrif ohonynt. Amlygom yr arweinyddiaeth ofalgar, feddylgar, drugarog a rhagorol yn y sector hwn.

Lle'r oedd arweinyddiaeth yn arbennig o gryf, roedd arweinwyr yn sefydlu gweledigaeth glir, gytûn a oedd yn canolbwyntio ar wella deilliannau i bob disgybl. Roedd yr arweinwyr hyn yn weladwy ac angerddol dros ben, gan werthfawrogi rhieni fel partneriaid yn addysg eu plant. Roedd rolau a chyfrifoldebau'n cael eu deall yn dda ac roedd staff yn teimlo bod ffydd ynddynt a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad fel arweinwyr. Roedd arweinwyr effeithiol yn gwrando ar eu staff, gan feithrin teyrngarwch, ymddiriedaeth a gwella profiadau dysgu disgyblion. Roedd yr ysgolion arbennig mwyaf llwyddiannus yn datblygu hunaniaeth gymunedol gref, lle'r oedd gan ddisgyblion a staff ymdeimlad o berthyn ac roeddent yn ffynnu mewn diwylliant cefnogol.

At ei gilydd, roedd gan arweinwyr a llywodraethwyr ddealltwriaeth ddofn o'u hysgolion ac roeddent yn cynnal systemau i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Roedd llywodraethwyr yn gweithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol i benaethiaid. Roedd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn gadarn

yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, gan ganolbwyntio ar wella addysgu, dysgu a deilliannau disgyblion.

Roedd arweinwyr yn creu cyfleoedd i staff arloesi ac yn darparu dysgu proffesiynol gwerthfawr, yr oedd staff yn ei werthfawrogi; roedd Ysgol Heronsbridge yn arbennig o gryf yn y maes hwn.

Roedd arweinwyr yn defnyddio grantiau datblygu disgyblion yn effeithiol, gan gael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a lles. Fodd bynnag, roedd argymhellion ym mwyafrif yr ysgolion yn ymwneud yn bennaf â gwelliannau i hunanwerthuso a chynllunio. Roedd pryderon yn cynnwys casglu tystiolaeth ansicr neu ddadansoddi gwybodaeth yn annigonol ac, mewn ychydig o ysgolion, nid oedd cyrff llywodraethol yn cefnogi penaethiaid nac yn eu dwyn yn atebol yn effeithiol.

## Gweithgarwch dilynol

Rhoddwyd dwy ysgol a arolygwyd yn ystod y flwyddyn academaidd hon mewn categori gweithgarwch dilynol.

Mae tair ysgol mewn categorïau gweithgarwch dilynol ar hyn o bryd. Mae un ysgol yn y categori mesurau arbennig o hyd a bu yn y categori hwn ers ei harolygiad craidd yn 2022. Mae wedi cael ei monitro bob tymor a chanfuwyd y bu cynnydd yn annigonol i'w thynnu o'r categori mesurau arbennig. O'r ysgolion sy'n weddill, mae angen gwelliant sylweddol ar un ac mae'r llall yn adolygiad Estyn.

Canfuwyd bod dwy ysgol a roddwyd yn y categori adolygu gan Estyn yn 2023, wedi gwneud cynnydd digonol i'w thynnu o'r categori gweithgarwch dilynol.

## Trosolwg argymhellion

- Yn y flwyddyn academaidd 2023 – 2024, arolygodd Estyn 10 ysgol arbennig a gynhelir.
- Rhoddwyd argymhelliad i 5 ysgol ynghylch gwella neu gryfhau eu hunanarfarnu a'u cynllunio ar gyfer gwelliant.
- Rhoddwyd argymhelliad i 3 ysgol ynghylch darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau, fel ysgrifennu, byw'n annibynnol, a medrau llythrennedd.
- Cafodd dwy ysgol argymhelliad i wella presenoldeb.
- Argymhellwyd dwy o'r ysgolion gwannach i gryfhau neu wella addysgu.
- Rhoddwyd argymhelliad am arweinyddiaeth i ddwy ysgol.
- Roedd argymhellion eraill yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid, mynd i'r afael â phryderon diogelu, cryfhau rôl y corff llywodraethu, a chryfhau prosesau asesu.

# Ysgolion arbenigol ADY annibynnol

### Ysgolion

## 47

Ionawr 2024

### Arolygiadau craidd

Eleni, arolygom 12 o ysgolion arbennig annibynnol.

### Ymweliadau monitro

Fe wnaethom hefyd ymweld ag 16 o ysgolion fel rhan o ymweliadau monitro blynyddol.

### Safonau ysgolion annibynnol

Mewn ysgolion annibynnol, rydym yn arolygu i ba raddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

### Ymweliadau ag ysgolion annibynnol

Yn ogystal â'n harolygiadau craidd, rydym hefyd yn cynnal ystod o ymweliadau eraill ag ysgolion annibynnol, sef:

Pedwar ymweliad cofrestru cychwynnol i gofrestru ysgol annibynnol newydd

Dau ymweliad dilynol ar ôl ymweliadau cofrestru, i sicrhau bod ysgol annibynnol sydd newydd agor yn parhau i gydymffurfio â'r Safonau Ysgolion Annibynnol

26 o ymweliadau newid sylweddol, i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch newid mewn amgylchiadau ysgol annibynnol.

## Crynodeb

Yn 2023-2024, o gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol, cynyddodd cyfran yr ysgolion a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

At ei gilydd, canfu arolygwyr fod ysgolion arbenigol ADY annibynnol yn darparu amgylchedd anogol lle mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion. Roedd y perthnasoedd hyn, ynghyd â dealltwriaeth o anghenion, galluoedd a diddordebau disgyblion, yn galluogi staff i ennyn diddordeb disgyblion a chyflwyno cwricwlwm cytbwys.

Roedd tua hanner yr ysgolion a arolygwyd a lleiafrif o’r ysgolion yr ymweld â nhw ar gyfer ymweliadau monitro yn ystod 2023-2024 wedi profi newidiadau arweinyddiaeth yn ddiweddar. Nid oedd mwyafrif yr ysgolion hyn yn bodloni gofynion y Safonau Ysgolion Annibynnol yn ystod eu harolygiad craidd. Ar ben hynny, parhaodd ysgolion i gofrestru i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) er mwyn ymateb i ddiwygio ADY, er na roddodd tua hanner ohonynt fanylion am eu DDdY i Lywodraeth Cymru.

Crybwyllodd ysgolion annibynnol, yn yr un modd ag ysgolion arbennig a gynhelir, newid ym mhroffiliau disgyblion, gan nodi cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau o ddisgyblion ag anghenion iechyd meddwl cymhleth.

## Addysgu a dysgu

Roedd llawer o ddisgyblion mewn ysgolion arbenigol ADY annibynnol wedi profi aflonyddwch addysgol sylweddol yn flaenorol, ond roedd y cymorth cryf a ddarparwyd gan y rhan fwyaf o staff yn galluogi llawer o fyfyrwyr i wneud cynnydd addas o’u mannau cychwyn. Yn gyffredinol, roedd llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a chyfathrebu da. Roeddent yn rhyngweithio’n hyderus â staff ac ymwelwyr ac yn ymfalchïo yn eu hysgolion.

Roedd cynnydd mewn llythrennedd yn nodedig mewn llawer o ysgolion, er bod ychydig o ysgolion yn cynnig cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu medrau darllen cynyddol disgyblion a’u hysgrifennu estynedig. Roedd medrau rhifedd yn gadarn, ar y cyfan, gyda llawer o ddisgyblion yn cymhwyso cysyniadau mathemategol yn effeithiol mewn cyd-destunau ymarfer, fel wrth gyllidebu neu gynllunio teithiau. Er bod mwyafrif y disgyblion yn defnyddio TGCh yn briodol mewn tasgau dysgu, fel prosesu geiriau ac ymchwil ar-lein, roedd datblygu medrau digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm yn annigonol mewn llawer o ysgolion.

Enillodd llawer o ddisgyblion ystod o gymwysterau perthnasol, o lefel mynediad i Safon Uwch, ynghyd ag achrediadau ychwanegol mewn meysydd amrywiol. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, roedd cyfleoedd achredu yn rhy gyfyngedig. Yn gyffredinol, roedd y cwricwlwm yn mynd i’r afael ag anghenion disgyblion unigol, eu diddordebau a’u galluoedd yn dda. Fodd bynnag, roedd gan ychydig o ysgolion wendidau mewn pynciau fel gwyddoniaeth, y dyniaethau a medrau digidol.

Roedd effeithiolrwydd yr addysgu yn amrywio. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, roedd athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gref a holi effeithiol, gan osod amcanion dysgu clir. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, roedd staff yn cynnig her anghyson a chyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu’n ddysgwyr annibynnol, gyda lleiafrif o ddisgyblion yn dibynnu’n ormodol ar staff cymorth. Roedd arferion adborth yn amrywio hefyd, gydag adborth llafar yn aml yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol, tra bod diffyg arweiniad clir mewn adborth ysgrifenedig mewn ychydig o ysgolion ar sut y gallai disgyblion wella. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio gwybodaeth asesu i lywio cynllunio ac olrhain cynnydd, ond nid oedd ychydig ohonynt yn defnyddio asesiadau’n effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau’n gynyddol dros gyfnod. Roedd cyfoethogi trwy ymweliadau allanol a phartneriaethau yn gwella medrau bywyd a hyder cymdeithasol disgyblion. Fodd bynnag, nid oedd ychydig o’r ysgolion yn bodloni’r holl Safonau Ysgolion Annibynnol oherwydd profiadau dysgu wedi’u teilwra’n wael a chynllunio gwersi a rheoli amser yn aneffeithiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad a’u heffaith ar les disgyblion

At ei gilydd, roedd ysgolion yn canolbwyntio’n dda ar greu amgylcheddau cynhwysol a chefnogol i

fynd i’r afael ag anghenion disgyblion. Arweiniodd yr ymagwedd hon at bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymddygiad da ac yn mwynhau dysgu, tra’r oedd staff yn meithrin perthnasoedd cryf a pharchus â disgyblion, yn gyffredinol. Roedd llawer o ddisgyblion yn dangos presenoldeb gwell dros gyfnod, er bod presenoldeb isel gan ychydig o ddisgyblion yn cael effaith negyddol ar eu cynnydd a’u lles. Mewn ychydig o ysgolion, roedd olrhain presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad yn annigonol yn llesteirio gwerthuso strategaethau a oedd wedi’u bwriadu i wella presenoldeb disgyblion.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn creu dogfennau gwerthfawr i gefnogi disgyblion ag ADY ac yn gosod targedau perthnasol yn gysylltiedig â chynlluniau datblygu unigol (CDUau). Fodd bynnag, nid oedd systemau lleiafrif o ysgolion ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn y targedau hyn wedi’u datblygu’n ddigonol. Roedd cymorth ar gyfer ADY yn briodol, ar y cyfan, gydag ystod o wasanaethau ar gael, gan gynnwys timau therapiwtig ac allgymorth. Yn Ysgol Tŷ Monmouth, roedd staff yn cydnabod nad oedd gan lawer o ddisgyblion yr eirfa i fynegi eu teimladau’n glir i oedolion. Roedd y tîm therapïau yn cefnogi disgyblion i gyfrannu at eu cynlluniau ymddygiad a datblygu strategaethau ymddygiad wedi’u symboleiddio. Roedd gan ddisgyblion lais o ran sut yr hoffent i staff ymddwyn wrth ymateb i unrhyw ‘deimladau mawr’ roeddent yn eu cael. Roedd hyn yn gwella medrau cymdeithasol disgyblion, perthnasoedd â chyfoedion, empathi a’u lles cyffredinol. Fodd bynnag, nid oedd llawer o ysgolion yn gwerthuso effaith yr ymyriadau hyn ar les disgyblion a’u hagweddau at ddysgu yn effeithiol.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi pwyslais priodol ar ddatblygu medrau bywyd disgyblion a’u parodrwydd ar gyfer y dyfodol, gyda rhai ohonynt yn darparu cynlluniau pontio rhagorol. Roedd llawer o ddisgyblion yn symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Ar ben hynny, mewn ychydig o ysgolion â darpariaethau preswyl, roedd staff gofal yn cydweithio’n effeithiol ar gyfleoedd datblygu gyrfa, gan gynnwys profiad gwaith. Fodd bynnag, nid oedd gan ychydig o ysgolion ddigon o arweiniad a chynlluniau ar gyfer gyrfaoedd.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn darparu ystod dda o brofiadau i ddatblygu dealltwriaeth ysbrydol, foesol a chymdeithasol disgyblion, ac roedd ychydig ohonynt hefyd yn gwella eu hunaniaeth a’u diwylliant Cymreig. Nid oedd cyfleoedd i archwilio cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi’u datblygu cystal. Roedd ychydig o ysgolion yn cynnig cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion gyfrannu’n weithredol at fywyd yr ysgol, a oedd yn effeithio ar eu datblygiad fel dinasyddion cyfrifol.

Roedd diogelu yn flaenoriaeth uchel yn y rhan fwyaf o ysgolion, ond nid oedd polisïau a gweithdrefnau ffurfiol mewn ychydig ohonynt, a oedd yn gwanhau eu harferion diogelu. Cafodd tair ysgol argymhellion i wella rheoli diogelu. Yn ogystal, arfarnwyd nad oedd saith ysgol yn cydymffurfio â’r Safonau Ysgolion Annibynnol o ran Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion. Mewn tua hanner yr achosion hyn, nid oedd yr ysgol wedi rhoi sylw priodol i arweiniad Llywodraeth Cymru ar gadw dysgwyr yn ddiogel.

## Arwain a gwella

Roedd arweinyddiaeth effeithiol yn gyffredin, gyda diwylliannau cymunedol cryf a gweledigaethau clir. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, roedd newidiadau diweddar mewn arweinyddiaeth yn effeithio ar brosesau sicrhau ansawdd, gan arwain at ddiffyg gwerthusiadau cadarn o effeithiolrwydd addysgu ac anghenion dysgu ychwanegol.

Nid oedd gan y rhan fwyaf o ysgolion ddiwylliant neu brosesau sicrhau ansawdd cynhwysfawr, a oedd

yn effeithio ar ddealltwriaeth arweinwyr o gryfderau a meysydd i'w gwella. Nid oedd prosesau rheoli perfformiad mewn ychydig o ysgolion yn ystyried effeithiolrwydd addysgu yn ddigonol. Yn gyffredinol, roedd cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael eu darparu ar gyfer staff, gydag enghreifftiau nodedig o raglenni datblygu cryf a oedd yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella ysgolion. Yn Ysgol Bryn Tirion Hall, er enghraifft, adroddom ar eu cydweithrediad effeithiol â gweithwyr clinigol proffesiynol ac ysgolion eraill i wella medrau staff a datblygu cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion â darpariaeth breswyl gysylltiedig a oedd yn darparu hyfforddiant addysgol ar gyfer staff gofal a oedd yn gweithio yn yr ysgol.

Roedd heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw staff cymwysedig mewn lleiafrif o ysgolion, a oedd yn effeithio ar ansawdd yr addysgu a blaenoriaethau gwella. Roedd yr amgylcheddau dysgu yn gefnogol, gan mwyaf, ac wedi'u dylunio'n dda i fodloni anghenion disgyblion unigol. Roedd gwelliannau nodedig yn cynnwys ychwanegu mannau newydd, fel ystafelloedd synhwyraidd ac orielau celf. Fodd bynnag, roedd ychydig o ysgolion yn wynebu problemau difrifol â'u hamgylcheddau dysgu, gan arwain at bryderon diogelu a oedd yn mynnu camau gweithredu yn ddi-oed.

## Gweithgarwch dilynol

Yn 2023-2024, roedd cyfran uwch o ysgolion yn cydymffurfio â'r Rheoliadau o gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol. Ym mwyafrif yr ysgolion nad oeddent yn cydymffurfio, nid oedd profiadau dysgu yn cyfateb yn ddigon da i anghenion disgyblion, yn enwedig y rhai sydd â CDUau. Methodd ychydig o ysgolion i fodloni'r safonau o ran sicrhau addasrwydd staff a methodd ychydig iawn ohonynt i fodloni'r safonau o ran darparu gwybodaeth.

Lle'r oedd ysgolion yn methu cydymffurfio â'r holl Reoliadau, roedd diffygion allweddol hefyd yn ymwneud ag ansawdd yr addysg a'r addysgu. Er nad yw'r Rheoliadau'n ymdrin yn benodol ag arweinyddiaeth, roedd gwendidau mewn arweinyddiaeth ysgolion, diffyg goruchwyliaeth strategol a diffyg sicrwydd ansawdd cadarn yn nodweddion allweddol yn niffygion yr ysgolion hyn.

Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o naw o ysgolion (19.1%) nad ydynt yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 ac mewn categori gweithgarwch dilynol.

## Trosolwg argymhellion

Yn y flwyddyn academaidd 2023-2024, arolygodd Estyn 12 o ysgolion arbennig annibynnol.

Rhoddwyd argymhelliad i 11 (91.7%) o ddarparwyr sefydlu neu fireinio eu prosesau sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant, ac roedd 7 ohonynt yn argymell canolbwyntio ar gynnydd disgyblion.

Cafodd saith darparwr (58.3%) argymhelliad i gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau ISS (Cymru) 2003, a rhoddwyd argymhelliad i un i sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn cydymffurfio â'u categori cofrestru.

Cafodd pedwar darparwr (43.3%) argymhelliad i gryfhau neu ddatblygu eu cwricwlwm, naill ai i wella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gyrfaoedd, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (SMSC) ac addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), i gefnogi disgyblion i ddilyn eu dysgu dymunol. llwybrau, sicrhau bod rhaglenni astudio yn cael eu cefnogi gan gynlluniau gwaith ac asesu priodol i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn gynyddol, neu i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu mewn cyd-destunau bywyd go iawn a dilyn eu llwybrau dysgu dymunol.

Argymhellwyd tri darparwr i gryfhau'r rheolaeth ar ddiogelu a mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Rhoddwyd argymhelliad i dri darparwr gryfhau'r cynllunio i wella datblygiad medrau disgyblion.

Rhoddwyd argymhelliad i dri darparwr i fireinio rolau a chyfrifoldebau staff.

Rhoddwyd argymhelliad i ddau ddarparwr wella ansawdd yr addysgu.

## Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2022) *Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein: Cadw dysgwyr yn ddiogel (llyw.cymru) (Cyrchwyd 4 Hydref 2024)

# Prif ffrwd annibynnol

## Ysgolion

**38**

Ionawr 2024, gan gynnwys 10 ysgol breswyl

Cofrestriadau newydd yn 2023-2024: Ysgol Uwchradd Fwslimaidd Caerdydd (Chwefror 2024)

Ysgol a gaewyd yn 2023-2024: Castle School (Awst 2024)

Ysgolion a datgofrestrwyd gan Lywodraeth Cymru 2023-2024: Dim

### Safonau ysgolion annibynnol

Mewn ysgolion annibynnol, rydym yn arolygu i ba raddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

Roedd pob un o'r ysgolion a arolygwyd eleni yn cydymffurfio â'r safonau hyn.

### Ymweliadau ag ysgolion annibynnol

Yn ogystal â'n harolygiadau craidd, rydym hefyd yn cynnal ystod o ymweliadau eraill ag ysgolion annibynnol, sef:

Un ymweliad cofrestru cychwynnol i gofrestru ysgol annibynnol newydd

Dau ymweliad dilynol ar ôl ymweliadau cofrestru, i sicrhau bod ysgol annibynnol sydd newydd agor yn parhau i gydymffurfio â'r Safonau Ysgolion Annibynnol

Wyth o ymweliadau newid sylweddol, i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch newid mewn amgylchiadau ysgol annibynnol

### Arolygiadau craidd

Eleni, arolygom pum ysgol prif ffrwd annibynnol. Roedd tair ysgol yn ysgolion pob oed, roedd un ohonynt yn ysgol uwchradd ac roedd gan un ohonynt ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 4 a 5 yn unig.

## Crynodeb

Cyflawnodd disgyblion yn yr ysgolion prif ffrwd annibynnol a arolygwyd eleni ganlyniadau arholiadau rhagorol, gan ragori'n gyson ar gyfartaleddau cenedlaethol. Roedd yr ysgolion hyn yn pwysleisio lles

disgyblion ac yn cynnig cwricwlwm eang a chyfoethog, wedi'i unigoli'n benodol ar gyfer myfyrwyr hŷn. Roedd cymorth i gyrraedd cyrchfannau yn y dyfodol, fel prifysgolion yn y DU neu'n rhyngwladol, yn gryfder sylweddol. Fodd bynnag, ym mhob un o'r ysgolion, nid oedd gweithgareddau sicrhau ansawdd ychydig o arweinwyr yn cynnwys digon o ffocws ar effaith addysgu ar ddysgu, gan arwain at golli cyfleoedd i wella darpariaeth yr ysgol.

## Addysgu a dysgu

Ar draws yr ysgolion a arolygwyd, roedd cyrhaeddiad disgyblion yn nodedig o gryf, gyda chanlyniadau arholiadau cyhoeddus yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Roedd bron pob un o'r disgyblion yn dangos medrau llafaredd a chyfathrebu uchel, gan gyflwyno a dadlau'n hyderus â geirfa eang wedi'i theilwra ar gyfer cyd-destunau gwahanol. Datblygodd y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau darllen effeithiol, gan gymhwyso ffoneg i ddatgodio geiriau anghyfarwydd a symud ymlaen i grynhoi, dilyniannu a dod i gasgliadau o destunau. Mae llawer o ddisgyblion hefyd yn darllen er pleser ac yn gwerthfawrogi darllen er mwyn dysgu. Roedd medrau ysgrifennu yr un mor ddatblygedig, gyda disgyblion iau yn symud ymlaen yn gyflym a disgyblion hŷn yn llunio dadleuon ysgrifenedig soffistigedig at ddibenion gwahanol. Fodd bynnag, mewn dwy ysgol, roedd diffyg taclusrwydd yng nghyflwyniad gwaith lleiafrif o ddisgyblion.

Roedd medrau mathemategol yn gryf, ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn amgyffred cysyniadau'n dda a'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn cymhwyso medrau uwch ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid oedd disgyblion naill ai'n cymhwyso'r medrau hyn ar y lefel ddisgwyliedig y tu allan i wersi mathemateg neu nid oedd disgwyl iddynt wneud hynny. Mewn un ysgol, nid oedd medrau mathemategol llawer o ddisgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol.

Roedd medrau digidol yn amrywio ar draws yr ysgolion, er bod disgyblion yn defnyddio technoleg yn hyderus, yn gyffredinol, i gefnogi dysgu. Mewn un ysgol, roedd datblygu medrau digidol yn arbennig o gryf oherwydd yr ystod o gyfleoedd dysgu integredig.

Roedd staff ar draws yr ysgolion yn ymroddedig, gan feithrin diwylliant o uchelgais a disgwyliadau uchel. Roedd athrawon yn meithrin perthnasoedd cryf â disgyblion, yn darparu gwersi ac adnoddau a oedd yn cyfateb yn dda ac yn cynnig cymorth ychwanegol gwerthfawr. Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn wych am baratoi disgyblion ar gyfer arholiadau cyhoeddus er, mewn rhai achosion, roedd yr addysgu wedi'i orgyfarwyddo, gan gyfyngu ar ddysgu'n annibynnol.

Ym mhob un o'r ysgolion, roedd y cwricwlwm yn eang ac yn cefnogi caffael gwybodaeth a datblygiad personol. Roedd pedair ysgol yn cynnig cwricwlwm helaeth wedi'i unigoli ar gyfer disgyblion hŷn, a oedd yn cyd-fynd yn dda â'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Roedd tair ysgol yn cynnig ystod arbennig o weithgareddau cydgwricwlaidd, a oedd yn cyfoethogi profiad addysgol disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad a'u heffaith ar les disgyblion

Roedd yr ysgolion a arolygwyd eleni yn dangos ymrwymiad cryf i les disgyblion, gan feithrin perthynas gadarnhaol rhwng staff a myfyrwyr. Creodd yr amgylchedd cefnogol hwn ymdeimlad cryf o berthyn ymhlith disgyblion, a oedd yn dangos balchder yn eu hysgol a pharch tuag at bawb a oedd yn gysylltiedig â hi. Roedd ymddygiad ac agweddau bron pob un o'r disgyblion yn ganmoladwy ac roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ganolbwyntio a brwdfrydedd yn eu gwersi. Roedd cyfleoedd arweinyddiaeth yn helaeth, gan gyfrannu at gyfrifoldeb a hunanhyder disgyblion.

Cryfder penodol ar draws yr ysgolion a arolygwyd oedd y cyngor a'r cymorth roedd disgyblion yn eu cael wrth ystyried eu cyrchfannau a'u gyrfaoedd yn y dyfodol. Rhoddodd Coleg Chweched Dosbarth Caerdydd gymorth hynod effeithiol ar gyfer mynediad i'r brifysgol a chynllunio gyrfa yn y dyfodol trwy raglen gydgwricwlaidd helaeth a datblygedig.

Roedd pob un o'r ysgolion yn rhagorol o ran hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion, gan gynnig cyfleoedd amrywiol ar gyfer ymglymiad cymunedol trwy weithgareddau gwirfoddol ac elusennol. Yn Monmouth School for Boys, crybwyllom fod y llyfrgell yn lle mawr, cyfeillgar a chynhwysol sy'n cyfuno adnoddau cyfoes â gwerthoedd hanesyddol, a oedd yn cefnogi darllen, llythrennedd a lles ar gyfer cymuned gyfan yr ysgol.

Roedd cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn, gan nodi disgyblion yn gynnar a chynnwys strategaethau effeithiol i helpu disgyblion i lwyddo'n academaidd. Roedd arferion diogelu wedi'u sefydlu'n dda. Roedd prosesau recriwtio trylwyr a hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer staff a llywodraethwyr, a oedd yn aml yn rhagori ar y gofynion statudol.

Roedd angen mân addasiadau polisi ar ddwy o'r pum ysgol er mwyn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, yr aethpwyd i'r afael â nhw yn ystod yr arolygiadau. At ei gilydd, roedd yr ysgolion yn cynnig amgylcheddau addysgol anogol a pharchus, wedi'u cefnogi'n dda, gan sicrhau lles a datblygiad pob disgybl.

## Arwain a gwella

Ar gyfer un o'r ysgolion a arolygwyd, hwn oedd ei harolygiad craidd cyntaf ers cofrestru'n ysgol annibynnol. Ar draws pob un o'r ysgolion a arolygwyd, roedd arweinwyr wedi'u hen sefydlu, er bod un pennaeth hirsefydlog yn absennol oherwydd salwch ac roedd un arall wedi cael dyrchafiad yn ddiweddar o brifathro i bennaeth. Roedd un ysgol a arolygwyd yn mynd trwy ad-drefnu strategol sylweddol trwy uno â dwy ysgol arall yn ei 'theulu'. Roedd pob un o'r ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau Ysgolion Annibynnol.

Roedd gan arweinwyr ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd eleni weledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer eu hysgol ac ar gyfer datblygu gwybodaeth, medrau a chymeriad disgyblion. Roeddent yn uchel eu parch ac yn arwain trwy esiampl i adeiladu cymunedau ysgol cryf a chydlynol. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o'r staff yn yr ysgolion hyn yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hynod deyrngar, gan gydweithio er lles pennaf disgyblion.

Roedd trefniadau llywodraethu mewn pedair o'r pum ysgol a arolygwyd yn gadarn ac yn effeithiol. Yn yr ysgolion hyn, roedd llywodraethwyr yn cynnig cydbwysedd priodol o her a chefnogaeth i arweinwyr. Roeddent yn adolygu polisïau a gweithdrefnau yn gadarn ac yn rheoli cyllid yr ysgol ar lefel strategol yn briodol.

Roedd arweinwyr ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd yn hybu diogelu yn weithredol ac yn rhoi ystyriaeth fawr i les pob aelod o gymuned yr ysgol, yn enwedig disgyblion a staff. Mewn pedair o'r pum ysgol a arolygwyd, roedd presenoldeb disgyblion dros gyfnod yn uchel dros ben.

Roedd arweinwyr mewn pedair o'r pum ysgol a arolygwyd yn dadansoddi ystod o ddata, yn enwedig canlyniadau arholiadau cyhoeddus, i ddeall cyrhaeddiad disgyblion. Mewn tair o'r ysgolion a arolygwyd, nid oedd systemau a dulliau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion unigol dros gyfnod wedi'u datblygu'n ddigonol neu roeddent yn y camau cynnar iawn o'u rhoi ar waith. Mewn pedair o'r pum

ysgol a arolygwyd, roedd arweinwyr yn cynnal ystod addas o weithgareddau sicrhau ansawdd ac wedi defnyddio'r wybodaeth hon i lywio eu cynlluniau gwella ysgol. Fodd bynnag, nid oedd arsylwadau gwersi yn canolbwyntio ar effaith addysgu ar ddysgu yn ddigon craff nac yn nodi agweddau cynnil ar arfer addysgu a allai elwa ar gael eu gwella. Mewn un ysgol, roedd arweinwyr wedi atal y trefniadau arferol ar gyfer sicrhau ansawdd, yn rhannol ac, o ganlyniad, roedd ganddynt drosolwg anghyflawn o ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol.

## Trosolwg argymhellion

Yn y flwyddyn academaidd 2023 – 2024, arolygodd Estyn bum ysgol brif ffrwd annibynnol.

Cafodd 4 darparwr argymhelliad i fireinio prosesau sicrhau ansawdd neu hunanarfarnu, yn enwedig o ran ansawdd yr addysgu.

Rhoddwyd argymhelliad i 2 ddarparwr adeiladu ar arfer bresennol i wella cysondeb ar draws yr ysgol.

Rhoddwyd argymhelliad i 2 ddarparwr am arweinyddiaeth:

– Cryfhau arferion presennol yr ysgol i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau ar lefel cyfarwyddiaeth a chorff llywodraethu wedi'u diffinio'n glir

– Sicrhau bod y tîm arwain yn casglu'r wybodaeth sydd ar gael yn effeithiol i ddatblygu trosolwg cydlynol o addysgu, dysgu, presenoldeb a'r cwricwlwm ar draws yr ysgol gyfan

Roedd argymhellion eraill a ddarparwyd i leoliadau prif ffrwd annibynnol yn cynnwys gwella presenoldeb, sicrhau bod disgwyliadau athrawon yn briodol uchel, gwneud y defnydd gorau o ddata asesu i lywio/gwella cynnydd disgyblion, a miniogi gwaith monitro a gwella i ganolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion.

# Unedau Cyfeirio Disgyblion

## Ysgolion

**22**

Nifer yr ysgolion 2024

**22**

Nifer yr ysgolion 2023

**21**

Nifer yr ysgolion 2022

## Disgyblion

**1,077**

Disgyblion â chofrestriad sengl 2023-2024

**969**

Disgyblion â chofrestriad sengl 2022-2023

**857**

Disgyblion â chofrestriad sengl 2021-2022

## Gweithgarwch dilynol

Nifer mewn categori gweithgarwch dilynol ym mis Medi 2023

MA: 1 GS: 1 AE: 1

Nifer a dynnwyd yn 2023-2024

MA: 0 GS: 1 AE: 1

Nifer a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol ar ôl arolygiad craidd yn 2023-2024

MA: 0 GS: 1 AE: 0

Cyfanswm mewn categori gweithgarwch dilynol ym mis Awst 2024

## Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: 3

Cyfrwng Cymraeg:

Dwyieithog:

Cyfrwng Saesneg: 3

## Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos y gofynnwyd amdanynt: 0

MA: 1 GS: 1 AE: 0

### Ymweliadau ymgysylltu

Nifer yr ymweliadau/galwadau: 2

Cyfrwng Cymraeg:

Dwyieithog:

Cyfrwng Saesneg: 2

## Crynodeb

Ym mlwyddyn academaidd 2023-2024, roedd 2,597 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol (AHY). Mae hynny'n 5.5 o bob 1,000 o ddisgyblion yng Nghymru, sydd wedi cynyddu o 5.1 o bob 1,000 o ddisgyblion yn 2022/23.

Mae 2,279 o ddisgyblion AHY yn cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol, yn bennaf. Mae hynny'n 4.9 o bob 1,000 o ddisgyblion yng Nghymru, sydd wedi cynyddu o 4.0 o bob 1,000 o ddisgyblion yn 2022/23 a'r gyfradd uchaf ers i ddata gael ei gyfrifo yn 2009/10.

Mae'n ymddangos bod nifer y disgyblion AHY sy'n cael eu haddysg y tu allan i'r ysgol yn cynyddu, ar ôl dyblu'n gymesur er 2009/10. Canran y disgyblion AHY sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol yn bennaf yw 87.8%, sydd wedi cynyddu o 42% yn 2009/10.

Yn 2023/24, yn gymesur, mae nifer sylweddol fwy o ddisgyblion ag AAA neu ADY yn cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol yn bennaf nag ymhlith y boblogaeth gyffredinol o ddisgyblion. Mae nifer fwyaf y cofrestriadau disgyblion (44.7%) mewn unedau cyfeirio disgyblion, wedi'i dilyn gan ysgolion annibynnol (18.4%) a thiwtora unigol (16.0%).

Eleni, arolygwyd tair UCD: dwy dan fframwaith arolygu peilot newydd, bob un ohonynt yn gwasanaethu safleoedd lluosog. Roedd dwy UCD yn cefnogi disgyblion 11-16 oed ac un yn gwasanaethu disgyblion 7-16 oed, gyda nifer y disgyblion cofrestredig yn amrywio o 33 i 76.

## Gweithgarwch dilynol

Eleni, tynnwyd dwy UCD o gategorïau gweithgarwch dilynol oherwydd cynnydd cryf, tra mae un ohonynt mewn categori gweithgarwch dilynol statudol o hyd. Rhoddwyd un o'r tair UCD a arolygwyd eleni yn y categori gwelliant sylweddol.

## Addysgu a dysgu

Yn yr UCDau mwyaf effeithiol, roedd y cwricwlwm a gynigir yn eang, yn gytbwys ac wedi'i deilwra i anghenion a diddordeb penodol y disgyblion. Roedd gan yr UCDau hyn gynlluniau sefydledig ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, gyda phwyslais cryf ar les disgyblion ac integreiddio pedwar diben y cwricwlwm mewn cynllunio ac addysgu. Roedd yr ymagwedd hon yn darparu profiadau addysgol cyfoethog i ddisgyblion. Roedd hyblygrwydd y cwricwlwm yn caniatáu ar gyfer unigoli, a arweiniodd at

y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol o'u mannau cychwyn, gydag ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd eithriadol. Fodd bynnag, roedd anghysondebau o ran ansawdd ac effaith datblygu Cwricwlwm i Gymru ar draws UCDau gwahanol.

Roedd y cwricwlwm mewn llawer o UCDau yn berthnasol i anghenion, oedrannau a galluoedd amrywiol disgyblion, gan fynd i'r afael â materion cymdeithasol pwysig fel deall cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, yn ogystal â phobl LHDTC+. Roedd y rhan fwyaf o UCDau yn nodi a darparu ymyriadau a chymorth targedig i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol, gan sicrhau bod pob disgybl yn gallu manteisio ar y cwricwlwm yn effeithiol. Roedd pwyslais cryf ar ddatblygu medrau cymdeithasol a bywyd disgyblion hefyd, gan eu paratoi'n dda ar gyfer eu camau yn y dyfodol. Er enghraifft, yn Gorwelion Newydd, roedd llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda ag ystod o glybiau amser cinio, gan gynnwys gemau strategaeth ffantasi a cherddoriaeth, ynghyd â chlwb gemau ar ôl ysgol unwaith yr wythnos.

Yn yr arferion mwyaf effeithiol, roedd datblygu medrau disgyblion wedi'i ymwreiddio'n dda ar draws y cwricwlwm, gyda llwybrau dilyniant clir. Fodd bynnag, roedd datblygu medrau digidol a Chymraeg yn amrywio. Ar gyfer disgyblion uwchradd hŷn, roedd UCDau yn cynnig ystod werthfawr o gymwysterau a llwybrau galwedigaethol, wedi'u teilwra i anghenion unigol. Roedd yr UCDau hyn hefyd yn cynnal cysylltiadau cryf â Gyrfa Cymru, gan helpu disgyblion i ddeall y cyfleoedd iddynt yn y dyfodol.

Roedd gan yr UCDau mwyaf effeithiol systemau olrhain cadarn i fonitro a gwerthuso cynnydd disgyblion, gan ddefnyddio gwybodaeth waelodlin fanwl am gyrhaeddiad a lles disgyblion i lywio cyfleoedd dysgu a mynd i'r afael ag anghenion ychwanegol. Serch hynny, roedd amrywioldeb yn ansawdd yr asesu ar draws UCDau, a oedd yn cyfyngu ar allu staff i nodi cynnydd yn gywir a thargedau ymyriadau'n effeithiol.

Lle'r oedd yr addysgu yn effeithiol, roedd dysgu yn bwrpasol gyda bwriadau clir a chyd-destunau difyr ac yn meithrin medrau'n llwyddiannus dros gyfnod. Roedd cynllunio hynod drefnus ac arferion asesu pwrpasol yn cefnogi olrhain cynnydd yn effeithiol, gan sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd ystyrlon. Yn yr UCDau hyn, roedd disgyblion yn magu hyder, yn ail-ymgysylltu â'u haddysg ac yn ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliadau uchel gan ddatblygu gwydnwch a hunanddelwedd gadarnhaol fel dysgwyr. Yng Nghanolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Caerfyrddin, roedd llawer o'r staff yn defnyddio technegau holi yn fedrus i ennyn diddordeb, herio a chefnogi disgyblion.

Mewn UCDau sydd â diwylliant cryf o arfer sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion, wedi'i gefnogi gan gydweithio ag asiantaethau allanol, roedd staff a datblygu cyd-ddealltwriaeth o anghenion cymhleth disgyblion ac yn defnyddio strategaethau priodol yn llwyddiannus i gefnogi cynnydd disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad a'u heffaith ar les disgyblion

Ym mron pob un o'r UCDau a arolygwyd, roedd llawer o ddisgyblion wedi cael profiad o absenoldebau hir o addysg ffurfiol, a oedd yn cael effaith negyddol ar eu presenoldeb a'u hymgysylltiad. Fodd bynnag, roedd staff yn meithrin perthnasoedd cryf, ymddiriedus â disgyblion, gan wneud iddynt deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal da. Yn Uned Cyfeirio Disgyblion Powys, roedd y perthnasoedd cadarnhaol a pharchus yr oedd staff wedi'u meithrin â disgyblion yn gryfder yng ngwaith yr UCD.

Lle caiff cynlluniau cymorth bugeiliol eu defnyddio'n effeithiol, mae prosesau trylwyr ar waith i fonitro'r defnydd ohonynt. Mae dychweliad disgyblion i addysgu amser llawn yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn cyfranogi'n weithredol yn y prosesau ac yn gallu nodi'r rhwystrau posibl y maent yn eu

hwynebu.

Roedd gan bron pob UCD arferion diogelu cadarn, gan feithrin diwylliant cadarnhaol a oedd yn gwella ymddygiad ac agweddau disgyblion. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwelliannau sylweddol o ran eu hymddygiad ac roedd gwaharddiadau ac ymyriadau corfforol yn isel, gan adlewyrchu llwyddiant strategaethau ymddygiad teilwredig.

Roedd staff mewn UCDau wedi'u hyfforddi'n dda i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion. Rhoddwyd blaenoriaeth i ddysgu proffesiynol yn y meysydd hyn, gan gydnabod yr anghenion cynyddol ymhlith disgyblion. Roedd gan UCDau effeithiol brosesau cryf ar gyfer monitro presenoldeb ac roedd disgyblion yn chwarae rôl ganolog mewn gwella eu presenoldeb. Serch hynny, roedd cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn peri pryder o hyd. Roedd y defnydd o amserlenni rhan-amser yn amrywio, gyda rhai disgyblion yn treulio gormod o amser ar amserlenni llai.

Roedd yr UCDau mwyaf effeithiol yn cyflogi cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADYau) medrus a oedd yn nodi ac yn mynd i'r afael ag anghenion dysgu disgyblion, gan gynnwys cynnydd yn nifer y disgyblion â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig. Roedd UCDau effeithiol hefyd yn meithrin ymdeimlad grymus o gymuned ac yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ymgysylltu â materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Yn Gorwelion Newydd, roedd y trefniadau ar gyfer cynghorau ysgol yn gryfder nodedig ond, ar draws yr holl UCDau a arolygwyd, roedd amrywioldeb o ran pa mor dda y gallai disgyblion fynegi eu barn a dylanwadu ar eu dysgu.

Roedd cyfraddau ailintegreiddio i addysg brif ffrwd yn isel, gydag ychydig o ddisgyblion yn unig yn dychwelyd yn llwyddiannus, yn enwedig disgyblion hŷn. Mae UCDau yn cefnogi disgyblion a theuluoedd yn effeithiol, gan leihau rhwystrau fel tlodi a difreintedd, ac yn cynnal partneriaethau cryf â rhieni, gofalwyr ac asiantaethau allanol. Roedd y partneriaethau hyn yn cynnwys cyfathrebu, digwyddiadau cymdeithasol a hyfforddiant teilwredig i reoli anghenion disgyblion yn well, gan arwain at ddarparu gwasanaeth mwy cydgysylltiedig i deuluoedd.

## Arwain a gwella

Yn yr UCDau mwyaf effeithiol, roedd gan arweinwyr weledigaeth glir, wedi'i llunio ar y cyd â'r awdurdod lleol, gan ddiffinio rôl a swyddogaeth yr UCDau yn yr awdurdod. Roedd cyfleu'r weledigaeth hon yn gryf yn sicrhau prosesau sefydledig ar gyfer disgyblion o ran ymuno ac ymadael, gydag ysgolion prif ffrwd yn deall prosesau atgyfeirio a'u rolau cefnogol. Fodd bynnag, roedd yr eglurder hwn yn amrywio ar draws awdurdodau lleol.

Roedd arweinwyr effeithiol UCDau yn meithrin cyfathrebu cadarn, disgwyliadau uchel a pherthnasoedd gwaith cryf ymhlith staff, a oedd yn cyfrannu'n weithredol at gynllunio gwelliant. Sefydlwyd diwylliant cryf o ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu, lles a phresenoldeb ac roedd y disgwyliadau hyn yn cael eu cyfleu'n glir i ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr. Roedd datblygiad proffesiynol yn cael ei flaenoriaethu, yn cyd-fynd â chynlluniau datblygu'r UCDau ac yn cael ei fonitro'n effeithiol, er bod ansawdd y cyfleoedd dysgu yn amrywio.

Roedd gan bron pob UCD weithdrefnau diogelu cadarn, gyda hyfforddiant rheolaidd, perthnasol i staff. Roedd y cwricwlwm yn gynhwysol ac yn canolbwyntio ar ddiogelwch a gwneud penderfyniadau gwybodus, gan helpu disgyblion i ddeall eu hawliau a sut i gadw'n ddiogel. Roedd arweinwyr hefyd yn hybu strategaethau i fynd i'r afael â thlodi, gan sicrhau bod modd manteisio'n deg ar y cwricwlwm a

lleihau rhwystrau i ddisgyblion difreintiedig trwy bartneriaethau effeithiol ag asiantaethau allanol.

Yn yr UCDau mwyaf effeithiol, roedd arweinwyr yn rhannu cyfrifoldebau ar draws eu tîm staff, yn unol â'u blaenoriaethau gwella, ac roedd pob un o'r staff yn deall eu rolau'n glir. Er enghraifft, yn Gorwelion Newydd, cryfhaodd y rheolwyr bugeiliol ar bob safle eu perthynas waith â rhieni a gofalwyr yn sylweddol i gefnogi eu plentyn.

Lle'r oedd arfer yn fwyaf effeithiol, roedd y pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gadarn. O ganlyniad, roedd her a chymorth cadarn ac roedd arweinwyr yn cael eu dwyn i gyfrif yn dda.

## Trosolwg argymhellion

Yn y flwyddyn academaidd 2023 – 2024, arolygodd Estyn dair UCD.

Cafodd dau argymhelliad i wella presenoldeb.

Cafodd dau argymhelliad i egluro rolau a chyfrifoldebau arweinwyr.

Rhoddwyd argymhelliad i ddau weithio gyda'r awdurdod lleol, un i sefydlu gweledigaeth strategol ac un i wella ansawdd yr amgylchedd dysgu.

# Colegau arbenigol annibynnol

**7**

Nifer y colegau arbenigol annibynnol yng Ngorffennaf 2023

**8**

Nifer y colegau arbenigol annibynnol yng Ngorffennaf 2024

**2**

Llythyrau lles a gyhoeddwyd ym mlwyddyn academaidd 2022-2023

**0**

Llythyrau lles a gyhoeddwyd ym mlwyddyn academaidd 2023-2024

### Gweithgarwch arolygu a gynhaliwyd eleni:

- 1 arolygiad craidd
- 5 ymweliad monitro
- 4 ymweliad cofrestru cychwynnol
- 2 ymweliad newid i drefniadau

### Cipluniau:

- Aspris South – siop goffi
- Aspris South – gweithio mewn partneriaeth ar gyfer pontio

### Ymweliadau cofrestru cychwynnol

Pan fydd darparwr yn ceisio cael lleoliadau a ariennir gan awdurdod lleol, mae angen iddo wneud cais i Lywodraeth Cymru i gael ei gynnwys ar y rhestr o sefydliadau ôl-16 arbenigol annibynnol cymeradwy. Wrth ystyried cais i gael ei gynnwys ar y rhestr, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Estyn adolygu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a darparu adroddiad ag argymhelliad.

Yn ystod 2023-2024, darparom bedwar adroddiad i Lywodraeth Cymru ar ansawdd y ddarpariaeth dysgu ychwanegol a gynigiwyd gan ymgeiswyr.

Cryfderau:

- Ym mron pob un o'r ceisiadau, roedd gan arweinwyr weledigaeth addas ar gyfer diben y ddarpariaeth, wedi'i harwain gan werthoedd clir a phrofiad o gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Roedd bron pob un o'r ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.
- Mewn un lleoliad, roedd cynlluniau'r cwricwlwm ac asesu yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn datblygu medrau buddiol ac achredu dysgu, lle bo hynny'n briodol.
- Mewn un lleoliad, cynlluniodd arweinwyr ymagwedd wedi'i hunigoli i fodloni anghenion dysgwyr a gwneud trefniadau i ddysgwyr elwa ar allu manteisio ar ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel.
- Mewn un lleoliad, sefydlodd arweinwyr dîm therapiwtig i gefnogi anghenion dysgwyr.

Meysydd i'w gwella:

- Mewn tri darparwr, roedd arlwy cwricwlwm cyfyngedig neu ddull cynlluniedig o asesu'r cynnydd a wnaed gan ddysgwyr.
- Mewn tri darparwr, nid oedd polisïau'n cyfeirio'n gyson at ddeddfwriaeth ac arweiniad cyfredol Cymru.
- Mewn tri lleoliad, roedd pryderon ynghylch addasrwydd y defnydd cynlluniedig o'r amgylchedd dysgu.
- Nid oedd gan ddau leoliad unrhyw arlwy clir ar gyfer darpariaeth dysgu ychwanegol ac ni nodwyd yn glir gategori'r angen roedd y darparwr yn bwriadu ei gefnogi.

## Crynodeb

Yn ystod 2023-2024, parhaodd colegau arbenigol annibynnol (sydd hefyd yn cael eu galw'n sefydliadau arbenigol annibynnol ôl-16) i ddarparu cymorth addysg a lles i ddysgwyr ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol.

Addysgodd colegau arbenigol annibynnol tua 170 o ddysgwyr 16 oed neu'n hŷn a ariannwyd gan ledled Cymru. Darparodd y colegau ar gyfer ystod amrywiol o anghenion dysgwyr, gan gynnwys cyflyrau ar y sbectrwm awtistig; anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol; ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mewn pump o'r colegau, roedd dysgwyr yn byw mewn cartrefi preswyl ynghlwm wrth y coleg.

Ar hyn o bryd, mae bron pob lleoliad mewn colegau arbenigol annibynnol yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol ar gyfer dysgwyr o Loegr. Oherwydd diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol, mae cyllid ar gyfer y lleoliadau hyn yn symud o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, ac mae dysgwyr newydd bellach yn cael eu hariannu trwy awdurdodau lleol.

Yn ogystal ag arolygiadau llawn, rydym yn cynnal ymweliadau monitro rheolaidd â cholegau arbenigol annibynnol. Mae'r ymweliadau hyn yn ystyried y cynnydd a wnaed gan golegau yn erbyn argymhellion penodol o arolygiadau craidd ac ymweliadau monitro blaenorol.

Eleni, cynhaliom un arolygiad craidd, pum ymweliad monitro, pedwar ymweliad cofrestru cychwynnol a dau ymweliad newid trefniadau. Mae canfyddiadau pob un o'r ymweliadau hyn wedi llywio'r adroddiad hwn.

## Addysgu a dysgu

Gwnaeth y rhan fwyaf o ddysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol gynnydd cadarn tuag at eu targedau unigol. eli

At ei gilydd, datblygodd staff berthnasoedd cadarnhaol dros ben â dysgwyr ac ymddwyn fel delfryd ymddwyn gadarnhaol. Mewn tua hanner y colegau, roedd y gefnogaeth sensitif a medrus gan weithwyr cymorth dysgu yn gryfder nodedig ac roeddent yn caniatáu i ddysgwyr weithio'n annibynnol, lle bo hynny'n bosibl. Mewn lleiafrif o golegau, roedd ansawdd y cymorth dysgu yn rhy amrywiol. Roedd tua hanner y colegau yr ymwelom â nhw wedi gwella prosesau ar gyfer olrhain cynnydd dysgwyr yn ddiweddar ac yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i lywio cynllunio.

### Coleg Elidyr – Dathlu'r Gymraeg a'i diwylliant

Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y 'Clwb Clonc' yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a'i diwylliant. Maent yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau y mae'r coleg wedi'u datblygu i wella eu medrau Cymraeg. Lle bo modd, mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg rhugl yn sgwrsio'n naturiol â'u tiwtoriaid a'u cymheiriaid mewn sgyrsiau un-i-un gan ddefnyddio'r Gymraeg.

Roedd colegau arbenigol annibynnol yn darparu cwricwlwm hyblyg, wedi'i lywio gan ddiddordebau dysgwyr ac anghenion y dyfodol. Mewn tua hanner y colegau yr ymwelwyd â nhw, atgyfnerthwyd yr arlwy hwn trwy gysylltiadau â cholegau prif ffrwd.

At ei gilydd, roedd dysgwyr yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu medrau ymarferol mewn lleoliadau go iawn. Er enghraifft, roedd dysgwyr yn gweithio yn siop goffi'r coleg yn gweini cwsmeriaid sy'n talu o'r gymuned leol, yn gofalu am anifeiliaid ar fferm y coleg, yn tyfu llysiau yn y twnnel polythen ac yn coginio prydau bwyd yng nghegin y coleg. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o golegau, roedd dysgwyr yn cwblhau taflenni gwaith a ddyluniwyd yn wael, nad oeddent yn datblygu eu medrau na'u dysgu. Roedd tua hanner y colegau yr ymwelwyd â nhw eleni wedi gwneud gwelliannau diweddar i'w hamgylcheddau dysgu.

### Hwb Aspris – Siop goffi

Mae dysgwyr yn datblygu ystod o fedrau pwysig ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol yn siop goffi'r coleg. Mae'r siop goffi ar agor i'r cyhoedd bob amser cinio gan werthu prydau bwyd, byrbrydau a diodydd poeth. Mae arweinwyr wedi cynllunio'r ddarpariaeth hon fel modd i ddatblygu ystod o fedrau, er enghraifft medrau cymdeithasol, hylendid bwyd sylfaenol, coginio a medrau rheoli a defnyddio arian.

Mae dysgwyr yn llenwi cais i gael eu hystyried ar gyfer y rôl ac wedyn yn llofnodi contract â'r coleg pan gânt eu penodi. Wrth baratoi ar gyfer lleoliadau, maent yn cwblhau cymwysterau achrededig mewn hylendid bwyd a hyfforddiant *'barista'*, y gellid eu trosglwyddo i gyflogaeth yn y dyfodol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad a'u heffaith ar les dysgwyr

Roedd pob un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw eleni wedi sefydlu amgylcheddau dysgu golau a chroesawgar lle roedd dysgwyr yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel. Nid oedd unrhyw bryderon sylweddol ynghylch arfer diogelu yn unrhyw un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw eleni. Ymatebodd pob un o'r colegau'n briodol i faterion a godwyd yn eu llythyrau lles o'r flwyddyn academaidd flaenorol, yn ôl yr angen.

Ym mhob un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw, datblygodd staff ddealltwriaeth gref o anghenion a diddordebau dysgwyr. Roeddent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac anogol â nhw. Mewn ychydig o golegau, roedd presenoldeb dysgwyr yn faes i'w wella o hyd. Ar ben hynny, mewn ychydig o golegau, roedd diffyg eglurder a thrylwyredd mewn prosesau i gofnodi a mynd ar drywydd absenoldebau dysgwyr.

Ym mhob un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw, roedd dysgwyr yn elwa ar gymorth tîm therapi. Lle'r oedd hyn yn fwyaf effeithiol, roedd dysgwyr yn defnyddio'r cymorth hwn i ddatblygu medrau pwysig, fel hunanreoleiddio, medrau cymdeithasol a chyfathrebu.

### Coleg Aspris – Gweithio mewn partneriaeth ar gyfer pontio'n gadarnhaol

Mae gan bob dysgwr lwybrau pontio unigol wrth ddechrau yn y coleg, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac sy'n sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu nodau hirdymor. Caiff gwybodaeth werthfawr ei chasglu am ddysgwyr yn ystod eu hasesiad, sy'n cynnwys eu diddordebau personol, amcanion addysg a'r cymorth sydd ei angen. Mae hyn yn galluogi'r coleg i ddatblygu traciwr llwybr priodol ar gyfer pob dysgwr.

Mae partneriaeth gref rhwng Coleg Aspris a Choleg Gwent. Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal rhwng arweinwyr y colegau lle caiff gwybodaeth bwysig ei rhannu am yr holl ddysgwyr presennol a darpar ddysgwyr. Mae staff yn y coleg yn elwa ar arsylwi sesiynau yng Ngholeg Gwent i wella a datblygu eu harfer addysgu eu hunain, yn ogystal â'u galluogi i ddarparu gwybodaeth gywir am gyrsiau i'w dysgwyr. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn pontio'n llwyddiannus o Goleg Aspris i Goleg Gwent i barhau â'u haddysg.

## Arwain a gwella

Roedd arweinyddiaeth ar draws y sector yn fwy cyson yn ystod y flwyddyn academaidd hon na'r llynedd. Nodom fod gan y mwyafrif o golegau dîm arweinyddiaeth sefydlog â gweledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr. Mewn ychydig o golegau, roedd diffyg eglurder mewn prosesau goruchwylio a monitro.

Ym mwyafrif y colegau yr ymwelwyd â nhw eleni, roedd arweinwyr wedi sefydlu tîm staff ymroddedig. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae staff yn elwa ar ddysgu proffesiynol sydd wedi gwella agweddau pwysig ar eu harfer, er enghraifft cyflwyno addysg bersonol a chymdeithasol.

Roedd llawer o'r colegau yr ymwelwyd â nhw eleni wedi elwa ar gefnogaeth gan staff yn eu rhiant-sefydliad. Mewn tua hanner y colegau hyn, roedd cysylltiadau ag uwch dîm arweinyddiaeth y rhiant-sefydliad wedi'u cryfhau. O ganlyniad, roedd arweinwyr yn elwa ar gymorth a her briodol.

Roedd tua hanner y colegau wedi cryfhau prosesau cynllunio gwelliant. Mewn tua hanner y colegau, nid oedd prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n gyson ar effaith addysgu ar ddysgu.

Yn ystod cylch arolygu 2016-2024, ni ddefnyddiwyd unrhyw gategori gweithgarwch dilynol yn y sector hwn gan i ni ymweld â phob coleg yn rheolaidd ar gyfer ymweliadau monitro. Fodd bynnag, o fis Medi 2024 ymlaen, bydd gweithgarwch dilynol yn cael ei gyflwyno yn y sector hwn ar gyfer y darparwyr hynny sy'n peri pryder.

## Coleg Elidyr – Cyfoethogi'r cwricwlwm

Mae'r coleg yn defnyddio ystod o weithgareddau ychwanegol o ansawdd uchel i gyfoethogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r coleg yn annog dysgwyr i gymryd rhan mewn cystadlaethau meithrin medrau galwedigaethol lleol a chenedlaethol. Mae dysgwyr yn arddangos eu medrau'n llwyddiannus ac mae ychydig o ddysgwyr yn ennill medalau aur ac arian ar lefel genedlaethol.

Yn ogystal, mae ychydig o ddysgwyr yn ennill gwobr aur ar gyfer Gwobr Dug Caeredin a Gwobr Arweinydd Ifanc, ar ôl dangos medrau arweinyddiaeth a chwblhau alldaith pedwar diwrnod yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith perthnasol ac mae tua hanner yn cefnogi dysgwyr i integreiddio yn y gymuned leol. Er enghraifft, mae gan ddysgwyr leoliadau yn ystadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mewn amgueddfeydd, stablau ceffylau a busnesau lleol.

## Trosolwg o'r argymhellion o arolygiadau ac ymweliadau monitro

Yn y chwe ymweliad a gwblhawyd gennym eleni sydd wedi cyhoeddi adroddiadau, gwnaethom gyfanswm o 11 o argymhellion. Cafodd bron pob un o'r colegau argymhellion ar ôl ymweliad neu arolygiad.

Roedd yr argymhellion a wnaed mewn perthynas ag addysgu a dysgu yn canolbwyntio ar ansawdd y cymorth dysgu a sicrhau bod ansawdd y profiadau addysgu yn cyfateb yn dda i anghenion dysgwyr.

Roedd mwyafrif yr argymhellion yn ymwneud ag arwain a gwella, yn benodol, gan ganolbwyntio ar wella prosesau sicrhau ansawdd.

# Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol

## Darparwyr

**22**

Nifer y darparwyr yn 2024

### Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau craidd: 4

Cyfrwng Cymraeg: 1

Cyfrwng Saesneg: 3

### Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos: 4

Wedi'u cyhoeddi ar y wefan: 2

### Gweithgarwch dilynol

Nifer mewn categori gweithgarwch dilynol ym mis Medi 2023
Awdurdodau sy'n peri pryder sylweddol: 1
Nifer a dynnwyd yn 2023-2024: 0
Nifer a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2023-2024: 0
Cyfanswm mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2024: 1

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnwys y rhai sy'n cael eu darparu neu eu comisiynu gan un awdurdod lleol, yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn hon, comisiynodd rhai awdurdodau lleol wasanaethau gwella ysgolion trwy gonsortia rhanbarthol. Mae'r model ar gyfer darparu gwasanaethau gwella ysgolion yn amrywio ledled Cymru ac maen mewn cyfnod o drawsnewid oherwydd adolygiad cyfredol o rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg a chyflwyno trefniadau gwella ysgolion.

Yn ogystal â'n harolygiadau craidd a'r gwaith gweithgarwch dilynol, cynhaliodd arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol ymweliadau â phob awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn i drafod eu gwasanaethau. Cyfrannodd y trafodaethau hyn ar bynciau penodol at ein hadroddiadau thematig ar ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r blynyddoedd cynnar (BC). Yn ystod 2023-2024, cynhaliom gynllun peilot o ymweliadau manylach gan arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol, lle ymwelodd tîm bach o arolygwyr ag awdurdod lleol i edrych yn fanylach ar agweddau penodol ar eu gwaith.

## Crynodeb

Pan fo awdurdodau lleol yn cefnogi ysgolion yn effeithiol, maent yn defnyddio ystod eang o wybodaeth i nodi ysgolion sydd angen cymorth ac o ansawdd yn effeithiol i sicrhau gwaith

swyddogion a phartneriaid gwella ysgolion. Mae arweinwyr yn rhannu ymdeimlad cryf o bwrpas moesol ac yn sicrhau bod staff yn cydweithio i gyflawni eu blaenoriaethau.

## Gweithdai Risg a Sicrwydd Blynyddol

Yn rhan o'n gwaith arolygwyr cyswllt parhaus â gwasanaethau addysg llywodraeth leol, cyfrannom at weithdai risg a sicrwydd blynyddol ochr yn ochr ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Ar sail y gwaith hwn, ysgrifennom at bob awdurdod lleol yn amlinellu'r risgiau a'r sicrwyddau a nodwyd gennym.

### Sicrwyddau allweddol

Mewn llawer o awdurdodau lleol, nodom fod deilliannau arolygiadau yn gadarnhaol, yn gyffredinol, yn enwedig mewn ysgolion cynradd a lleoliadau meithrin nas cynhelir. Ym mwyafrif yr awdurdodau lleol, amlygom sicrwyddau yn ymwneud ag arweinyddiaeth gref gan uwch swyddogion ac aelodau etholedig. Yn yr achosion hyn, roedd gan arweinwyr weledigaeth glir a rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n dda, a oedd yn hybu atebolrwydd ar draws gwasanaethau. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, nodom gryfderau yn y modd roedd gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cydweithio â chyfarwyddiaethau eraill yn eu hawdurdod lleol a'r effaith gadarnhaol roedd hyn yn ei chael ar ansawdd darpariaeth i blant a phobl ifanc.

### Risgiau allweddol

Mynegodd llawer o awdurdodau lleol bryder ynghylch cyllidebau'n gostwng ar adeg pan roedd mwy o alw ar wasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â chymorth ar gyfer lles plant a phobl ifanc. Roedd presenoldeb yn risg allweddol ar gyfer gwasanaethau addysg awdurdodau lleol gan ei fod yn sylweddol is na'r lefelau cyn y pandemig o hyd ym mron pob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Amlygom bryderon yn ymwneud ag ymddygiad dysgwyr a'r cynnydd mewn gwaharddiadau am gyfnod penodedig a gwaharddiadau parhaol mewn tua hanner yr awdurdodau lleol. Nodom risgiau yn ymwneud â deilliannau arolygu hefyd, yn enwedig lle bu ysgolion mewn categori statudol am gyfnod hir. Roedd recriwtio a chadw staff ac arweinwyr yn risg allweddol hefyd, ac fe amlygom hyn mewn ychydig o awdurdodau lleol, yn enwedig mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

## Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)

Yn ystod 2023-2024, parhaom i weithio ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) i gynnal arolygiadau ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant (JICPA) yn awdurdodau lleol Powys a Chaerdydd. Ein rôl yw gwerthuso trefniadau diogelu ac amddiffyn plant awdurdod lleol o safbwynt addysg.

Yn y ddau awdurdod lleol a arolygwyd, roedd diogelu yn ganolog i waith arweinwyr a swyddogion yn y gyfarwyddiaeth addysg. Roedd swyddogion yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol i sicrhau bod diogelu'n cael ei ystyried yn gyfrifoldeb i bawb. Yn y ddau awdurdod, roedd arweinwyr ysgolion ac UCDau yn hyderus ynghylch y cymorth a'r arweiniad diogelu roeddent yn eu cael. Roedd staff yn adnabod disgyblion a'u teuluoedd yn dda. Roedd arferion gwaith cryf lle'r oedd darparwyr ac asiantaethau eraill, fel gwasanaethau iechyd a phlant, yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth i gynllunio, gweithredu ac adolygu darpariaeth ar gyfer plant bregus. Roedd disgyblion yn cael cefnogaeth briodol ym mhob darparwr ac roedd ystod gynhwysfawr o raglenni'n cael eu defnyddio i hybu iechyd a lles. Yn y ddau awdurdod, dim ond megis dechrau cael ei datblygu oedd rôl swyddogion

o ran gwerthuso arferion diogelu darparwr trwy ddefnyddio archwiliadau ac roedd angen ei chryfhau.

## Arolygiadau

Rhwng mis Medi 2023 a mis Gorffennaf 2024, cwblhaom bedwar arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol. Cynhaliwyd yr arolygiad o Gyngor Bro Morgannwg fel peilot ar gyfer ein trefniadau Arolygu 2024. Gofynnwyd i bob un o'r pedwar awdurdod lunio astudiaethau achos. Amlygodd Conwy ei gefnogaeth i bobl ifanc fregus trwy weithio mewn gwasanaethau integredig. Paratôdd Bro Morgannwg astudiaeth achos ar effaith gwaith trawsgyfarwyddiaethol ar wasanaethau addysg. Gofynnom am astudiaeth achos ar waith Ceredigion i ddatblygu darpariaeth Gymraeg. Mae adroddiad arolygu Caerffili yn cynnwys astudiaeth achos ar gefnogi dysgwyr ag ADY mewn darparwyr prif ffrwd.

## Deilliannau a gwasanaethau addysg

Mae arolygiadau o wasanaethau addysg awdurdodau lleol yn cynnwys cwestiynau arolygu lleol (CALlau), sy'n canolbwyntio ar agweddau penodol ar ddarpariaeth. Roedd cwestiynau arolygu lleol yn 2023-2024 yn canolbwyntio ar feysydd fel gwella ysgolion, hybu presenoldeb ac ymddygiad da, ymgysylltu â theuluoedd, darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, lleddfu effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, ad-drefnu ysgolion a darpariaeth i ddatblygu'r Gymraeg.

Ystyriodd pob un o'n harolygiadau pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ysgolion i wella, gan ganolbwyntio ar sut maent yn cefnogi addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth. Ym mhob un o'r pedwar arolygiad, canfuom fod gan swyddogion awdurdodau lleol ddealltwriaeth gref o lawer o agweddau ar waith eu hysgolion, ar y cyfan. Ar draws y pedwar awdurdod a arolygwyd, roedd swyddogion a phartneriaid gwella ysgolion wedi meithrin perthnasoedd proffesiynol cryf ag arweinwyr mewn ysgolion. Roedd swyddogion neu bartneriaid yn ymweld â darparwyr yn rheolaidd i gasglu gwybodaeth ac i gefnogi a herio arweinwyr ysgolion. Mewn llawer o achosion, roedd swyddogion yn defnyddio systemau data awdurdodau lleol i gasglu ystod eang o wybodaeth am gyllid, adnoddau dynol, presenoldeb a gwella ysgolion. Cynhaliodd awdurdodau lleol gyfarfodydd rheolaidd i drafod problemau posibl a'r cymorth yr oedd ei angen ar ysgolion unigol i fynd i'r afael â'r agweddau hyn ar eu gwaith. Mewn ychydig o achosion, dim ond megis dechrau cael eu datblygu oedd y systemau casglu gwybodaeth hyn.

Ym mhob un o'r pedwar arolygiad, canfuom fod swyddogion yn gweithio'n gynhyrchiol â chydweithwyr yn eu gwasanaethau gwella ysgolion neu drefniadau partneriaeth. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd gan awdurdodau lleol systemau clir i sicrhau ansawdd gwaith swyddogion neu bartneriaid gwella ysgolion er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd. At ei gilydd, canfuom fod swyddogion a phartneriaid yn gweithio'n fuddiol ag ysgolion i gefnogi prosesau sicrhau ansawdd yr ysgolion eu hunain, gan gasglu tystiolaeth uniongyrchol trwy graffu ar waith, gwrando ar ddysgwyr, arsylwi gwersi a theithiau dysgu. Er bod y gwaith hwn yn edrych ar ddefnyddiol ar ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth, nid oedd yn canolbwyntio'n ddigon da bob tro ar y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion mewn gwersi a thros gyfnod.

Canfuom fod awdurdodau lleol yn cynnig cymorth gwerthfawr i arweinwyr, gan gynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol fel cysgodi arweinwyr profiadol, hyfforddiant a mentora. Ar ben hynny, cafodd llywodraethwyr ysgolion ystod werthfawr o arweiniad a dysgu proffesiynol i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Yn gyffredinol, roedd yr awdurdodau lleol a arolygwyd yn defnyddio eu pwerau statudol yn briodol, fel

cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio neu ddarparu llywodraethu ychwanegol pan nad oedd ysgolion yn mynd i'r afael â materion brys yn ymwneud â pherfformiad yn ddigon cyflym. Yn aml, roedd cymorth o amgylch ysgolion mewn unrhyw un o gategorïau gweithgarwch dilynol Estyn yn gadarn ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn arwain at welliannau amserol.

Yn ein harolygiadau eleni, canfuom fod gwasanaethau gwella ysgolion yn cael effaith gadarnhaol, ar y cyfan. Roedd deilliannau arolygiadau ar gyfer ysgolion a darparwyr mewn tri o'r pedwar awdurdod lleol a arolygwyd yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn nodedig, dros gyfnod, bu deilliannau arolygu ysgolion yng Ngheredigion yn gryf ac ni fu angen gweithgarwch dilynol ar unrhyw ddarparwr ers i ni ailddechrau arolygu ar ôl pandemig COVID-19.

Roedd pob un o'r pedwar arolygiad yn ystyried pa mor dda roedd yr awdurdod lleol yn cefnogi presenoldeb, ymgysylltiad ag addysg neu ymddygiad. Roedd llawer o awdurdodau yn casglu data presenoldeb a gwaharddiadau ar gyfer disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig cymorth gwaith cymdeithasol addysgol buddiol i ysgolion. Yng Nghonwy, canfuom ddiwylliant sefydledig ac effeithiol o waith traws-wasanaeth i gynnig cymorth i deuluoedd i helpu plant a phobl ifanc i ymgysylltu ag addysg. Roedd hyn yn cynnwys gwaith gwerthfawr â'r gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau ieuenctid a chyflogadwyedd o fewn y cyngor. Yng Ngheredigion, roedd yr awdurdod yn defnyddio technoleg yn arloesol i godi ymwybyddiaeth o brofiadau trawmatig yn ystod plentyndod a all arwain at ymddygiad heriol. Roeddent yn defnyddio data'n dda i adnabod disgyblion yr oedd angen cymorth arnynt ac yn cydweithio'n dda ag ysgolion i ddarparu ystod o ymyriadau a darpariaeth i helpu disgyblion. Roedd Bro Morgannwg wedi datblygu pecyn offer o ansawdd uchel ar y cyd ag ysgolion i'w cynorthwyo i gynyddu eu cyfraddau presenoldeb. Yng Nghaerffili, canfuom fod gan yr awdurdod strategaeth glir ar gyfer gwella presenoldeb, a oedd yn cael ei chyfleu'n effeithiol i ysgolion a rhanddeiliaid eraill, fel rhieni a gofalwyr.

At ei gilydd, ym mhob un o'r awdurdodau a arolygwyd, roedd cyfraddau presenoldeb wedi gwella yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024, er eu bod yn is nag oeddent cyn y pandemig o hyd, fel oedd yn wir ledled Cymru. Roedd cyfraddau absenoldeb, yn enwedig absenoldebau cyson mewn ysgolion uwchradd, yn rhy uchel o hyd. Canfu ein harolygiadau nad oedd ymyriadau i fynd i'r afael â'r diffygion hyn wedi cael digon o effaith ar wella lefelau presenoldeb hyd yn hyn. Rhoddwyd argymhelliad i ddau awdurdod lleol wella presenoldeb. Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddom adroddiad thematig ar wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd, sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol.

At ei gilydd, canfuom fod y pedwar awdurdod lleol a arolygwyd yn gwneud cynnydd da tuag at weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, trwy ddysgu proffesiynol, cymorth ac adnoddau i ysgolion. Nodwedd gyffredin oedd y ffordd roedd swyddogion wedi meithrin perthnasoedd cynhyrchiol a chefnogol â rhieni a gofalwyr. Roedd awdurdodau lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY, eu teuluoedd, ysgolion a lleoliadau. Roeddent yn defnyddio ystod o fodelau i gyflwyno'r cymorth hwn, gan gynnwys trwy ysgolion arbennig a darpariaeth mewn lleoliadau prif ffrwd. Roedd darpariaeth ddwyieithog yn gryfder yng Ngheredigion a Chonwy. Yng Nghaerffili, roedd y tîm cynhwysiant statudol ac athrawon ymgynghorol arbenigol yn cynnig cymorth systematig amhrisiadwy i ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar. Roedd Caerffili, Conwy a Bro Morgannwg wedi rhoi crynodeb defnyddiol o ddisgwyliadau'r awdurdod o ran datblygu arferion ysgol cynhwysol ar gyfer darparwyr.

Roedd effeithiolrwydd prosesau sicrhau ansawdd i werthuso cryfderau a meysydd i'w gwella mewn gwasanaethau a darpariaethau ADY yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd swyddogion yn dadansoddi deilliannau ar gyfer disgyblion ag ADY a data arall yn briodol i

ystyried ansawdd y ddarpariaeth a nodi meysydd i'w gwella.

Yn gyffredinol, roedd yr awdurdodau lleol a arolygwyd yn datblygu eu darpariaeth yn dda i liniaru effaith tlodi ar les plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid oeddent yn ystyried yn ddigon da bob tro sut gallent wella dysgu, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion sy'n byw mewn aelwydydd ag incwm isel.

### Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth i liniaru effaith tlodi ar les ym Mro Morgannwg

Yn ystod ei arolygiad, canfuom fod gan Fro Morgannwg ymrwymiad moesol cryf i liniaru effaith tlodi ar les plant a phobl ifanc. Roedd gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth gadarn o anghenion ei gymunedau ac roedd swyddogion yn ymatebol i'r heriau. Roedd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn nodwedd allweddol o'i waith ac wedi ei alluogi i gyfeirio ei wasanaethau i'r mannau hynny lle'r oedd yr angen mwyaf a'r brys mwyaf. At ei gilydd, roedd effaith ei waith i leihau effaith tlodi ar les plant a phobl ifanc yn gryf.

Mewn dau awdurdod lleol, canolbwyntiom ar eu trefniadau i ddatblygu'r Gymraeg. Yn y ddau awdurdod, roedd gan arweinwyr weledigaeth glir ac ymrwymiad cryf tuag at wella darpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Roedd swyddogion yn cydweithio'n effeithiol ar draws meysydd gwasanaeth ac â phartneriaid allanol i gyflawni gwelliannau. Roedd staff yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i wella eu medrau Cymraeg eu hunain ac roedd ystod o adnoddau i helpu athrawon a disgyblion i ddatblygu eu medrau.

Roedd pob un o'r awdurdodau a arolygwyd yn datblygu gwaith canolfannau trochi iaith yn dda i gefnogi hwyrddyfodiaid[1]Hwyrddyfodiaid: dysgwyr (saith oed neu'n hŷn) nad ydynt yn siarad Cymraeg ond sydd eisiau mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, roedd Caerffili a Bro Morgannwg wedi peilota neu sefydlu canolfannau trochi newydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ddiweddar. Yng Ngheredigion, roedd arweinwyr wedi gweithredu'n brydlon i gynllunio'n strategol sut gallent gefnogi darparwyr i symud yn llwyddiannus ar hyd y continwwm iaith. Adeg yr arolygiad, roedd pum ysgol yn newid categori iaith er mwyn ymateb i uchelgais yr awdurdod i sicrhau bod pob disgybl yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Darllenwch sut roedd yr awdurdod lleol yn gwneud cynnydd arbennig o gryf tuag at ei Gynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yma.

## Arwain a gwella

Ar draws pob un o'r pedwar awdurdod a arolygwyd, roedd gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer addysg ac ymdeimlad cryf o ddiben moesol. Roeddent yn pwysleisio dyheadau uchel ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu cymunedau ac yn adlewyrchu hyn yn glir yn eu cynlluniau corfforaethol ac ariannol. Roedd awdurdodau lleol yn deall yn dda y pwysau sy'n wynebu addysg o ran cyllid ac yn cydweithio'n agos ag ysgolion i reoli'r heriau hyn. At ei gilydd, roedd aelodau etholedig yn craffu ar waith cyfarwyddiaethau addysg yn briodol, gan ofyn cwestiynau priodol i swyddogion mewn cyfarfodydd. Yn yr enghreifftiau gorau, roeddent yn nodi materion perthnasol i'w trafod, yn cynnig her dda i'r weithrediaeth ac yn sicrhau atebolrwydd priodol dros gyfnod. Mewn un awdurdod lleol, roedd aelodau'r Cyngor Ieuenctid yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd craffu ac roedd arweinwyr yn

rhoi ystyriaeth dda i'w safbwyntiau wrth drafod materion allweddol. Mewn awdurdod lleol arall, roedd uwch arweinwyr ac aelodau etholedig wedi annog rhanddeiliaid yn weithredol i fynegi barn ar ansawdd eu gwaith, gan gynnwys plant a phobl ifanc. O ganlyniad, roedd eu safbwyntiau wedi dylanwadu ar gyfeiriad strategol yr awdurdod mewn agweddau penodol ar ei waith.

Adeg ein harolygiadau, canfuom fod pob un o'r pedwar awdurdod yn blaenoriaethu diogelu yn briodol, gan gynnwys trefnu a hwyluso hyfforddiant ac arweiniad gwerthfawr i ddarparwyr.

Roedd pob un o'r pedwar awdurdod wedi dangos arweinyddiaeth gadarn dros amser, gan arwain at hanes o welliant. Mae uwch arweinwyr ym mhob awdurdod yn gosod disgwyliadau uchel ac yn modelu ymddygiad proffesiynol rhagorol. Roedd swyddogion yn gweithio'n strategol i hybu cydweithio rhwng ysgolion ac maent wedi datblygu gallu arweinyddiaeth yn dda ar draws pob awdurdod. O ganlyniad, ar draws yr awdurdodau a arolygwyd gennym, mae arweinwyr wedi datblygu perthnasoedd proffesiynol cryf â staff mewn ysgolion.

Roedd gan bob un o'r pedwar awdurdod lleol brosesau addas i hunanwerthuso, monitro a sicrhau ansawdd eu darpariaeth. Fodd bynnag, fel yn 2022-2023, nid oedd cynlluniau gwella yn nodi meini prawf llwyddiant clir yn gyson ac nid oedd swyddogion yn ystyried effaith camau gweithredu ar wella darpariaeth a deilliannau i blant a phobl ifanc yn ddigon da bob tro. O ganlyniad, nid oedd swyddogion yn nodi meysydd i'w gwella ymhellach yn ddigon manwl. Er enghraifft, nid oedd awdurdodau yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar gyfer staff ac ysgolion yn ddigon da bob tro.

## Cynigion ad-drefnu ysgolion

Yn ystod 2023-2024, ymgynghorodd 15 awdurdod lleol ar gyfanswm o 27 o gynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Mewn ychydig iawn o achosion, cyflwynodd awdurdodau lleol ymgynghoriadau unigol a oedd yn cynnig newidiadau i fwy nag un darparwr. Yn aml, nid oedd y cynigion hyn yn rhoi digon o wybodaeth i ymgyngoreion am y newidiadau arfaethedig. At ei gilydd, daethom i'r casgliad bod llawer o gynigion yn debygol o alluogi awdurdodau lleol i gynnal neu wella darpariaeth addysg mewn ardal benodol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid oedd cynigion yn ystyried effaith newidiadau ar ddysgu disgyblion nac ansawdd yr addysgu yn ddigon manwl.

Roedd chwarter y cynigion yn gysylltiedig ag ad-drefnu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Nod y rhan fwyaf o'r ymgynghoriadau hyn oedd sefydlu darpariaeth arbenigol newydd mewn ysgol gynradd neu uwchradd. Er bod awdurdodau lleol yn aml yn darparu sail resymegol glir ar gyfer sefydlu'r ddarpariaeth, mewn llawer o achosion, nid oeddent yn rhoi ystyriaeth ddigon da i sut byddai'r ddarpariaeth arbenigol yn cael ei hintegreiddio i'r ysgol brif ffrwd a sut byddai lles disgyblion yn cael ei gefnogi.

Roedd bron i chwarter y cynigion yn ymgynghori ar newid cyfrwng iaith darparwr o'r Saesneg i'r Gymraeg i wella darpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Ym mron pob achos, roedd yr ymgynghoriadau hyn yn cynnig newid cyfrwng iaith dysgu sylfaen mewn ysgolion cynradd. Er bod pob un o'r cynigion yn ystyried sut gallai'r newidiadau hyn gefnogi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) awdurdodau lleol, nid oeddent yn ystyried effaith ehangach y newidiadau arfaethedig ar yr ysgol bob tro.

Roedd tua chwarter y cynigion yn ymgynghori ar gau ysgol. Mewn lleiafrif o'r achosion hyn, cynhwysodd yr awdurdod lleol fanylion am sut y byddai'n darparu ar gyfer disgyblion o'r ysgolion hyn, er enghraifft trwy gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgol gyfagos.

## Trosolwg argymhellion

Yn y flwyddyn academaidd 2023 – 2024, arolygodd Estyn bedwar Awdurdod Lleol.

Cafodd y pedwar argymhelliad i wella neu fireinio eu hunanarfarnu a'u cynllunio ar gyfer gwelliant, gyda ffocws i dri arnynt ar ddeilliannau dysgwyr.

Rhoddwyd argymhelliad i ddau wella presenoldeb yn ysgolion yr awdurdodau, ac un i gefnogi ysgolion i leihau cyfraddau gwaharddiadau.

# Addysg bellach

## Darparwyr

Mae 12 coleg yn darparu cyrsiau addysg bellach yng Nghymru. Mae gan lawer ohonynt safleoedd lluosog ar draws ardal ddaearyddol eang a sawl awdurdod lleol.

Mae'r mwyafrif ohonynt yn gweithredu dan strwythur grŵp, gan gynnal hunaniaethau coleg ar wahân ar gyfer safleoedd unigol neu glystyrau o safleoedd rhanbarthol. Mae ychydig o golegau'n gweithredu fel is-gwmnïau sy'n eiddo llwyr i sefydliadau addysg uwch.

Mae llawer o golegau hefyd yn cynnig rhaglenni dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned. Mae rhai ohonynt hefyd yn cyflwyno rhaglenni Cymraeg i oedolion a/neu ddarpariaeth yn y sector cyfiawnder. Caiff y ddarpariaeth hon ei harolygu dan y trefniadau arolygu perthnasol ar gyfer pob un o'r sectorau hyn. Gweler yr adroddiadau sector perthnasol am ragor o fanylion am y meysydd darpariaeth eraill hyn.

Mae colegau hefyd yn darparu cyrsiau addysg uwch, y mae eu hansawdd yn cael ei sicrhau gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, QAA.

## Dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach (SABau)

**105,785**

Pob dysgwr AB mewn SABau: 105,785 (99,930) +5.9%

**45,275**

Dysgwyr AB amser llawn: 45,275 (45,250) +0.1%

**60,510**

Dysgwyr AB rhan-amser: 60,510 (54,680) +10.7%

Dysgwyr mewn SABau sydd â chefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifol Ethnig: 10% (9.4%)

Dysgwyr mewn SABau y nodwyd bod ganddynt 'anabledd ac/neu anhawster dysgu': 13% (12.3%)

*(Data: 2022-2023, (2021-2022), newid %)*

## Gweithgarwch dilynol:

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw golegau addysg bellach mewn categori gweithgarwch dilynol.

### Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: 1

### Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos: 0

### Ymweliadau ymgysylltu

Nifer yr ymweliadau: 12

Cynhaliwyd yr arolygiad o Grŵp Llandrillo Menai ym mis Ebrill 2024 fel arolygiad peilot ar gyfer trefniadau arolygu newydd Arolygu ar gyfer y dyfodol (2024-2030). Caiff y colegau sy'n weddill eu harolygu gan y trefniadau newydd hyn yn y cylch arolygu newydd o fis Medi 2024 ymlaen.

Colegau ag astudiaethau achos: 0

**Enwau'r colegau ag astudiaethau achos:** Ddim yn berthnasol

Cynhaliwyd ymweliadau ymgysylltu arolygwyr cyswllt â phob coleg rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2024.

Ymwelwyd â phum coleg hefyd fel rhan o'r adolygiad thematig o Brentisiaethau Iau.

## Crynodeb

Lle mae addysgu a dysgu'n effeithiol, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da ac yn arddangos sgiliau pwnc neu alwedigaethol cryf. Mae gofal, cefnogaeth, arweiniad a lles yn cael eu cefnogi'n dda trwy amgylcheddau croesawgar a chynhwysol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gwelliannau a dysgu proffesiynol yn ymateb yn dda i anghenion sgiliau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

## Dysgu, addysgu a phrofiadau dysgu

Yn ystod ein hymweliadau ymgysylltu â cholegau addysg bellach (AB), canolbwyntiom ar ystod eu darpariaeth a deilliannau i ddysgwyr ar raglenni gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o golegau'n cyflwyno cymysgedd o ddarpariaeth academaidd a galwedigaethol, gyda'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn astudio rhaglenni galwedigaethol. Mae nifer a chyfran y dysgwyr sy'n astudio rhaglenni Safon UG a Safon Uwch wedi cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan adlewyrchu proffiliau'r graddau TGAU uwch a gyflawnwyd mewn ysgolion yn ystod cyfnod y pandemig, pan effeithiodd graddau a aseswyd gan athrawon neu raddau a bennwyd gan athrawon ar y rhain. Dywedodd y rhan fwyaf o golegau wrthym fod y cynnydd hwn mewn recriwtio yn dueddol o gael ei wrthbwyso, o leiaf yn rhannol, gan gyfraddau cadw is gan fod cyfran uwch o ddysgwyr nag arfer yn cael trafferth addasu i ofynion rhaglenni Safon UG/Safon Uwch.

Roedd patrymau recriwtio i raglenni galwedigaethol yn amrywio'n sylweddol rhwng meysydd galwedigaethol a rhwng colegau. Roedd athrawon a dysgwyr mewn pynciau ymarferol yn aml yn elwa ar amgylcheddau dysgu proffesiynol a realistig a oedd yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau perthnasol sy'n eu paratoi ar gyfer cyflogaeth. Roedd arweinwyr a staff colegau yn llawer mwy cadarnhaol am y cymwysterau a luniwyd i Gymru mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant, ac adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu nag yn ystod ymweliadau blaenorol, ac roedd colegau'n croesawu addasiadau diweddar i rai cymwysterau yn y sectorau hyn.

Ar draws y sector, roedd cyfran y dysgwyr a enillodd raddau uwch mewn darpariaeth raddedig, ar raglenni galwedigaethol a Safon Uwch, yn rhy isel. Roedd colegau'n cydnabod yr angen i wella cyfraddau cwblhau llwyddiannus ar raglenni sy'n tanberfformio. Yn ogystal, roedd datblygiad medrau Cymraeg yn gyfyngedig ac ychydig iawn o ddysgwyr a oedd yn cwblhau eu gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg.

Yn ystod arolygiad craidd Grŵp Llandrillo Menai, canfuom fod llawer o ddysgwyr yn dangos medrau pwnc neu alwedigaethol cryf. Roedd dysgwyr y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys dysgwyr ar raglenni sgiliau byw'n annibynnol, yn gwneud cynnydd cadarn o leiaf yn eu

dysgu. Mewn ychydig o sesiynau sgiliau byw'n annibynnol, nid oedd rhai gweithgareddau papur, fel torri a gludo, yn atgyfnerthu dysgu'n ystyrlon.

*Mae adroddiad arolygu Grŵp Llandrillo Menai yn cynnwys dau 'Sbotolau ar' addysgu a phrofiadau dysgu yn y coleg, gan gynnwys cyflwyno'n ddwyieithog ac addysgu hybrid. Mae'r 'Sbotolau ar gyflwyno dwyieithog' yn amlygu sut mae iaith y dysgu yn y sesiynau hyn yn newid yn ddi-dor rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r 'Sbotolau ar addysgu hybrid' yn amlinellu sut mae athrawon yn cynllunio ac yn cyflwyno'r sesiynau hyn yn fedrus i wneud yn siŵr fod pob dysgwr yn cyfrannu ac yn rhannu eu syniadau trwy weithgareddau cydweithredol.*

Yn ystod ein hymweliad adolygiad thematig â'r pum coleg sy'n cyflwyno rhaglenni prentisiaethau iau ar hyn o bryd, canfuom fod rhaglenni prentisiaeth iau wedi cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad, presenoldeb a dilyniant dysgwyr 14 i 16 oed.

## Gofal, cymorth ac arweiniad, lles ac agweddau at ddysgu

Yn ystod ein hymweliadau cyswllt â cholegau AB, canolbwyntiom ar eu gwaith yn ymwneud â mynd i'r afael â thlodi ac anfantais a rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a chod ADY (2021) ar waith.

Roedd colegau'n cynnig ystod eang o gymorth i'r dysgwyr hynny yr oedd tlodi, ADY neu rwystrau eraill rhag cynnydd a nodwyd yn effeithio arnynt. Roeddent yn defnyddio arian wrth gefn a oedd ar gael i golegau gan Lywodraeth Cymru yn effeithiol i helpu dysgwyr a allai fod yn wynebu caledi neu anawsterau ariannol. Mae dysgwyr hefyd yn gallu elwa ar Lwfans Cynhaliaeth Addysg neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru. Crybwyllwyd bod argaeledd trefniadau cludiant am ddim neu â chymhorthdal yn fater allweddol yn y rhan fwyaf o golegau, a mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar gyfranogiad yn yr ardaloedd hynny lle mae awdurdodau lleol yn bwriadu newid eu polisi teithio am ddim neu lle mae llwybrau bysiau neu amserlenni'n debygol o gael eu had-drefnu.

Gweithiodd colegau'n galed i ddarparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol i ddysgwyr. Er mwyn ymateb i ofynion y Ddeddf ADY, roedd colegau'n gwella eu darpariaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn parhau i hyfforddi a datblygu eu staff ac yn cryfhau partneriaethau ag ysgolion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae trefniadau pontio wedi gwella i lawer o ddisgyblion sy'n symud o'r ysgol i'r coleg. Mae pob coleg wedi sefydlu arlwy darpariaeth gyffredinol a darpariaeth ddysgu ychwanegol leol a defnyddiodd llawer o golegau hyn yn dda i egluro graddau a chyfyngiadau eu harlwy i awdurdodau lleol, ysgolion a rhieni/gofalwyr.

Roedd y trefniadau hyn yn fwyaf effeithiol pan wahoddwyd staff colegau i fynychu paneli ac adolygiadau pontio a phan rannwyd gwybodaeth allweddol am ddysgwyr â cholegau mewn modd cywir ac amserol. Lle nad oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu neu lle'r oedd oedi, roedd hyn yn rhwystro trefniadau pontio ac yn ei gwneud yn anoddach i nodi a rhoi trefniadau cymorth priodol ar waith. Er bod effaith gyffredinol y newidiadau yn gadarnhaol, mynegodd arweinwyr a staff colegau bryder ynghylch y llwyth gwaith gweinyddol uchel sy'n gysylltiedig â'r trefniadau ADY newydd, yn enwedig lle mae gwahaniaethau sylweddol yn y ddogfennaeth sydd ei hangen ar draws sawl awdurdod lleol. Mae colegau hefyd wedi dechrau rhoi addasiadau rhesymol ar waith i systemau a gweithdrefnau'r coleg, ond mae'n rhy gynnar i werthuso effeithiolrwydd cyffredinol y newidiadau hyn. Amlygodd ein hadolygiad thematig o weithwyr arweiniol ymgysylltu a dilyniant ieuenctid yr angen i gryfhau cydweithredu rhwng gweithwyr arweiniol a colegau AB i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) neu sydd mewn perygl o fod yn NEET.

Mae llawer o golegau'n cydnabod yr angen i wella effeithiolrwydd ac effaith gyffredinol rhaglenni tiwtorial ac roedd sawl coleg yn peilota defnyddio rolau arbenigol, fel anogwyr bugeiliol, i helpu sicrhau mwy o gysondeb o ran cyflwyno ac effaith. Roedd dulliau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn dod yn fwy cyffredin mewn colegau, gyda ffocws clir ar ddulliau adferol yn hytrach na dibynnu ar bolisïau a gweithdrefnau disgyblu myfyrwyr blaenorol.

Tynnodd arweinwyr a staff colegau sylw at yr heriau iechyd meddwl eang y mae llawer o ddysgwyr yn eu hwynebu, gan gynnwys pryder yn ymwneud ag arholiadau. Fe wnaethant hefyd nodi fod trefniadau mynediad ar gyfer arholiadau yn arbennig o heriol, yn logistaidd ac o ran adnoddau, gan gynnwys yr angen am lawer o ystafelloedd ychwanegol a goruchwylwyr arholiadau ychwanegol, yn enwedig ar gyfer ailsefyll arholiadau TGAU.

Mae colegau wedi sefydlu timau lles cryf dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mynegodd arweinwyr bryder ynghylch cynaliadwyedd posibl y trefniadau staffio presennol yn sgil newidiadau i gyllid, gan gynnwys cwtogi neu ddod â rhai mentrau penodol a ariennir gan brosiectau i ben.

Yn ystod arolygiad craidd Grŵp Llandrillo Menai, canfuom fod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau dod i'r coleg ac yn teimlo'n saff a diogel. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn hapus, yn llawn cymhelliant ac yn falch o'u cynnydd. Roedd trefniadau sefydledig o ran llais y dysgwyr, gan gynnwys arolygon dysgwyr a dulliau cynrychioli dysgwyr, yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr fynegi eu barn a'u safbwyntiau ar eu profiadau dysgu. Roedd arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu cryf a pherthynas waith dda rhwng timau addysgu, lles a diogelu ac asiantaethau allanol. Fodd bynnag, nodom fod angen mwy o gysondeb ac effeithiolrwydd o fewn ac ar draws colegau er mwyn sicrhau presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr ar draws campysau. Roedd hefyd angen gwella cysondeb y cyngor ac arweiniad i ddysgwyr sydd bron â chwblhau eu rhaglen ar eu camau nesaf.

*Mae adroddiad arolygu Grŵp Llandrillo Menai yn cynnwys dau 'Sbotolau ar' les, gofal, cymorth ac arweiniad yn y coleg. Mae un ohonynt yn amlygu gwerth rolau arbenigol nyrs y coleg ac ymarferydd iechyd meddwl. Mae'r llall yn amlinellu sut mae'r coleg wedi cryfhau ei berthynas â'i awdurdodau lleol partner ac ysgolion yn sylweddol i gefnogi pontio dysgwyr yn llwyddiannus i'r coleg.*

Yn ystod ein hymweliadau adolygiad thematig â'r pum coleg sy'n cyflwyno rhaglenni prentisiaeth iau ar hyn o bryd, canfuom fod dysgwyr ar y rhaglenni hyn yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan anogwyr dysgu, yn ogystal â staff addysgu ymroddedig yn fawr iawn. Fodd bynnag, roedd angen sicrhau bod cyfrifoldebau am drefniadau diogelu yn glir bob tro a bod asesiadau risg unigol yn cael eu cynnal ar gyfer pob disgybl ysgol sy'n mynychu darpariaeth bartneriaeth yn y coleg, gan gynnwys prentisiaid iau.

## Arweinyddiaeth

Yn ystod ein hymweliadau ymgysylltu cyswllt â cholegau AB, canolbwyntiom ar strategaeth y coleg, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Canfuom fod blaenoriaethau strategol wedi'u nodi'n glir ac yn cael eu defnyddio'n briodol i lywio cynllunio strategol a gweithredol. Roedd byrddau llywodraethu yn cynnig her a chymorth priodol i uwch arweinwyr, gan gynnwys helpu i lunio a phennu cyfeiriad strategol y coleg a goruchwylio perfformiad.

Crybwyllodd arweinwyr colegau eu bod yn cyfranogi'n weithredol mewn partneriaethau medrau rhanbarthol ac roedd hyn yn helpu i sicrhau ymatebolrwydd cyffredinol i anghenion medrau

cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mewn llawer o achosion, roedd datblygiadau colegau'n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Roedd patrymau recriwtio dysgwyr yn amrywio ar draws y sector, ynghyd â pherfformiad colegau unigol yn erbyn targedau cyflawni niferoedd dysgwyr, fel y'u pennir yn eu cytundebau dyrannu cyllid AB. Nododd llawer o golegau heriau penodol o ran recriwtio dysgwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a lletygarwch ac arlwyo.

Roedd trefniadau darpariaeth 14-16 cydweithredol yn arbennig o amrywiol a mynegodd sawl arweinydd coleg bryder ynghylch effaith bosibl cyflwyno cymwysterau Tystysgrif Alwedigaeth Addysg Uwchradd (TAAU) ar yr agwedd hon ar eu gwaith. At ei gilydd, nid yw cydweithio rhwng colegau, ysgolion ac awdurdodau lleol wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd a, heb gyfeiriad cenedlaethol neu weithredu lleol digonol, nid yw'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella darpariaeth 16-19 leol neu ddarpariaeth bartneriaeth ar gyfer disgyblion 14 i 16 oed, gan gynnwys prentisiaethau iau. Ni ellir targedu unrhyw feirniadaeth yn y maes hwn at ddarparwyr AB yn unig.

Yn y rhan fwyaf o golegau, fel rhan o weithgareddau hunanwerthuso, bu dychweliad graddol at ddefnyddio meincnodi mewnol ac allanol er mwyn ymateb i ddatblygiadau cenedlaethol wrth gyhoeddi data mesurau cyson yn ymwneud â deilliannau dysgwyr a dychwelyd i drefniadau asesu arferol ar ôl y pandemig. Nododd arweinwyr colegau fod diffyg data cymharol sector-benodol ar gyfer colegau AB fel is-set mewn mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 yn cyfyngu ar y cwmpas ar gyfer meincnodi effeithiol.

Roedd problemau â chywirdeb a dibynadwyedd dulliau colegau o fewnbynnu a gwerthuso data gwerth ychwanegol hefyd yn cyfyngu ar allu colegau i werthuso'n gadarn y pellter a deithiwyd gan ddysgwyr unigol.

Roedd y rhan fwyaf o staff colegau'n elwa ar ystod eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol, gydag amser wedi'i ddynodi ar gyfer hyn mewn calendrau colegau. Nododd arweinwyr colegau fod anawsterau o ran recriwtio staff ac absenoldebau salwch yn peri pryder, er enghraifft mewn rolau â chyflog is, fel cynorthwywyr cymorth dysgu a goruchwylwyr arholiadau. Roedd recriwtio staff Cymraeg eu hiaith yn her i golegau o hyd.

*Mae adroddiad arolygu Grŵp Llandrillo Menai yn cynnwys tri 'Sbotolau ar' arwain a gwella. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ymgynghori â staff a dysgwyr, datblygiad proffesiynol arbenigol a chyfraniad y coleg at ffermio cynaliadwy a datblygiadau cynhyrchu bwyd lleol.*

Eleni, roedd trosiant anarferol o uchel yn nifer yr uwch ddeiliaid swyddi, gan gynnwys pedwar o'r deuddeg rôl prif swyddog gweithredol yn y sector yn ymddeol. Crybwyllodd llawer o golegau hefyd fod y sefyllfa ariannol gyffredinol yn tynhau ar draws y sector yn ffactor allweddol a oedd yn dylanwadu ar ymarferion diswyddo gwirfoddol diweddar mewn addysg bellach.

Yn ystod arolygiad craidd Grŵp Llandrillo Menai, canfuom fod uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn defnyddio gwybodaeth yn dda fel rhan o drefniadau hunanwerthuso a monitro. Fodd bynnag, nid oedd gwerthuso addysgu, asesu a safon gwaith dysgwyr yn cael eu hystyried yn ddigon da i lywio cynllunio gwelliant a chefnogi rhannu arfer dda.

## Trosolwg argymhellion

Roedd argymhellion o arolygiad Grŵp Llandrillo Menai yn cynnwys cryfhau effaith addysgu ar

ansawdd y dysgu, gwella cyrhaeddiad graddau uchel a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â phrydlondeb a phresenoldeb yn gyson.

Roedd argymhellion yr adolygiad thematig o'r rhaglen prentisiaethau iau yn cynnwys sicrhau bod trefniadau diogelu ar gyfer dysgwyr prentisiaethau iau yn glir ac yn gadarn, a darparu diweddariadau rheolaidd am unrhyw drefniadau amserlennu sy'n effeithio ar ddysgwyr unigol. Gwnaeth yr adroddiad gyfres o argymhellion hefyd ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Gwnaethom argymhelliad hefyd yn ein hadroddiad Adolygiad o Weithwyr Arweiniol Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid, a oedd yn canolbwyntio ar wella cymorth pontio i gyrchfannau ôl-16 ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Estyn



# Dysgu yn y gwaith: prentisiaethau

## Cyflwyniad

Dechreuodd contract presennol Llywodraeth Cymru i ddarparu rhaglenni prentisiaeth ym mis Awst 2021.

Mae 10 o ddarparwyr yn gontractwyr sydd wedi'u comisiynu i ddarparu prentisiaethau.

Caiff chwech o'r contractau eu cyflwyno gan golegau addysg bellach a phedwar ohonynt gan ddarparwyr hyfforddiant annibynnol. Mae'r 10 darparwr hyn yn cydweithio ag ystod o ddarparwyr hyfforddiant eraill gan ddefnyddio trefniadau partneriaeth ac is-gontractio i gyflwyno hyfforddiant ar gyfer rhaglenni ar lefel prentisiaeth sylfaen, prentisiaeth a phrentisiaeth uwch.

Ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu, mae deilliannau wedi gwella, er eu bod yn isel o hyd mewn iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal, a lletygarwch ac arlwyo.

O'r pedwar arolygiad a gynhaliwyd, roedd angen gweithgarwch dilynol ar un darparwr â meysydd i'w gwella sy'n peri pryder.

## Dysgwyr

**46,610**

Nifer y dysgwyr prentisiaeth yn 2022-2023

**17,480**

Nifer y dysgwyr prentisiaeth sylfaen yn 2022-2023

**20,070**

Nifer y dysgwyr prentisiaeth lefel 3 yn 2022-2023

**9,060**

Nifer y dysgwyr prentisiaeth uwch yn 2022-2023

## Darpariaeth

Mae prentisiaid yn cael eu cyflogi ac yn gweithio mewn ystod eang o alwedigaethau.

Mae prentisiaethau ar gael ar lefel 2 (prentisiaeth sylfaen), lefel 3 (prentisiaeth) a lefel 4 a 5 (prentisiaeth uwch).

Mae dysgwyr sy'n ymgymryd â phrentisiaethau yn aelodau amser llawn o staff eu cyflogwr. Yn gyffredinol, mae'n cymryd dwy i dair blynedd i gwblhau rhaglenni prentisiaeth.

Mae prentisiaid yn dechrau eu hyfforddiant ar lefelau gwahanol yn amodol ar rôl y swydd, eu profiad blaenorol ac anghenion cyflogwyr. Yn ogystal â datblygu eu medrau sy'n gysylltiedig â'r swydd yn y gweithle, mae prentisiaid yn gweithio tuag at gyflawni cyfres o gymwysterau cydnabyddedig fel rhan o'u fframweithiau prentisiaeth.

### Arolygiadau

Cynhaliwyd 4 arolygiad craidd yn ystod 2023-2024 : **4**

### Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos: **5**

### Gweithgarwch dilynol

Darparwr mewn categori gweithgarwch dilynol : **1**

Prentisiaethau Coleg Caerdydd a'r Fro
Coleg Gŵyr Abertawe
ITEC Training
Hyfforddiant Cambrian

## Crynodeb

Bu i rhan fwyaf o ddysgwyr ddatblygu ystod eang o sgiliau ymarferol a theori yn gyflym o ganlyniad i'w profiadau yn y gweithle ac addysgu, hyfforddiant ac asesu cefnogol. Mae darparwyr yn gwella eu gweithdrefnau yn barhaus i sicrhau bod anghenion lles dysgwyr yn cael eu nodi a'u diwallu'n gyflym. Yn gyffredinol, ddaru arweinwyr flaenoriaethu'n dda a gweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth o bartneriaid.

## Dysgu, addysgu a phrofiadau dysgu

Gwnaeth llawer o ddysgwyr gynnydd cadarn, o leiaf, o ran datblygu ystod eang o wybodaeth theori a oedd yn helpu i gefnogi eu rolau gwaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, datblygodd dysgwyr ystod gynhwysfawr o fedrau ymarferol yr oeddent yn eu cymhwyso i'w rolau gwaith yn dda. Roedd dysgwyr ar brentisiaethau lefel uwch yn aml yn cysylltu prosiectau ac aseiniadau â'u gweithleoedd, a oedd yn datblygu eu gwybodaeth lefel uwch a'u medrau meddwl ac yn arwain at arferion a gweithdrefnau newydd ar gyfer eu cyflogwyr. Daeth dysgwyr ar bob lefel yn aelodau gwerthfawr o staff eu cyflogwyr yn gyflym, gan gyfrannu'n dda at ystod eang o weithgareddau a thasgau. O ganlyniad i'w prentisiaethau, roedd dysgwyr ar bob lefel yn datblygu eu medrau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig yn dda. Yn yr achosion gorau, roedd dysgwyr yn defnyddio'r medrau hyn wrth ryngweithio â'u rheolwyr a'u cyfoedion ac wrth siarad â chwsmeriaid a chleientiaid. Fodd bynnag, yn ein hadolygiad thematig o gyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth, nodwyd fod addysgu a dysgu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn prentisiaethau wedi'u gogwyddo'n ormodol tuag at baratoi ar gyfer asesiadau allanol.

Ym mwyafrif yr achosion, roedd gan athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr. Roedd yr aelodau staff hyn yn rhoi lefelau uchel o gymorth personol, gan annog ac ysgogi dysgwyr i gyflawni safonau uwch o waith ymarferol a theori. Roedd aseswyr yn ymweld â dysgwyr ac yn monitro eu cynnydd yn rheolaidd, gan ddiweddaru cofnodion olrhain a rhoi adborth buddiol ar waith ysgrifenedig. Yn yr achosion gorau, roedd aseswyr yn trafod targedau priodol o heriol â dysgwyr ar gyfer cwblhau gwaith ysgrifenedig. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod y cynnydd roeddent

yn ei wneud a'r hyn roedd angen iddynt ei wneud i gwblhau eu prentisiaethau. Datblygodd pob un o'r pedwar darparwr a arolygwyd ystod gynhwysfawr o adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi dysgwyr.

Ym mhob un o'r pedwar darparwr, roedd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn defnyddio technegau holi yn arbennig o dda. Roeddent yn defnyddio cwestiynau'n effeithiol i wirio gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr ac i brocio ac ymestyn dealltwriaeth a meddwl lefel uwch.

Roedd pob un o'r darparwyr wedi gwneud cynnydd o ran datblygu ystod fuddiol o adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog. Roedd pob darparwr wedi cynyddu gallu eu staff i gyflwyno ac asesu rhaglenni'n ddwyieithog. Roedd dysgwyr a oedd â gallu yn y Gymraeg yn sgwrsio'n hyderus yn Gymraeg gydag aseswyr Cymraeg eu hiaith. Fodd bynnag, roedd nifer y dysgwyr a oedd yn dewis gwneud gwaith ysgrifenedig neu asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod yn isel o hyd.

Ar draws y rhwydwaith, roedd ychydig o ddysgwyr yn aros ar y rhaglen y tu hwnt i ddyddiadau gorffen disgwyliedig eu prentisiaeth, gyda nifer o ddysgwyr ymhell y tu hwnt i'w dyddiadau disgwyliedig. Yn gyffredinol, mae'r dysgwyr hyn yn y sectorau iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal, a lletygarwch ac arlwyo. Er eu bod yn gwella, y sectorau hyn yw'r rhai arafaf i wella'n llwyr ar ôl pandemig COVID-19, yn gyffredinol. Erbyn hyn, mae cymwysterau newydd yn y sectorau iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal wedi ymwreiddio, ond mae pwysau ar y gweithlu yn y sector yn peri pryder o hyd. Mater allweddol a nodwyd yn ein harolygiadau oedd y diffyg amser y mae cyflogwyr, yn enwedig yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ei roi i ddysgwyr i wneud gwaith ysgrifenedig neu ddysgu i ffwrdd o'r gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad ac agweddau at ddysgu

Ar draws y sector, roedd gan ddarparwyr a'u hisgontractwyr ystod gynhwysfawr o weithdrefnau a phrotocolau gofal, cymorth ac arweiniad. Roedd y gefnogaeth a oedd ar gael i ddysgwyr yn eang ac roedd lles dysgwyr yn ffocws cyson. Fel eu man cyswllt cyntaf, roedd dysgwyr yn meithrin lefelau cryf o ymddiriedaeth â'u haseswyr. Ar draws y pedwar darparwr, roedd aseswyr yn ymweld yn rheolaidd â dysgwyr a oedd mewn perygl o adael eu prentisiaeth neu y tu ôl i ble y dylent fod arni gyda'r gwaith. O ganlyniad, roedd llawer o'r dysgwyr hyn yn aros mewn hyfforddiant ac yn cwblhau eu rhaglenni yn y pen draw.

Roedd gan bob un o'r pedwar darparwr ystod o wasanaethau cymorth ar gael i ddysgwyr. Roedd y rhain yn briodol i faint a natur y darparwr, yn gyffredinol, ac roedd gan ddarparwyr arweiniol addysg bellach ystod eang o wasanaethau cymorth mewnol ar gael. Roedd pob un o'r darparwyr yn defnyddio'r arbenigedd a oedd ar gael yn briodol i gefnogi dysgwyr pan nodwyd angen. Roedd y cymorth hwn yn aml ar gyfer materion personol, emosiynol neu les. Pan nodwyd angen am gymorth arbenigol, byddai darparwyr yn aml yn sicrhau cymorth gan asiantaethau allanol i roi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ddysgwyr.

Roedd y pedwar darparwr wedi cryfhau eu gweithdrefnau ymhellach i nodi a chefnogi anghenion unigol dysgwyr. Roedd y darparwyr hyn wedi rhoi ffocws clir ar wella'r cymorth sydd ar gael i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Roeddent wedi codi ymwybyddiaeth staff, meithrin cysylltiadau ag asiantaethau cymorth arbenigol ac wedi manteisio ar adnoddau a deunyddiau addysgu a dysgu arbenigol. Mewn tri o'r darparwyr, fe wnaethant gyflogi cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol arbenigol er mwyn helpu i wneud yn siŵr fod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni. Mewn tri darparwr, roedd cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'i gryfhau'n sylweddol a'r canlyniad oedd bod anghenion unigol yn cael eu bodloni ynghynt ac yn fwy effeithiol. At

ei gilydd, ar draws y rhwydwaith, mae'r ymwybyddiaeth gryfach hon wedi arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr ag anghenion dysgwyr ychwanegol a nodwyd ac a gefnogwyd. Er y cyflwynwyd radicaleiddio ac eithafiaeth trwy sesiynau ymsefydlu ac yn gyfnodol trwy'r rhaglenni prentisiaeth, nid oedd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn cynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau'n rheolaidd i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r elfennau hyn yn ddigon da.

Roedd gan bob un o'r pedwar darparwr drefniadau a hyfforddiant staff priodol i ddiogelu dysgwyr. At ei gilydd, roedd gan ddysgwyr ddealltwriaeth briodol o ddiogelu ac roeddent yn gwybod am y gweithdrefnau hysbysu, pe byddai'r angen yn codi. Nid oedd datblygu gwybodaeth dysgwyr am radicaleiddio ac eithafiaeth yn cael ei wneud yn ddigon trylwyr bob tro. O ganlyniad, nid oedd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr bob amser yn cynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau a oedd yn datblygu eu dealltwriaeth yn ddigon da.

## Arwain a gwella

Yn ogystal â'r her o wella deilliannau dysgwyr mewn iechyd a gofal cymdeithasol a lletygarwch ac arlwyo, roedd darparwyr yn wynebu'r her ychwanegol o doriad cyllid. Mae'r toriad ar draws y sector yn golygu gostyngiad yn nifer y prentisiaid sy'n mynd i gyflogaeth a hyfforddiant.

Yn y pedwar darparwr a arolygwyd, roedd arweinwyr yn cyflwyno rhaglenni prentisiaeth mewn partneriaeth ag isgontractwyr a chyflogwyr lleol hirsefydlog. Roedd cynllunio strategol yn ystyried blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ofalus. Ym mhob un o'r darparwyr, roedd cyfathrebu rheolaidd rhwng rheolwyr a staff ar bob lefel. Yn y pedwar darparwr, roedd arweinwyr yn rhannu ystod gynhwysfawr o wybodaeth â'u hisgontractwyr am gyflwyno eu contractau prentisiaeth, er enghraifft ar ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru, data cynnydd a deilliannau dysgwyr a diogelu.

Roedd gan bob darparwr drefniadau cadarn i hunanwerthuso ansawdd eu darpariaeth. Roedd dogfennau gwella ansawdd darparwyr yn aml yn nodi targedau defnyddiol ar gyfer gwella mewn meysydd allweddol, ond nid oedd y cynlluniau gwella'n ddigon clir a manwl bob tro i gefnogi monitro neu fesur effaith. Ar draws y darparwyr a'u harolygwyd nid oedd hunanwerthuso bob amser wedi'i gysylltu'n ddigon da â phrosesau gwella ansawdd gyda chamau clir ar gyfer gwella. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â gwella canlyniadau dysgwyr. Her sy'n dod i'r amlwg i ddarparwyr yw sicrhau bod cyflogwyr yn cefnogi eu dysgwyr yn llawn ym mhob agwedd ar eu prentisiaethau. Yn y sefyllfaoedd hyn, nid oedd cyflogwyr yn rhoi'r amser angenrheidiol i ffwrdd o'r gweithle i'r dysgwyr fynychu sesiynau hyfforddi neu gwblhau asesiadau ysgrifenedig. Roedd gan bob un o'r pedwar darparwr weithgareddau dysgu proffesiynol buddiol ar gael i staff ac, yn yr achosion gorau, roedd y rhain yn cael eu rhannu ag isgontractwyr.

## Trosolwg argymhellion

Ym mhob un o'r pedwar arolygiad a gynhaliwyd, derbyniodd pob darparwr argymhelliad i wella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu prentisiaethau. Cafodd pob darparwr hefyd argymhelliad i wella ansawdd addysgu a dysgu. Roedd hyn yn cynnwys gwella sut maeny yn gosod a chynllunio targedau, sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr, ac arferion athrawon ac aseswyr.

Derbyniodd pob darparwr argymhellion i wella hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Cafodd dau ddarparwr argymhelliad i sicrhau bod pob cyflogwr yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau i gefnogi hyfforddiant eu prentisiaid yn llawn.

## Astudiaethau achos

### Prentisiaethau Coleg Caerdydd a’r Fro

#### Disgrifiad o natur y strategaeth neu’r gweithgaredd

#### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae timau cymorth Prentisiaethau Coleg Caerdydd a’r Fro yn cynnig ystod eang o wasanaethau i ddysgwyr. Mae trefniadau cryf ar waith i nodi anghenion cymorth dysgwyr a monitro cymorth yn briodol er mwyn datblygu dysgwyr a chefnogi eu cynnydd. Dyfeisiwyd prosesau clir ar gyfer prentisiaid a oedd â chynllun datblygu unigol, y rhai a mynegodd fod ganddynt angen dysgu ychwanegol ar ddechrau eu rhaglen a’r rhai yr oedd staff yn amau bod ganddynt ADY.

#### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae Prentisiaethau Coleg Caerdydd a’r Fro yn gweithio mewn rhanbarth sydd â’r dirwedd fwyaf amrywiol yng Nghymru o ran ffyniant economaidd ac amrywiaeth y cymunedau oddi mewn iddo. Mae’r coleg yn cydnabod yr her allweddol i fynd i’r afael â thlodi ar draws y rhanbarth a chefnogi cymunedau ffyniannus. Mae’n creu ei ymagwedd o gwmpas themâu craidd strategol, sy’n cynnwys cyflwyno prentisiaethau mewn modd ymatebol ac effeithiol, manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â phrentisiaethau, cynyddu ymgysylltiad y tu hwnt i lefel 2 ac ymrwymiad i feysydd sector sydd â blaenoriaeth. Er mwyn cyflawni’r nodau hyn, sicrhaodd fod darpariaeth yn cael ei chynllunio ar lefel strategol, ar y cyd ag ystod eang o randdeiliaid.

### Coleg Gŵyr Abertawe

#### Byrddau cyflogwyr

Yn 2017, creodd Coleg Gŵyr Abertawe strategaeth i wella cydweithio â chyflogwyr. Er mwyn aros ar y blaen o ran anghenion medrau sy’n esblygu’n gyson a sicrhau bod gofynion cyflogwyr yn cael eu deall, creodd y coleg wyth o fyrddau cyflogwyr gan arwain at gyd-greu darpariaeth.

#### Cefnogaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

Adolygodd a gwellodd Coleg Gŵyr Abertawe ei ymagwedd at nodi a chefnogi prentisiaid ag anableddau a’r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan hyrwyddo’r cymorth helaeth sydd ar gael i ddysgwyr ag anableddau, namau synhwyraidd, anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chyflyrau iechyd sy’n cyfyngu ar waith/bywyd. Mae llawer o unigolion wedi wynebu heriau dysgu a gwaith heb ddiagnosis ffurfiol na chymorth nes iddynt ddechrau eu prentisiaethau.

### Hyfforddiant Cambrian

#### Ymgysylltiad a dylanwad diwydiant

Mae uwch arweinwyr yn arbennig o weithgar yn y sectorau bwyd, diod a lletygarwch. Maent yn mynychu cyfarfodydd grŵp cynrychiolwyr cyflogwyr ac mae ganddynt berthynas hirsefydlog ag ystod eang o gyflogwyr ledled Cymru. Maent yn cydweithio â chyflogwyr a chyrff cynrychioliadol i fynd i’r afael â bylchau medrau ac anghenion hyfforddiant. O ganlyniad, mae’r darparwr yn datblygu ei ddarpariaeth i fodloni’r anghenion medrau hyn ar gyfer y sector bwyd, diod a lletygarwch ledled Cymru.

# Gwaith ieuenctid

### Darparwyr GI

Cynhaliom beilot o’n trefniadau newydd mewn dau ddarparwyr, sef un darparwr cenedlaethol yn y sector gwirfoddol ac un darparwr awdurdod lleol.

### Nifer y bobl ifanc

Roedd **81,293** o aelodau cofrestredig o ddarpariaeth y sector gwaith ieuenctid statudol yn **2023-2024.** Fodd bynnag, mae miloedd yn fwy o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy’n cael eu cynnal gan y sector gwirfoddol.

### Darpariaeth

Caiff gwaith ieuenctid ei gyflwyno mewn ystod eang o leoliadau a mannau ledled Cymru, wedi’i lywio gan anghenion a diddordebau pobl ifanc a medrau gweithwyr ieuenctid. Mae Estyn yn arolygu gwaith ieuenctid sy’n digwydd mewn lleoliadau a ariennir yn gyhoeddus sy’n cael eu cynnal gan y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol.

### Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: Cynhaliwyd 2 arolygiad craidd peilot yn ystod 2023-2024.

Un awdurdod lleol:

Adroddiad arolygu Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg 2024 (llyw.cymru)

Un corff gwirfoddol cenedlaethol:

Adroddiad arolygu Clybiau Bechgyn a Merched Cymru 2024 (llyw.cymru)

### Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos: 0

### Gweithgarwch dilynol

Nid oes unrhyw un mewn categori gweithgarwch dilynol.

## Crynodeb

Mae darparwyr gwaith ieuenctid yn cynnig cymorth addysgol a bugeiliol i ystod eang o bobl ifanc. Mae darpariaeth yn amrywio’n fawr, o sesiynau targedig mewn addysg ffurfiol i glybiau ieuenctid

cymunedol ac o waith ar y stryd lle mae pobl ifanc yn ymgynnull i gymryd rhan mewn chwaraeon i glybiau wedi'u seilio ar weithgareddau. Y llinyn cyffredin yw bod yr holl weithgareddau hyn yn canolbwyntio ar bobl ifanc ac mae anghenion a safbwyntiau pobl ifanc wrth wraidd arlwy a chynlluniau'r ddarpariaeth.

## Darpariaeth a dysgu

Yn y sesiynau yr ymwelwyd â nhw, roedd gweithwyr ieuenctid yn helpu ac yn arwain pobl ifanc mewn sesiynau targedig ac agored i ddod yn fwy gwydn ac ennill y medrau, y wybodaeth a'r agweddau i gefnogi eu datblygiad personol ac addysgol eu hunain. Roedd pobl ifanc yn cyfrannu'n gadarnhaol at weithgareddau ac yn elwa ar gyfleoedd amrywiol, fel crefftau a gweithgareddau chwaraeon, i ddatblygu eu potensial personol a chreadigol wrth ddysgu i fynegi eu hunain.

### Prosiect menig yn y gampfa

**'Nid yw dim ond i'r bechgyn, sy'n dda'**

Mae Menig yn y Gampfa yn brosiect sy'n seiliedig ar weithgareddau corfforol gyda'r nod o gynyddu iechyd a lles drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon cadarnhaol, herio ymddygiadau negyddol, magu hyder a hunan-barch ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o fod yn aelod gweithredol o'u cymuned. Mae'r prosiect yn cynnal 7 sesiwn bwrpasol yr wythnos ar draws gwahanol ysgolion a lleoliadau cymunedol ym Mro Morgannwg. Mae'r tîm o staff yn cyflwyno sesiynau seiliedig ar atgyfeirio mewn ysgolion prif ffrwd, trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, i'r Ganolfan Adnoddau yn Whitmore ar gyfer pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, a Chlwb Lles ar ôl Ysgol a sesiynau mynediad agored yn y gymuned ar gyfer amser hamdden cadarnhaol gyda'r nos. Yn ogystal â hyn, mae'r prosiect Menig yn y Gampfa yn darparu gweithgareddau ym mhob digwyddiad cymunedol a gynhelir gan Wasanaeth Ieuenctid y Fro, ynghyd â chynnig cymorth wedi'i dargedu o fewn y gyfarwyddiaeth addysg p'un ai mewn sesiynau un-i-un neu sesiynau grŵp.

Roedd llawer o bobl ifanc yn dysgu am bwysigrwydd cyfranogiad cadarnhaol mewn cymdeithas. Trwy weithgareddau gwleidyddol gwerthfawr, fel fforymau ieuenctid, roeddent yn datblygu'n ddinasyddion gweithgar a chydwybodol. Er enghraifft, roedd y prosiect 'Coda dy Lais' yn cefnogi pobl ifanc ar y cyrion yn dda i fagu hyder a chyd-ddatblygu gwefan gyda gwybodaeth am sut gall pobl ifanc gymryd rhan mewn prosesau democrataidd.

Ar draws y darparwyr a arolygwyd, roedd pobl ifanc yn gwella eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cyd-barch a goddefgarwch ac yn datblygu'r medrau cymdeithasol i ryngweithio'n llwyddiannus â phobl eraill.

## New Dragons

Mae clwb iaith a lleferydd New Dragons yn cynnig amgylchedd diogel a phriodol i bobl ifanc ag amrywiaeth eang o anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu, anhwylder y sbectrwm awtistig neu anghenion dysgu ychwanegol eraill. Unwaith yr wythnos, mae pobl ifanc yn manteisio ar amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n ofalus ac sy'n briodol o ysgogol, gan gynnwys amrywiaeth o gelf a chrefft mynegiannol a chyfleoedd gemau. Mae pobl ifanc yn rhyngweithio'n gymdeithasol ac yn dysgu mewn ffordd a allai fod yn heriol iddynt rywle arall. O ganlyniad, maent yn datblygu'u medrau cyfathrebu a'u hyder cymdeithasol yn ogystal â gwneud ffrindiau.

Mewn nifer o brosiectau targedig yr ymwelwyd â nhw, daeth llawer o bobl ifanc yn fwy hyderus wrth fynegi eu safbwyntiau a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dewisiadau personol eu hunain. Ym mhrosiect Ei Llais Cymru, datblygodd menywod ifanc yn hyrwyddwyr cydraddoldeb ac yn eiriolwyr dros ferched yn eu cymuned. Datblygodd y prosiect arweiniad ac adnoddau defnyddiol i hybu ymwybyddiaeth menywod ifanc o faterion a allai effeithio ar eu diogelwch a'u lles.

Roedd gweithwyr ieuenctid yn y ddau ddarparwr yn ymroddedig ac yn frwdfrydig ac yn cynnig cymorth gwerthfawr i ddemograffig eang o bobl ifanc, gan gynnwys rhai bregus a'r rhai yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt. Roedd staff yn cynnwys pobl ifanc yn dda mewn gweithgareddau a oedd yn fuddiol i'w datblygiad personol ac addysgol a'u lles. Roedd hyn yn helpu'r bobl ifanc i ddatblygu'r medrau rhyngbersonol a oedd yn eu galluogi i fwynhau ac elwa ar ryngweithio â chyfoedion ac oedolion. Roedd ansawdd ac ystod y ddarpariaeth yn dda yn y ddau ddarparwr. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd y gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig ac nid oedd gan staff Cymraeg eu hiaith yr hyder na chyfeiriad strategol gan arweinwyr a rheolwyr o ran y ffordd orau i ddefnyddio eu medrau Cymraeg â phobl ifanc.

## Mae pawb yn caru'r bws

Y V-Pod yw darpariaeth symudol Bro Morgannwg, ac mae'n brofiad cadarnhaol a difyr ar gyfer pobl ifanc sy'n galluogi gweithwyr ieuenctid i addasu eu hymagwedd ar sail anghenion a diddordebau uniongyrchol y gymuned y maent yn ymweld â hi. Mae'r bws yn helpu cynnal proffil y gwasanaeth ieuenctid ar draws yr awdurdod lleol. Mae staff yn fedrus o ran nodi a thrafod y lleoliadau gorau i barcio ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r gofod ar y bws. Mae'r bws yn cario amrywiaeth o offer, gan gynnwys gasebos ar gyfer digwyddiadau dros dro, offer chwaraeon, celf a cherddoriaeth. Mae'r ddarpariaeth yn cynnig hyblygrwydd i gyrraedd pobl ifanc nad ydynt efallai'n cael cyfle i fynychu clwb neu wasanaeth ieuenctid oherwydd rhwystrau daearyddol, cymdeithasol, neu economaidd. Mae'r uned symudol yn sicrhau cynwysoldeb ac yn galluogi pobl ifanc sydd wedi'u hynysu i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Er enghraifft, caiff un person ifanc sy'n derbyn gofal lliniarol ei galluogi i fynychu sesiynau gyda chymorth ei gofalwr a'r gweithwyr ieuenctid, sy'n mynd i'r afael â'r rhwystr rhag cyfranogi.

## Arwain a gwella

Roedd arweinwyr a rheolwyr yn y ddau ddarparwr yn sicrhau bod pobl ifanc wrth wraidd eu cynllunio strategol. Roedd ganddynt weledigaeth glir ar gyfer sut i gefnogi pobl ifanc i ddod yn aelodau gweithgar o gymdeithas a allai gyfranogi’n adeiladol yn eu cymunedau. At ei gilydd, roedd arweinwyr yn darparu datblygiad proffesiynol parhaus gwerthfawr a pherthnasol i weithwyr a oedd, yn ei dro, yn helpu i ddenu a chadw gweithlu â chymwysterau proffesiynol. Fodd bynnag, mewn un darparwr, nid oedd gwybodaeth am ansawdd darpariaeth uniongyrchol ac anghenion datblygu staff yn cael ei chasglu’n ddigon systematig i lywio blaenoriaethau, hyfforddiant a chymorth.

## Gweithgarwch dilynol

Nid oedd angen gweithgarwch dilynol ar unrhyw ddarparwyr.

## Trosolwg argymhellion

- Cafodd y ddau ddarparwr argymhellion yn ymwneud â’r angen i ddatblygu darpariaeth gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn strategol.
- Cafodd un darparwr argymhellion i sicrhau defnydd mwy systematig o wybodaeth rhwng y darparwr canolog a chlybiau cysylltiedig i gefnogi materion sy’n codi ac anghenion hyfforddiant yn well.

# Dysgu Oedolion yn y Gymuned

## Partneriaethau

Caiff dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) ei ddarparu gan 13 o bartneriaethau anstatudol ac Addysg Oedolion Cymru.

Mae aelodaeth pob partneriaeth yn amrywio o un ardal i'r llall, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys darpariaeth sy'n cael ei chynnig gan yr awdurdod lleol, colegau addysg bellach, gan gynnwys Addysg Oedolion Cymru, a sefydliadau gwirfoddol neu gymunedol.

Fel arfer, mae dysgu oedolion yn y gymuned yn digwydd mewn lleoliadau fel llyfrgelloedd, canolfannau dysgu cymunedol neu ysgolion. Er bod y rhan fwyaf o gyrsiau'n cael eu cyflwyno wyneb-yn-wyneb, mae bron pob partneriaeth yn cyflwyno rhywfaint o'u darpariaeth ar-lein neu mewn ffordd gyfunol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu partneriaethau drwy'r Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned i gyflwyno cyrsiau mewn llythrennedd, rhifedd, medrau digidol, Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) a chyrsiau eraill sy'n helpu dysgwyr i gymhwyso a datblygu'r medrau hyn.

Mae partneriaethau wedi cyfrannu'n gryf at gynigion eu hawdurdodau lleol a cholegau addysg bellach ar gyfer y fenter rhifedd oedolion a ariennir gan lywodraeth y DU, sef Lluosi. Bwriad y cyllid hwn yw datblygu ystod o ddarpariaeth newydd i ennyn diddordeb dysgwyr a datblygu medrau rhifedd.

## Dysgwyr mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned

Mae data diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos, yn 2022-2023, bod nifer yr oedolion unigryw sy'n dysgu a oedd yn ymgysylltu â'r ddarpariaeth hon wedi cynyddu 53% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, i 16,005. Mae'r cynnydd a welwyd ers y pwynt isel yn 2020-2021 wedi gwrthdroi yn rhannol duedd tymor hwy o ostwng. Gallai'r niferoedd is yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf fod oherwydd pandemig y coronafeirws.

## Gweithgarwch dilynol

Yn ystod 2023-2024, roedd un bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned wedi gwneud cynnydd digonol fel nad oedd angen gweithgarwch dilynol gan Estyn mwyach. Roedd angen gweithgarwch dilynol ar ddwy bartneriaeth a arolygwyd yn ystod 2023-2024.

### Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: 6

### Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos: 4

### Ymweliadau Ymgysylltu

Sir Gaerfyrddin

Gwent Fwyaf

Ceredigion

Rhondda Cynon Taf

Castell-nedd Port Talbot a Phowys

Conwy a Sir Ddinbych

Wedi'u cyhoeddi ar y wefan: 2

**Darparwyr ag astudiaethau achos:**

Sir Gaerfyrddin

Gwent Fwyaf

Rhondda Cynon Taf

Conwy a Sir Ddinbych

Cynhaliodd arolygwyr cyswllt saith o ymweliadau wyneb-yn-wyneb neu ar-lein â'r partneriaethau hynny na chawsant eu harolygu yn ystod y flwyddyn.

At ddibenion ein gweithgarwch arolygu, rydym yn cydnabod y 13 partneriaeth ganlynol a'r sefydliad addysg bellach dynodedig ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, sef Addysg Oedolion Cymru:

| Partneriaeth | Awdurdod lleol |
|---|---|
| Addysg Oedolion Cymru | Ddim yn berthnasol |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Caerdydd a'r Fro | Caerdydd |
| Caerdydd a'r Fro | Bro Morgannwg |
| Sir Gaerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| Ceredigion | Ceredigion |
| Conwy a Sir Ddinbych | Conwy |
| Conwy a Sir Ddinbych | Sir Ddinbych |
| Gwent Fwyaf | Blaenau Gwent |
| Gwent Fwyaf | Caerffili |
| Gwent Fwyaf | Sir Fynwy |
| Gwent Fwyaf | Casnewydd |
| Gwent Fwyaf | Torfaen |
| Gwynedd and Môn | Gwynedd |
| Gwynedd a Môn | Ynys Môn |

| Partneriaeth | Awdurdod lleol |
|---|---|
| Merthyr Tudful | Merthyr Tudful |
| Partneriaeth DOG Gogledd-ddwyrain Cymru | Sir y Fflint |
| Partneriaeth DOG Gogledd-ddwyrain Cymru | Wrecsam |
| Partneriaeth DOG Castell-nedd Port Talbot a Phowys | Castell-nedd Port Talbot |
| Partneriaeth DOG Castell-nedd Port Talbot a Phowys | Powys |
| Sir Benfro | Sir Benfro |
| Rhondda Cynon Taf | Rhondda Cynon Taf |
| Abertawe | Abertawe |

## Crynodeb

Bu i ran fwyaf o ddysgwyr wneud cynnydd cadarn yn eu gwersi ac mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â'u tiwtoriaid, ond nid yw partneriaethau'n gwerthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn symud ymlaen yn y tymor hwy yn ddigon da nac yn cynnig digon o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael ail gyfle mewn dysgu a'r manteision i'w lles a'u hiechyd meddwl a ddaw yn ei sgil. Mae pryderon sylweddol am y sector, mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth, a chynhwysedd arweinyddiaeth. Mae rhai darparwyr wedi lleihau neu roi'r gorau i ddarparu, gan nodi cyfyngiadau cyllidebol. Er bod darparwyr wedi gweithio'n dda i ddefnyddio cyllid Multiply i gynnig darpariaeth rhifedd newydd, mae partneriaethau wedi wynebu heriau wrth recriwtio dysgwyr a thiwtoriaid, ac wrth gynllunio ar gyfer dychwelyd i drefniadau arferol pan fydd ariannu Multiply yn cau.

## Addysgu a dysgu

Caiff sesiynau dysgu oedolion yn y gymuned eu haddysgu mewn dosbarthiadau bach, sydd â llai na deg o ddysgwyr, fel arfer. Roedd y berthynas rhwng tiwtoriaid a'u dysgwyr yn gryf ac roedd tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd tiwtoriaid yn addasu eu haddysgu i fodloni anghenion dysgwyr unigol yn effeithiol ac yn cynnig cymorth un-i-un i ddysgwyr wrth iddynt weithio. Yn aml, roedd tiwtoriaid yn teilwra lefel a chynnwys yr hyn yr oeddent yn ei gyflwyno yn dda i fodloni anghenion, diddordebau a hoffterau dysgwyr.

Fel arfer, mae gan oedolion sy'n dychwelyd i ddysgu mewn dosbarthiadau cymunedol broffiliau cymhleth o gryfderau a gwendidau yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Ar y cyfan, roedd tiwtoriaid yn nodi cryfderau a gwendidau unigol dysgwyr yn y medrau hyn yn effeithiol, gan ddefnyddio offer digidol fel Pecyn Offer Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) neu drwy eu profiad proffesiynol. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall yr hyn yr oedd angen iddynt ei wneud i wella trwy ddefnyddio cynllun dysgu unigol neu drwy adborth gan eu tiwtoriaid.

Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu sesiynau. Dros gyfnod hwy, fel tymor, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd addas o gymharu eu mannau cychwyn ac

yn cyflawni nodau eu cymhwyster. Fodd bynnag, nid oedd partneriaethau'n gwerthuso sut mae dysgwyr yn symud trwy eu darpariaeth yn ddigon da. Nid oeddent yn defnyddio gwybodaeth o systemau electronig o reoli gwybodaeth yn ddigon da i olrhain a monitro cynnydd tymor hwy dysgwyr, er enghraifft i werthuso sut mae dysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau neu lefelau astudio gwahanol yn y bartneriaeth neu i olrhain eu cyrchfannau i ddysgu pellach, swyddi neu'r ddau.

Yn y rhan fwyaf o'r partneriaethau a arolygwyd yn ystod 2023-2024, canfu arolygwyr gydbwysedd addas rhwng rhaglenni heb eu hachredu a rhaglenni achrededig, gan gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ennill cymwysterau perthnasol. Fodd bynnag, mewn ychydig o bartneriaethau ac mewn ychydig o feysydd rhaglen, fel Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), nid oedd gan ddysgwyr opsiynau achrededig addas.

At ei gilydd, hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang ymhlith y boblogaeth leol, roedd partneriaethau'n cynnig ychydig iawn o ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, os o gwbl, a oedd yn golygu nad oedd dysgwyr neu gymunedau Cymraeg eu hiaith yn cael cyfle i elwa ar raglenni dysgu oedolion yn y gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar draws ein harolygiadau yn ystod 2023-2024, canfu arolygwyr fod ychydig o athrawon yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith ddysgu, er enghraifft trwy ddefnyddio terminoleg ddwyieithog neu drwy ddefnyddio cyfarchion ac ymadroddion Cymraeg syml. Roedd ychydig o bartneriaethau'n datblygu ymagweddau arloesol, er enghraifft yn Rhondda Cynon Taf, lle'r oedd y bartneriaeth yn gweithio ar y cyd â sefydliadau fel Menter Iaith i gynnig darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad, lles ac agweddau at ddysgu

Roedd yr awyrgylch mewn dosbarthiadau dysgu oedolion yn y gymuned yn gynhyrchiol ac yn gadarnhaol bron bob tro. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddychwelyd i ddysgu, yn mwynhau eu profiad ac yn gwerthfawrogi gwaith eu tiwtoriaid. Roedd dysgwyr yn gefnogol i'w gilydd, gan gynnig cefnogaeth ac anogaeth i'w cymheiriaid yn gyson. Roedd llawer o ddysgwyr hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle am gyfeillgarwch a'r rhyngweithio cymdeithasol y mae dysgu'n ei gynnig, ac yn aml yn disgrifio'r effaith gadarnhaol roedd dysgu a mynychu eu sesiynau yn ei chael ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Lle'r oedd gweithio mewn partneriaeth yn llai cryf, roedd cyfleoedd i gynnig cymorth traws-darparwr i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn llai datblygedig ac yn llai effeithiol.

Roedd darparwyr partneriaethau yn creu amgylcheddau diogel a gofalgar a oedd yn cefnogi datblygiad addysgol a phersonol dysgwyr. Roeddent yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn amlygu pwysigrwydd y rhain yng nghymdeithas Cymru yn llwyddiannus.

## Arweinyddiaeth

Yn ein harolygiadau a'n hymweliadau gan arolygwyr cyswllt, fel ei gilydd, canfuom ychydig o bartneriaethau lle'r oedd ad-drefnu, newidiadau o ran rolau neu fethiant i benodi personél allweddol newydd yn cael effaith negyddol ar waith y bartneriaeth a darpariaeth i ddysgwyr.

Penderfynodd un awdurdod lleol roi'r gorau i'w ddarpariaeth partneriaeth DOG yn gyfan gwbl a lleihaodd darparwr arall faint ei ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb ar draws ei ardal ddaearyddol. Yn y ddau achos, nododd y darparwyr gyfyngiadau cyllidebol fel ffactor sylweddol yn eu penderfyniadau. Mae'r datblygiadau hyn yn peri pryder.

Roedd ansawdd gweithio mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth yn parhau i fod yn faes ffocws ac yn

peri pryder sylweddol. Yn y chwe arolygiad a gynhaliwyd gennym yn ystod 2023-2024, gwnaethom argymhellion i wella elfennau o weithio mewn partneriaeth mewn tair partneriaeth. Lle nodom feysydd i'w gwella o ran gweithio mewn partneriaeth, roedd y rhain fel arfer yn cynnwys y canlynol:

- Roedd diffyg eglurder neu gytundeb ffurfiol ynghylch rolau a chyfrifoldebau pob partner
- Roedd diffyg gweledigaeth, arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol ar gyfer y bartneriaeth
- Roedd cynllunio i gynnig llwybrau dilyniant clir i mewn i'r bartneriaeth, y tu mewn a'r tu hwnt iddi, yn aneffeithiol
- Nid oedd cynllunio darpariaeth yn gydlynol, gan olygu nad oedd dysgwyr neu ddarpar ddysgwyr mewn rhai ardaloedd daearyddol o'r bartneriaeth yn gallu manteisio'n gyfleus ar ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb
- Nid oedd prosesau hunanwerthuso a gwella ansawdd yn cynnwys trosolwg o'r bartneriaeth, gan olygu nad oedd gan bartneriaid ddealltwriaeth glir o gryfderau a meysydd i'w gwella cyffredinol y bartneriaeth
- Roedd partneriaid yn colli cyfleoedd i rannu adnoddau, fel trwy weithgareddau dysgu proffesiynol cydweithredol neu ar y cyd neu drwy gydleoli darpariaeth
- Nid oedd deunyddiau marchnata a hyrwyddo neu wefannau partneriaethau yn galluogi dysgwyr neu ddarpar ddysgwyr i weld ystod lawn darpariaeth y bartneriaeth mewn ffordd syml
- Nid oedd partneriaethau'n cydweithio'n ddigon agos â'r ystod lawn o ddarparwyr lleol, cymunedol neu grwpiau trydydd sector i ehangu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

Nodom hefyd agweddau cryf ar weithio mewn partneriaeth, er enghraifft ym mhartneriaeth Castell-nedd Port Talbot a Phowys, lle y lluniom giplun ar ddefnydd effeithiol o gytundebau lefel gwasanaeth a oedd yn egluro rolau a chyfrifoldebau pob partner.

### Ciplun o gytundebau lefel gwasanaeth o adroddiad partneriaeth DOG Castell-nedd Port Talbot a Phowys

Mae gan y bartneriaeth gytundebau lefel gwasanaeth (CLGau), sy'n diffinio'r trefniadau rhwng Grŵp Colegau NPTC a'r naill a'r llall o'i ddau bartner awdurdod lleol, sef Castell-nedd Port Talbot a Phowys. Mae pob CLG yn amlinellu cyfrifoldebau'r ddwy ochr ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer arlwy'r ddarpariaeth, deilliannau disgwyliedig, sicrhau ansawdd a thalu. Mae'r cytundebau ffurfiol hyn yn sicrhau bod eglurder rhwng partneriaid a pharhad rhwng sefydliadau os bydd personél allweddol yn newid rolau neu'n ymddeol.

Ar draws y sector, gwelsom rywfaint o welliant yn y ffordd y mae partneriaethau'n defnyddio eu gwefannau i roi gwybod i ddysgwyr a darpar ddysgwyr am eu darpariaeth. Roedd rhai partneriaethau wedi ailgynllunio eu gwefannau er mwyn galluogi defnyddwyr i chwilio a phori drwy'r cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan bob darparwr yn y bartneriaeth. Roedd rhai eraill wedi gwella amlygrwydd dolenni i wefannau eu partneriaid fel bod defnyddwyr yn gallu llywio rhyngddynt yn symlach i chwilio am gyrsiau.

Roedd y cyllid a oedd ar gael trwy fenter Lluosi Llywodraeth y DU yn fawr iawn o gymharu â'r Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Roedd gan y cyllid amserlen fer a meini prawf cymhwysedd llym

hefyd ar gyfer y math o ddarpariaeth y gellid ei hariannu. Roedd partneriaethau'n gweithio'n dda i gydlynu'r ddarpariaeth y maent yn ei chynnig trwy Lluosi, ond roeddent yn aml yn wynebu heriau o ran recriwtio dysgwyr a thiwtoriaid yn yr amserlenni byr sydd ar gael, ac o ran cynllunio'r ffordd orau i sicrhau pontio effeithiol yn ôl i 'fusnes yn ôl yr arfer' pan fydd cyfnod y cyllid yn dod i ben.

## Trosolwg argymhellion

Mae'r argymhellion o'r chwe arolygiad yn disgyn i'r categorïau eang hyn:

- Arweinyddiaeth a chynllunio strategol – roedd tri argymhelliad yn ymwneud â gwella gweithio mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth strategol
- Hunanwerthuso a gwella ansawdd – roedd tri argymhelliad yn ymwneud ag ymagweddau partneriaeth gyfan tuag at hunanwerthuso, gan gynnwys gwerthuso dilyniant dysgwyr
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg – roedd tri argymhelliad yn ymwneud â gwella neu gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog
- Ansawdd a chadw – roedd dau argymhelliad yn nodi'r angen i wella ansawdd neu gyfradd cadw
- Darpariaeth – roedd un argymhelliad i wella'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth ar draws ardal ddaearyddol lawn y bartneriaeth
- Anghenion dysgu ychwanegol – un argymhelliad oedd gwella cymorth a monitro i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
- Hyrwyddo a marchnata – un argymhelliad oedd sicrhau y gall darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol fanteisio'n rhwydd ar drosolwg o arlwy cyrsiau llawn y bartneriaeth a'i llwybrau dilyniant

## Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2023) *Dyraniadau cyllid ôl-16: dysgu oedolion awdurdodau lleol*.

# Cymraeg i Oedolion

## Darparwyr

**11**

Darparwyr Dysgu Cymru dan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n ariannu ac yn sicrhau ansawdd eu gwaith

## Dysgwyr

**16,905**

Dysgwyr yn ystod 2022-2023

**15,260**

Dysgwyr yn ystod 2021-2022

**14,965**

Yn ystod 2020-2021

Mae nifer y dysgwyr wedi cynyddu 33% ers dechrau'r cylch arolygu (12,680 o ddysgwyr unigol yn 2017-2018)

## Darpariaeth

Mae pob darparwr yn cynnig amrywiaeth o ddysgu wyneb-yn-wyneb, ar-lein ac o bell.

## Arolygiadau

Cynhaliwyd dau arolygiad craidd o ddarparwyr Dysgu Cymraeg yn ystod 2023-2024:

- Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn, sy'n arbenigo mewn cyrsiau preswyl
- Dysgu Cymraeg Sir Benfro

Yn y sector Cymraeg i Oedolion, parhaom i roi graddau crynodol ar gyfer arolygiadau o ddarparwyr Dysgu Cymraeg.

Arolygom y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am yr eildro yn ystod y cylch arolygu hwn, hefyd.

Adroddiad arolygu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol 2024 (llyw.cymru)

### Astudiaethau achos

#### Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn

Defnyddio'r Gymraeg: gweithgareddau allgyrsiol bwriadus ac unigryw sy'n cefnogi dysgwyr i siarad Cymraeg yn gynyddol ddigymell ar safle'r Nant ac yn y gymuned leol | Estyn (llyw.cymru)

Trochi effeithiol: cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd cyflym tra'n eu cynorthwyo i ddysgu a gwerthfawrogi hanes a diwylliant Cymru | Estyn (llyw.cymru)

#### Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/ehangu-cyfranogiad-a-sicrhau-bod-gan-bawb-yng-nghymru-gyfle-i-ddysgur-iaith-beth-bynnag-fou-cefndir/

https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/sut-maer-sector-dysgu-cymraeg-yn-dylanwadu-ar-addysgeg-a-chaffael-iaith-mewn-sectorau-eraill-yng-nghymru-a-thu-hwnt/

### Gweithgarwch dilynol

Mae gweithgarwch dilynol yn y sector yn wahanol i bron pob sector arall gan fod corff llywodraethol sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd yn y sector. Mae cynnydd yn erbyn yr holl argymhellion i ddarparwyr Dysgu Cymraeg unigol yn ystod arolygiadau craidd yn cael ei drafod â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'i werthuso fel rhan o'i harolygiad.

## Cyflwyniad

Mae nifer y dysgwyr yn y sector Cymraeg i Oedolion wedi cynyddu 33% ers i'r ffigurau cenedlaethol cyntaf gael eu cyhoeddi ar gyfer y sector yn 2017-2018. Yn ogystal, mae'r sector bellach yn cynnig cyrsiau am ddim i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed, gan gynyddu nifer y dysgwyr yn y categori hwn 9% ymhellach yn ystod 2022-2023. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi gweithio'n bwrpasol i gynyddu arlwy'r sector i ddysgwyr sydd eisiau dysgu at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r gwaith, yn ogystal â grwpiau penodol fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gyda deunyddiau ar gael erbyn hyn i siaradwyr Cantoneg, Syriaidd, Arabeg, Pashto, Ffarsi ac Wcreineg.

## Crynodeb

Mae'r addysgu yn y sector yn canolbwyntio ar sicrhau bod profiadau dysgu yn gynhwysol, yn gadarnhaol ac yn effeithiol wrth gynhyrchu siaradwyr Cymraeg gweithredol. Roedd gofal, cefnogaeth ac arweiniad yn rhagorol yn y ddau ddarparwyr Dysgu Cymraeg a arolygwyd eleni. Mae'r gefnogaeth a'r arweiniad a ddarperir yn cyfrannu'n gadarnhaol at les dysgwyr a mwynhad o'u cyrsiau. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n ariannu ac ansawdd yn sicrhau gwaith darparwyr Dysgu Cymraeg, yn cefnogi'r gwaith hwn yn ddefnyddiol trwy gyfleoedd craffu a datblygiad proffesiynol priodol i staff. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu arweinyddiaeth hynod effeithiol i'r sector, sy'n cael ei adlewyrchu yn y weledigaeth a rennir a ffocws clir gan ddarparwyr Dysgu Cymraeg. Gyda'i gilydd, maent yn cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu siaradwyr Cymraeg gweithredol, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru.

## Dysgu, addysgu a phrofiadau dysgu

Parhaodd dysgwyr ym mhob math o ddarpariaeth i ddangos lefelau uchel o gymhelliant a brwdfrydedd yn ystod eu gwersi. Roedd llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau iaith, gan siarad yn gynyddol ddigymell ac yn hyderus â'i gilydd a'u tiwtoriaid. Roedd tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau iaith yn eu cymunedau a'u gweithleoedd. O ganlyniad, roedd llawer o ddysgwyr yn siarad Cymraeg y tu allan i sesiynau ffurfiol, a oedd yn cynyddu eu hyder ac yn gwella eu gallu i deimlo'n rhan o rwydweithiau a chymunedau Cymraeg. Roedd dysgwyr yn gwneud y cynnydd cryfaf pan roeddent yn cael eu trochi'n llawn yn yr iaith ar gyrsiau dwys. Roedd bron pob un o'r dysgwyr a oedd yn mynychu cyrsiau preswyl yn gwneud cynnydd cyflym. Roedd hyn oherwydd cyfuniad o gynllunio ac addysgu medrus a'r amgylchedd trochi unigryw.

Roedd y ddau ddarparwr Dysgu Cymraeg a arolygwyd yn cynnig ystod eang o gyrsiau, o lefel mynediad i hyfedredd, wyneb-yn-wyneb ac ar-lein. Roedd un darparwr yn gweithredu'n effeithiol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ei awdurdod lleol lletyol trwy gyflogi swyddog i weithio'n rhagweithiol â staff yr awdurdod lleol.

Roedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn chwarae rhan werthfawr mewn datblygu ansawdd cyffredinol uchel yr addysgu a'r dysgu ar draws darparwyr Dysgu Cymraeg. Nid oedd ychydig o diwtoriaid mewn un darparwr a arolygwyd yn holi dysgwyr yn ddigon effeithiol nac yn caniatáu digon o amser iddynt ystyried gwybodaeth a dechrau creu iaith yn annibynnol. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ar draws y ddau ddarparwr ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr ac roeddent yn defnyddio'r iaith darged yn effeithiol i wella medrau siarad a gwrando dysgwyr. Roeddent yn procio ac yn ymyrryd yn bwrpasol i ymestyn gallu dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol a gwella eu dealltwriaeth o nodweddion gramadegol gwahanol yr iaith.

## Gofal, cymorth, arweiniad a lles ac agweddau at ddysgu

Roedd safon y gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol yn y ddau ddarparwr a arolygwyd. Mae ymagwedd gadarnhaol darparwyr at greu amgylchedd gofalgar a chynhwysol ar gyfer pob dysgwr yn helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel ac yn awyddus i ymgysylltu â'u dysgu yn effeithiol.

Roedd darparwyr a thiwtoriaid yn ymateb yn dda i anghenion addysgol a bugeiliol unigolion i'w helpu i gyflawni eu nodau personol. Roedd llawer o ddysgwyr yn chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau dysgu ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod darparwyr yn ymateb yn briodol i'w safbwyntiau a'u pryderon.

Roedd tiwtoriaid ac arweinwyr a oedd yn gyfrifol am gyrsiau yn y darparwr preswyl yn sicrhau bod dysgwyr yn cael lefelau rhagorol o ofal bugeiliol ac addysgol cyn ac yn ystod eu cyrsiau. Roedd hyn yn fuddiol i'w lles a'u lefelau cyrhaeddiad.

Yn gyffredinol, roedd dysgwyr yn y ddau ddarparwr yn cael lefelau uchel iawn o ofal a chymorth. O ganlyniad, roedd llawer o ddysgwyr yn dychwelyd i gyrsiau dilynol ac yn gwella eu lefelau rhuglder.

## Arweinyddiaeth

Roedd y ddau ddarparwr Dysgu Cymraeg a arolygwyd yn canolbwyntio'n glir ar eu cenhadaeth i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gweithredol.

Roedd arweinwyr mewn un darparwr yn hynod effeithiol o ran datblygu eu darpariaeth yn arloesol i gynnig yr amgylchedd gorau posibl lle gallai dysgwyr wneud cynnydd effeithiol a gwerthfawrogi'r Gymraeg fel iaith fyw.

Roedd arweinwyr yn y darparwr Dysgu Cymraeg arall yn effeithiol o ran datblygu arlwy'r ddarpariaeth o fewn cyfyngiadau darparwr bach. Roedd y darparwr yn gwerthuso data'n briodol ac roedd hyn yn cyfrannu at berfformiad cryf a chyson y darparwr yn erbyn ei dargedau recriwtio a lefelau cwblhau a dilyniant dysgwyr. Fodd bynnag, nid oedd rheolwyr yn olrhain cynnydd grwpiau o ddysgwyr yn ddigon manwl yn systematig i fireinio ac addasu darpariaeth yn bwrpasol. Yn ogystal, nid oeddent bob amser yn nodi'r meysydd i'w gwella mewn agweddau ar eu gwaith, fel addysgu a dysgu, yn ddigon da.

Roedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu arweinyddiaeth effeithiol iawn i'r sector ac roedd yn rhagweithiol o ran hybu lefelau uwch o gyfranogiad gan bob grŵp yn y gymdeithas. Roedd y strwythur ffioedd cenedlaethol yn cadw costau cyrsiau i ddysgwyr mor isel â phosibl ac roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr naill ai'n cael gostyngiadau i ffioedd cyrsiau neu'n cael cyrsiau am ddim.

Roedd y Ganolfan Genedlaethol wedi datblygu'r sector o fod yn ddarparwr cyrsiau ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn unig i fod yn llais dylanwadol ac yn hwylusydd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl gweithredol.

## Trosolwg o'r argymhellion o arolygiadau

### Arolygwyd dau ddarparwr Dysgu Cymraeg yn ystod 2023-2024, ynghyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Yn y darparwr sy'n arbenigo mewn darpariaeth breswyl a throchi iaith, roedd yr argymhellion yn canolbwyntio ar ymestyn yr arlwy dysgu proffesiynol i gynnwys cyfleoedd rheolaidd i diwtoriaid arsylwi arfer effeithiol. Ar ben hynny, roedd argymhelliad i sefydlu gweithdrefnau â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i rannu gwybodaeth yn genedlaethol am gynnydd a chyflawniad dysgwyr sydd wedi dilyn cyrsiau dwys y darparwr, i'w cefnogi i ddysgu Cymraeg yn ddi-dor, pwy bynnag yw'r darparwr.

Yn y darparwr Dysgu Cymraeg arall a arolygwyd, roedd tri argymhelliad yn adlewyrchu'r meysydd allweddol i'w gwella, sef:

- Cryfhau prosesau cynllunio strategol i flaengynllunio'r ddarpariaeth yn fwy bwriadus
- Miniogi prosesau gwerthuso addysgu a dysgu i flaenoriaethu cryfderau a meysydd i'w gwella
- Cryfhau prosesau monitro ac olrhain cynnydd grwpiau a charfanau o ddysgwyr dros gyfnod er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yn gynyddol effeithiol

Cafodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ddau argymhelliad, sef:

- Parhau i ymestyn a rhannu arbenigedd y sector Dysgu Cymraeg o ran addysgeg a chaffael ail iaith i sectorau perthnasol eraill i gefnogi nod Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- Parhau i arloesi trwy hwyluso gweithgareddau cynllunio ieithyddol sy'n integreiddio siaradwyr newydd ac anfoddog mewn mentrau i normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau ac yn eu gwaith

## Trosolwg argymhellion

### Arolygwyd dau ddarparwr Dysgu Cymraeg yn ystod 2023-2024, ynghyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Yn y darparwr sy'n arbenigo mewn darpariaeth breswyl a throchi iaith, roedd yr argymhellion yn canolbwyntio ar ymestyn yr arlwy dysgu proffesiynol i gynnwys cyfleoedd rheolaidd i diwtoriaid arsylwi arfer effeithiol. Ar ben hynny, roedd argymhelliad i sefydlu gweithdrefnau â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i rannu gwybodaeth yn genedlaethol am gynnydd a chyflawniad dysgwyr sydd wedi dilyn cyrsiau dwys y darparwr, i'w cefnogi i ddysgu Cymraeg yn ddi-dor, pwy bynnag yw'r darparwr.

Yn y darparwr Dysgu Cymraeg arall a arolygwyd, roedd tri argymhelliad yn adlewyrchu'r meysydd allweddol i'w gwella, sef:

- Cryfhau prosesau cynllunio strategol i flaengynllunio'r ddarpariaeth yn fwy bwriadus
- Miniogi prosesau gwerthuso addysgu a dysgu i flaenoriaethu cryfderau a meysydd i'w gwella
- Cryfhau prosesau monitro ac olrhain cynnydd grwpiau a charfanau o ddysgwyr dros gyfnod er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yn gynyddol effeithiol

Cafodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ddau argymhelliad, sef:

- Parhau i ymestyn a rhannu arbenigedd y sector Dysgu Cymraeg o ran addysgeg a chaffael ail iaith i sectorau perthnasol eraill i gefnogi nod Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- Parhau i arloesi trwy hwyluso gweithgareddau cynllunio ieithyddol sy'n integreiddio siaradwyr newydd ac anfoddog mewn mentrau i normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau ac yn eu gwaith

# Cyfiawnder

## Carchardai i Oedolion a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc

Nifer: 5 carchar i oedolion ac 1 sefydliad troseddwyr ifanc

### Darpariaeth

Mae pob carchar a sefydliad troseddwyr ifanc yng Nghymru ar gyfer oedolion neu bobl ifanc gwrywaidd sy'n droseddwyr. Mewn llawer o garchardai yng Nghymru, caiff addysg ei darparu gan staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y carchar ei hun. Mae Novus Cambria yn darparu addysg a hyfforddiant yng Ngharchar EF y Berwyn ac mae Novus Gower yn darparu'r gwasanaethau hyn yng Ngharchar EF Parc.

### Arolygiadau

Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn arwain arolygiadau o garchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc ledled Cymru a Lloegr. Cydweithiodd Estyn â phartneriaid eleni i arolygu Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc a Charchar EF Caerdydd. Mae adroddiadau arolygu cyhoeddedig Arolygiaeth Carchardai EF i'w gweld yma: Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi

## Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid

Nifer: 17

### Darpariaeth

Mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n mynd i drafferth â'r gyfraith ac yn ceisio eu cefnogi i gadw draw oddi wrth droseddu. Mae cymorth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn un agwedd ar waith y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid sy'n cael ei darparu mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill.

### Arolygiadau

Mae Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi yn goruchwylio arolygiadau o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhan fwyaf o arolygiadau yn arolygiadau unigol sy'n cael eu cynnal gan Arolygiaeth Prawf EF. Cynhaliodd Arolygiaeth Prawf EF chwe arolygiad unigol o'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir y Fflint a Chasnewydd. Lle mae maint y gwasanaeth a ffactorau eraill yn cyfiawnhau, mae Estyn yn cymryd rhan mewn arolygiadau ar y cyd o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Eleni, cynhaliwyd un arolygiad ar y cyd yng Nghymru o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid cyfunol Conwy a Sir Ddinbych. Mae adroddiadau arolygu cyhoeddedig Arolygiaeth Prawf EF i'w gweld yma: Arolygiaeth Prawf EF

### Cartrefi Plant Diogel

Nifer: 1

#### Darpariaeth

Mae cartrefi plant diogel yn darparu lleoliadau diogel i blant rhwng 10 a 17 oed ac yn cynnwys gofal preswyl llawn, cyfleusterau addysgol a darpariaeth gofal iechyd.

#### Arolygiadau

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn arwain arolygiadau o'r cartrefi plant diogel yng Nghymru. Cynhaliodd timau Estyn un arolygiad ar y cyd o gartref plant diogel eleni gydag AGC.

## Crynodeb

Daw'r canfyddiadau cryno hyn o ganfyddiadau arolygwyr Estyn yn ystod arolygiadau o Sefydliad Troseddwyr Ifanc EF Parc, Carchar EF Caerdydd a'r arolygiad ar y cyd o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r crynodeb hefyd yn adlewyrchu materion cenedlaethol o adroddiad blynyddol 2023-2024 Prif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi.

Lle roedd yr addysgu'n gryf, bu llawer o ddysgwyr yn datblygu sgiliau gwerthfawr ac yn gwneud cynnydd diogel. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson ar draws y sector. Lle mae'n wan, nid yw'n diwallu anghenion dysgwyr nac yn cyfrannu'n ddigon da at eu rhagolygon o lwyddiant wrth gael eu rhyddhau. Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella ers y pandemig. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i oresgyn rhwystrau i ddysgu yn anghyson. Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael digon o amser y tu allan i'r gell i ddilyn ystod o weithgareddau. Fodd bynnag, lle mae'r cynnig cwricwlwm yn wan, nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn dysgu neu hyfforddiant ystyrlon a phriodol.

## Addysgu a dysgu

Lle'r oedd addysgu wedi'i gynllunio'n dda a lle'r oedd athrawon yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol, roedd llawer o ddysgwyr yn ymgysylltu â'u dysgu, yn gwneud cynnydd cryf tuag at nodau cymwysterau ac yn datblygu medrau a gwybodaeth werthfawr. Yng Ngharchar EF Caerdydd, roedd ychydig o ddysgwyr yn dangos medrau uwch mewn celf ac adeiladu. Roedd medrau llythrennedd a rhifedd yn aml yn cael eu hintegreiddio'n ystyrlon ac yn effeithiol mewn meysydd trawsgwricwlaidd. Roedd hyn yn cefnogi carcharorion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu a rhifedd sylfaenol yn dda yn eu cyd-destun. At ei gilydd, nid oedd mwyafrif y carcharorion a'r plant yn datblygu eu medrau digidol yn ddigon da.

Cafodd prinder staff a gwendidau mewn arfer addysgu effaith negyddol ar gynnydd dysgwyr yn y ddau sefydliad, er bod y materion hyn yn llawer mwy amlwg yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc EF Parc. Yma, arweiniodd diffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd, a'u haddysgu, at leiafrif o ddysgwyr yn peidio â gwneud cynnydd digonol neu amserol wrth ddatblygu'r medrau hollbwysig hyn. Roedd hyn yn adleisio'r darlun mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn genedlaethol, fel y crybwyllwyd

gan Brif Arolygydd Carchardai EF, a ganfu, yn gyffredinol, “nid oedd safon yr addysgu yn ddigon da yn yr holl sefydliadau troseddwyr ifanc, yn enwedig dysgu Saesneg a mathemateg” (Prif Arolygydd Carchardai EF, 2024, t. 46). Yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc, roedd gormod o amrywiaeth yng nghynnydd dysgwyr ar draws y cwricwlwm ac nid oedd arlwy’r cwricwlwm yn cynnig gallu digonol i ddysgwyr fanteisio ar lwybrau dysgu ystyrlon a oedd yn sicrhau dilyniant ac yn cefnogi eu dyheadau.

Roedd y rheolwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a gweithwyr achos yng ngwasanaeth cyfiawnder ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych yn cydweithio’n dda â phartneriaid i rannu gwybodaeth a chynnig cymorth i sicrhau bod plant yn ymgysylltu ag addysg. Fodd bynnag, roedd amserlenni rhan-amser yn cael eu gorddefnyddio ac nid oedd plant yn cael ystod briodol o wasanaethau o ansawdd da wedi’u personoli. Nid oedd unrhyw lwybrau addysg systematig na strategaeth i fynd i’r afael â gwendidau mewn llythrennedd a rhifedd plant i gefnogi cynnydd llwyddiannus mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

## Gofal, cymorth ac arweiniad a’u heffaith ar les dysgwyrg

At ei gilydd, roedd gan ddysgwyr bresenoldeb da mewn sesiynau addysg a medrau yn y sefydliad troseddwyr ifanc a’r carchar i oedolion. Yng Ngharchar EF Caerdydd, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio’n gynhyrchiol yn annibynnol a gyda’u cymheiriaid ac yn dangos ymddygiad ac ymgysylltiad cadarnhaol yn ystod sesiynau.

Roedd y ddau sefydliad yn cefnogi carcharorion i nodi a lleihau ymddygiad aildroseddu. Yng Nghaerdydd, bu’r dynion yn trafod heriau dibyniaeth a meithrin arferion perthnasoedd cadarnhaol mewn sesiynau pwrpasol. Roedd rhai carcharorion yng Nghaerdydd yn datblygu gwydnwch yn dda wrth ddyfalbarhau â thasgau cymhleth ac roedd eu hyder a’u hymddygiad yn gwella wrth iddynt ymgymryd â swyddi â chyfrifoldeb fel mentoriaid cymheiriaid. Yng ngharchar Parc, roedd yr ystod eang o weithgareddau cyfoethogi yn cael effaith fuddiol iawn ar les ac ymgysylltiad y rhan fwyaf o ddysgwyr.

Roedd gormod o amrywiaeth o ran pa mor dda roedd anghenion unigol dysgwyr yn cael eu nodi, eu cyfleu i staff ac y gweithredwyd arnynt i fynd i’r afael â rhwystrau rhag dysgu. Yng Nghaerdydd, nodwyd anghenion dysgwyr yn briodol, yn gyffredinol, ac roedd rhai staff yn defnyddio’r wybodaeth hon yn dda i gefnogi’r dysgwyr hyn i wneud cynnydd da. Yng ngharchar Parc, nid oedd gwybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn cael ei rhannu’n ddigon da â staff ac nid oedd monitro cynnydd y dysgwyr hyn wedi’i ddatblygu’n ddigonol.

Yng Nghaerdydd, roedd dysgwyr yn cael cyngor ac arweiniad defnyddiol ar gyrsiau, hyfforddiant ac opsiynau ar gyfer cymwysterau, ac roeddent yn cael eu cefnogi mewn ystod eang o ffyrdd i fod yn llwyddiannus ar ôl cael eu rhyddhau.

Roedd gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych yn darparu cyfleoedd da i blant sefydlu eu hunaniaeth a’u diwylliant Cymreig wrth ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd rhestrau aros hir am gymorth â niwrowahaniaeth. Nid oedd anghenion dysgu ychwanegol plant y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid wedi’u hasesu’n ddigonol nac yn hysbys. Roedd diffyg capasiti a gallu i fanteisio ar gymorth arbenigol.

## Arwain a gwella

Gweithiodd arweinwyr a staff yn y sefydliad troseddwyr ifanc a’r carchar i oedolion gwrywaidd yr

ymwelwyd â nhw yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024 yn galed i ddarparu digon o fannau gweithgarwch, er gwaethaf problemau o ran staffio neu adnoddau. Sicrhaodd hyn y cafodd y rhan fwyaf o garcharorion a phlant amser priodol allan o'u celloedd. Roedd hyn yn well na'r darlun ar draws y DU yn gyffredinol.

Er bod rhai bylchau yn y ddarpariaeth, roedd arweinwyr yng Ngharchar EF Caerdydd wedi datblygu cwricwlwm yn llwyddiannus a oedd yn bodloni anghenion addysgol, cyflogadwyedd a datblygiad personol llawer o garcharorion. Yng ngharchar Parc, nid oedd arweinwyr addysg yn cael llawer o ddylanwad ar lwybrau dysgu, a oedd wedi'u llunio'n bennaf i reoli ymddygiad. Roedd hyn yn debyg i'r darlun mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn genedlaethol, lle'r oedd gorddibyniaeth ar gadw plant ar wahân yn effeithio ar ystyrlonrwydd trefniadau'r cwricwlwm. Roedd gwendidau yn y bartneriaeth newydd rhwng y carchar a'r darparwr addysg newydd wedi gwaethygu'r broblem ymhellach ac nid oedd unrhyw fanteision posibl o weithio mewn partneriaeth â choleg lleol wedi trosi i arlwy'r cwricwlwm, trefniadau staffio nac ansawdd yr addysgu adeg yr ymweliad.

Roedd y ddau garchar wedi datblygu strategaethau darllen, ond nid oedd y rhain wedi'u rhoi ar waith adeg yr ymweliadau, felly nid oedd modd i arolygwyr wneud sylwadau ar eu heffaith. Roedd gwendidau yn y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.

Roedd arweinwyr a staff yn elwa ar ystod o rwydweithiau datblygiad proffesiynol rhanbarthol a chenedlaethol i rannu arfer a gwella darpariaeth. Roedd arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso i nodi cryfderau eang a meysydd i'w datblygu. Roedd y wybodaeth hon yn llywio arlwy'r cwricwlwm ac anghenion dysgu proffesiynol staff yn dda yng Nghaerdydd ac yn helpu arweinwyr yn ngharchar Parc i nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella yn addas.

Er y cafodd data ei ddefnyddio'n dda i fonitro perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol neu olrhain presenoldeb, ni chafodd ei ddefnyddio cystal i nodi union feysydd i'w datblygu er mwyn llywio cynllunio gwelliant.

Roedd tîm arweinyddiaeth newydd yng ngwasanaeth cyfiawnder ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych wedi gwella cyfathrebu o fewn y gwasanaeth ac wedi cryfhau dealltwriaeth y bwrdd rheoli o'i garfan a'i gyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid oedd y bwrdd yn darparu digon o gyfeiriad strategol na her i waith y gwasanaeth ac nid oedd aelodau'r bwrdd yn defnyddio eu safle'n ddigon da i sicrhau cymorth amserol, wedi'i gydlynu'n dda gan bob partner i blant sy'n cael eu gorchwylio gan y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid. Yn yr un modd â'r  canfyddiadau mewn carchardai, nid oedd gan y bwrdd rheoli ddealltwriaeth ddigon clir o'i garfan ac nid oedd yn dadansoddi'r wybodaeth a'r data a oedd ar gael iddo'n ddigon da i ddarganfod ei hanghenion.

At ei gilydd, mae datblygu manwl gywirdeb dulliau hunanwerthuso yn flaenoriaeth o hyd ar gyfer gwaith y sector.

## Trosolwg argymhellion

Roedd themâu cyffredin yn yr argymhellion a nodwyd yn ystod arolygiadau o addysg, medrau a gweithgareddau gwaith yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc EF Parc a Charchar EF Caerdydd, er bod pwysau'r meysydd i'w gwella yn amrywio ar draws y ddau sefydliad:

- Gwella manwl gywirdeb prosesau hunanwerthuso i lywio camau gwella yn well
- Gwella ansawdd yr addysgu

- Gwella arlwy’r cwricwlwm i fodloni anghenion dysgwyr

Yng ngharchar Parc, roedd yr argymhelliad ar arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar gryfhau trefniadau partneriaeth. Yng Nghaerdydd, y flaenoriaeth oedd gwella trefniadau adrodd ac atebolrwydd rhwng arweinwyr canol ac uwch arweinwyr.

## Cyfeiriadau

Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (2024) *Adroddiad Blynyddol 2023-24.* Y DU: HMIP. [Ar-lein]. Ar gael yn: Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Carchardai EF: 2023 i 2024 – GOV.UK (www.gov.uk) (Cyrchwyd 4 Hydref 2024)

# Adolygiad o’r rhaglen prentisiaethau iau yng Nghymru

Ym mis Mai 2024, cyhoeddom ein hadroddiad thematig ar y rhaglen prentisiaethau iau yng Nghymru. Ysgrifennwyd yr adroddiad i ymateb i gais gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn llythyr cylch gwaith blynyddol Estyn 2023 i 2024 fel y’i diweddarwyd ym mis Hydref 2023.

Mae ein hadroddiad yn defnyddio canfyddiadau o ymweliadau wyneb yn wyneb â phob un o’r pum coleg addysg bellach oedd yn cyflwyno rhaglenni prentisiaethau iau ar yr adeg honno. Cynhaliom grwpiau ffocws gweithdai dysgwyr gyda grwpiau o Flwyddyn 10, Blwyddyn 11 a chyn-ddysgwyr prentisiaethau iau, a buom yn siarad ag uwch arweinwyr a staff y colegau, yr ysgolion a’r awdurdodau lleol dan sylw. Cynhaliom deithiau dysgu yn y colegau i ymweld â dosbarthiadau prentisiaethau iau a’r cyfleusterau y maent yn eu defnyddio. Edrychom hefyd ar ystod o wybodaeth a ddarparwyd gan y colegau yn gysylltiedig â’u rhaglenni prentisiaethau iau.

## Ein hargymhellion

### Dylai ysgolion:

1. Ddarparu cyngor ac arweiniad diduedd cynhwysfawr ac amserol i’r holl ddisgyblion a’u rhieni neu’u gofalwyr am holl opsiynau’r cwricwlwm 14-16, gan gynnwys prentisiaethau iau lle mae’r rhain ar gael
2. Cydweithio â cholegau ac awdurdodau lleol i werthuso cyfleoedd ar gyfer datblygu neu ymestyn rhaglenni prentisiaethau iau er mwyn ehangu eu harlwy cwricwlwm er budd pennaf y dysgwyr

### Dylai colegau addysg bellach:

1. Weithio’n agos gydag ysgolion i wneud yn siŵr fod cyfrifoldebau am drefniadau diogelu yn glir a bod asesiadau risg unigol yn cael eu cynnal ar gyfer pob un o’r dysgwyr prentisiaethau iau
2. Rhannu a chytuno ar drefniadau amserlen gydag ysgolion partner ac awdurdodau lleol ar gyfer pob un o’r dysgwyr prentisiaethau iau a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am unrhyw newidiadau sy’n effeithio ar ddysgwyr unigol, fel trefniadau cynllun bugeiliol

### Dylai awdurdodau lleol:

1. Egluro a chyfleu trefniadau cyllid yn y dyfodol ar gyfer prentisiaethau iau gydag ysgolion a cholegau
2. Cydweithio â’u holl ysgolion a cholegau lleol i werthuso’r potensial ar gyfer cyflwyno neu ymestyn darpariaeth prentisiaethau iau i ymestyn cyfleoedd dysgu addas ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 sy’n cael trafferth ymgysylltu â darpariaeth brif ffrwd bresennol mewn ysgolion

### Dylai Llywodraeth Cymru:

1. Yn sgil sefydlu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER), egluro a chyhoeddi manylion am gyfrifoldeb parhaus a threfniadau parhaus ar gyfer prentisiaethau iau a’u cyllid
2. Adolygu gofynion penodol y cwricwlwm ar gyfer rhaglenni prentisiaethau iau fel yr amlinellir yng nghyfeiriadur rhaglenni Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran cymwysterau Saesneg, mathemateg a rhifedd, i sicrhau bod nodau cymhwyster yn gweddu i anghenion a galluoedd dysgwyr unigol, ac yn adlewyrchu’r cymwysterau 14-16 cenedlaethol newydd sydd ar waith o fis Medi 2027

## Beth ddywedodd ein hadroddiad thematig?

Mae’r colegau, yr ysgolion a’r awdurdodau lleol dan sylw wedi datblygu ystod o raglenni effeithiol sy’n cyd-fynd â chanllawiau prentisiaethau iau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i alluogi dysgwyr Blwyddyn 10 ac 11 sy’n cymryd rhan i fynychu coleg ar sail amser llawn. Mae’r trefniadau hyn wedi hen ennill eu plwyf mewn 5 o’r 12 coleg yng Nghymru ar ôl cyflwyno’r rhaglen i ddechrau yn 2017. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr mewn llawer o ardaloedd o Gymru yn cael cyfleoedd tebyg am nad oes unrhyw drefniadau cydweithredol lleol ar waith o fewn eu hardaloedd i gefnogi cyflwyno rhaglenni prentisiaethau iau.

Rydym wedi nodi nifer o ffactorau allweddol sy’n sail i sefydlu rhaglenni prentisiaethau iau effeithiol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- cydweithio agos, gyda chyfathrebu agored ac effeithiol rhwng colegau, ysgolion ac awdurdodau lleol
- ystod o lwybrau galwedigaethol amgen ar gyfer dysgwyr
- hyblygrwydd i fodloni cyd-destunau lleol
- darparu adnoddau priodol ar gyfer y rhaglenni gan ddefnyddio cyfuniad o gyllid trwy fecanweithiau cyllid awdurdodau lleol, ysgolion ac addysg bellach

Mae ysgolion ac awdurdodau lleol fel arfer yn gweithio’n agos gyda cholegau i dargedu lleoedd prentisiaethau iau yn bennaf at ddysgwyr Blwyddyn 10 ac 11 sy’n ei chael yn anodd ymgysylltu â chwricwlwm prif ffrwd yn yr ysgol, ac mae ganddynt ddiddordeb arbennig mewn opsiynau galwedigaethol yn gysylltiedig â gwaith. Fodd bynnag, gwelsom nad yw argaeledd gwybodaeth o fewn ysgolion am gyfleoedd prentisiaethau iau yn ddigon cyson, a bod ychydig o ddysgwyr a rhieni / gofalwyr dim ond yn dod yn ymwybodol o’r rhaglen trwy ffrindiau neu deulu yn hytrach nag yn uniongyrchol gan eu hysgolion.

Mae trefniadau o ran cyflwyno ac amserlen yn wahanol rhwng colegau ac ar gyfer gwahanol lwybrau galwedigaethol. Er bod canllawiau’n datgan y dylai rhaglenni fod yn debyg i oriau addysgu ysgol amser llawn, yn ymarferol, roedd lleiafrif o raglenni a dysgwyr wedi’u hamserlennu am lai o oriau nag yn yr ysgol. Nid oedd cynlluniau cymorth bugeiliol unigol a allai ganiatáu hyn bob amser yn cael eu hadolygu’n ddigon effeithiol i gefnogi dychwelyd at addysg a phresenoldeb amser llawn.

Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr a arsylwom yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau prentisiaethau iau dynodedig yng nghyfleusterau galwedigaethol y colegau, fel gweithdai neu salonau, lle cynhelir dosbarthiadau ar gyfer dysgwyr hŷn, hefyd. Yn yr achosion prin iawn lle mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn rhaglenni ôl-16, canfuom nad oedd y trefniadau ar gyfer asesiadau risg diogelu unigol bob amser yn ddigon clir neu drylwyr.

Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau'r ffocws cryf ar bynciau galwedigaethol a gweithgareddau ymarferol. Adlewyrchwyd eu hymgysylltiad gwell mewn dysgu mewn cyfraddau llwyddo uchel iawn ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ei chael yn anodd ennill cymhwyster gradd D neu'n uwch mewn TGAU Saesneg, mathemateg neu rifedd o hyd.

Nodom ystod o effeithiau cadarnhaol y rhaglen prentisiaethau iau, gan gynnwys:

- lefelau gwell o ymgysylltu a phresenoldeb
- cyfraddau llwyddo uchel iawn mewn cymwysterau galwedigaethol a gynigir
- adborth cadarnhaol cryf gan ddysgwyr
- cyfraddau dilyniant cryf i addysg bellach a hyfforddiant

Y trawsnewidiad yn agweddau llawer o ddysgwyr at ddysgu, o ymddieithrio cymharol i wneud dewisiadau brwdfrydig ac uchelgeisiol i ymrwymo a pharhau i ddysgu ôl-orfodol, oedd effaith gyffredinol fwyaf trawiadol y rhaglen prentisiaethau iau.

# Effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, cymorth, darpariaeth a phontio ar gyfer addysg gynnar

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddom ein hadroddiad thematig ar effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, cymorth, darpariaeth a phontio ar gyfer addysg gynnar. Mae ein hadroddiad yn defnyddio canfyddiadau o ymweliadau â lleoliadau meithrin nas cynhelir sy'n darparu addysg feithrin, ysgolion cynradd a phob oed ac un ganolfan i blant. Buom yn ymgynghori â rhieni, awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion, hefyd.

## Ein hargymhellion

### Dylai Llywodraeth Cymru:

1. Sicrhau bod cyllid y GDDBC yn cael ei ddyrannu'n deg i awdurdodau lleol sy'n ariannu lleoliadau nas cynhelir
2. Darparu arweiniad gwell ar sut caiff y cyllid ei ddosbarthu a'i ddefnyddio mewn lleoliadau ac ysgolion

### Dylai awdurdodau lleol:

1. Ddarparu dysgu proffesiynol penodol a gwybodaeth i ysgolion a lleoliadau am sut orau i ddiwallu anghenion cymdeithasol, emosiynol, personol a datblygiadol plant yn y blynyddoedd cynnar y mae tlodi ac amddifadedd yn cael effaith andwyol arnynt
2. Sicrhau bod arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gyllid GDDBC er mwyn iddynt allu ei dargedu'n effeithiol ar fynd i'r afael ag effaith tlodi ac anfantais ar gyfer eu disgyblion yn y blynyddoedd cynnar
3. Sicrhau cydraddoldeb o ran darpariaeth y blynyddoedd cynnar rhwng ysgolion a lleoliadau, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o rôl amgylcheddau effeithiol, oedolion sy'n galluogi dysgu a phrofiadau difyr

### Dylai arweinwyr ysgolion a lleoliadau:

1. Werthuso'r effaith a gaiff cyllid y GDDBC ar gynnydd medrau a datblygiad plant
2. Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar yn ddatblygiadol briodol

## Beth ddywedodd ein hadroddiad thematig?

Dywed arweinwyr fod lefelau tlodi wedi gwaethygu ers y pandemig a'r argyfwng costau byw.

Mae arweinwyr yn treulio cryn amser yn meithrin perthnasoedd cryf a chefnogol gyda theuluoedd mewn angen. Mae llawer ohonynt yn cynnig cymorth ymarferol i rieni, er enghraifft mynediad at wasanaethau allanol, fel banciau bwyd, cymorth tai a chysylltiadau ag asiantaethau eraill y trydydd

sector.

Mae ymarferwyr yn y ddau sector yn gweithio’n agos gyda rhieni, a sefydliadau amlasiantaethol pan fo’n briodol, i baratoi plant ar gyfer pontio o’r cartref i’r lleoliad neu o’r lleoliad i’r ysgol.

Mae gwahaniaethau ledled Cymru o ran sut caiff y Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (GDDBC) ei ddyrannu i awdurdodau lleol, a’i ddirprwyo ynddynt. Caiff hyn effaith andwyol ar ychydig o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yn yr achosion gorau, mae arweinwyr yn defnyddio cyllid y GDDBC yn effeithiol, gan flaenoriaethu meysydd i’w gwella trwy hunanwerthuso.

Mae’r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion yn gweld bod lefelau is o gymorth a chyllid ar gael i blant ag ADY o gymharu â’r hyn a ddarperir yn y sector nas cynhelir.

Yn gyffredinol, mae lleoliadau ac ysgolion yn buddsoddi mewn dysgu proffesiynol sylweddol ar ddeall trawma yn ystod plentyndod, datblygiad lleferydd ac iaith, a chynorthwyo plant ag ADY. At ei gilydd, mae’r dysgu hwn yn galluogi staff i addasu eu darpariaeth i ddiwallu anghenion unigol yn effeithiol. Fodd bynnag, yn aml, ceir diffyg cysondeb mewn hyfforddiant a chymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar sut orau y gall pob ysgol ddiwallu anghenion cymdeithasol, emosiynol, personol a datblygiadol plant yn y blynyddoedd cynnar y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith andwyol arnynt.

Mae gan lawer o ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant. Maent yn defnyddio’r wybodaeth hon i gynllunio amgylcheddau a phrofiadau priodol sy’n gweddu i gamau datblygiadol a diddordebau plant yn dda. Maent yn gwneud addasiadau ystyriol i’w darpariaeth i sicrhau bod plant yn cael amser digonol i chwarae ac archwilio yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored i ddatblygu eu medrau cyfathrebu, cymdeithasol a gwybyddol.

Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr yn cyflwyno dysgu ffurfiol (er enghraifft, darllen cynnar a gwaith rhif) yn rhy gynnar. Nid oedd y dull hwn bob amser yn diwallu anghenion datblygiadol plant yn y blynyddoedd cynnar.

Caiff y rhan fwyaf o arweinwyr lleoliadau nas cynhelir eu cynorthwyo’n dda gan eu hathrawon ymgynghorol yn y blynyddoedd cynnar, sy’n darparu arweiniad teilwredig, datblygiad proffesiynol a chymorth mewn prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

Mae’r rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir yn cael cymorth gwerthfawr gan sefydliadau ymbarél.

Mae lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir yn elwa ar gydweithio â thimau amlasiantaethol, yn cynnwys ymwelwyr iechyd a seicolegwyr addysg, i gefnogi iechyd, lles a datblygiad emosiynol plant. Mae’r partneriaethau hyn yn helpu mynd i’r afael â materion fel trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

# Adolygiad o weithwyr arweiniol ymgysylltiad a chynnydd ieuenctid

Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddom ein hadroddiad thematig ar rôl y gweithiwr arweiniol ymgysylltiad a chynnydd ieuenctid yng Nghymru. Ysgrifennwyd yr adroddiad i ymateb i gais gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn Llythyr cylch gwaith blynyddol Estyn 2023 i 2024, fel y'i diweddarwyd ym mis Hydref 2023.

Mae'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid (YEPF) wedi'i gynllunio i hwyluso unigolion ifanc i fanteisio ar gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae pennu gweithiwr arweiniol sy'n rhoi cymorth i bobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH) neu sydd mewn perygl o fod yn bobl NACH, yn ganolog i'r fframwaith hwn. Mae ein hadroddiad yn defnyddio canfyddiadau o gyfres o ymweliadau a chyfarfodydd rhithwir â rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys 11 awdurdod lleol, 9 ysgol uwchradd, 5 coleg, 5 darparwr hyfforddiant a thimau Gyrfa Cymru. Roedd ein ffocws ar werthuso effeithiolrwydd ac effaith rôl y gweithiwr arweiniol mewn cynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl trwy eu cyfnod pontio i addysg ôl-16, hyfforddiant neu gyflogaeth.

## Ein hargymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru, awdurdodau lleol a'r holl bartneriaid eraill sy'n ymwneud â chefnogi pobl ifanc trwy weithwyr arweiniol:

- Wella cymorth pontio ôl-16 trwy sicrhau parhad yng ngweithiwr arweiniol person ifanc tan 31 Ionawr ar ôl i berson ifanc symud i'w gyrchfan ôl-16, p'un a yw hyn yn yr ysgol, yn y coleg, gyda darparwr hyfforddiant, neu gyflogaeth
- Datblygu ffyrdd o fesur llwyddiant gwaith i atal pobl ifanc rhag bod yn bobl NACH, sydd wedi'u seilio ar werthusiadau tymor hirach ac nad ydynt yn gor-bwysleisio gwerth data arolwg cyrchfan gychwynnol
- Cefnogi rhannu data yn well am amgylchiadau pobl ifanc unigol i hwyluso cydweithio cryfach rhwng yr holl bartneriaid, gan gynnwys darparwyr addysg a hyfforddiant, a galluogi pobl ifanc i gael cymorth perthnasol ac amserol
- Cefnogi anghenion dysgu proffesiynol gweithwyr arweiniol ym mhob asiantaeth a rhannu arfer effeithiol wrth ddarparu cymorth gweithwyr arweiniol
- Gwella arfer yn unol ag arfer effeithiol a geir yn yr adroddiad hwn, a mynd i'r afael â'r diffygion a amlygwyd yn yr adroddiad hwn

## Beth mae ein hadroddiad thematig yn ei ddweud?

Ym mywyd person ifanc, y gweithiwr arweiniol yn aml oedd yr unig bresenoldeb cyson a dibynadwy. Roedd yn chwarae rôl ganolog yn darparu cymorth personoledig ar gyfer pobl ifanc o ran eu sefyllfa

bresennol, ac elwa ar gyfleoedd cynnydd. Wrth addasu i heriau ar ôl y pandemig, roedd gweithwyr arweiniol yn aml yn mynd i'r afael â materion fel gorbryder cymdeithasol, iechyd meddwl, a thrafferthion ariannol. Roedd dylanwad gweithwyr arweiniol yn aml yn ymestyn y tu hwnt i'r person ifanc gan fod y cymorth yr oeddent yn ei ddarparu hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd a'r gymuned ehangach. Dyma beth rannodd rai o'r bobl ifanc gyda ni.

*"Rydw i'n teimlo bod hi wir wedi'n helpu ni, ac rydym ni yn yr ysgol bob dydd. Os na fyddai gennym ni weithiwr arweiniol, fydden ni ddim yn gwneud cystal ag yr ydym ni'n gwneud nawr."*

*"Roeddwn i'n gallu troi at Megan, roedd hi bob amser yn tecstio ac yn ffonio, hyd yn oed pan doeddwn i ddim yn ateb. Dydw i ddim yn gweld Megan mor aml nawr. Rydw i'n rhoi cynnig ar 'Ysbrydoli', a gobeithio y bydda' i'n mynd ar leoliad ac yn cael swydd."*

*"Byddwn i wedi'i chael yn anodd pe bai'r cymorth gan fy ngweithiwr arweiniol wedi dod i ben pan oeddwn i ym Mlwyddyn 10."*

*"Rydym ni'n gallu siarad am unrhyw beth, a fyddai hi ddim yn barnu. Os ydw i'n ei gweld hi yn y coridor, rydym ni'n cael sgwrs."*

Dangosodd ein tystiolaeth fod amrywiad sylweddol, ond priodol yn aml, o ran rôl y gweithiwr arweiniol ledled Cymru. Dylanwadwyd ar ddulliau gan gyd-destunau lleol fel daearyddiaeth a demograffeg, yn ogystal ag asiantaethau cymorth sydd ar gael. Roedd arweinwyr a rheolwyr mewn awdurdodau lleol yn wynebu heriau yn gysylltiedig ag asesu graddfa'r angen a'r math o gymorth sydd ei angen, yn ogystal â diwallu angen. Roedd cymhlethdod yr angen a chyfraddau'r atgyfeiriadau yn cynyddu.

Roedd gweithgareddau pontio i golegau ôl-16 wedi'u strwythuro'n dda, yn nodweddiadol, ond roedd y cydweithio rhwng darparwyr ôl-16 a gweithwyr arweiniol yn aml yn ddiffygiol wedi i berson ifanc gofrestru, ac nid oedd llawer o ddarparwyr hyfforddiant yn ymwybodol o rôl y gweithiwr arweiniol a'i manteision. Roedd trosglwyddo yn y cyfnod hwn yn aml yn achosi risg gan fod pobl ifanc yn aml yn colli parhad mewn cymorth. Nid oedd unrhyw weithdrefnau systematig i sicrhau bod myfyrwyr yn cadw eu lleoedd, a phan nodwyd bod pobl ifanc mewn perygl, roedd gweithiwr arweiniol newydd yn aml yn cael ei bennu iddynt yn hytrach na'u bod yn ailgysylltu â'u gweithiwr arweiniol blaenorol.

Roedd cydweithio lleol i gefnogi rôl y gweithiwr arweiniol yn amrywio, gyda'r achosion gorau yn cynnwys cynrychiolaeth gref o asiantaethau perthnasol ar lefelau strategol a gweithredol ac arweinwyr yn ymrwymo i rannu data tryloyw. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, roedd heriau oherwydd gorbryderon ynghylch GDPR a diffyg dealltwriaeth am ba wybodaeth y gellid ac na ellid ei rhannu. Roedd cydweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol yn gyfyngedig, gydag ychydig iawn o enghreifftiau o rannu gwybodaeth, profiadau a dysgu proffesiynol ledled Cymru.

Roedd arweinwyr yn monitro a gwerthuso effaith gwasanaethau gweithwyr arweiniol yn defnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys olrhain data, arolygon lles dysgwyr, astudiaethau achos, ac adborth gan bobl ifanc a gweithwyr arweiniol. Fodd bynnag, roedd priodoli deilliannau llwyddiannus, fel lle cynaledig mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth y tu hwnt i 16 oed, i ymyriadau gweithwyr arweiniol yn unig yn heriol oherwydd nifer y gwasanaethau eraill yr oedd person ifanc yn aml yn derbyn cymorth ganddynt.

Roedd heriau o ran recriwtio a chadw gweithwyr arweiniol yn deillio o gontractau tymor byr ac anawsterau yn recriwtio gweithwyr ieuenctid â chymwysterau addas. Roedd recriwtio siaradwyr Cymraeg yn hynod heriol, gan gyfyngu ar wasanaethau cymorth yn Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y

galw am gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg yn isel, ac felly nid oedd diwallu'r angen yn achosi heriau adeg ein hymweliad.

# Adolygiad o ddatblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion 10-14 oed

Ym mis Medi 2024, cyhoeddom ein hadroddiad thematig ar ddatblygiad medrau darllen Cymraeg disgyblion 10-14oed. Ysgrifennwyd yr adroddiad i ymateb i gais gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn llythyr cylch gwaith blynyddol Estyn 2023 i 2024 fel y'i diweddarwyd ym mis Hydref 2023. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad ar fedrau darllen Saesneg disgyblion 10-14 oed gan Estyn yn Mai 2023, fe aethom ati i lunio adroddiad ar sut mae ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae ein hadroddiad yn defnyddio canfyddiadau o ymweliadau ag ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn ogystal ag ychydig o unedau trochi. Cynhaliom gyfarfodydd gydag uwch arweinwyr, cydlynwyr llythrennedd, athrawon a disgyblion. Cynhaliom deithiau dysgu, edrychom ar waith disgyblion ac unrhyw ddogfennau oedd gan yr ysgol ar ddatblygu medrau darllen ac ar drefniadau pontio. Yn ogystal, cynhaliom arolwg disgyblion yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mehefin 2023 a dosbarthwyd holiadur i'r ysgolion hynny o fewn y sampl. Gwnaethom hefyd dynnu ar dystiolaeth o arolygiadau cynradd, uwchradd a phob oed o ysgolion y tu allan i'r sampl yn ystod 2023-24.

## Ein hargymhellion

### Dylai arweinwyr mewn ysgolion ystyried:

- Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu amrywiaeth o fedrau darllen, gan gynnwys uwch-fedrau darllen, mewn pynciau ar draws y cwricwlwm yn ogystal â'r Gymraeg
- Defnyddio ystod eang o wybodaeth o amrywiaeth o weithgareddau hunanwerthuso i fonitro a gwerthuso medrau darllen disgyblion er mwyn adnabod yn glir pa agweddau o ddarllen sydd angen eu gwella neu'u cryfhau
- Cynllunio'n strategol a strwythuro cyfleoedd i gynyddu awydd, dygnwch a hyder disgyblion pan yn darllen yn y Gymraeg

### Dylai awdurdodau lleol ystyried:

- Hwyluso trefniadau pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a goresgyn unrhyw rwystrau i sicrhau bod ysgolion yn gallu cydweithio'n fuddiol i ddatblygu medrau darllen disgyblion

### Dylai Llywodraeth Cymru ystyried:

- Creu cyfleoedd i awduron Cymraeg ymgysylltu ag ysgolion a siarad â disgyblion am y math o lyfrau yr hoffent eu darllen yn y Gymraeg
- Gweithio gyda phartneriaid fel 'Adnodd' i wella a chynyddu'r adnoddau darllen cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, gan gynnwys llyfrau ffeithiol

## Beth ddywedodd ein hadroddiad thematig?

Mae ein hadroddiad ar fedrau darllen Cymraeg yn amlinellu nifer o gryfderau a'r meysydd sydd angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau gwelliannau. Yn ychwanegol i'r enghreifftiau o arfer dda yn yr ysgolion, rydym wedi cynnwys canllawiau penodol er mwyn helpu ysgolion i gryfhau eu harferion wrth ddatblygu medrau darllen disgyblion.

Mae'r bennod gyntaf, 'Safonau ac agweddau disgyblion' yn canolbwyntio ar ddatblygiad medrau darllen disgyblion ar draws y cwricwlwm ac agweddau disgyblion tuag at ddarllen. Y prif ganfyddiadau yma oedd bod bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd darllen i gefnogi eu dysgu a'u cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae effaith negyddol y pandemig yn parhau yn glir ar safonau darllen Cymraeg a hyder disgyblion yn gyffredinol.

Mae'r ail bennod sy'n ddwy ran, yn ystyried yr arlwy sy'n cael ei gynnig gan ysgolion i gryfhau medrau darllen disgyblion yn ogystal â nodi sut mae arweinwyr yn blaenoriaethu darllen yn eu hysgolion. Fe nodom bod:

- llawer o bobl ifanc 10 i 14 oed yn defnyddio medrau darllen sylfaenol yn llwyddiannus i ganfod prif negeseuon a gwybodaeth allweddol
- y cyfleoedd mwyaf buddiol i ddatblygu medrau darllen i'w gweld mewn gwersi Cymraeg neu sesiynau iaith ac o fewn pynciau'r dyniaethau
- arweinwyr ym mron pob ysgol yr ymwelwyd â nhw yn cydnabod pwysigrwydd blaenoriaethu datblygiad medrau darllen disgyblion
- unedau trochi a'r canolfannau iaith yn gwneud gwaith effeithiol yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg yn hwyr

Gwelwyd fod angen gwelliannau yn y meysydd canlynol:

- cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu'u huwch-fedrau darllen ar draws y cwricwlwm
- y gwaith o gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd
- defnydd rhai arweinwyr o ystod digon eang o dystiolaeth i adnabod yr union agweddau o ddarllen sydd angen eu gwella a chynllunio camau gweithredu perthnasol
- cynlluniau i ddatblygu medrau darllen disgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7

Mae'r drydedd bennod, 'Hybu diwylliant o ddarllen' yn disgrifio'r modd y mae ysgolion effeithiol yn creu diwylliant darllen yn llwyddiannus ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn llawn. Gwelwyd yma bod lleihad sylweddol wedi bod yn y profiadau i hybu darllen sy'n digwydd tu hwnt i'r stafell ddosbarth ers cyfnod y pandemig, yn enwedig yn y sector uwchradd.

# Cynnydd ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol o ran cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

## Cefndir

Mae’r adroddiad hwn yn ystyried pa mor dda y mae’r lleoliadau nas cynhelir a ariennir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir a gymerodd ran yn yr adolygiad yn gweithredu ac yn ymgorffori agweddau ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ADYTA) a’r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cysylltiedig. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol wedi cefnogi ysgolion. Mae’r adolygiad yn nodi arfer effeithiol i gefnogi addysg gynhwysol sy’n cynnwys datblygu strategaethau i gefnogi disgyblion ag ADY, ymestyn cymorth cyfrwng Cymraeg a chryfhau dysgu proffesiynol, sicrhau ansawdd a rolau’r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) a Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC).

Mae ein canfyddiadau wedi’u seilio ar ymgysylltu â sampl o wyth lleoliad nas cynhelir, 11 ysgol gynradd, saith ysgol uwchradd a dwy ysgol bob oed. Cynhaliwyd naw o’r rhain trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae wyth o’r ysgolion, yn cynnwys un ysgol cyfrwng Cymraeg, yn lletya darpariaeth dosbarth arbenigol yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag ADY. Hefyd, defnyddiom dystiolaeth o’n gweithgarwch arolygu parhaus ac o drafodaethau rhwng ein harolygwyr cyswllt awdurdod lleol a swyddogion awdurdodau lleol. Ymhellach, mae’r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o drafodaeth gyda grŵp ffocws Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC). Buom yn holi barn rhieni a gofalwyr ynglŷn â’u profiadau hefyd.

## Ein hargymhellion

### Dylai ysgolion a lleoliadau:

1. Sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn diwallu anghenion **pob** disgybl ac yn cefnogi addysg gynhwysol

### Dylai ysgolion:

1. Sicrhau bod Cydlynwyr ADY yn cael eu cynnwys yn llawn mewn dylanwadu ar gyfeiriad strategol a phroses yr ysgol ar gyfer gwneud penderfyniadau

### Dylai awdurdodau lleol:

1. Weithio gydag ysgolion a lleoliadau i hyrwyddo addysg gynhwysol, targedu cymorth lle mae angen a chryfhau cydlynu gwasanaethau cymorth i sicrhau addysgu o ansawdd uchel ar gyfer pob un o’r disgyblion
2. Parhau i ddatblygu’r gweithlu, gwasanaethau dysgu proffesiynol a darpariaeth ar gyfer

disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg

### Dylai Llywodraeth Cymru:

1. Weithio gyda phob un o'r awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gyffredin a chadarn o'r diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bod awdurdodau lleol a'u hysgolion yn cymhwyso hyn yn gyson
2. Parhau i ddatblygu cynllunio'r gweithlu, adnoddau a dysgu proffesiynol i sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg deg o ran ADY
3. Gwerthuso effaith y gweithredu a'r galw am ddarpariaeth ychwanegol ac arbenigol ar gyfer disgyblion ag ADY; dylai'r gwerthusiad hwn arwain trefniadau ariannu yn y dyfodol, gan sicrhau bod adnoddau'n diwallu anghenion a nodwyd

## Beth ddywedodd ein hadroddiad thematig?

Mae gweithredu ac ymgorffori diwygio ADY wedi bod yn gamp sylweddol i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau. Yn ystod ein hymweliadau ac yn ein cyfarfodydd â rhanddeiliaid, nododd y tîm arolygu'n gyson yr ymrwymiad cryf a'r gwydnwch a ddangosir gan staff mewn awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau. Bu staff yn gweithio'n ddiwyd i gynorthwyo plant a phobl ifanc ag ADY yng nghyd-destun heriau parhaus. Roedd y rhain yn cynnwys effaith barhaus y pandemig ar les, heriau â phresenoldeb, y cynnydd a adroddwyd ond nas gwiriwyd yn nifer y plant a'r bobl ifanc ag anghenion cymhleth, yn ogystal â phwysau o ran y gyllideb a'r gweithlu. At ei gilydd, roedd gofynion diwygio ADY yn dechrau sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY ledled y wlad. O ganlyniad, lle'r oedd diwygio ADY wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus, roedd llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn cychwynnol. Fodd bynnag, nid oedd gweithredu diwygio ADY yn gyson, ac o ganlyniad, nid oedd anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn cael eu cefnogi'n ddigon da bob amser. Ymhellach, roedd mwyafrif yr ysgolion a'r awdurdodau lleol yn y sampl wedi dechrau cryfhau sicrhau ansawdd prosesau a darpariaeth ADY. Mynegwyd pryderon gan lawer o arweinwyr am eu gallu i barhau i gyflwyno'r gwasanaethau ADY angenrheidiol, wedi i gyllid ychwanegol ddod i ben.

Roedd llawer o ysgolion a lleoliadau yn meithrin diwylliant cynhwysol, yn canolbwyntio ar ddysgu a lles pob un o'r disgyblion, ond mewn lleiafrif o achosion, nid oedd yr addysgu a'r cymorth yn ddigon effeithiol. Roedd arweiniad awdurdodau lleol ar addysgu cynhwysol yn amrywio ledled Cymru, a megis dechrau datblygu mewn llawer o feysydd oedd cymorth ar gyfer arferion cynhwysol.

Roedd nifer y disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY neu anghenion addysgol arbennig (AAA) wedi parhau i ostwng, ond roedd nifer y disgyblion â chynllun statudol (CDU neu ddatganiad o AAA) yn cynyddu. Ar draws awdurdodau lleol, roedd anghysondebau'n parhau o ran dehongli'r Cod ADY ac yn yr ymagweddau dilynol at CDUau a gynhelir gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

At ei gilydd, roedd ysgolion a lleoliadau a gymerodd ran yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r ddarpariaeth y maent yn ei threfnu ar gyfer disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, roedd y graddau y caiff y ddarpariaeth ei dosbarthu'n DDdY yn parhau i fod yn aneglur. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion ac awdurdodau lleol yn cytuno y byddai'n fuddiol egluro DDdY ar lefel genedlaethol.

Cydnabuwyd bod rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) yn hanfodol, ac roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn gwerthfawrogi cyfrifoldeb estynedig y rôl. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, nid oedd Cydlynwyr ADY yn cael eu cynnwys yn llawn mewn gwneud penderfyniadau strategol.

Dyma yw'r tro cyntaf i ni adolygu cynnydd lleoliadau nas cynhelir a ariennir a rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC) mewn cysylltiad â diwygio ADY. Roedd llawer o'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir yr ymwelom â nhw fel rhan o'r adolygiad hwn yn darparu profiadau dysgu effeithiol ar gyfer plant ag ADY. At ei gilydd, roeddent yn cynllunio'n ofalus i deilwra profiadau dysgu i fodloni gofynion unigol pob plentyn, yn cynnwys y rhai ag ADY. Hefyd, roedd rôl y SAADYBC wedi hen ennill ei phlwyf ledled Cymru. At ei gilydd, roedd y swyddogion hyn yn gweithio'n effeithiol i gynorthwyo rhieni a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar i sicrhau cymorth buddiol ac amserol ar gyfer plant iau ag ADY sy'n dod i'r amlwg neu ADY wedi'i nodi.

Nid oedd y graddau y mae awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau yn cynllunio ac yn darparu cymorth teg ar gyfer darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd. Mae hyn wedi cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ond roedd heriau sylweddol yn parhau o ran cyfraddau recriwtio a chadw mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ogystal â darparu asesiadau ac adnoddau safonedig cyfrwng Cymraeg.

# Pontio a dilyniant disgyblion

Ym mis Medi 2024, cyhoeddom ein hadroddiad thematig ar bontio a dilyniant disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Ysgrifennwyd yr adroddiad i ymateb i gais gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn llythyr cylch gwaith blynyddol Estyn 2023 i 2024.

Aethom ati i lunio adroddiad ar ba mor dda y mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi cyfnod pontio disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Buom yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod eu cwricwla a'u haddysgu yn datblygu gwybodaeth, medrau, dealltwriaeth ac ymddygiadau dysgu disgyblion yn effeithiol ar draws y cyfnod pontio. Buom hefyd yn ystyried sut mae ysgolion yn cefnogi lles dysgwyr yn y cyfnod pontio pwysig hwn. Rydym wedi nodi nodweddion darpariaeth effeithiol, wedi amlygu lle mae arfer yn llai llwyddiannus, ac wedi archwilio'r rhesymau pam.

Mae ein hadroddiad yn defnyddio tystiolaeth o'n canfyddiadau arolygu a'n canfyddiadau dilynol, ac ymweliadau â 41 o ysgolion mewn 15 awdurdod lleol. Roeddent yn cynnwys 23 ysgol gynradd, 13 ysgol uwchradd a 3 ysgol bob oed. Cynhaliwyd 14 o'r rhain trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod ymweliadau ag ysgolion, cyfarfuom ag arweinwyr ysgolion, arweinwyr y cwricwlwm a disgyblion o Flwyddyn 6, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8. Edrychom ar ystod o ddogfennau, yn cynnwys cynllunio'r cwricwlwm, dysgu disgyblion a chynlluniau pontio. Cawsom dystiolaeth trwy gyfarfodydd rhithwir gan dri gwasanaeth cymorth rhanbarthol a thri awdurdod lleol.

## Ein hargymhellion

### Dylai ysgolion:

- Ddatblygu dealltwriaeth gliriach ar y cyd o ddilyniant o fewn eu clystyrau o ysgolion, ac ar eu traws
- Gweithio'n agosach fel clystyrau i sicrhau bod ymagweddau at rannu gwybodaeth, addysgu a'r cwricwlwm yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu gwybodaeth, medrau ac ymddygiadau dysgu yn raddol rhwng 3 ac 16 oed

### Dylai Llywodraeth Cymru:

- Roi canllawiau clir ar gymhwyso sut i ddatblygu dilyniant yn ymarferol trwy'r cwricwlwm, ac ar ei draws
- Sicrhau bod cymorth digonol i alluogi arweinwyr ac athrawon i ddatblygu cwricwlwm cydlynus a graddol sy'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion

### Dylai awdurdodau lleol a phartneriaid cymorth rhanbarthol:

- Annog a chefnogi cydweithio cryfach ymhlith clystyrau i fynd i'r afael â'r argymhellion yr ydym wedi'u nodi ar gyfer ysgolion, gan ganolbwyntio ar sefydlu clystyrau diffiniedig ag amcanion penodol a chlir

## Beth ddywedodd ein hadroddiad thematig?

Mae ein hadroddiad yn amlygu ystod o wahanol arferion ledled Cymru, ac yn nodi'r cryfderau a'r meysydd sydd angen mynd i'r afael â nhw i gefnogi cyfnod pontio disgyblion a'u dysgu.

Dangosodd ein canfyddiadau fod penaethiaid neu uwch arweinwyr o'r rhan fwyaf o glystyrau o ysgolion yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod Cwricwlwm i Gymru a sut i gefnogi cyfnod pontio disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, ac am amrywiaeth o resymau, nid yw gwaith pontio yn ddigon effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd systematig a pharhaus yn eu gwybodaeth, eu medrau, eu dealltwriaeth a'u hymddygiadau dysgu o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mewn lleiafrif o achosion, mae clystyrau wedi sefydlu grwpiau o athrawon i ystyried enghreifftiau o ddysgu disgyblion, i'w helpu i ddechrau datblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant ar draws eu hysgolion. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth gref o hyd o sut beth yw dilyniant yn y rhan fwyaf o glystyrau o ysgolion. O ganlyniad, nid yw'r arferion hyn wedi gwella pa mor dda y mae dysgu'n datblygu o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd yn ddigon cryf.

Mewn ychydig o achosion, mae clystyrau o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gweithio gyda'i gilydd yn gadarnhaol i amlinellu gwybodaeth, medrau a phrofiadau ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad ac wedi defnyddio hyn i ddechrau datblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant. Fodd bynnag, hyd yn oed pan mae hyn ar waith, nid yw ysgolion uwchradd bob amser yn ei ddefnyddio i ystyried dysgu blaenorol disgyblion yn ddigon da. Mewn ysgolion pob oed, er gwaethaf potensial yr ymagwedd bob oed at ddysgu, nid oedd cydlynu'r cwricwlwm a chynllunio ar gyfer dilyniant yn gryf bob amser.

Mae llawer o ysgolion wedi darparu ystod o ddysgu proffesiynol ar gyfer athrawon i gefnogi cyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion yn unig yr oedd clystyrau o ysgolion wedi rhannu ymagweddau at addysgu neu wedi ystyried sut gallent sicrhau bod strategaethau addysgu yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd effeithiol a pharhaus o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Bron ym mhob achos, roedd ysgolion cynradd yn trosglwyddo ystod eang ac amrywiol o wybodaeth am ddysgu a chynnydd disgyblion i ysgolion uwchradd cyn eu cyfnod pontio. Roedd lleiafrif o glystyrau yn dechrau ystyried sut i rannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion, yn unol â Chwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, ni wnaeth y prosesau hyn rhyw lawer i gefnogi parhad yn nysgu'r disgyblion.

Bron ym mhob achos, roedd ysgolion yn cefnogi cyfnod ymsefydlu disgyblion i'r ysgol uwchradd yn dda. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd clystyrau o ysgolion yn cefnogi llawer o agweddau ar les disgyblion yn effeithiol, ac roedd ysgolion cynradd ac uwchradd yn gweithio gyda'i gilydd yn gydwybodol i gefnogi cyfnod pontio disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.